Llywodraeth Cymru
Welsh Government

wood.

# Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025) Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd







Wood Group UK Limited – Hydref 2021

© Wood Group UK Limited

## Adroddiad ar gyfer

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Y prif gyfranwyr

Rachel Allison
Pete Davis
Robert Deanwood
Ryan Llewellyn
Adam Mealing
Gareth Oakley
Andrew Williamson

## Cyhoeddwyd gan

Andrew Williamson

## Cymeradwywyd gan

Pete Davis

## Paratowyd gan Wood Group UK Limited

Canon Court
Abbey Lawn
Abbey Foregate
Amwythig SY2 5DE
Y Deyrnas Unedig
Ffôn +44 (0) 1743 342 000

Cyfeirnod y Ddogfen 806843-WOOD-XX-XX-RP-OS-00005_S4_P02.01

H:\Projects\806843 SA of WG Low Carbon Delivery Plan\Deliver Stage\D Design_Technical\Reports\SA Report\Draft

## Hawlfraint a hysbysiad peidio â datgelu

Mae cynnwys a chynllun yr adroddiad hwn yn rhwym wrth hawlfraint sy'n berchen i Wood (© Wood Group UK Limited 2021) ac eithrio i'r graddau bod yr hawlfraint wedi'i neilltuo'n gyfreithiol i ni gan barti arall neu fod Wood yn ei ddefnyddio dan drwydded. I'r graddau rydyn ni'n berchen ar hawlfraint yr adroddiad hwn, ni cheir ei gopïo na'i ddefnyddio heb ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw at unrhyw ddiben ar wahân i'r diben a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r fethodoleg (os oes un) sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn cael ei darparu i chi'n gyfrinachol ac ni ddylid ei datgelu na'i chopïo i drydydd partïon heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Wood. Gall datgelu'r wybodaeth honno olygu torri cyfrinachedd y gellir gweithredu yn ei gylch neu gallai fel arall niweidio ein buddiannau masnachol. Bydd unrhyw drydydd parti sy'n cael mynediad at yr adroddiad hwn mewn unrhyw ffordd yn unrhyw amgylchiadau yn ddarostyngedig i'r Ymwadiad Trydydd Parti a nodir isod.

## Ymwadiad trydydd parti

Mae datgelu'r adroddiad hwn i drydydd parti yn amodol ar yr ymwadiad hwn. Cafodd yr adroddiad ei baratoi gan Wood yn unol â chyfarwyddyd ein cleient a enwir ar flaen yr adroddiad ac i'w ddefnyddio ganddo. Nid yw mewn unrhyw fodd yn gyfystyr â chyngor i unrhyw drydydd parti sy'n gallu cael mynediad ato mewn unrhyw fodd. Mae Wood yn eithrio i'r graddau llawnaf a ganiateir yn gyfreithiol pob atebolrwydd o gwbl am unrhyw golled neu ddifrod sut bynnag y bydd yn deillio o ddibynnu ar gynnwys yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn eithrio ein hatebolrwydd (os oes atebolrwydd o gwbl) am anaf personol neu farwolaeth sy'n deillio o'n hesgeulustod, neu dwyll neu unrhyw fater arall na allwn yn gyfreithiol eithrio atebolrwydd mewn perthynas ag ef.

## Systemau rheoli

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chynhyrchu gan Wood Group UK Limited gan gydymffurfio'n llwyr â'n systemau rheoli, sydd wedi cael ardystiadau ISO 9001, ISO 14001 ac ISO 45001 gan Lloyd's Register.

## Adolygiadau o'r ddogfen

| Rhif | Manylion | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Drafft | Hydref |
| 2 | Terfynol | Hydref |
| | | |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **6** |
| 1.1 | Cefndir | 6 |
| 1.2 | Trosolwg o Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025) | 7 |
| 1.3 | Arfarniad o Gynaliadwyedd | 8 |
| | Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 10 |
| | Y saith nod llesiant | 11 |
| | Y Rhaglen Lywodraethu | 12 |
| | Y berthynas ag asesiadau statudol o'r effaith ac Asesiad Effaith Integredig | 12 |
| 1.4 | Gwreiddio'r pum ffordd o weithio | 13 |
| **2.** | **Adolygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol** | **16** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 16 |
| 2.2 | Adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni | 16 |
| 2.3 | Negeseuon allweddol | 17 |
| **3.** | **Dadansoddiad o'r waelodlin** | **22** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 22 |
| 3.2 | Economaidd | 22 |
| | Economi, cyflogaeth ac incwm | 22 |
| | Addysg | 24 |
| | Defnyddio ynni | 25 |
| | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 25 |
| | Materion cynaliadwyedd allweddol | 27 |
| 3.3 | Cymdeithasol | 28 |
| | Demograffeg | 28 |
| | Iechyd a llesiant | 28 |
| | Amddifadedd | 28 |
| | Troseddau | 29 |
| | Cysylltedd | 29 |
| | Materion cynaliadwyedd allweddol | 30 |
| 3.4 | Amgylcheddol | 31 |
| | Bioamrywiaeth | 31 |
| | Tirwedd | 33 |
| | Amgylchedd y dŵr a pherygl llifogydd | 35 |
| | Priddoedd, mwynau a gwastraff | 36 |
| | Ansawdd aer | 37 |
| | Materion cynaliadwyedd allweddol | 38 |
| 3.5 | Diwylliannol | 38 |
| | Y Gymraeg | 38 |
| | Asedau diwylliannol a threftadaeth | 39 |
| | Cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, treftadaeth, chwaraeon a hamdden | 40 |
| | Materion cynaliadwyedd allweddol | 40 |
| 3.6 | Materion cynaliadwyedd allweddol | 41 |

## 4. Methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 44

4.1 Cyflwyniad 44

4.2 Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 44

4.3 Sut mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei ddefnyddio gyda Cymru Sero Net 52

Polisïau a chynigion Cymru Sero Net 52
Effeithiau cronnol 53
Asesiad cydnawsedd 53

## 5. Arfarniad o Cymru Sero Net 54

5.1 Cyflwyniad 54

5.2 Arfarniad o bolisïau a chynigion Cymru Sero Net 54

Adran 2 – Gosod yr amodau 55
Cynhyrchu trydan a gwres 59
Trafnidiaeth 65
Adeiladau preswyl 70
Diwydiant a busnes 75
Amaethyddiaeth 81
Defnyddio tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) 86
Rheoli Gwastraff 90
Sector cyhoeddus 92

5.3 Effeithiau cronnol 97

Effeithiau cronnol 97
Arfarniad cydnawsedd lefel sector 100
Crynodeb o'r arfarniad cydnawsedd 100

5.4 Ystyried asesiadau statudol o'r effaith 101

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 101
Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith 102
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant 102

5.5 Mesurau lliniaru a gwella 103

5.6 Monitro 103

## 6. Casgliad a'r camau nesaf 105

6.1 Canfyddiadau. 105

6.2 Y camau nesaf 105

---

Tabl 1.1 Camau paratoi'r Asesiad o Gynaliadwyedd 9
Tabl 1.2 Gwreiddio'r ffyrdd o weithio yn y gwaith o baratoi Cymru Sero Net a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd 13
Tabl 2.1 Cynlluniau a rhaglenni wedi'u hadolygu ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd Cymru Sero Net 16
Tabl 2.2 Negeseuon allweddol sy'n codi o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni 18
Tabl 3.1 Materion cynaliadwyedd allweddol 41
Tabl 4.1 Amcanion a chwestiynau canllaw yr Arfarniad o Gynaliadwyedd 45
Tabl 4.2 System sgorio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd 52
Tabl 4.3 Enghraifft o fatrics ar gyfer arfarnu polisïau a chynigion 52
Tabl 4.4 Enghraifft o asesiad cydnawsedd ar gyfer pob adran o Cymru Sero Net 53
Tabl 5.1 Arfarniad cryno o 'Gosod yr amodau' 55
Tabl 5.2 Arfarniad cryno o'r sector cynhyrchu trydan a gwres 59
Tabl 5.3 Arfarniad cryno o drafnidiaeth 65
Tabl 5.4 Arfarniad cryno o'r sector adeiladau preswyl 70
Tabl 5.5 Arfarniad cryno o'r sector busnes a diwydiant 75

| | | |
|---|---|---|
| Tabl 5.6 | Arfarniad cryno o'r sector amaethyddiaeth | 81 |
| Tabl 5.7 | Arfarniad cryno o'r sector LULUCF | 86 |
| Tabl 5.8 | Arfarniad cryno o reoli gwastraff | 90 |
| Tabl 5.9 | Arfarniad cryno o'r sector cyhoeddus | 92 |
| Tabl 5.10 | Arfarniad cryno o'r effeithiau cronnol | 98 |
| Tabl 5.11 | Arfarniad cydnawsedd lefel sector | 100 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 3.1 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr o 1990 i 2019 | 26 |
| Ffigur 3.2 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2019 fesul sector | 26 |

| | |
|---|---|
| Appendix A | Adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni |
| Appendix B | Arfarniad o Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025) |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 100%, o leiaf, yn 2050[1]. Mae'r targed o allyriadau sero net (yn hytrach nag 80% fel y nodwyd yn wreiddiol yn y Ddeddf) yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad[2] y Pwyllgor annibynnol ar y Newid Hinsawdd y gallai Cymru sicrhau gostyngiad sero net mewn allyriadau, targed a ystyriwyd yn anghyraeddadwy gynt.

1.1.2 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Gweinidogion yn gosod cyfres o dargedau interim a chyllidebau carbon pum mlynedd er mwyn cyrraedd targed 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi sy'n nodi polisïau a chynigion ar gyfer cyfnod pob cyllideb garbon. *Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)* (cyfeirir at y ddogfen fel 'Cymru Sero Net' neu'r 'cynllun' o hyn ymlaen) fydd yn cyflawni'r gofyniad hwn drwy nodi polisïau a chynigion Llywodraeth Cymru i fodloni'r ail gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod 2021-2025 ac i osod y fframwaith i gyflawni sero net yn 2050. Mae Cymru Sero Net yn dilyn cyhoeddi cynllun cyflawni carbon isel cyntaf Llywodraeth Cymru a oedd yn berthnasol i gyfnod y gyllideb garbon gyntaf sef 2016 i 2020 a nodir yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* a gyhoeddwyd yn 2019[3].

1.1.3 Er nad oedd rheidrwydd ffurfiol ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny fel rhan o'r gwaith o'i ddatblygu, fe benderfynodd gomisiynu Arfarniad o Gynaliadwyedd i roi arfarniad annibynnol o Cymru Sero Net. Nod yr arfarniad fyddai helpu i ddeall effeithiau'r cynllun ar lesiant yn well, dangos tystiolaeth o sut mae'n diwallu ymrwymiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a helpu i gyfrannu at ddatblygu polisïau i'r dyfodol ar gyfer cynlluniau dilynol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses systematig sy'n nodi, yn disgrifio ac yn gwerthuso effeithiau cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol polisïau Cymru Sero Net. Drwy wneud hynny, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn helpu i sicrhau bod Cymru Sero Net yn diwallu'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef cyflawni:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a

---

[1] Roedd Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 yn newid y targed statudol yn Neddf yr Amgylchedd o 80% i 100% a daeth i rym ar 12 Mawrth 2021.

[2] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Y llwybr i Sero Net a'r cynnydd o ran lleihau allyriadau yng Nghymru (2020) Ar gael drwy: Cyhoeddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd

[3] Ar gael drwy: Ffyniant-i-bawb-Cymru-carbon-isel [Cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

1.1.4 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi mesurau i osgoi, i leihau neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl a allai godi yn sgil gweithredu'r cynllun, ac yn nodi cyfleoedd i gryfhau ei gyfraniad cadarnhaol at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn defnyddio'r dull a'r asesiad a nodir yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd[4] a ddaeth gyda Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel i sicrhau bod cynlluniau cyflawni carbon isel Llywodraeth Cymru yn cael eu harfarnu mewn ffordd gyson.

1.1.5 Mae'r Arfarniad hwn o Gynaliadwyedd wedi cael ei wneud gan Wood Group UK Limited (Wood) ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn cael arfarniad annibynnol a gwrthrychol. Mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- **Adran 1** - trosolwg o Cymru Sero Net, proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r gofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- **Adran 2** - adolygiad o'r cynlluniau, y rhaglenni a'r polisïau perthnasol;
- **Adran 3** - tystiolaeth o'r waelodlin;
- **Adran 4** - y dull a ddefnyddiwyd i asesu, gan gynnwys set o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chwestiynau canllaw;
- **Adran 5** - arfarniad o Cymru Sero Net, gan gynnwys asesiad o'r effeithiau cronnol;
- **Adran 6** - y casgliad.

## 1.2 Trosolwg o Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025)

1.2.1 Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-2025) yw'r adroddiad ar gyfer cyfnod yr ail gyllideb garbon (2021-25). Mae'n disgrifio'r polisïau a'r cynigion i gyflawni ail gyllideb garbon (CG2) Cymru ond mae'n edrych y tu hwnt i hynny i ddechrau adeiladu'r sylfeini ar gyfer cyllideb garbon tri (CG3, 2026-30), a chyflawni sero net yn 2050. Mae Cymru Sero Net yn adeiladu ar y polisïau a'r cynigion sydd yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel a gyhoeddwyd yn 2019, a oedd yn rhoi sylw i'r gyllideb garbon gyntaf (2016-2020) i sicrhau bod pethau'n symud ymlaen ar y daith at sero net a Chymru wyrddach, gryfach a thecach.

1.2.2 Roedd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn nodi polisïau i gyflawni gostyngiad cyfartalog o 23% o'r waelodlin allyriadau nwyon tŷ gwydr dros gyfnod y gyllideb garbon gyntaf, gan gyfrannu at darged cyffredinol o gyflawni gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2050. Mae Cymru Sero Net yn cael ei baratoi yng nghyd-destun y newidiadau diweddar yn y gofyniad cyfreithiol sy'n golygu ei bod yn rhaid cael gostyngiad o 100% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2050[5]. Mae Cymru Sero Net yn cyflwyno rhai polisïau a nodwyd yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, ond mae hefyd yn cyflwyno llawer iawn o bolisïau a chynigion newydd i sicrhau bod Cymru'n

[4] Ar gael drwy: [Cynllun-cyflawni-carbon-isel-arfarnu-cynaliadwyedd] [Cyrchwyd 1 Mawrth 2021]
[5] Daeth Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 sy'n newid y targed statudol yn Neddf yr Amgylchedd o 80% i 100% i rym ar 19 Mawrth 2021.

cyflawni'r gostyngiad cyfartalog gofynnol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sef 37%[6] wrth gymharu â'r waelodlin ar gyfer CG2. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth drwy gydol CB2 i ddatblygu polisïau a chynigion ar gyfer CB3 a'r tu hwnt.

1.2.3 Mae Cymru Sero Net yn nodi:

- Y polisïau mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl a fydd yn galluogi Cymru i aros o fewn y gyllideb neu i 'berfformio'n well' na'r gyllideb ar draws themâu trawsbynciol a thrwy wyth llwybr sector allyriadau (cynhyrchu trydan a gwres, trafnidiaeth, adeiladau preswyl, diwydiant a busnes, amaethyddiaeth, defnydd tir, rheoli gwastraff, y sector cyhoeddus);
- Cynigion (y mae angen eu datblygu ymhellach) a fydd yn caniatáu i Gymru barhau i ddatgarboneiddio ymhellach ar y llwybr at sero net yn 2050; a
- Dull Cymru ar y Cyd i leihau allyriadau, gan gydnabod rôl pobl a busnesau o bob cwr o Gymru.

1.2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i bawb gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae Cymru Sero Net yn Gynllun Cymru Gyfan, gan adlewyrchu pwysigrwydd gweithredoedd a buddsoddiadau gan eraill yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull o ymgysylltu[7] er mwyn sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â rhanddeiliaid yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.3.1 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses systematig sy'n ceisio hybu cyflawni datblygu cynaliadwy drwy asesu i ba raddau y bydd cynllun neu brosiect newydd yn helpu i gyflawni amcanion perthnasol. Yng Nghymru ac yn unol ag Adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[8], sydd â'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant.

1.3.2 Nid oes gofyniad deddfwriaethol i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd o Cymru Sero Net. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnal Asesiad o Gynaliadwyedd, wedi'i fframio o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cryfhau ansawdd Cymru Sero Net a gwella ei gyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant ac at lesiant cyffredinol Cymru. Yn y cyd-destun hwn, pwrpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw gwella, a lle bo'n bosibl, cynyddu cyfraniad Cymru Sero Net at ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol,

---

[6] Daeth Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021 sy'n diwygio gostyngiad cyfartalog cyllideb garbon 2021-2025 o 33% i 37% yn is na'r waelodlin i rym ar 19 Mawrth 2021. Mae'r rheoliadau'n pennu cyllideb garbon y cyfnod 2026-2030 a'r terfyn 58% yn is na'r waelodlin ar gyfartaledd.
[7] Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru (2020). Ar gael drwy: [Cynllun-cyflawni-carbon-isel-2-Llywodraeth-Cymru]
[8] Mae Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu ei bod yn rhaid i gorff cyhoeddus "*weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.*"

economaidd a diwylliannol, a'r nodau llesiant, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1.3.3 Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses statudol y bwriedir iddi ddarparu lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd. Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn paratoi Cymru Sero Net. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n adlewyrchu egwyddorion a dull gweithredu proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd hyn yn darparu proses arfarnu sydd wedi'i strwythuro, sy'n ailadroddol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

1.3.4 Felly, mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi bod yn seiliedig ar ofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chamau paratoi Cymru Sero Net. Mae **Tabl 1.1** yn nodi'r dull o baratoi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r camau (A i D) a nodir yng nghanllawiau Asesiad Amgylcheddol Strategol Llywodraeth y DU[9] a rhaglen baratoi Cymru Sero Net.

Tabl 1.1 Camau paratoi'r Asesiad o Gynaliadwyedd

| **Cam Asesiad Amgylcheddol Strategol** | **Gofyniad Asesiad Amgylcheddol Strategol** | **Dull Arfarniad o Gynaliadwyedd Cymru Sero Net** | **Dull Cymru Sero Net** |
|---|---|---|---|
| **A** | Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwmpas | • Adolygu polisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau perthnasol eraill (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'cynlluniau a rhaglenni').<br>• Casglu a dadansoddi gwybodaeth sylfaenol.<br>• Nodi'r prif faterion cynaliadwyedd.<br>• Datblygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ystyried y prif negeseuon o gynlluniau a rhaglenni, prif faterion cynaliadwyedd, y nodau llesiant a ffyrdd o weithio. | Ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu polisïau cychwynnol |
| **B** | Datblygu a mireinio dewisiadau amgen ac asesu'r effeithiau | • Defnyddio Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i asesu polisïau Cymru Sero Net drwy ddefnyddio barn broffesiynol.<br>• Arfarnu dewisiadau amgen wrth i'r gwaith o baratoi Cymru Sero Net ddatblygu ac wrth i'r polisïau terfynol gael eu llunio. | Datblygu polisïau a chynigion ymhellach a'u mireinio |
| **C-D** | Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol Ymgynghori a gwneud penderfyniadau | • Paratoi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan nodi'r dulliau sydd wedi cael eu defnyddio i arfarnu Cymru Sero Net, asesiad o effeithiau'r polisïau (ac unrhyw ddewisiadau eraill), a mesurau lliniaru/gwella.<br>• Cyhoeddi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ochr yn ochr â fersiwn terfynol Cymru Sero Net. | Lansio a chyhoeddi Cymru Sero Net |

[9] Ar gael drwy: Strategic-environmental-assessment-directive-guidance [Cyrchwyd 9 Mawrth 2021]

1.3.5 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw cam olaf proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac mae'r manylion yn **Nhabl 1.1**. Mae'n cyflwyno'r wybodaeth gyd-destunol (adolygiad o gynlluniau a rhaglenni, tystiolaeth o'r waelodlin a materion cynaliadwyedd allweddol), y fethodoleg (Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a ddefnyddir i gwblhau'r arfarniad o'r effeithiau, a chanlyniadau'r arfarniad.

1.3.6 Ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn, ynghyd â'r ystod o wybodaeth gyd-destunol a ystyriwyd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodir isod, mae'r amcanion arfarnu (Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) yn adlewyrchu'r rheini a ddefnyddiwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gynhaliwyd ar gyfer Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel i sicrhau bod cysondeb yn y broses o arfarnu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau a monitro perfformiad.

## Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.3.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau i gyflawni'r nodau llesiant (gweler isod). Mae Gweinidogion Cymru yn cael eu nodi yn Adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel corff cyhoeddus.

1.3.8 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses i arfarnu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o lunio'r cynllun. Yng Nghymru, gellir defnyddio'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd i ganfod a mynd i'r afael yn benodol ag effeithiau diwylliannol cynllun.

1.3.9 Mae'r dull hwn o ymdrin â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd felly'n cyd-fynd â'r gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ystyried yn benodol i ba raddau y bydd Cymru Sero Net yn cyd-fynd â'r gofyniad i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ystyried y nodau llesiant. Wrth ddatblygu'r dull hwn, mae wedi cael ei alinio'n fwriadol â gofynion a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Y saith nod llesiant




1.3.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi saith nod llesiant (sy'n seiliedig ar bum 'Ffordd o Weithio') y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

1.3.11 Mae'r saith nod llesiant wrth galon ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

1.3.12 Cafodd fersiwn derfynol Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (**Adran 4**) ei llunio ar ôl i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ystyried y Fframwaith, ac mae'n dangos sut mae dull yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyd-fynd â'r nodau llesiant. Mae'r broses o arfarnu'r polisïau sy'n cael eu datblygu yn helpu i adnabod ac i gryfhau perfformiad Cymru Sero Net wrth gymharu â gofynion y nodau llesiant.

1.3.13 Mae cyflawni'r nodau llesiant wedi'i wreiddio mewn pum ffordd o weithio sy'n angenrheidiol i siapio ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a datblygu, a chyflawni, cynlluniau a pholisïau i sicrhau bod yr effaith ar bobl Cymru yn y dyfodol ac ar hyn o bryd yn cael ei hystyried.

## Y Rhaglen Lywodraethu

1.3.14 Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru (Mehefin 2021)[10] yn ceisio sicrhau bod mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur wrth galon gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi deg amcan llesiant y bydd y Llywodraeth yn eu defnyddio i gynyddu ei chyfraniad at y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni yn ystod tymor y Senedd hon (2021 i 2026). Yr amcanion yw:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

1.3.15 Yn wreiddiol roedd Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (**Adran 4**) yn seiliedig ar y Rhaglen Lywodraethu flaenorol (ar gyfer 2016-2021) a'i hamcanion llesiant. Cafodd ei adolygu a'i fireinio yng ngoleuni'r Rhaglen Lywodraethu newydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021.

## Y berthynas ag asesiadau statudol o'r effaith ac Asesiad Effaith Integredig

1.3.16 Mae Cymru Sero Net yn cyfuno polisïau a chynigion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, ac mae pob un ohonynt yn amodol ar y gofynion arferol sy'n ymwneud ag asesu'r effaith. Nid yw Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd felly'n cyflwyno Asesiad Effaith Integredig sy'n rhoi sylw i'r asesiadau hyn nac yn nodi'n benodol sut mae Cymru Sero Net yn diwallu'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phob asesiad o'r effaith. Fodd bynnag, mae elfennau cyffredinol yr asesiadau statudol o'r effaith wedi'u gwreiddio ym mhroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd drwy Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau canllaw, er mwyn gallu pennu ac arfarnu'r effeithiau yn erbyn y themâu sy'n sail i'r

[10] Ar gael drwy: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf [Cyrchwyd Gorffennaf 2021]

asesiadau statudol o'r effaith yn gyffredinol. Darparwyd sylwebaeth felly ynghylch yr effeithiau ar Cymru Sero Net ar yr asesiadau statudol yn **Adran 5**.

## 1.4 Gwreiddio'r pum ffordd o weithio

1.4.1 Mae Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol â hi. Rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu:

- Yn yr hirdymor;
- Mewn ffordd integredig:
- Gan gynnwys rhanddeiliaid eraill;
- Ar y cyd; a
- Chymryd camau ataliol;

1.4.2 Mae'r pum ffordd o weithio wedi'u gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod yr effeithiau tymor byr a thymor hirach yn cael eu hystyried wrth baratoi'r cynllun. Er bod polisïau Cymru Sero Net yn canolbwyntio ar ddiwallu gofynion Cyllideb Garbon 2, mae angen iddynt hefyd ddangos bod Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni sero net yn 2050. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod polisïau a chynigion a gyflwynir yn awr neu yn y dyfodol yn lleihau allyriadau ac yn gwella llesiant pobl Cymru.

1.4.3 Drwy gydol y gwaith o baratoi Cymru Sero Net a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cysylltiedig, mae'r pum ffordd o weithio wedi'u gwreiddio yn y broses. Mae **Tabl 1.2** yn nodi sut mae pob ffordd o weithio wedi cael ei hadlewyrchu yn y dull paratoi.

Tabl 1.2 Gwreiddio'r ffyrdd o weithio yn y gwaith o baratoi Cymru Sero Net a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

| Ffordd o weithio | Datblygu Cymru Sero Net | Datblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Yr hirdymor** | Mae Cymru Sero Net yn mynd i'r afael a gofynion y gyllideb garbon ar gyfer 2021-2025. Yn hynny o beth, mae'n gynllun tymor byr i gefnogi'r cyfnod pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae Cymru Sero Net hefyd yn chwarae rhan allweddol i sicrhau bod Cymru ar lwybr clir i gyrraedd y targedau interim a tharged sero net 2050, gan helpu i sicrhau manteision hirdymor i Gymru ac i'r byd ehangach. Felly, mae'r cynllun hefyd yn ystyried yr hirdymor y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd. | Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi'r waelodlin economaidd, gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol bresennol a'r prif faterion cynaliadwyedd sy'n effeithio ar Gymru yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesu effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor Cymru Sero Net yn erbyn y waelodlin yn unol ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ar ben hynny, bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn adlewyrchu gwaith Llywodraeth Cymru o ran Tueddiadau'r Dyfodol. |

| Ffordd o weithio | Datblygu Cymru Sero Net | Datblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Integreiddio** | Mae Cymru Sero Net wedi cael ei ddatblygu drwy lawer o waith a chydweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau cysylltiadau ag amcanion a meysydd polisi eraill. Gan fod Cymru Sero Net yn cyfuno polisïau ar draws y Llywodraeth mae hefyd yn seiliedig ar ymgysylltiad â rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau partner ar draws gwahanol feysydd polisi a sectorau. Mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar gydnabod yr angen i roi sylw i'r saith nod llesiant fel elfennau integredig o gyflawni'r weledigaeth a rennir. | Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn golygu bod modd asesu effeithiau Cymru Sero Net ar draws ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn darparu ar gyfer dull integredig o arfarnu yn erbyn themâu trawsbynciol amrywiol er mwyn gallu nodi effeithiau cronnol a synergyddol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd i arfarnu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel sy'n arwain at gysondeb yn y ffordd caiff cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau eu harfarnu a'u monitro. |
| **Cynnwys** | Cafodd y gwaith o ddatblygu Cymru Sero Net ei ategu gan Gynllun Ymgysylltu[11] sy'n nodi amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu yn ystod y gwaith paratoi. Drwy roi'r cynllun ar waith, mae rhanddeiliaid wedi cael cyfle i siapio ac i lywio'r gwaith o baratoi Cymru Sero Net ac unrhyw bolisïau neu gynigion newydd drwy ymgynghoriadau ar draws sectorau yn ogystal â gweithgareddau eraill. | Cafodd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ei roi i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn cael ei sylwadau cyn llunio'r fersiwn derfynol. Cafodd asesiadau cychwynnol o bolisïau wedyn eu cynnal a chawsant eu bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu polisïau i helpu i gyflawni'r gyllideb garbon ar gyfer 2021-2025, a'u cefnogi. Mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi'r arfarniad o Cymru Sero Net a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Cymru Sero Net. |
| **Cydweithio** | Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i Cymru Sero Net fod yn Gynllun Cymru Gyfan sy'n adlewyrchu bod angen i bawb yng Nghymru gyfrannu at yr her o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd Cymru Sero Net yn cyflwyno amrywiaeth o bolisïau sy'n torri ar draws sectorau ac sy'n galw am fewnbwn a chydweithio er mwyn cyflawni ei nodau. | Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn seiliedig ar adolygiad o gynlluniau a rhaglenni, ac adolygiad o dystiolaeth o'r waelodlin, a baratowyd gan amrywiaeth o adrannau Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Mae hyn wedi cyfrannu at Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a fydd yn cael ei ddefnyddio i arfarnu Cymru Sero Net. Mae'r dystiolaeth hon hefyd wedi cyfrannu at yr arfarniad ei hun ac mae'r arfarniad yn ei hadlewyrchu. |
| **Atal** | Mae Cymru Sero Net yn cyflwyno polisïau sy'n ceisio gwella'r mesurau cadarnhaol sydd eisoes ar gael ac sy'n angenrheidiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a mynd i'r afael â meysydd lle ceir materion hysbys y mae angen eu goresgyn. Mae hefyd yn nodi | Rôl yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw sicrhau bod effeithiau negyddol sylweddol posibl yn cael eu canfod, ac os cânt eu canfod bod y cynllun naill ai'n eu hosgoi neu'n cynnwys mesurau lliniaru. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn |

[11] Ar gael drwy: Cynllun-cyflawni-carbon-isel-2-Llywodraeth-Cymru [cyrchwyd 26 Chwefror 2021]

| Ffordd o weithio | Datblygu Cymru Sero Net | Datblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | pwysigrwydd materion sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd. | cyfrannu at atal problemau yn y dyfodol a allai ddigwydd ar ôl Cyllideb Garbon 2 (os na roddir sylw iddynt nawr) drwy arfarnu (a chryfhau, pan fo'n bosibl) y camau polisi a'r cynigion yng Nghyllideb Garbon 2. |

© Wood Group UK Limited

# 2. Adolygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Nod yr adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol yw nodi'r berthynas rhwng Cymru Sero Net a'r dogfennau eraill hyn hy, sut gallai nodau, amcanion a/neu dargedau'r cynlluniau a'r rhaglenni eraill effeithio ar Cymru Sero Net, neu sut gallai gyfrannu at gyflawni eu hamcanion cynaliadwyedd. Mae'r adolygiad hefyd yn sicrhau bod yr amcanion diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd perthnasol yn cael eu hintegreiddio i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd drwy Fframwaith yr Adolygiad o Gynaliadwyedd.

2.1.2 Bydd yr adolygiad cyflawn o gynlluniau a rhaglenni'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r cyd-destun polisi ar gyfer y broses arfarnu ddilynol ac i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu amcanion a chwestiynau canllaw sy'n rhan o fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (**Adran 4**).

## 2.2 Adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni

2.2.1 Mae'r dogfennau sydd wedi cael eu hadolygu wedi cael eu rhestru yn **Nhabl 2.1** ac ystyrir eu perthnasedd yn yr un drefn yn yr adolygiad a roddir yn **Atodiad A**.

Tabl 2.1 Cynlluniau a rhaglenni wedi'u hadolygu ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd Cymru Sero Net

| **Dogfennau a adolygwyd (dogfennau Llywodraeth Cymru oni nodir yn wahanol)** |
|---|
| • Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) (2020)<br>• Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru (2016)<br>• Mwy nag Ailgylchu (2021)<br>• Strategaeth Tlodi Plant (2015)<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)<br>• Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021)<br>• Strategaeth Economaidd i Gymru (2021) y Contract Economaidd<br>• Ynni Cymru: Y Newid i Garbon Isel (2012)<br>• Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2014, diweddarwyd 2019)<br>• Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016-2026 (2016)<br>• Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21 (diweddariad 2020)<br>• Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (2021)<br>• Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (2017)<br>• Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)<br>• Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (2019)<br>• Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)<br>• Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016)<br>• Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)<br>• Polisi Adnoddau Naturiol (2017) |

| Dogfennau a adolygwyd (dogfennau Llywodraeth Cymru oni nodir yn wahanol) |
|---|
| • Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 – 21 (2020)<br>• Y Genhadaeth o ran Cadernid ac Ailadeiladu Economaidd (2021)<br>• Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021).<br>• Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (2021)<br>• Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (2017)<br>• Datganiad Polisi: Perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – er budd Cymru heddiw a chenedlaethau'r dyfodol (2020)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (2020)<br>• Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 (2021)<br>• Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2019 i 2020 (2020)<br>• Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)<br>• Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (2018)<br>• Cyngor Celfyddydau Cymru – Er budd pawb. Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018–2023 (2018)<br>• Maes Awyr Caerdydd – Uwchgynllun 2040 Maes Awyr Caerdydd (2019)<br>• Comisiynydd Plant Cymru - Cynllun ar gyfer yr holl Blant a Phobl Ifanc 2016-2019 (2016)<br>• Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Y llwybr i Sero Net a'r cynnydd o ran lleihau allyriadau yng Nghymru (2020)<br>• Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 (2020)<br>• Llywodraeth EM - Strategaeth Twf Glân y DU: Arwain y ffordd at ddyfodol carbon isel (2017, diweddariad 2019)<br>• Llywodraeth EM – Cynlluniau Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio Diwydiannol (2017)<br>• Llywodraeth EM – Papur Gwyn ar Ynni: Pweru ein Dyfodol Sero Net (2020) Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynlluniau Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru a Basn Afon Dyfrdwy 2015-2021<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru - Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2017) |

## 2.3 Negeseuon allweddol

2.3.1 Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni a gyflwynir yn **Atodiad A** wedi nodi nifer o amcanion a negeseuon polisi sy'n berthnasol i gwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar draws ystod o bynciau o fewn y pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol).

2.3.2 Mae'r negeseuon hyn yn cael eu crynhoi yn **Nhabl 2.2** ynghyd â'r prif ffynonellau a'r goblygiadau ar gyfer Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.  Dim ond y ffynonellau allweddol a nodir; fodd bynnag, cydnabyddir y gellid cynnwys llawer o gynlluniau a rhaglenni eraill hefyd.

Tabl 2.2 Negeseuon allweddol sy’n codi o’r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni

| Amcanion allweddol a negeseuon polisi (wedi’u trefnu yn ôl pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy) | Ffynhonnell allweddol | Goblygiadau i Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Economaidd**<br>• Tyfu economi Cymru a symud at swyddi a thechnolegau gwyrddach a mwy cynaliadwy;<br>• Datblygu economi ffyniannus, wyrddach a mwy cyfartal;<br>• Parhau i drawsnewid economi Cymru a chefnogi buddsoddiad mewn sectorau carbon isel ac adnewyddadwy;<br>• Sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer creu swyddi newydd i ddiwallu anghenion Cymru;<br>• Sicrhau bod economi Cymru yn darparu manteision i bawb;<br>• Sicrhau bod economi Cymru yn hyblyg ac yn barod i wynebu’r dyfodol;<br>• Buddsoddi mewn sgiliau a chyflogadwyedd;<br>• Sicrhau bod mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Cefnogi mwy o berchnogaeth gyhoeddus a lleol dros gynhyrchu ynni;<br>• Sicrhau bod Cymru wedi’i chysylltu â’r byd ehangach; a | Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (2021); Llywodraeth EM – Papur Gwyn ar Ynni: Pweru ein Dyfodol Sero Net (2020); Strategaeth Twf Glân y DU: Arwain y ffordd at ddyfodol carbon isel (2017, diweddarwyd 2019); Llywodraeth EM – Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio Diwydiannol ac Effeithlonrwydd Ynni (2017); Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Y llwybr at Sero Net a’r cynnydd o ran lleihau allyriadau yng Nghymru (2020); Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) (2020); Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021); Datganiad Polisi: Perchnogaeth Leol ar Gynhyrchu Ynni yng Nghymru – Er Budd Cymru Heddiw a Chenedlaethau’r Dyfodol (2020); Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (2021); Maes Awyr Caerdydd – Uwchgynllun 2040 Maes Awyr Caerdydd (2019); Y Genhadaeth o ran Cadernid ac Ailadeiladu Economaidd (2021); Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2020 (2020) | Dylai Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion a/neu gwestiynau canllaw sy’n ymwneud â'r canlynol:<br>• Cefnogi datblygu economaidd cynaliadwy ac economi llesiant;<br>• Cefnogi cyflawni economi lewyrchus, wyrddach a mwy cyfartal;<br>• Darparu cyfleoedd gwaith;<br>• Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb economaidd;<br>• Gwella sgiliau a chyflogadwyedd<br>• Hyrwyddo addysg/cyflawni sgiliau a chyfleoedd addysgol i bawb;<br>• Hybu gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws pob sector economaidd;<br>• Cefnogi twf yn y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel;<br>• Cefnogi buddsoddiad mewn technolegau glân/gwyrdd;<br>• Darparu seilwaith cerbydau trydan;<br>• Helpu’r economi wledig i ddatgarboneiddio mwy;<br>• Cefnogi Cymru sydd wedi’i chysylltu â’r byd ehangach; a<br>• Hybu twristiaeth gynaliadwy ac economi wledig Cymru. |

| Amcanion allweddol a negeseuon polisi (wedi'u trefnu yn ôl pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy) | Ffynhonnell allweddol | Goblygiadau i Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| • Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu seilwaith cerbydau trydan. | | |
| **Cymdeithasol**<br>• Hybu ffyrdd iachach o fyw a rhoi sylw i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol;<br>• Gwella darpariaeth iechyd meddwl a chanolbwyntio ar atal;<br>• Mynd i'r afael ag amddifadedd, anghydraddoldeb a thlodi;<br>• Dathlu amrywiaeth poblogaeth Cymru;<br>• Diogelu a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed;<br>• Lleihau lefelau tlodi plant;<br>• Lleihau tlodi tanwydd;<br>• Sicrhau bod llefydd yn hygyrch i bawb;<br>• Creu mannau diogel ar gyfer gwaith ac ar gyfer hamdden;<br>• Cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith i gefnogi dewisiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy;<br>• Darparu mannau agored a chyfleusterau eraill sy'n hybu ffordd iachach o fyw;<br>• Darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol o ansawdd uchel sy'n gallu cefnogi poblogaeth Cymru;<br>• Darparu cartrefi carbon isel o ansawdd uchel mewn lleoliadau cynaliadwy; | Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (2021); Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi (2017); Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (2019); Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021); Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021); Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021); Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru (2016); Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (2020); Iechyd Cyhoeddus Cymru - Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2017); Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 (2021); Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21 (diweddariad 2020); Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 (2020) | Dylai Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion a/neu gwestiynau canllaw sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• Cefnogi iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol;<br>• Hybu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw;<br>• Mynd i'r afael ag amddifadedd a lleihau anghydraddoldeb rhanbarthol a lleol;<br>• Cefnogi amrywiaeth;<br>• Cefnogi buddsoddiad mewn addysg;<br>• Sicrhau bod cymunedau diogel a chroesawgar a mannau agored i hybu cydlyniant cymunedol;<br>• Gwella seilwaith telathrebu/rhyngrwyd;<br>• Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat a lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â hynny. |

| Amcanion allweddol a negeseuon polisi (wedi'u trefnu yn ôl pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy) | Ffynhonnell allweddol | Goblygiadau i Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| • Mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad addysgol a dyheadau. | | |
| **Amgylcheddol**<br>• Cynnal a gwella bioamrywiaeth;<br>• Cynnal a gwella cadernid ecosystem a'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd;<br>• Cysoni'r ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth<br>• Hyrwyddo dylunio a datblygu cynaliadwy o ansawdd uchel;<br>• Cefnogi creu lleoedd;<br>• Diogelu cymeriad a thirweddau unigryw Cymru, gan gynnwys yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol;<br>• Diogelu amgylchedd dŵr ac amgylchedd morol Cymru rhag niwed;<br>• Gwella gallu Cymru i wrthsefyll llifogydd a mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd;<br>• Sicrhau bod cyfoeth Cymru o adnoddau naturiol yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy;<br>• Ailgylchu rhagor, rhoi'r gorau i ddefnyddio plastig yn raddol a buddsoddi mewn technolegau gwastraff glân; a | Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (2021); Strategaeth Twf Glân y DU: Arwain y ffordd at ddyfodol carbon isel (2017, diweddarwyd 2019); Llywodraeth EM – Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio Diwydiannol ac Effeithlonrwydd Ynni (2017); Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Y llwybr at Sero Net a'r cynnydd o ran lleihau allyriadau yng Nghymru (2020); Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020); Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019); Polisi Adnoddau Naturiol (2017); Cynllun Gweithredu Adfer Natur (2020); Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (2018); Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (2017); Mwy nag Ailgylchu (2021) Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) (2020); Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 (2020) | Dylai Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion a/neu gwestiynau canllaw sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• Diogelu a gwella bioamrywiaeth Cymru a'r amgylchedd naturiol;<br>• Cynnal a gwella cadernid ecolegol a'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd;<br>• Gwarchod a gwella tirweddau gwerthfawr, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru, a'u cymeriad a'u lleoliad;<br>• Diogelu a gwella ansawdd ac adnoddau dŵr;<br>• Llifogydd, gwrthsefyll llifogydd a mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd;<br>• Hybu gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar asedau naturiol a hybu cadernid hinsawdd;<br>• Gwella ansawdd aer;<br>• Diogelu adnoddau pwysig Cymru, yn enwedig tir amaethyddol;<br>• Hybu defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen;<br>• Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel;<br>• Cefnogi egwyddorion creu lleoedd; a<br>• Lleihau gwastraff, cefnogi ailgylchu a buddsoddi mewn technolegau gwastraff glân. |

| Amcanion allweddol a negeseuon polisi (wedi'u trefnu yn ôl pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy) | Ffynhonnell allweddol | Goblygiadau i Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| • Lleihau allyriadau carbon a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar bob ased amgylcheddol. | | |
| **Diwylliannol**<br>• Hyrwyddo diwylliant unigryw Cymru;<br>• Parhau i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg;<br>• Cryfhau a chynyddu darpariaeth addysg Gymraeg;<br>• Diogelu amgylchedd hanesyddol ac asedau hanesyddol Cymru;<br>• Hybu creu celfyddyd a hybu darparu celfyddyd gyhoeddus yng Nghymru; a<br>• Chefnogi cyfranogiad yn y celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon, llenyddiaeth a threftadaeth. | Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 (2021); Cyngor Celfyddydau Cymru – Er budd pawb. Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018–2023 (2018); Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017); Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016): Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021); Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021); Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 (2020) | Dylai Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion a/neu gwestiynau canllaw sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• Hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg;<br>• Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a lleoliad asedau;<br>• Diogelu a hyrwyddo diwylliant unigryw Cymru;<br>• Hybu hamdden, ac ymgysylltiad ag asedau diwylliannol Cymru;<br>• Hybu creu celfyddyd gyhoeddus a chymryd rhan yn y celfyddydau; a<br>• Hybu cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth. |

# 3. Dadansoddiad o'r waelodlin

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Rhan hanfodol o broses gwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yw nodi amodau'r waelodlin bresennol a'u hesblygiad tebygol. Dim ond gyda gwybodaeth am amodau perthnasol sydd eisoes yn bodoli, ac ystyriaeth o'u hesblygiad tebygol, y gellir nodi ac arfarnu effeithiau Cymru Sero Net. Mae'r dadansoddiad hwn o'r waelodlin hefyd yn cael ei ddefnyddio i bennu'r prif faterion cynaliadwyedd a ddylai gael sylw yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, drwy amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau canllaw (Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

3.1.2 Mae'r adran hon yn nodi ac yn priodweddu amodau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y waelodlin ar hyn o bryd, ynghyd â sut mae'r rhain yn debygol o newid yn y dyfodol. Mae'r adolygiad yn cael ei gyflwyno dan y pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Casglwyd gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys:

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (2016 a 2020);
- Ystadegau ac ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru[12];
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017);
- Llesiant Cymru: 2020; ac
- Arolwg Cenedlaethol Cymru[13] ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[14].

3.1.3 Mae'r prif faterion cynaliadwyedd sy'n codi o'r adolygiad o'r amodau gwaelodlin yn cael eu crynhoi ar ddiwedd pob adran.

## 3.2 Economaidd

### Economi, cyflogaeth ac incwm

#### Cynnyrch economaidd

3.2.1 Mae perfformiad economi Cymru yn cyd-fynd yn agos â gweddill y Deyrnas Unedig. Gwerth ychwanegol gros (GVA) yw cyfanswm allbwn yr economi. Mae'r data diweddaraf o 2018 yn dangos bod gwerth ychwanegol gros Cymru yn £65bn sy'n cyfateb i £20,738 y pen[15]. Mae'r gwerth ychwanegol gros y pen wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall ers 2011, ond dyma'r isaf o bedair gwlad y DU (Lloegr – £29,356; yr Alban – £26,134; Gogledd Iwerddon – £22,428). Mae gwerth ychwanegol gros y pen ar ei uchaf yng Nghaerdydd (£32,310), Casnewydd (£26,647), Wrecsam (£23,192), Sir y Fflint (£23,086) a Sir Fynwy

[12] Ar gael drwy: Ystadegau-ac-ymchwil a Statscymru [cyrchwyd 26 Chwefror 2021]
[13] Ar gael drwy: Arolwg Cenedlaethol Cymru
[14] Ar gael drwy: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
[15] StatsCymru. Ar gael drwy: Statscymru [Cyrchwyd 26 Chwefror 2021]

(£22,307) ond yn is o lawer ar draws llawer o weddill Cymru, yn rhannol gan adlewyrchu natur wledig llawer o ardaloedd awdurdodau lleol.

3.2.2 Mae Cymru wedi ymuno â Chynghrair yr Economi Llesiant sy'n rhannu'r uchelgais i wella llesiant drwy eu dull gweithredu economaidd.[16] Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar weithgarwch economaidd gyda lleihad difrifol mewn allbwn ac effaith ddisgwyliedig ar gyflogau go iawn[17]. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei *Chenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi*[18] yn ddiweddar, sy'n ceisio cefnogi'r gwaith o gyflawni economi llesiant sy'n arwain at adferiad economaidd ffyniannus, gwyrddach a mwy cyfartal.

## Cyflogaeth

3.2.3 Mae cyfraddau cyflogaeth am y tri mis hyd at fis Rhagfyr 2020 yn dangos bod gan Gymru ganran ychydig yn is o bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth (72.2%) na gweddill y DU (75.0%)[19]. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau hanesyddol lle mae gan Gymru yn gyffredinol ganran ychydig yn is o bobl sy'n cael eu cyflogi na'r DU drwyddi draw. Yn ystod chwarter olaf 2018 roedd y ganran uchaf o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru ers 1992, pan roedd 76.2% o'r boblogaeth economaidd weithgar yn cael eu cyflogi. Roedd hyn hefyd yn uwch na chyfartaledd y DU o 75.8%.

3.2.4 Mae cyfraddau diweithdra ymysg y boblogaeth economaidd weithgar wedi gostwng yng Nghymru a'r DU ers 2012 ond wedi cynyddu yn ystod ail hanner 2020. Yn y tri mis hyd at fis Rhagfyr 2020, roedd 4.4% o Gymru yn ddi-waith o'i gymharu â 5.1% yn y DU[20]. Bydd y gostyngiad yn y ganran mewn cyflogaeth, a'r cynnydd mewn cyfraddau diweithdra ar gyfer Cymru a'r DU yn ystod ail hanner 2020, yn adlewyrchu effeithiau pandemig Covid-19 i raddau helaeth.

## Incwm

3.2.5 Ar gyfartaledd roedd enillion wythnosol gros (canolrifol) ym mis Ebrill 2020 yn £537.80 yng Nghymru o'i gymharu â ffigur y DU sef £585.50. Mae'r enillion wythnosol yng Nghymru ychydig yn uwch nag yn 2019 (£5434.80) ac wedi cynyddu'n raddol o un flwyddyn i'r llall ers 2011 pan roedd y ffigur yn £451.30[21].

## Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy

3.2.6 Mae'r Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yn sector ariannol pwysig yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm trosiant busnesau'r Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yn £2.15 biliwn yn 2018 i fyny o £1.8 biliwn yn 2017; sy'n cyfateb i 4.6% o gyfanswm trosiant y DU yn yr economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy[22]. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cyflogaeth yn yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yn 11,400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, a oedd yn uwch na'r 10,100

[16] Wellbeingeconomy [Cyrchwyd 11 Mawrth 2021]
[17] Llesiant Cymru: 2020 Ar gael drwy: Llesiant-Cymru-2020 [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[18] Ar gael drwy: Cenhadaeth-i-gryfhau-ac-ailadeiladu'r-economi [Cyrchwyd 19 March 2021]
[19] Nomisweb (2021) Proffil o'r Farchnad Lafur. Ar gael drwy: Nomisweb [cyrchwyd 26 Chwefror 2021]
[20] Ibid.
[21] Ar gael drwy: Statscymru Busnes-yr-Econom-a'r-Farchnad-Lafur/Pobl-a-Gwaith/Enillion [cyrchwyd 26 Chwefror]
[22] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Low carbon and renewable energy economy estimates. Ar gael drwy: ONS lowcarbonandrenewableenergyeconomy [cyrchwyd 26 Chwefror]

o swyddi cyfwerth ag amser llawn a oedd yn bodoli yn 2017. Mae potensial ar gyfer twf yn y sector Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy, o ran cynnyrch economaidd a swyddi.

### Twristiaeth

3.2.7 Mae twristiaeth yn sector economaidd pwysig gyda thirwedd a threftadaeth Cymru yn darparu asedau twristiaeth allweddol. Yn 2019, ar draws yr holl fesurau (ac eithrio ymweliadau undydd gan drigolion Prydain Fawr), roedd nifer y teithiau a'r gwariant twristiaeth wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol.[23] Mae arolygon diweddar yn dangos bod 97% o fusnesau twristiaeth wedi cau ym mis Mawrth 2020[24]. Fodd bynnag, nid yw effaith lawn pandemig Covid-19 yn hysbys eto.

## Addysg

3.2.8 Mae cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru ychydig yn is na chyfartaledd y DU. Yn 2019 roedd gan 36.3% (DU 40.2%) o oedolion oed gweithio gymwysterau Addysg Uwch neu gymwysterau ar lefel gyfatebol (Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 4 neu uwch), er bod hyn wedi cynyddu o 27.9% yn 2008[25]. Mae Cymru'n gwneud yn debyg i Ogledd Iwerddon (36.2%) a rhanbarthau eraill y DU ac eithrio Llundain, yr Alban, De Ddwyrain Lloegr a De Orllewin Lloegr sydd gryn dipyn yn uwch. Roedd 79.1% o oedolion yn gymwys i lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (4-5 TGAU) neu uwch yn 2019.[26] Mae hyn hefyd yn debyg i ranbarthau eraill y DU ac eithrio'r rhai a enwir uchod sy'n sylweddol uwch.

3.2.9 Mae gwahaniaethau rhanbarthol mewn cyrhaeddiad ar draws Cymru, a'r Canolbarth sydd â'r ganran uchaf o oedolion â lefel 2 neu uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, a De Ddwyrain Cymru yw'r isaf. Canolbarth Cymru sydd â'r ganran isaf o oedolion heb unrhyw gymwysterau (6.4%) a De-orllewin Cymru (8.5%) a De-ddwyrain Cymru (8.5%) sydd â'r ganran uchaf[27]. Mae data dros dro ar gyfer 2019 yn dangos nad oedd 11.1% o bobl ifanc 16–18 oed a 15.7% o bobl ifanc 19–24 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[28]. Mae'r ffigurau ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed wedi bod yn debyg ers 2004. Ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed, mae'r ffigurau wedi gostwng yn gyson ers 2010. Mae cysylltiadau clir rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol.

3.2.10 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder[29]. Ar ben hynny, cydnabyddir bod cefnogi prentisiaethau a phynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) yn bwysig ar gyfer cefnogi diwydiannau'r Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy.

[23] Llywodraeth Cymru (2020) [Perfformiad twristiaeth Cymru: 2019. Ar gael drwy: Perfformiad-twristiaeth-Cymru-2019 [cyrchwyd 3 Mawrth 2021]
[24] Ibid.
[25] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Proffil o'r Farchnad Lafur. Ar gael drwy: Nomisweb [Cyrchwyd 1 Mawrth]
[26] Ar gael drwy: Statscymru Addysg-Ôl-16-a-Hyfforddiant [Cyrchwyd 1 Mawrth 2021]
[27] Ibid.
[28] Ar gael drwy: Statscymru Addysg-Ôl-16-a-Hyfforddiant [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]
[29] Llywodraeth Cymru (2017) Ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg yng Nghymru 2017-2021

## Defnyddio ynni

3.2.11 Mae Cymru'n allforiwr net o drydan ac roedd wedi cynhyrchu tua 27.9 TWh ond wedi defnyddio tua 14.7 TWh o drydan yn 2019 (caiff ~53% o'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru ei allforio). Ers 2005, mae 16% yn llai o drydan yn cael ei ddefnyddio[30]. Caiff ynni ei gynhyrchu o danwydd ffosil (gan gynnwys nwy a disel) a ffynonellau adnewyddadwy (gan gynnwys gwynt ar y tir, gwynt ar y môr, paneli solar a dulliau eraill). Nid oes dim gorsafoedd pŵer niwclear gweithredol. Gorsafoedd pŵer sy'n defnyddio tanwydd nwy sy'n cynhyrchu'r gyfran fwyaf o drydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru er bod hyn wedi bod yn gostwng ers 2018.

3.2.12 Mae ffynonellau adnewyddadwy yn cyfrannu tua 27% o'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu[30], sy'n is na chyfartaledd y DU sef 37%[31]. Ers 2005, mae cynhyrchu trydan adnewyddadwy wedi cynyddu dros 500%, a hynny'n bennaf oherwydd gwynt ar y tir ac ar y môr ar raddfa fawr. Yn 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru darged bod 70% o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Cydnabyddir bod y cynnydd tuag at y targed hwn wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf ond gallai gynyddu oherwydd amodau sy'n datblygu yn y farchnad, polisïau cenedlaethol a chyfleoedd gwynt ar y môr.

3.2.13 Roedd cynhyrchu trydan gyda glo yn cynrychioli dim ond 2% o'r holl drydan a gynhyrchwyd yn 2019. Nid oes disgwyl iddo barhau i gyfrannu at y cymysgedd trydan yn y dyfodol gyda'r orsaf bŵer glo weithredol olaf, Aberddawan, yn cau ym mis Mawrth 2020.


3.2.14 Y tri sector sydd â'r defnydd mwyaf o ynni yw diwydiant (32.3%), adeiladau (29.6%) a thrafnidiaeth (22.1%) yn 2017[32]. Bu gostyngiad cyson yn y defnydd o ynni ym mhob un o'r sectorau hyn er 2005. Mae bron i ddwy ran o dair o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn gwresogi cartrefi, busnesau a diwydiant (~61%)[32].

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

3.2.15 Yn nodweddiadol mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu disgrifio fel allyriadau sy'n gyfwerth â charbon deuocsid ($CO_2e$), sy'n disgrifio nwyon tŷ gwydr gwahanol mewn uned gyffredin. Ar gyfer unrhyw faint a math o nwy tŷ gwydr, mae $CO_2e$ yn cynrychioli faint o $CO_2$ a fyddai'n cael yr effaith cynhesu byd-eang gyfatebol. Roedd cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2019 yn 38,488 kt$CO_2e$[33]. Ers 1990, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi disgyn 31%, er y bu amrywiadau yn y gostyngiad blynyddol mewn allyriadau, fel y dangosir yn **Ffigur 3.1**.

[30] Llywodraeth Cymru, (2020) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2019 [ar-lein], ar gael yn: Cynhyrchu-ynni-yngh-Nghymru-2019 [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021]
[31] BEIS, (2020), Energy Trends: Rhagfyr 2020, erthygl nodwedd arbennig - Electricity generation and supply in Scotland, Wales, Northern Ireland and England, 2016 to 2019, [ar-lein] ar gael yn: Energy-trends-december-2020 [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021].
[32] Llywodraeth Cymru, (2020), Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018, [ar-lein] Defnydd-o-ynni-yng-Nghymru-wales-2018 [cyrchwyd 2 Mawrth]
[33] National Atmospheric Emissions Inventory (2021), Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2019, [ar-lein], ar gael yn: Adroddiad BEIS [cyrchwyd Gorffennaf]


## Ffigur 3.1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr o 1990 i 2019




Ffynhonnell: BEIS National Atmospheric Emissions Inventory (2021)

3.2.16 Cyflenwi ynni yw'r sector sy'n allyrru fwyaf o restr allyriadau nwyon tŷ gwydr 2019 Cymru, ac mae'n gyfrifol am 29% o'r allyriadau. Mae'r sector hwn wedi dangos gostyngiad o 36% mewn allyriadau ers gwaelodlin 1990, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y defnydd o lo. Y sectorau mwyaf eraill sy'n cyfrannu at ôl-troed nwyon tŷ gwydr Cymru yw busnes (24%), trafnidiaeth (16%) ac amaethyddiaeth (14%) (gweler **Ffigur 3.2**).

## Ffigur 3.2 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2019 fesul sector




Ffynhonnell: BEIS National Atmospheric Emissions Inventory (2021)

3.2.17 Cymru oedd â'r allyriadau $CO_2$ y pen mwyaf yn 2019 wrth gymharu â rhanbarthau eraill y DU (7.6 $tCO_2$/y pen). Mae hyn oherwydd mai Cymru sydd â'r allyriadau $CO_2$ y pen uchaf o'r sector Diwydiannol a Masnachol. Mae hyn oherwydd bod gan Gymru fwy o osodiadau diwydiannol[34], a'r ffaith ei bod yn cynhyrchu trydan sy'n cael ei ddefnyddio gan gartrefi a busnesau ar draws y DU.

3.2.18 Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr hanesyddol wedi arwain at rywfaint o newid hinsawdd ar y Ddaear. Ar gyfer Cymru, rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at dymheredd uwch, newid patrymau glawiad, cynyddu perygl llifogydd a digwyddiadau tywydd mwy eithafol[35]. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o risgiau i seilwaith, cyflenwadau dŵr cyhoeddus, arferion rheoli tir, ac ecosystemau a busnesau amaethyddol. Mae'r risgiau hyn yn cael sylw yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* (2019)[36] sy'n nodi sut bydd Cymru'n addasu i newid yn yr hinsawdd o 2016-2020.

## Materion cynaliadwyedd allweddol

- Yr angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni economi gynaliadwy a llesiant sy'n llewyrchus, yn wyrddach ac yn fwy cyfartal.
- Yr angen i fynd i'r afael â lefelau diweithdra ac incwm isel.
- Yr angen i gefnogi mentrau lleol a chynhyrchu lleol.
- Yr angen i symud oddi wrth ddiwydiannau carbon-ddwys a dechrau newid tuag at gefnogi technoleg a diwydiannau carbon isel yn unig, mewn ffordd sy'n lleihau yn hytrach na pharhau ag anghydraddoldebau ac sy'n sicrhau newid cyfiawn i bawb.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd addysgol i bawb a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol.
- Yr angen i gefnogi addysg STEM i helpu i gefnogi twf mewn diwydiannau ynni adnewyddadwy a charbon isel a chefnogi newid cyfiawn i dechnolegau carbon isel newydd ym mhob sector.
- Yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob sector, gan gefnogi'r ymdrech fyd-eang i liniaru newid yn yr hinsawdd, ar yr un pryd â chynnal datblygiad a thwf economaidd.
- Yr angen am fuddsoddiad yn y sector twristiaeth a chefnogaeth iddo.

[34] BEIS (2021), UK local authority and regional carbon dioxide emissions national statistics: 2005 to 2019, [ar-lein], ar gael yn: Uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-20199 [cyrchwyd Gorffennaf 2021].
[35] Y Swyddfa Dywydd (2019), UK Climate Projections: Headline Findings, [ar-lein], ar gael yn: Metoffice ukcp-headline-findings [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021].
[36] Ar gael drwy: Ffyniant-i-bawb-Cymru-sy'n-effro-i'r-hinsawdd [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021]

## 3.3 Cymdeithasol

### Demograffeg

3.3.1 Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu 2.7% i 3.22 miliwn erbyn 2028 a 3.7% i 3.26 miliwn erbyn 2043. Rhwng 2018 a 2028, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu 16.3% i 758,600 ac mae disgwyl i nifer y bobl 75 oed a hŷn godi 29.3% i 378,100. Mae canran y bobl rhwng 16 a 64 oed yn debygol o gynyddu tua 0.2% ond rhagwelir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn gostwng 4.7% i 536,300 rhwng 2018 a 2028.[37]

### Iechyd a llesiant

3.3.2 Yn gyffredinol, mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn cynyddu. Fodd bynnag, ystyrir bod y boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n tyfu, yn debygol o gynyddu nifer y bobl sy'n dioddef o ddementia a chynyddu'r achosion o ganser. Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer disgwyliad oes cyffredinol, ceir gwahaniaeth o oddeutu 8 mlynedd rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, tra bo'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach oddeutu 18 mlynedd. Fodd bynnag, mae salwch fel afiechydon y galon ac arthritis wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[38]

3.3.3 Mae unigrwydd yn gallu cyfrannu at broblemau iechyd meddwl. Canfu *Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru* (2020)[39] fod 15% o bobl yn cael eu hystyried yn unig. Roedd pobl mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o fod yn unig (roedd 41% o'r farn eu bod yn unig o'i gymharu â 12% o bobl nad oeddent mewn amddifadedd). Fodd bynnag, roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn weddol uchel gyda 59% o bobl wedi dweud eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ystod y 4 wythnos diwethaf. Dywedodd tua 11% o oedolion eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol oddeutu unwaith yr wythnos.

### Amddifadedd

3.3.4 Roedd *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru* (MALlC) (2019)[40] yn mesur amddifadedd cymharol holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen awdurdodau lleol. Roedd MALlC 2019 yn dangos bod amddifadedd ledled Cymru yn debyg i'r hyn a ganfuwyd yn 2014. Roedd MALlC 2019 wedi canfod pocedi o amddifadedd cymharol uchel yn ninasoedd a chymoedd de Cymru, ac mewn rhai trefi arfordirol a rhai ar y ffin yng ngogledd Cymru. Casnewydd oedd yr awdurdod lleol â'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roedd 24.2% o'i Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn cael ei ystyried ymhlith y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn 50% mwyaf difreintiedig Cymru (85.1%). Mae dadansoddiad yn dangos bod 26 Ardal Gynnyrch

[37] Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2018 Ar gael drwy: Amcanestyniadau-poblogaeth-cenedlaethol-sail-2018 [Cyrchwyd 1 Mawrth]
[38] Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
[39] Ar gael drwy: Arolwg-cenedlaethol-Cymru-Ebrill-2019-Mawrth-2020 [Cyrchwyd 1 Mawrth 2021]
[40] Ar gael drwy: Mynegai-Amddifadedd-Lluosog-Cymru-diweddariad-llawn-i'r-mynegai-gyda-graddfeydd-2019 [Cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

Ehangach Haen Is ar draws deg ardal awdurdod lleol mewn amddifadedd dwfn oherwydd eu bod wedi bod yn y 50 ardal fwyaf difreintiedig yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.

3.3.5 Roedd 23% o unigolion yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2016-17 a 2018-19. Roedd hyn yn uwch na holl wledydd eraill y DU a 22% oedd cyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r ganran hon wedi bod yn sefydlog ers 2000-01 ac mae'n is na'r ddau gyfnod adrodd blaenorol pan roedd yn 24%.[41] Amcangyfrifwyd bod 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018. Mae hyn yn cyfateb i 12% o'r holl aelwydydd. Roedd aelwydydd a oedd yn byw yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd, gyda 20% o'r aelwydydd hyn yn byw mewn tlodi tanwydd.[42] Mae canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd wedi gostwng yn sylweddol o 26% yn 2008 oherwydd cynnydd mewn incwm a mesurau gwella effeithlonrwydd ynni. Mae hi'n bwysig bod y rheini sy'n agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu diogelu rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn elwa o ymdrechion i fynd i'r afael ag ef.

## Troseddau

3.3.6 Roedd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2020 yng Nghymru a Lloegr yn oddeutu 5.7 miliwn o droseddau. Roedd hyn 6% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Y cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 oedd y prif reswm dros y nifer is o droseddau. Roedd nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020 yn uwch, ond roedd hyn yn dal yn is na'r flwyddyn flaenorol.[43] Mae'r data diweddaraf ar ofn mewn troseddau yn A*rolwg Cenedlaethol Cymru*[44] yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (80%) yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu a bod 79% yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Roedd cyfanswm o 71% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio ond nid oedd 29% yn teimlo'n ddiogel. Mae gostyngiad bach yn y nifer a oedd yn teimlo'n ddiogel wrth gymharu â 2016-17.

## Cysylltedd

### Trafnidiaeth

3.3.7 Mae trafnidiaeth yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr a materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer, ac mae teithio llesol fel cerdded a beicio yn gallu cefnogi llesiant corfforol a llesiant cymdeithasol. Roedd traffig ar y ffyrdd wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed a gofnodwyd yn 2018, sef 29.4 biliwn cilometr cerbyd[45]. Mae nifer y teithiau gan deithwyr ar drenau hefyd wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn 21.6

---

[41] DWP Household Below Average Income (HBAI) drwy StatsCymru. Ar gael drwy: Statscymru-incwm-cyfartalog-is-na'r cyfartaledd-fesul-blwyddyn [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

[42] Amcangyfrifon tlodi tanwydd i Gymru: 2018 Ar gael drwy: Amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-Cymru-2018 [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

[43] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Crime in England and Wales: year ending September 2020. Ar gael drwy: ONS crime September 2020 [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

[44] Ar gael drwy: Arolwg-cenedlaethol-Cymru-dangosydd-canlyniadau [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

[45] Llywodraeth Cymru (2020) Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru Drafft Ymgynghori Sylfaen Tystiolaeth - Tueddiadau Data Trafnidiaeth. Ar gael drwy Sylfaen-tystiolaeth-tueddiadau-data-trafnidiaeth

miliwn yn 2019[46] ond mae disgwyl i gerbydau preifat ddarparu'r brif ffordd o deithio dros y tymor byr a'r tymor canolig[47]. Fodd bynnag, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar deithio, ac roedd llai o lawer yn teithio ar ffyrdd a rheilffyrdd yn ystod 2020. Mae *Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd i Gymru Drafft Ymgynghori* (2020) yn ceisio sicrhau bod dewisiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy yn sail i ddewisiadau teithio ar ôl y pandemig.

### Seilwaith Digidol

3.3.8 Mae ansawdd a darpariaeth band eang yn gwella ond yn gyffredinol mae y tu ôl i'r DU drwyddi draw ar nifer o fesurau.[48] Roedd darpariaeth ffeibr llawn wedi codi o 12% i 19% yn 2019 sy'n uwch na chyfartaledd y DU sef 18%. Roedd darpariaeth band eang cyflym iawn wedi codi o 93% o gartrefi yn 2019 i 94% yn 2020, sy'n cymharu â chyfartaledd y DU o 96%. Mae'r ddarpariaeth gwibgyswllt yn dal y tu ôl i'r DU, sef 37% (mae ffigur ar gyfer y DU i gyd yn 59%). Roedd canran y rheini nad oeddent yn gallu cael band eang teilwng (sy'n golygu cyflymder llwytho i lawr 10 Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad neu uwch) yn 1.2% o'i gymharu â chyfartaledd y DU, sef 0.6%.

## Materion cynaliadwyedd allweddol

- Yr angen i addasu i boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio gyda chynnydd yn dilyn mewn materion iechyd fel dementia.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes.
- Yr angen i leihau lefelau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig mewn cymdeithas.
- Yr angen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi gwelliannau i'r stoc dai i sicrhau tai o ansawdd da i bawb.
- Yr angen i sicrhau newid cyfiawn a chefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i effeithiau'r hinsawdd.
- Yr angen i gefnogi gostyngiad mewn troseddu gwirioneddol ac ofn troseddau.
- Yr angen i hyrwyddo cymunedau cydlynus sydd â chysylltiadau da.
- Yr angen i hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dilyn hynny.
- Yr angen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith digidol i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn cael y mynediad angenrheidiol at y band eang cyflymaf.

---

[46] StatsCymru. Ar gael drwy: Statscymru-teithiau-rheilffyrdd-gan-deithwyr [cyrchwyd 3 Mawrth 2021]
[47] Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
[48] Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2020: Adroddiad Cymru. Ar gael drwy: OFCOM cysylltu'r-gwledydd-2020 [cyrchwyd 1 Mawrth 2021]

## 3.4 Amgylcheddol

### Bioamrywiaeth

3.4.1 Amcangyfrifir bod Cymru yn gartref i 25,000 i 50,000 o rywogaethau gwahanol o anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill. Mae'r *Ail Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru*[49] (SoNaRR2020) yn diweddaru'r gwaith a wnaed ar gyfer adroddiad cychwynnol 2016. Mae *Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2019*[50] yn nodi bod cysylltiad rhwng yr argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd ac mae'n tynnu sylw at y materion canlynol:

- mae'r newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhywogaethau i symud lleoliad;
- gallai rhywogaethau arctig-alpinaidd o fewn cynefinoedd mynyddig ddiflannu o Gymru wrth i'w cynefinoedd gael eu colli;
- pan na all planhigion a bywyd gwyllt arfordirol symud i'r tir, gall y cynnydd yn lefel y môr a mwy o erydu tir arwain at golled eang;
- byddem hefyd yn colli'r gwasanaethau ecosystemau y mae'r cynefinoedd hyn yn eu darparu, fel amddiffynfeydd rhag llifogydd a chael gwared ar garbon deuocsid; a
- mae nifer y rhywogaethau estron goresgynnol, a'u cwmpas, yn debygol o gynyddu wrth i'r hinsawdd newid.

3.4.2 Mae *Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21*[51] yn nodi cyfres o gamau i roi sylw i'r dystiolaeth gynyddol am raddfa colli bioamrywiaeth, yr argyfwng ecolegol cynyddol a'r angen i ymateb i hynny ochr yn ochr â'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

### Cynefinoedd Pwysig Iawn

3.4.3 Mae 55 cynefin pwysig iawn[52]. Mae'r cynefinoedd hyn yn cwmpasu amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol. Mae cynefinoedd daearol pwysig iawn yn ymestyn dros gyfanswm arwynebedd o 387,300 ha. Mae'r mwyaf helaeth yn cynnwys gwaun uchel, gorgors, coetir derw ucheldirol, porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd, glaswelltir sych asidig iseldir a chorsydd pori arfordirol ac ar orlifdir. Fodd bynnag, mae rhai cynefinoedd allweddol yn brin, yn fach o ran maint ac yn agored iawn i niwed. Mae cynefinoedd cynllun gweithredu bioamrywiaeth rhynglanwol morol yn ymestyn dros 15,000 ha. Mae'r cynefin rhynglanwol mwyaf helaeth, y gwastadeddau llaid, yn ymestyn dros 14,000 ha ac fe'i ceir ar hyd yr arfordir. Mae riffiau mwydyn crwybr yn gorchuddio 476 ha ac i'w cael yn bennaf yn Ne a Gorllewin Cymru.

---

[49] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru. Ar gael drwy Cyfoeth-naturiol-Cymru SONARR [Cyrchwyd 02 Mawrth 2021]

[50] Cyfoeth Naturiol Cymru (2019) Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Ar gael drwy Adroddiad-interim-ar-sefyllfa-adnoddau-naturiol-2019 [Cyrchwyd 04 Mawrth 21]

[51] Ar gael drwy: Cynllun-gweithredu-adfer-natur-Cymru-2020-2021 [Cyrchwyd 22 Mawrth]

[52] Rhestr Adran 7 Interim Cymru. Ar gael drwy: Blaengynllun-Cadernid-Bioamrywiaeth-ac-Ecosystem [Cyrchwyd 4 Mawrth 2021]

## Coetir Hynafol

3.4.4 Mae coetiroedd hynafol yn ardaloedd o goetir sydd wedi bod yno ers 1600. Nid yw datblygiadau dynol wedi tarfu llawer arnyn nhw ac maen nhw'n cynnwys cymunedau unigryw a chymhleth o blanhigion, ffyngau, pryfed a micro-organebau eraill. Mae'r Rhestr Coetiroedd Hynafol (2011) yn dangos bod oddeutu 95,000ha o goetir hynafol yng Nghymru, o'i gymharu â'r 62,000ha a nodwyd yn Rhestr Coetiroedd Hynafol 2004.[53] Mae SoNaRR2016 yn nodi amrywiaeth o fygythiadau i goetiroedd: newidiadau mewn patrymau tywydd; llygredd aer; adeiladu datblygiadau a seilwaith; defnydd tir cystadleuol; rheolaeth annigonol; plâu a chlefydau; a phwysau llysysol.

## Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd a'r DU

3.4.5 Mae 20 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig wedi'u dynodi i warchod adar gwyllt prin a bregus fel y barcud coch, y cudyll bach, gweilch a'r cwtiad aur ac aderyn drycin Manaw. Mae'r rhain yn cynnwys y morlin rhwng Porth Tywyn a Saundersfoot, adrannau o arfordir Sir Benfro a'r arfordir o Benarth i Bont Hafren. Maen nhw hefyd yn cynnwys yr ardal rhwng Llandrindod a Thregaron ac ardal de Gwynedd ac arfordir y Gogledd.

3.4.6 Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (neu ACA) yn safle sydd wedi'i ddynodi o dan y Rheoliadau Cynefinoedd fel un sy'n bwysig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dan fygythiad. Mae 95 ACA, gan gynnwys y morlin rhwng Porth Tywyn a Thyddewi, adrannau o arfordir Sir Benfro a'r morlin rhwng Penarth a Phont Hafren. Mae rhannau helaeth o'r morlin rhwng Aberteifi i fyny at Gaernarfon a'r arfordir rhwng Bangor a Chonwy hefyd yn cael eu gwarchod dan y dynodiad hwn.

3.4.7 Mae safleoedd Ramsar yn wlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar. Mae safleoedd gwlyptir yn gallu bod yn ardaloedd o gorsydd, ffeniau, mawndiroedd neu ddŵr. Maen nhw'n gallu bod yn naturiol neu'n artiffisial a naill ai'n barhaol neu'n dros dro, gyda dŵr statig neu ddŵr sy'n llifo, lled hallt neu halen. Maen nhw hefyd yn gallu cynnwys ardaloedd o fôr bas.  Ar hyn o bryd mae gan Gymru 10 safle Ramsar gan gynnwys aber Afon Dyfrdwy, Llyn Idwal, Llyn Tegid a Chorsydd Môn a Llŷn yn y gogledd, Cors Caron, Cors Fochno a Midland Meres and Mosses yng Nghanolbarth Cymru/Canolbarth Lloegr a Chilfach Tywyn, Cors Crymlyn ac aber Afon Hafren yn y de.

3.4.8 Dywedwyd bod y rhan fwyaf o gynefinoedd ACA ac AGA mewn cyflwr anffafriol (75 y cant) yn 2016 ac eithrio ogofâu (100 y cant mewn cyflwr ffafriol). Mae cyflwr rhywogaethau ACA ac AGA ar safleoedd yn anffafriol ar y cyfan (55%), ac eithrio adar a mamaliaid yr oedd 86% a 68% ohonynt mewn cyflwr ffafriol, yn y drefn honno.[54]

## Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

3.4.9 Mae statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn rhoi diogelwch cyfreithiol i safleoedd pwysig bywyd gwyllt a daeareg.  Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru yn cynnwys safleoedd morlin, dŵr croyw, ucheldir ac iseldir ac yn amrywio o ffeniau neu dwyni tywod bach i goetiroedd a rhannau helaeth o fynyddoedd. Maen nhw'n cynnwys mathau pwysig o dir, planhigion a bywyd gwyllt. Mae

[53] Rhestr Coetiroedd Hynafol Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael drwy: [Cyfoeth-naturiol-Cymru-rhestr-coetiroedd-hynafol] [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[54] Llywodraeth Cymru (2016) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2016

safleoedd daearegol yn amrywio o chwareli i frigiadau creigiog a chlogwyni môr. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cymru ar hyd a lled y wlad gyda chlwstwr bach yn ardaloedd gwledig Gogledd Powys a De Gwynedd. Yn 2019, roedd 1,078 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru. Roedd Adolygiad Cyflym[55] yn 2006 yn cofnodi cyflwr y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gofnodwyd yng Nghymru yn 2006. Aseswyd bod gan oddeutu 47 y cant o'r safleoedd lefelau hyder uchel a dangosodd y canlyniadau fod 32 y cant o'r safleoedd mewn cyflwr ffafriol a bod 68 y cant mewn cyflwr anffafriol.

### Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol

3.4.10 Mae gan Gymru 76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol sy'n helpu i warchod amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a thirweddau. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys:

- Copaon uchel Eryri, sy'n gartref i rai o rywogaethau planhigion mwyaf hynafol y DU;
- Twyni tywod ysgubol Morfa Harlech a Morfa Dyffryn, gan gynnwys traethellau llaid a morfeydd heli sy'n fannau bwydo pwysig i adar gwyllt y gaeaf; a
- Choetiroedd derw hynafol Maentwrog ym Mro Ffestiniog, sy'n gartref i oddeutu 170 o rywogaethau cen.

3.4.11 Mae nifer o safleoedd sy'n bwysig yn lleol, fel Safleoedd Bywyd Gwyllt a Safleoedd Daearegol Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol. Mae'r rhain yn safleoedd sy'n cael eu dynodi'n lleol, er nad ydynt o'r un statws â safleoedd rhyngwladol neu genedlaethol. Mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth ac at ansawdd bywyd a llesiant cymunedau. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd arbennig i bobl astudio neu ddysgu am natur, neu i'w fwynhau'n hamddenol.

### Parthau Cadwraeth Morol

3.4.12 Mae parthau cadwraeth morol wedi'u dynodi o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 y DU. Mae Parthau Cadwraeth Morol wedi cael eu dylunio i warchod cynefinoedd a rhywogaethau morol sy'n nodweddiadol o nodweddion morol y DU. Sefydlwyd y Parth Cadwraeth Morol cyntaf yn nyfroedd Cymru yn 2014. Mae Parth Cadwraeth Morol Skomer[56] o amgylch ynys Skomer a Phenrhyn Marloes yn Sir Benfro.

## Tirwedd

3.4.13 Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 yn nodi bod gan Gymru dirwedd amrywiol ac sydd o ansawdd uchel yn gyffredinol gyda dros 50% o arwynebedd y tir yn cael ei werthfawrogi'n genedlaethol am ei ansawdd a'i gymeriad golygfaol. Mae llawer o dirweddau'n eiconig gydag ymdeimlad clir o le a hunaniaeth y gellir ei hadnabod. Mae'r wlad yn wledig yn bennaf o ran cymeriad, gyda 60% o'r dirwedd yn cael ei diffinio fel Patrwm Caeau/Mosaig ac mae 20% yn cael ei gategoreiddio fel Tir Agored.

---

55

56 Parth Cadwraeth Morol Skomer. Ar gael drwy [Cyfoeth-naturiol-cymru-parth-cadwraeth-forol-sgomer] [Cyrchwyd 04/03/21]

3.4.14 Dros amser mae'n debyg y bydd newid hinsawdd yn effeithio'n sylweddol ar gymeriad, natur unigryw ac ansawdd lleol y dirwedd. Bydd hyn yn digwydd yn uniongyrchol drwy newid gorchudd tir (ystodau rhywogaethau a chynefinoedd yn mudo) ac yn anuniongyrchol drwy ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch defnydd tir. Gall newidiadau i'r dirwedd hefyd fod yn amlwg o fesurau lliniaru, fel cynhyrchu ynni adnewyddadwy, rheoli adnoddau dŵr ac addasu drwy'r bwriad i ehangu coetiroedd. Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn peri risg i dirweddau oherwydd plâu, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol ac o ganlyniad i newidiadau i amlder a/neu faint digwyddiadau tywydd eithafol a thanau gwyllt.

## Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

3.4.15 Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru:

- Bannau Brycheiniog: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys 520 milltir sgwâr ac mae rhwng ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru a Chymoedd diwydiannol De Cymru. Mae'n dirwedd amrywiol, gydag ucheldiroedd ysgubol yn cyferbynnu â dyffrynnoedd gwyrdd, gyda rhaeadrau dramatig, coetir hynafol, ogofâu, coedwigoedd a chronfeydd dŵr.
- Arfordir Penfro: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu tua 243 milltir sgwâr. Mae ganddo dirwedd amrywiol ac amrywiol gyda chlogwyni garw, traethau tywodlyd, aberoedd coediog, bryniau mewndirol gwyllt, rhostir Bryniau Preseli a chwm coediog Gwaun. Dyma'r unig Barc Cenedlaethol yn y DU sydd wedi'i ddynodi'n bennaf ar gyfer ei dirwedd arfordirol.
- Eryri: Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfoethog o ran tirwedd a threflun ac mae ganddo 60km o arfordir. Mae gan Eryri ardaloedd helaeth o goetiroedd a thros 96,000 hectar o rostir. Mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur wedi dylanwadu ar dirwedd y Parc Cenedlaethol ac mae cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng pobl a lle. Mae cymeriad gwledig traddodiadol aneddiadau yn unigryw i'r Parc Cenedlaethol ac yn rhan o gymeriad ei dirwedd hanesyddol.

3.4.16 Mae pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru: Ynys Môn, Gŵyr, Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Gwy[57]. Mae gan bob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ei chymeriad tirwedd unigryw sy'n aml hefyd yn cynnwys amrywiaeth o asedau treftadaeth ddiwylliannol.  Mae 25% o Gymru wedi'i dynodi'n Barc Cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig

3.4.17 Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn cael eu nodi ar lefel awdurdod cynllunio lleol ac ar lefel genedlaethol. Mae 48 Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol sy'n nodi tirweddau

[57] Mae gan bob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wefannau sy'n nodi'r dyddiad dynodi a'r prif nodweddion a arweiniodd at ei dynodi:
AHNE Ynys Môn. Ar gael drwy: Ardal-o-Harddwch-Naturiol-Eithriadol-AHNE-Ynys-Môn [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
AHNE Gŵyr. Ar gael drwy Abertawe-ahne [Cyrchwyd 3 Mawrth 2021]
AHNE Llŷn. Ar gael drwy Ahne-llyn-aonb [Cyrchwyd 3 Mawrth 2021]
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy  Ar gael drwy AHNE-Bryniau-Clwyd-a-Dyffryn-Dyfrdwy [Cyrchwyd 03/03/21]
AHNE Dyffryn Gwy. Ar gael drwy: Wye-valley-aonb [Cyrchwyd 4 Mawrth 2021]

rhanbarthol penodol. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn nodi ardaloedd y mae eu tirwedd yn bwysig iawn. Mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig ag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Mae nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar hyd a lled Cymru. Mae tirwedd pob un yn bwysig am resymau gwahanol.

### Ardaloedd Cymeriad Morol

3.4.18 Mae 70% o arfordir Cymru wedi'i ddynodi neu wedi'i gofrestru fel rhan o Barc Cenedlaethol, AHNE, Arfordir Treftadaeth neu Dirwedd Hanesyddol. Mae gwybodaeth am forwedd yn ategu'r wybodaeth sydd ar gael am y dirwedd a chyda'i gilydd mae'r ddau fath o wybodaeth yn rhoi dealltwriaeth o'r manteision diwylliannol. Mae 29 o Ardaloedd Cymeriad Morol cenedlaethol ac mae Asesiadau Cymeriad Morwedd lleol Sir Benfro, Eryri ac Ynys Môn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am forwedd ar gyfer Cymru gyfan.

### Tirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol

3.4.19 Er mwyn cydnabod gwerth tirweddau hanesyddol, a chodi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd, lluniodd Cadw, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru ac ICOMOS UK y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru[58]. Mae'r Gofrestr yn nodi 58 o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig, sy'n cael eu hystyried fel yr enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirweddau hanesyddol. Mae'r Gofrestr yn darparu gwybodaeth i lunwyr penderfyniadau a rheolwyr tirweddau, er mwyn helpu i sicrhau bod cymeriad hanesyddol y dirwedd yn cael ei gynnal, a phan fydd newid yn cael ei ystyried, ei fod yn seiliedig ar wybodaeth dda.

## Amgylchedd y dŵr a pherygl llifogydd

### Perygl llifogydd

3.4.20 Mae perygl llifogydd yn broblem fawr. Roedd 7,689 eiddo mewn perygl canolig neu uchel o lifogydd llanw yn 2019 ac roedd a 34,813 eiddo mewn perygl canolig neu uchel o lifogydd o afonydd.[59] Gyda'i gilydd mae 245,000 eiddo mewn perygl.[60] Mae'r gost o ddarparu a chynnal seilwaith perygl llifogydd yn sylweddol ac mae'r gost o ddelio â digwyddiadau llifogydd yn uchel iawn hefyd. Mae llifogydd hefyd yn effeithio ar asedau amgylcheddol a hanesyddol.

3.4.21 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu tri chynllun rheoli perygl llifogydd i helpu i reoli perygl llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr ar raddfa ardal basn afon, sy'n cynnwys: Afon Hafren; Afon Dyfrdwy; a Gorllewin Cymru[61]. Ar ben hynny, mae pedwar Cynllun Rheoli Traethlin yng Nghymru sy'n darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol sy'n arwain at erydu a llifogydd. Maen nhw'n cyflwyno

---

[58] Cofrestr Cadw o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol. Ar gael drwy Cadw-ardaloedd-cadwraeth-ac-asedau-hanesyddol-eraill/asedau-hanesyddol-eraill [Cyrchwyd 4 Mawrth 21]
[59] Data StatsCymru. Ar gael drwy: Llesiant-Cymru-dangosyddion-cenedlaethol [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[60] SoNaRR2020: Asesiad o Gyflawni Nod SMNR 3: Lleoedd iach ar gyfer pobl yng Nghymru, wedi'u hamddiffyn rhag peryglon amgylcheddol. Data Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael drwy: Sonarr-2020 [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[61] Ar gael drwy: Cyfoeth-naturiol-cymru-cynlluniau-rheoli-perygl-llifogydd [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]. Cafodd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren ac Afon Dyfrdwy eu cynhyrchu ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd gan eu bod yn berthnasol i rannau o Loegr.

fframwaith polisi i leihau'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol a datblygedig mewn modd cynaliadwy.

3.4.22 Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu problemau llifogydd yn y dyfodol. Rhagwelir cynnydd o 14% mewn dyddodiad cymedrig yn y gaeaf a gostyngiad o 17% mewn dyddodiad cymedrig yn yr haf o dan senario allyriadau canolig[62]. Mae Rhagolygon yr Hinsawdd y DU 2018[63] (UKCP18) yn rhagweld cynnydd yn y dyfodol yn nwysedd digwyddiadau glawiad trwm yn yr haf. Bydd hyn yn effeithio ar amlder a difrifoldeb llifogydd dŵr wyneb a newid yn natur dymhorol yr eithafion gan ymestyn y tymor darfudol o'r haf i'r hydref, gyda chynnydd sylweddol mewn dwysedd glawiad trwm fesul awr yn yr hydref.

### Ansawdd ac adnoddau

3.4.23 Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy yn nodi nifer o gyrff dŵr sydd wedi methu â chyrraedd statws ecolegol da neu well[64]. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu gwella'r cydymffurfiad â statws da drwy gyflawni mesurau'n lleol mewn ffordd integredig. Bydd hyn yn golygu targedu 21 o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru[65] a 7 o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy.[66] Addasu ffisegol yw'r un ffactor mwyaf yn hyn o beth, gyda llygredd o byllau glo gwag, amaethyddiaeth a dŵr gwastraff yn ffactorau pwysig. Mae llawer o afonydd yn agored i niwed oherwydd newid yn yr hinsawdd gan fod llif yn tueddu i godi a chwympo'n gyflym mewn ymateb i lawiad. Mae llif uwch yn ystod y gaeaf, ac ar ôl digwyddiadau glawiad sylweddol, hefyd yn gallu rhoi mwy o bwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio a gall hyn arwain at fwy o lygredd gwasgaredig.[67]

3.4.24 Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Dŵr Cymru (2019) yn nodi y rhagwelir y bydd gan ddau o'r 24 Parth Adnoddau Dŵr ddiffyg galw cyflenwad hyd at 2050 oni bai fod ymyriadau rheoli fel mesurau rheoli galw neu adnoddau newydd yn cael eu rhoi ar waith.

## Priddoedd, mwynau a gwastraff

### Priddoedd

3.4.25 Mae geoamrywiaeth Cymru yn arwyddocaol. Mae dros 1,000 SoDdGA, sy'n cynrychioli oddeutu 12% o arwynebedd y wlad. Mae dau Geoparc Byd-eang UNESCO, Geo Môn a Fforest Fawr, yn cwmpasu 1,483 km2 ac maen nhw hefyd wedi cael eu dynodi at y prif ddiben o hyrwyddo geo-twristiaeth.

3.4.26 Mae SoNaRR2016 yn dangos bod pridd ac ansawdd tir amaethyddol Cymru yn adlewyrchu ei thopograffeg a'i daeareg. Mae'r rhan fwyaf o Gymru naill ai'n Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 4 neu 5, sy'n dir amaethyddol o ansawdd gwael neu wael iawn, yn

---

[62] Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
[63] Y Swyddfa Dywydd (2018), UK Climate Projections. Ar gael drwy: Met-office-ukcp-headline-findings [Cyrchwyd 4 Mawrth 2021]
[64] Cynlluniau Rheoli Basn Afon Cyhoeddwyd 2015 - 2021 ar gael drwy: Cyfoeth-naturiol-cymru-cynlluniau-rheoli-basn-afon [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[65] Ibid.
[66] Ibid.
[67] Llywodraeth Cymru (2016) *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2016*

bennaf oherwydd natur ucheldirol Cymru yn bennaf. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar y mathau o amaethyddiaeth gyda llawer o ffermio da byw. Mae priddoedd Gradd 1 i 3a Dosbarthiad Tir Amaethyddol (y gorau a'r mwyaf amlbwrpas) yn adnodd prin a chyfyngedig ac yn cynrychioli tua 7% o arwynebedd tir Cymru. Mae adroddiad 2016 hefyd yn dangos bod ansawdd pridd wedi dirywio dros amser ar draws pob cynefin ar wahân i goetiroedd lle mae ansawdd y pridd wedi gwella rhywfaint. Mae cyflwr yr adnodd mawndir yn wael gan mwyaf, sy'n golygu nad yw hi mor hawdd lliniaru newid hinsawdd ac elwa o nifer o'r gwasanaethau rheoli mae mawndiroedd mewn cyflwr da yn gallu eu darparu[68].

### Mwynau

3.4.27 Mae mwyngloddio metelau wedi dod i ben yn dilyn cyfnod hir, a dim ond chwarela llechi a chloddio am lo ar lefel leol sy'n cael ei wneud bellach. Y diwydiant agregau yw'r prif ddiwydiant echdynnu mwynau erbyn hyn, gan gynnwys agregau morol ac agregau sy'n tarddu o'r tir. At ei gilydd, cafodd tua 17,352,000 tunnell o fwynau eu hechdynnu yn 2014, a'r mwyaf o'r rhain oedd calchfaen a dolomit (8,934,000 tunnell)[69]. Bydd yr economi genedlaethol a hyder yn y diwydiant adeiladu a'r newid i economi carbon isel yn dylanwadu ar echdynnu mwynau yn y dyfodol.

### Gwastraff

3.4.28 Nod Cymru yw dod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050[70]. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran rheoli gwastraff. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2019/20[71] yn dangos bod 65.1% o wastraff awdurdodau lleol wedi cael ei ailgylchu/ailddefnyddio/compostio (i fyny o 54.3% yn 2013/14). Anfonwyd 7.5% i safleoedd tirlenwi o'i gymharu â 37.5% yn 2013/14.

## Ansawdd aer

3.4.29 Yn gyffredinol mae ansawdd aer yn dda, yn bennaf oherwydd natur wledig Cymru a'r gostyngiad mewn diwydiant trwm sydd wedi arwain at allyrru llai o rai llygryddion. Fodd bynnag, ceir lefelau uchel iawn o lygredd lleol, yn bennaf oherwydd traffig ar y ffyrdd. Mae llygredd aer yn cyfrannu at oddeutu 2,000 (6% o'r cyfanswm) o farwolaethau bob blwyddyn a chredir ei fod yn effeithio'n anghymesur ar y rheini mewn ardaloedd difreintiedig[72]. Mae ansawdd aer gwael, yn enwedig o ddyddodiad nitrogen, hefyd yn gallu effeithio ar rai cynefinoedd a rhywogaethau.

3.4.30 Ar hyn o bryd mae 40 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer[73] dynodedig, ac mae pob un ohonynt yng nghanol ardaloedd trefol Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe ac yn ymwneud ag allyriadau cerbydau. Mae naw Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi cael eu diddymu. Cafodd

[68] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Ar gael ar-lein: Sonarr-2020 [Cyrchwyd Gorffennaf 2021]
[69] Llywodraeth Cymru (2016) *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2016*
[70] Llywodraeth Cymru (2020) Mwy nag Ailgylchu
[71] Ar gael drwy: Rheoli-gwastraff-trefol-awdurdodau-lleol
[72] SoNaRR2020: Lleoedd iach ar gyfer pobl yng Nghymru, wedi'u hamddiffyn rhag peryglon amgylcheddol. Data Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael drwy: Sonarr-2020 [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]
[73] Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Cymru. Ar gael drwy Ardaoedd-rheoli-ansawdd-aer [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021]

y diweddaraf ei diddymu ym mis Ionawr 2021 ym Mro Morgannwg. Cafodd dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer hefyd eu diddymu yng Nghasnewydd yn 2018[74]. Mae *Cynllun Aer Glân Cymru*[75] Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella ansawdd aer er budd iechyd.

### Materion cynaliadwyedd allweddol

- Yr angen i gynnal ac i wella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer eu gwerth cadwraeth natur.
- Yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac argyfyngau byd natur gyda'i gilydd.
- Yr angen i ddiogelu, i warchod ac i wella tirweddau pwysig am eu gwerth cynhenid a'u pwysigrwydd i hunaniaeth Cymru.
- Yr angen i gefnogi'r gwaith o ddiogelu a darparu mannau gwyrdd hygyrch yn agos at lle mae pobl yn byw.
- Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.
- Yr angen i gynllunio ac i sicrhau ymateb cydnerth a chynaliadwy i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- Yr angen i sicrhau bod seilwaith rheoli/atal llifogydd yn cael ei ddarparu'n amserol, gan gynnwys atebion ar sail natur, sy'n gallu gwrthsefyll bygythiadau newid yn yr hinsawdd.
- Yr angen i leihau sgil-gynhyrchion gwastraff, hybu ailddefnyddio ac ailgylchu, a chefnogi prosesu gwastraff sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.
- Yr angen i hyrwyddo defnyddio adnoddau mwynol yn effeithlon i sicrhau bod digon i ddarparu ar gyfer y seilwaith, yr adeiladau a'r ynni sydd eu hangen ar y wlad ar yr un pryd â gwneud y defnydd gorau ohonynt i sicrhau eu cadwraeth yn yr hirdymor.
- Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i'r aer a sicrhau bod ansawdd yr aer yn gwella.
- Yr angen i gefnogi ymdrechion i leihau nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

## 3.5 Diwylliannol

### Y Gymraeg

3.5.1 Mae'r Gymraeg yn elfen bwysig o hunaniaeth a diwylliant Cymru. Yn hanesyddol roedd y nifer a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn disgyn, ond mae'r patrwm hwn wedi newid ers dechrau'r 1990au gyda chynnydd cyffredinol erbyn hyn. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg bellach yn bwnc gorfodol mewn ysgolion. Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* yn rhan annatod o ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg a'i nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn a chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau, i 20% erbyn 2050.

[74] Ffigurau o Defra-aqma [Cyrchwyd 2 Mawrth 2021]
[75] Ar gael drwy: Cynllun-aer-glân-i-Gymru-awyr-iach-Cymru-iach [Cyrchwyd 8 Mawrth 2021]

3.5.2 Canfu'r Arolwg Blynyddol diweddaraf o'r Boblogaeth mai 872,200 (28.8%) oedd nifer y bobl dros 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg[76]. Mae'r ardaloedd Awdurdod Lleol sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru (Ynys Môn 65.6%; Gwynedd 75.5%) a gorllewin Cymru (Ceredigion 60.9%; Sir Gaerfyrddin 50.5%). Mae'r ardaloedd sydd â'r canrannau isaf yn ne Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr 17.5%; Blaenau Gwent 17.6%; Torfaen 17.7%; Sir Fynwy 18.3%).

3.5.3 Yn 2020, roedd canran yr oedolion 16 oed a hŷn a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn 14%.[77] Mae 10% o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd[78]. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn dangos bod 68% o siaradwyr Cymraeg yn hyderus a bod 36% yn poeni am gael eu beirniadu[79]. Mae cydberthynas glir rhwng gallu a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

3.5.4 Dengys y data diweddaraf ar agweddau at yr iaith y byddai 62% o'r rheini nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn dymuno gallu ei siarad. Dywedodd 86% o bobl fod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi.[80]

## Asedau diwylliannol a threftadaeth

3.5.5 Mae asedau treftadaeth yn amrywio o olion archaeolegol, i adeiladau, strwythurau ac olion tirweddau. Mae gan Gymru doreth o asedau treftadaeth sy'n cyfrannu at ei hunaniaeth ddiwylliannol. Mae llawer o'r asedau hyn yn darparu lleoedd i gymryd rhan, i ryngweithio ac i ddysgu mewn ffordd weithredol. Mae nifer ohonynt yn asedau pwysig o ran twristiaeth hefyd. Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn asedau sy'n bwysig yn gyffredinol. Ceir tri Safle Treftadaeth y Byd:

- Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd yng Nghaernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech yng Ngogledd Orllewin Cymru;
- Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn Ne Ddwyrain Cymru; a
- Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

3.5.6 Mae dros 4,000 o henebion cofrestredig[81], dros 30,000 o adeiladau wedi'u rhestru am eu harwyddocâd hanesyddol[82], dros 700 o feysydd brwydrau[83] ac oddeutu 350 o barciau a gerddi hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol[84]. Mae Cadw yn cadw cofnod o'r asedau treftadaeth hyn ac yn gweithio i ganfod pob un sydd mewn perygl o ddadfeilio, esgeulustod neu bwysau datblygu. Mae'r data diweddaraf o 2015 yn awgrymu bod tua 8.54% o adeiladau rhestredig mewn perygl, sy'n ostyngiad bach o'r 8.92% a gofnodwyd yn

[76] Stats Cymru (2020) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Gallu siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael drwy: StatsCymru-Arolwg-Blynyddol-o'r-Boblogaeth-Iaith-Gymraeg [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]
[77] Llywodraeth Cymru (2020) Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2019 – Mawrth 2020 Ar gael drwy: Arolwg-cenedlaethol-Cymru-prif-ganlyniadau-Ebrill-2019-Mawrth-2020
[78] Arolwg-cenedlaethol-Cymru-dangosydd-canlyniadau [cyrchwyd 26 Chwefror]
[79] Ibid.
[80] Ibid.
[81] Cadw-henebion-cofrestredig [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]
[82] Cadw-adeiladau-rhestredig [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]
[8383] Cadw-meysydd-brwydrau-hanesyddol-Cymru [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]
[84] Cadw-parciau-a-gerddi-hanesyddol-cofrestredig [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]

2013[85]. Mae nifer o asedau treftadaeth heb eu dynodi hefyd (fel adeiladau sy'n bwysig i'r ardal leol) sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardaloedd ac sy'n bwysig i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol leol. Ar ben hynny, mae dros 500 o ardaloedd cadwraeth wedi cael eu nodi gan awdurdodau cynllunio lleol oherwydd eu pwysigrwydd i gymeriad hanesyddol yr ardal.

3.5.7 Yn ogystal â bygythiadau o esgeulustod a datblygiad ansensitif, gall newid yn yr hinsawdd gyflwyno heriau ffisegol, economaidd a/neu ddiwylliannol i'r amgylchedd hanesyddol. Gall asedau hanesyddol fod yn agored i wyntoedd cryfion, ymchwyddiadau storm ac erydiad tra gallai hafau poethach, a allai gynyddu twristiaeth a chefnogi'r economi, hefyd niweidio asedau bregus.[86]

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, treftadaeth, chwaraeon a hamdden

3.5.8 Mae cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau celf, treftadaeth, chwaraeon a hamdden yn helpu i gefnogi llesiant diwylliannol. Dangosodd Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru[87] fod 61% o bobl wedi ymweld â safle hanesyddol o leiaf 3-4 gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf; roedd 43% wedi ymweld ag amgueddfa; roedd 19% wedi mynd i weithgareddau celfyddyd; ac roedd 32% wedi bod mewn llyfrgell gyhoeddus. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i rai 2017-18 (ymweliadau â safle hanesyddol – 59%; ymweld ag amgueddfa – 40%; cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddyd – 29%; mynd i lyfrgell 34%).

3.5.9 At ei gilydd, roedd 71% o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith yn ystod 2019-20. Mae hyn ychydig yn is na ffigur 2017-18 sef 75%. Roedd 68% o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy yn ystod 2019-20, a oedd yr un fath yn 2017-18 a 2018-19. Dywedodd 50% o bobl eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon ar wahân i gerdded yn ystod 2019-20. Roedd hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar allu pobl i gymryd rhan wyneb yn wyneb mewn nifer o ddigwyddiadau, ond mae data diweddaraf yr arolwg yn awgrymu bod y nifer sy'n cymryd rhan yn dal yn uchel.

## Materion cynaliadwyedd allweddol

- Yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gefnogi'r cynnydd diweddar yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Yr angen i ddiogelu, i warchod ac i wella amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys adnoddau treftadaeth ddiwylliannol, adeiladau hanesyddol a nodweddion archaeolegol a'u hamgylchoedd.
- Yr angen i hyrwyddo mynediad at asedau treftadaeth ddiwylliannol Cymru.
- Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at gymeriad tirweddau a threfweddau fel rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

85 Cadw-cyflwr-adeiladau-rhestredig-yng-Nghymru [cyrchwyd 25 Chwefror 2021]
86 Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (2020) Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru. Ar gael drwy: Cadw-addasu-i-newid-hinsawdd [9 Mawrth 2021]
87 Arolwg-cenedlaethol-Cymru-dangosydd-canlyniadau [cyrchwyd 26 Chwefror]

- Yr angen i hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau celf, treftadaeth, chwaraeon a hamdden.
- Yr angen i hyrwyddo rôl diwylliant fel arf pwerus i gefnogi newid ymddygiadol ehangach a all helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## 3.6 Materion cynaliadwyedd allweddol

3.6.1 Mae'r prif faterion cynaliadwyedd a nodwyd yn yr adrannau blaenorol wedi'u nodi yn **Nhabl 3.1**.

Tabl 3.1 Materion cynaliadwyedd allweddol

| Dimensiwn datblygu cynaliadwy | Mater cynaliadwyedd allweddol |
|---|---|
| **Economaidd** | • Yr angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni economi gynaliadwy a llesiant sy'n llewyrchus, yn wyrddach ac yn fwy cyfartal.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â lefelau diweithdra ac incwm isel.<br>• Yr angen i gefnogi mentrau lleol a chynhyrchu lleol.<br>• Yr angen i symud oddi wrth ddiwydiannau carbon-ddwys a dechrau newid tuag at gefnogi technoleg a diwydiannau carbon isel yn unig, mewn ffordd sy'n lleihau yn hytrach na pharhau ag anghydraddoldebau ac sy'n sicrhau newid cyfiawn i bawb.<br>• Yr angen i ddarparu cyfleoedd addysgol i bawb a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol.<br>• Yr angen i gefnogi addysg STEM i helpu i gefnogi twf mewn diwydiannau ynni adnewyddadwy a charbon isel a chefnogi newid cyfiawn i dechnolegau carbon isel newydd ym mhob sector.<br>• Yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob sector, gan gefnogi'r ymdrech fyd-eang i liniaru newid yn yr hinsawdd, ar yr un pryd â chynnal datblygiad a thwf economaidd.<br>• Yr angen am fuddsoddiad yn y sector twristiaeth a chefnogaeth iddo. |
| **Cymdeithasol** | • Yr angen i addasu i boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio gyda chynnydd yn dilyn mewn materion iechyd fel dementia.<br>• Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes.<br>• Yr angen i leihau lefelau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig mewn cymdeithas.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi gwelliannau i'r stoc dai i sicrhau tai o ansawdd da i bawb.<br>• Yr angen i sicrhau newid cyfiawn a chefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i effeithiau'r hinsawdd.<br>• Yr angen i gefnogi gostyngiad mewn troseddu gwirioneddol ac ofn troseddau.<br>• Yr angen i hyrwyddo cymunedau cydlynus sydd â chysylltiadau da.<br>• Yr angen i hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dilyn hynny.<br>• Yr angen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith digidol i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn cael y mynediad angenrheidiol at y band eang cyflymaf. |

| Dimensiwn datblygu cynaliadwy | Mater cynaliadwyedd allweddol |
|---|---|
| | |
| **Amgylcheddol** | • Yr angen i gynnal ac i wella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer eu gwerth cadwraeth natur.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac argyfyngau byd natur gyda'i gilydd.<br>• Yr angen i ddiogelu, i warchod ac i wella tirweddau pwysig am eu gwerth cynhenid a'u pwysigrwydd i hunaniaeth Cymru.<br>• Yr angen i gefnogi'r gwaith o ddiogelu a darparu mannau gwyrdd hygyrch yn agos at lle mae pobl yn byw.<br>• Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.<br>• Yr angen i gynllunio ac i sicrhau ymateb cydnerth a chynaliadwy i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br>• Yr angen i sicrhau bod seilwaith rheoli/atal llifogydd yn cael ei ddarparu'n amserol, gan gynnwys atebion ar sail natur, sy'n gallu gwrthsefyll bygythiadau newid yn yr hinsawdd.<br>• Yr angen i leihau sgil-gynhyrchion gwastraff, hybu ailddefnyddio ac ailgylchu, a chefnogi prosesu gwastraff sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.<br>• Yr angen i hyrwyddo defnyddio adnoddau mwynol yn effeithlon i sicrhau bod digon i ddarparu ar gyfer y seilwaith, yr adeiladau a'r ynni sydd eu hangen ar y wlad ar yr un pryd â gwneud y defnydd gorau ohonynt i sicrhau eu cadwraeth yn yr hirdymor.<br>• Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i'r aer a sicrhau bod ansawdd yr aer yn gwella.<br>• Yr angen i gefnogi ymdrechion i leihau nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. |
| **Diwylliannol** | • Yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gefnogi'r cynnydd diweddar yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br>• Yr angen i ddiogelu, i warchod ac i wella amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys adnoddau treftadaeth ddiwylliannol, adeiladau hanesyddol a nodweddion archaeolegol a'u hamgylchoedd.<br>• Yr angen i hyrwyddo mynediad at asedau treftadaeth ddiwylliannol Cymru.<br>• Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at gymeriad tirweddau a threfweddau fel rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.<br>• Yr angen i hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau celf, treftadaeth, chwaraeon a hamdden.<br>• Yr angen i hyrwyddo rôl diwylliant fel arf pwerus i gefnogi newid ymddygiadol ehangach a all helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. |

3.6.2 Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd wedi'i chanfod, cyn belled ag y bo modd, o setiau data diweddar sy'n defnyddio ystod eang o ffynonellau awdurdodol a swyddogol. Fodd bynnag, mae oedi amser amrywiol rhwng casglu a chyhoeddi data. O ganlyniad i hynny, adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, efallai fod y waelodlin neu'r tueddiadau a ragwelir yn y dyfodol wedi amrywio o'r rheini a ddisgrifir uchod.

3.6.3 Mae'r data a gasglwyd i gwblhau'r waelodlin hon yn perthyn i'r cyfnod cyn pandemig Covid-19 i raddau helaeth. Dim ond o bryd i'w gilydd mae data sy'n ymwneud â'r newidiadau hyn yn dod ar gael, ac mae'n bosibl y bydd nifer o flynyddoedd cyn y gellir pennu'r effeithiau, ynghyd ag a yw'r newidiadau i'r waelodlin wedi bod yn rhai tymor byr neu'n rhai parhaus. Mae hyn yn ansicrwydd ychwanegol yn yr asesiad, a lle bo'n berthnasol, darparwyd rhywfaint o sylwebaeth ansoddol.

# 4. Methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull gweithredu yng nghyswllt Arfarniad o Gynaliadwyedd Cymru Sero Net. Mae'n nodi'r fframwaith arfarnu (Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a sut mae hwn wedi cael ei ddefnyddio i arfarnu prif gydrannau Cymru Sero Net.

## 4.2 Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.2.1 Mae sefydlu amcanion a chwestiynau canllaw priodol ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ganolog i arfarnu effeithiau cynaliadwyedd Cymru Sero Net. Roedd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd[88] 2019 a ddaeth gyda *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel:* yn cynnwys 10 amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer arfarnu Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Er mwyn sicrhau cysondeb â dull gweithredu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cyntaf ac er mwyn cyfrannu at fonitro cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau'n barhaus, roedd amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn fan cychwyn ar gyfer Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chwestiynau canllaw ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd Cymru Sero Net.

4.2.2 Ar ôl adolygu cynlluniau a rhaglenni a'r dadansoddiad o'r waelodlin a wnaed yn **Adrannau 2 a 3**, cytunwyd ar Amcanion a chwestiynau canllaw yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cafodd Amcanion gwreiddiol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (y cytunwyd arnynt ym mis Mawrth 2021) eu mireinio yng ngoleuni'r Rhaglen Lywodraethu newydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 ac adolygiad cyfoes o gynlluniau, rhaglenni a thystiolaeth o'r waelodlin.

4.2.3 Mae **Tabl 4.1** yn cyflwyno Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau canllaw ac mae'n mapio'r rhain i'r saith nod llesiant a'r pynciau sy'n ymwneud â chyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae 'prif' nod llesiant wedi cael ei nodi ar gyfer pob un o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Nid yw hyn yn golygu bod y cysylltiadau eraill a nodwyd yn ddibwys nac yn llai pwysig, ond caiff hyn ei wneud i sicrhau na fydd unrhyw rai o ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, os cânt eu cyflwyno fel hyn, yn cael eu dyblygu ac o ganlyniad, na fydd unrhyw fanteision neu effeithiau niweidiol yn cael eu gorddatgan neu eu tanddatgan.

[88] Ar gael drwy: Cynllun-cyflawni-carbon-isel-arfarnu-cynaliadwyedd [cyrchwyd 3 Mawrth 2021]

Tabl 4.1 Amcanion a chwestiynau canllaw yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

| **Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **Cwestiynau Canllaw** | **Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm)** | **Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | A fydd y polisi/dewis yn:<br>• Cefnogi cyflawni economi lewyrchus, wyrddach a mwy cyfartal?<br>• Cefnogi mwy o weithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â'r sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel?<br>• Hybu mwy o berchnogaeth gyhoeddus/leol dros gynhyrchu ynni?<br>• Cefnogi sicrwydd swyddi a nifer y swyddi drwy wella cynhyrchiant, cynyddu enillion a lleihau costau?<br>• Creu cyfleoedd i bob sector ffynnu mewn economi carbon isel?<br>• Cefnogi gwella cynhyrchiant busnesau fel rhan o ddull economi llesiant?<br>• Cefnogi busnesau twristiaeth a hamdden cynaliadwy?<br>• Cefnogi'r broses o ddatgarboneiddio busnesau gwledig?<br>• Helpu i leihau costau ynni i fusnesau? | **Cymru lewyrchus**<br><br>Cymru o gymunedau cydlynus<br><br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Poblogaeth |
| 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | A fydd y polisi/dewis yn:<br>• Helpu i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth?<br>• Helpu i gefnogi pobl o bob oed a chefndir i gael gwaith?<br>• Cefnogi darparu cyfleoedd cyflogaeth mewn ynni adnewyddadwy carbon isel i bobl o bob cefndir?<br>• Cefnogi gostyngiadau mewn tlodi tanwydd drwy ddarparu swyddi sy'n talu'n dda?<br>• Helpu i gefnogi rhieni i gael gwaith i helpu i fynd i'r afael â thlodi plant?<br>• Helpu i fynd i'r afael â bwlch cyflog rhwng y rhywiau a sgiliau? | **Cymru lewyrchus**<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal | Poblogaeth |

| Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cwestiynau Canllaw | Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm) | Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | • Cynnal ac yn cefnogi cyfleoedd i wella'r economi wledig, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, microfusnesau a chysylltedd digidol?<br>• Helpu i sicrhau bod costau'r economi carbon isel ar aelwydydd ac enillion pobl yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau? | | |
| 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Cefnogi cyflawni ymrwymiadau Cymru/y DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws pob sector?<br>• Creu, yn annog ac yn cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy?<br>• Gwella cadernid pobl, yr amgylchedd a seilwaith o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd?<br>• Helpu i wella diogelwch cyflenwad ynni Cymru?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau (ee, ynni, defnyddio dŵr ac ati) eiddo preswyl, diwydiannol a masnachol a lleihau'r galw am ynni?<br>• Hybu symudiad at ddefnyddio ymddygiadau carbon is (ee dewisiadau trafnidiaeth, dewisiadau defnyddwyr, dewisiadau deiet ac ati)?<br>• Cefnogi buddsoddiad mewn technolegau glanach/gwyrddach?<br>• Helpu i ddiogelu a gwella tir ac asedau rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd (cnydau, coedwigaeth, adeiladau)?<br>• Cefnogi dull rheoli ar lefel yr ecosystem o ymdrin â bioamrywiaeth a gwasanaethau – adnoddau a phriodweddau aer, dŵr a phriddoedd, atafaelu a storio carbon? | Cymru lewyrchus<br><br>**Cymru gydnerth**<br><br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ffactorau Hinsoddol<br><br>Asedau Perthnasol |
| 4. Gwella iechyd a llesiant | A fydd y polisi/dewis yn: | **Cymru iachach** | Poblogaeth |

| **Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **Cwestiynau Canllaw** | **Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm)** | **Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** |
|---|---|---|---|
| corfforol a meddyliol pawb | • Helpu i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, sy'n tyfu?<br>• Cefnogi gwella llesiant meddyliol a chorfforol pobl Cymru?<br>• Cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig i bobl agored i niwed?<br>• Cefnogi darpariaeth a mynediad at dai/gweithleoedd/adeiladau cymunedol/gofal iechyd o ansawdd uchel?<br>• Helpu pobl i gael mynediad at fannau gwyrdd/hamdden o fewn 300m i'w cartref?<br>• Hybu teithio llesol drwy fynediad at seilwaith gwyrdd?<br>• Helpu i gefnogi llesiant drwy well cysylltedd ffisegol a rhithwir?<br>• Cyfrannu at leihau lefelau tlodi plant drwy helpu i leihau tlodi tanwydd?<br>• Cyfrannu at welliannau mewn iechyd meddwl a chorfforol drwy gynnal diogelwch swyddi a goroesiad busnesau drwy'r cyfnod o newid i sero net?<br>• Gwella iechyd corfforol drwy wella ansawdd aer a lleihau salwch anadlol?<br>• Cefnogi gostyngiadau mewn llygredd golau a sŵn a chynnal ardaloedd o lonyddwch sy'n bodoli'n barod?<br>• Helpu i reoli'r risgiau i iechyd corfforol a meddyliol a achosir gan newid yn yr hinsawdd (ee tywydd eithafol, llifogydd, gwres)? | Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru o gymunedau cydlynus | Iechyd Pobl |
| 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Cefnogi darparu cyfleusterau cymunedol a hamdden, a mynediad atynt, a mannau agored/gwyrdd?<br>• Cefnogi hyfywedd amwynderau lleol?<br>• Cefnogi gwneud penderfyniadau'n lleol?<br>• Helpu i ddarparu mannau cyhoeddus diogel, deniadol a chroesawgar i bob aelod o'r gymuned?<br>• Hyrwyddo ymdeimlad o le, perthyn a hunaniaeth? | Cymru iachach<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>**Cymru o gymunedau cydlynus** | Poblogaeth<br><br>Iechyd Pobl<br><br>Treftadaeth Ddiwylliannol |

| Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cwestiynau Canllaw | Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm) | Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | • Helpu i ddathlu amrywiaeth?<br>• Helpu i fynd i'r afael â throseddau ac ofn troseddau?<br>• Cefnogi mynediad at dai o ansawdd da i bawb, beth bynnag fo'u lleoliad?<br>• Creu cyfleoedd a chefnogi mynediad at gyflogaeth â sgiliau priodol er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i bawb?<br>• Creu cyfleoedd i wneud cymunedau'n llai agored i niwed yn ystod y cyfnod o newid i sero net a chynyddu cydlyniant cymunedol drwy gynyddu'r ymdeimlad o berthyn ac ymdeimlad o hunaniaeth?<br>• Helpu i sicrhau cyfiawnder hinsawdd?<br>• Diogelu ac yn gwella adeiladau, asedau diwylliannol a threftadaeth i wella hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn? | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |
| 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | A fydd y polisi/dewis yn:<br>• Cynnal ac yn gwella Safleoedd Gwarchodedig Cymru (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Ramsar, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)?<br>• Datblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled Cymru gyda safleoedd gwarchodedig wrth eu gwraidd?<br>• Cynnal ac yn gwella amgylchedd morol Cymru?<br>• Cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth?<br>• Helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur?<br>• Cyfrannu at ddiogelu a gwella cymeriad ac ansawdd tirwedd/morwedd?<br>• Helpu i gefnogi'r egwyddorion creu lleoedd a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Siarter Creu Lleoedd? | **Cymru gydnerth**<br><br>Cymru iachach<br><br>Cymru o gymunedau cydlynus<br><br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Aer<br><br>Bioamrywiaeth<br><br>Ffactorau Hinsoddol<br><br>Ffawna a Fflora<br><br>Tirwedd<br><br>Treftadaeth Ddiwylliannol |

| **Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **Cwestiynau Canllaw** | **Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm)** | **Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** |
|---|---|---|---|
| | • Rheoli risgiau newid yn yr hinsawdd i amgylchedd naturiol ac adeiledig Cymru?<br>• Gwella ansawdd aer?<br>• Cefnogi gostyngiad yn nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer?<br>• Helpu i hyrwyddo defnyddio adnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy a hyrwyddo gwella ansawdd dŵr?<br>• Cyfrannu at reoli perygl llifogydd yn effeithiol ac yn gynaliadwy?<br>• Helpu i leihau'r galw am ddeunyddiau crai ac yn lleihau'r mwynau sy'n cael eu hechdynnu a'u mewnforio?<br>• Lleihau'r galw am ynni, yn enwedig yn y sectorau mwynau, dŵr a gwastraff?<br>• Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir neu'n cefnogi'r gwaith o reoli gwastraff a gynhyrchir yn gynaliadwy?<br>• Cyfrannu at wella ansawdd pridd a rheoli adnoddau tir yn fwy cynaliadwy, gan gynnwys cnydau a choedwigaeth?<br>• Gwella cadernid ecosystemau a'u gallu i addasu, gan gynnwys atafaelu a storio carbon? | | Asedau Perthnasol<br><br>Dŵr |
| 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a dyheadau mewn addysg?<br>• Cyfrannu at gyfleoedd i blant a phobl ifanc wireddu eu potensial?<br>• Cefnogi buddsoddiad mewn addysg bellach ac uwch?<br>• Helpu i gefnogi buddsoddiad mewn addysg ym maes STEM?<br>• Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant?<br>• Creu ac yn cefnogi datblygu sgiliau, cyfleoedd a llwybrau i gefnogi adferiad gwyrdd a theg? | Cymru lewyrchus<br><br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** | Poblogaeth |

| Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cwestiynau Canllaw | Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm) | Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | • Creu cyfleoedd ac yn cefnogi datblygu sgiliau ym maes technoleg carbon isel a sero net?<br>• Cefnogi busnesau drwy fynediad at rwydweithiau cefnogi a chyflogaeth sydd â sgiliau priodol (gwybodaeth ymarferol arbennig)?<br>• Cefnogi buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu i hyrwyddo economi carbon isel arloesol a blaengar? | | |
| 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Helpu i ysgogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?<br>• Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol?<br>• Cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y cartref?<br>• Cefnogi ac yn gwella traddodiadau a diwylliant drwy helpu i warchod treftadaeth, hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn a thirwedd?<br>• Hyrwyddo mynediad i safleoedd treftadaeth?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden?<br>• Cyfrannu at gydlyniant teuluol a chymunedol?<br>• Cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau'n lleol a chael cymunedau i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau? | Cymru o gymunedau cydlynus<br><br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Treftadaeth Ddiwylliannol<br><br>Poblogaeth |
| 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Cefnogi ac yn gwella a darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ac integredig?<br>• Creu cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith gwyrdd?<br>• Cefnogi rhagor o gyfleoedd i gerdded a beicio? | Cymru Lewyrchus<br><br>**Cymru o gymunedau cydlynus** | Ffactorau Hinsoddol<br><br>Iechyd Pobl |

| Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cwestiynau Canllaw | Mapio i Nodau Llesiant (prif nod wedi'i nodi mewn print trwm) | Mapio i Bwnc Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | • Hybu darparu trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel a di-garbon?<br>• Cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol/band eang er mwyn galluogi pob cymuned i gael mynediad, beth bynnag fo'u lleoliad?<br>• Cyfrannu at reoli risgiau i seilwaith yn sgil effeithiau newid yn yr hinsawdd?<br>• Helpu i ddarparu seilwaith sy'n cefnogi datblygu sgiliau, cymryd rhan mewn penderfyniadau lleol a'r iaith Gymraeg?<br>• Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu seilwaith cerbydau trydan? | | Poblogaeth |
| 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. | A fydd y polisi/dewis yn:<br><br>• Hybu ac yn cefnogi gwasanaethau a chynnyrch carbon isel a di-garbon; ac ynni adnewyddadwy, seilwaith telathrebu ac ynni cadarn ar gyfer allforio – i hyrwyddo Cymru fel arweinydd economi carbon isel?<br>• Cefnogi ac yn helpu i hwyluso symud nwyddau i mewn ac allan o Gymru, yn enwedig ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd?<br>• Helpu i feithrin a chryfhau cysylltiadau byd-eang, gan gynnwys hyrwyddo traddodiadau a diwylliant; defnyddio'r Gymraeg; a hamdden a thwristiaeth?<br>• Cefnogi'r gwaith o ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i hyrwyddo cysylltedd rhyngwladol?<br>• Cefnogi parodrwydd Cymru i gefnogi ffoaduriaid hinsawdd yn y dyfodol. | Cymru Lewyrchus<br><br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Ffactorau Hinsoddol<br><br>Poblogaeth |

## 4.3 Sut mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei ddefnyddio gyda Cymru Sero Net

4.3.1 Mae polisïau a chynigion Cymru Sero Net wedi cael eu harfarnu drwy ddefnyddio Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r system sgorio ansoddol yn **Nhabl 4.2**.

Tabl 4.2 System sgorio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

| Sgôr | Disgrifiad | Symbol |
|---|---|---|
| Effaith Gadarnhaol Sylweddol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcan a/neu'n golygu bod modd datrys materion sydd eisoes yn bodoli. | ++ |
| Effaith Gadarnhaol Fach | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan ond nid yn sylweddol. | + |
| Niwtral | Nid yw'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gyflawni'r amcan | 0 |
| Effaith Negyddol Fach | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu ar gyflawni'r amcan ond nid yn sylweddol. | - |
| Effaith Negyddol Sylweddol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu'n sylweddol ar gyflawni'r amcan. | -- |
| Dim Perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y dewis/polisi arfaethedig a chyflawni'r amcan neu mae'r berthynas yn fach iawn. | ~ |
| Ansicr | Mae gan y dewis/polisi arfaethedig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn dibynnu ar y ffordd caiff yr agwedd ei rheoli. Ar ben hynny, efallai nad oes digon o wybodaeth ar gael er mwyn gallu arfarnu. | ? |

### Polisïau a chynigion Cymru Sero Net

4.3.2 Mae polisïau a chynigion (camau gweithredu) Cymru Sero Net wedi cael eu harfarnu yn erbyn Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ôl pennod sector allyriadau. Rhoddwyd sgôr ar gyfer pob cam gweithredu cyfansoddol ac ar gyfer effaith gronnol pob pennod sector allyriadau. Cafodd yr un dull ei ddefnyddio gydag Adran 2 Cymru Sero Net, sy'n darparu camau gweithredu trawsbynciol. Defnyddiwyd matrics i gofnodi canfyddiadau'r arfarniad, fel y dangosir yn **Nhabl 4.3**, gan fabwysiadu'r system sgorio ansoddol a nodir yn **Nhabl 4.2**. Mae'r matricsau arfarnu yn cael eu cyflwyno yn **Atodiad B.**

Tabl 4.3 Enghraifft o fatrics ar gyfer arfarnu polisïau a chynigion

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi gref, gynaliadwy a charbon isel**

| Polisi/Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | 0 | + | + |

**<u>Effeithiau sylweddol tebygol</u>**
Bydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol a ganfyddir yn cael eu crynhoi yma.

**<u>Effeithiau cronnol</u>**
Bydd yr effeithiau cronnol yn cael eu crynhoi yma.

**<u>Mesurau lliniaru/gwella</u>**
Nodir unrhyw awgrymiadau ar gyfer lliniaru neu wella yma.

**<u>Tybiaethau ac ansicrwydd</u>**
Nodir unrhyw dybiaethau ac ansicrwydd yma.

### Effeithiau cronnol

4.3.3 Fel y nodir uchod, mae polisïau a chynigion Cymru Sero Net wedi cael eu harfarnu fesul pennod sector allyriadau er mwyn pennu effeithiau cronnol pob sector. Ar ben hynny, mae asesiad o'r effeithiau cronnol wedi cael ei gynnal er mwyn gallu adnabod yn glir y meysydd lle mae polisïau'n gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn **Adran 5.3**.

### Asesiad cydnawsedd

4.3.4 Mae asesiad cydnawsedd ychwanegol wedi cael ei wneud i ddangos cydnawsedd neu densiynau rhwng y Penodau Sector Allyriadau y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth weithredu neu ddatblygu polisïau yn y dyfodol. Mae matrics wedi cael ei ddefnyddio i gofnodi canfyddiadau'r arfarniad, fel sy'n cael ei ddangos yn **Nhabl 4.4.** Mae'r asesiad yn cael ei gyflwyno yn **Adran 5.3.**

Tabl 4.4 Enghraifft o asesiad cydnawsedd ar gyfer pob adran o Cymru Sero Net

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynhyrchu trydan a gwres** | | + | + |
| **Trafnidiaeth** | + | | +/- |
| **Adeiladau preswyl** | + | +/- | |
| **Sector allyriadau** | **Cynhyrchu trydan a gwres** | **Trafnidiaeth** | **Adeiladau preswyl** |

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| + | Cydnaws |
| 0 | Niwtral |
| ? | Ansicr |
| - | Anghydnaws |

# 5. Arfarniad o Cymru Sero Net

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei gynnal yn ysbryd y 'pum ffordd o weithio'. Drwy gydol y broses o baratoi Cymru Sero Net, mae Wood wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac wedi ceisio darparu cyngor ynghylch effeithiau tebygol y polisïau/cynigion er mwyn cefnogi'r gwaith ailadroddol o ddatblygu Cymru Sero Net o'r camau cynharaf. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r arfarniad o Cymru Sero Net fel y caiff ei gyhoeddi.

## 5.2 Arfarniad o bolisïau a chynigion Cymru Sero Net

5.2.1 Ar gyfer pob adran o'r cynllun (a elwir yn benodau sector allyriadau), mae tabl sy'n dangos y sgoriau ar gyfer pob polisi/cynnig wedi'i gynnwys gyda sylwebaeth ategol sy'n cyflwyno'r canfyddiadau sy'n canolbwyntio ar arwyddocâd yr effeithiau. Mae'r arfarniad llawn wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**. Mae'r arfarniad yn cael ei gyflwyno yn nhrefn Cymru Sero Net:

- Adran 2 – gosod yr amodau;
- Cynhyrchu trydan a gwres;
- Trafnidiaeth;
- Adeiladau preswyl;
- Diwydiant a busnes;
- Amaethyddiaeth;
- Defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF);
- Rheoli gwastraff;
- Sector cyhoeddus.

## Adran 2 – Gosod yr amodau

### Tabl 5.1 Arfarniad cryno o 'Gosod yr amodau'

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 1 – Trawsnewid cyfiawn** | + | ++ | ++ | + | ++ | + | + | + | 0 | + |
| **Polisi 2 – Argyfwng Natur** | +/- | +/- | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | + | 0 | ++ |
| **Polisi 3 – Y Cynllun Aer Glân** | +/- | +/- | + | ++ | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 | + |
| **Polisi 4 - Meithrin gwyntnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd** | +/- | +/- | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | + | + | ++ |
| **Polisi 5 – Economi Gylchol** | + | + | ++ | + | 0 | + | + | + | + | ++ |
| **Polisi 6 – Dull seiliedig ar leoedd – Polisi Cynllunio Cymru** | + | + | + | 0 | + | + | 0 | + | + | 0 |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| Polisi 7 – Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol | ++ | ++ | ++ | 0 | ++ | +/- | + | + | + | 0 |
| Polisi 8 – Cynllun gwella'r gyllideb | + | + | ++ | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi 9 - Strategaeth Fuddsoddi mewn Seilwaith | ++/? | ++ | ++/? | 0 | 0 | ++/? | + | 0 | ++ | ? |
| Polisi 10 - Prisio Carbon | - | - | ++ | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi 11 – Datblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Sero Net | + | ++/? | ++/? | 0 | ++ | 0 | ++/? | 0 | 0 | ? |
| Polisi 12 - Arloesi | ++/? | ++/? | ++/? | 0 | 0 | 0 | ++/? | 0 | 0 | ? |
| Polisi 13 - Digidol | ++ | ++/- | +/? | 0 | 0 | 0 | + | 0 | ++ | + |
| Polisi 14 – Gweithredu rhyngwladol | + | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Polisi 15 – Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Newid Cymdeithasol** | 0 | 0 | + | + | ++ | 0 | + | + | 0 | + |
| **Polisi 16 – Ymgynghori ar Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd** | 0 | 0 | + | + | ++ | 0 | 0 | + | 0 | + |
| **Cynnig 1 – Datblygu strategaeth tymor hir i hyrwyddo newid deiet tuag at ddeiet iachach ac addas** | + | 0 | + | ++/? | + | ++/? | 0 | + | 0 | + |
| **CRONNOL** | ++/- | ++/- | ++ | ++ | ++ | ++ | ++/? | + | ++ | ++ |

5.2.2 Mae Adran 2 - Gosod yr amodau Cymru Sero Net yn ceisio cyfuno camau gweithredu a chreu atebion cadarn a chynaliadwy i ateb heriau newid hinsawdd. **Ac ystyried natur drawsbynciol y polisïau hyn, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol ar draws yr ystod o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.3 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu nodi ar gyfer newid hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Bydd y polisïau'n cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau'r gostyngiad gofynnol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng nghyllideb garbon 2 ac yn rhoi Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni sero net yn 2050. Mae'r adran hon yn gosod y cyd-destun i gyflawni newid cyfiawn ac i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd gyda'i gilydd, yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu, gan alluogi buddsoddiad mewn seilwaith gofynnol a hyrwyddo 'economi gylchol'.

5.2.4 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer iechyd a llesiant, cydlyniant cymdeithasol a'r amgylchedd (Amcanion 4, 5 a 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Bydd yr adran yn helpu i fynd i'r afael â materion ansawdd aer ac anghydraddoldebau iechyd ac yn cefnogi gwelliannau i'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth sydd wrth galon polisi Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd ynghylch y newid hefyd yn rhywbeth sy'n debygol o gefnogi iechyd meddwl, a helpu i fynd i'r afael â phryder am newid hinsawdd. Mae cefnogi deietau sy'n fwy cynaliadwy ac yn defnyddio llai o garbon yn debygol o helpu ffyrdd iachach o fyw, cydlyniant a'r amgylchedd.

5.2.5 Bydd datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net yn cefnogi cyfleoedd hyfforddi newydd yn y cyfnod pontio, tra bydd buddsoddi mewn seilwaith digidol ac arloesedd yn debygol o gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau sy'n galluogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd. **Felly, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol yn debygol ar gyfer Amcanion 7 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch datblygu sgiliau, gan ddibynnu ar ganlyniad datblygu strategaeth yn ystod cyllideb garbon 2.

**5.2.6** Mae Cymru Sero Net yn cydnabod bod busnesau Cymru yn gweithredu ym marchnadoedd y DU ac mewn marchnadoedd rhyngwladol. Ystyrir bod cefnogaeth polisi i weithredu ar ddatgarboneiddio drwy rwydweithiau rhyngwladol, sy'n ceisio hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol, gan geisio mynd ar drywydd cytundebau masnach sy'n arwain y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (ar lefel llywodraeth y DU), a thynnu cymorth oddi ar y sectorau tanwydd ffosil dramor yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo lle Cymru yn y byd a'i rôl yn cefnogi'r broses datgarboneiddio fyd-eang. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ymdrechion gwell i hybu allforion i'r sector ynni glân/adnewyddadwy. **Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.7 **Aseswyd bod cymysgedd o effeithiau cadarnhaol sylweddol ac effeithiau bach ar gyfer yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Bydd cefnogi economi adnoddau isel, mynd i'r afael â'r argyfwng natur a materion ansawdd aer, ar yr un pryd â meithrin gwytnwch yn wyneb newid hinsawdd, yn cefnogi'r newid i sero net yn yr hirdymor. Fodd bynnag, **mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol os bydd polisïau o'r fath yn cyfyngu ar dwf economaidd yn y tymor byr.**

## Cynhyrchu trydan a gwres

Tabl 5.2 Arfarniad cryno o'r sector cynhyrchu trydan a gwres

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 17 – Lleihau Allyriadau o Hylosgi Tanwyddau i Gynhyrchu Trydan** | +/- | +/- | ++ | +/- | +/- | + | +/- | +/- | + | + |
| **Polisi 18 - Fframweithiau cynllunio i gyfyngu ar echdynnu tanwydd ffosil** | +/- | +/- | ++ | +/- | +/- | + | +/- | +/- | + | + |
| **Cynnig 2 – Gwneud Cynhyrchu Pŵer Thermol Newydd yn Barod ar gyfer Sero Net** | ? | 0 | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + |
| **Polisi 19 – Lleihau'r twf mewn allyriadau o weithfeydd Ynni o** | + | - | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Wastraff newydd yng Nghymru** | | | | | | | | | | |
| **Polisi 20 - Dadrisgio ac Integreiddio Buddsoddiad yng Nghymru drwy Gynllunio Ynni** | ++ | ++ | ++ | 0 | + | + | 0 | + | + | 0 |
| **Polisi 21 – Cynllunio'r gwaith o ddarparu'r grid trydan a nwy sydd ei angen arnom ar gyfer Cymru** | + | + | + | 0 | + | +/- | + | 0 | ++ | + |
| **Polisi 22 – Cynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar dir drwy ein trefn gynllunio** | ++ | ++ | ++ | 0 | 0 | +/- | 0 | + | + | + |
| **Polisi 23 - Caniatáu prosiectau storio i gefnogi system ynni hyblyg ac ymatebol** | ++ | ++ | ++ | 0 | 0 | +/- | 0 | + | + | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Polisi 24 - Tystiolaeth, cynllunio a thrwyddedu morol: cefnogi'r gwaith o gyflwyno ynni adnewyddadwy ar y môr ac yn y môr** | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | + |
| **Polisi 25 - Arloesi mewn technoleg ynni adnewyddadwy newydd i sbarduno datgarboneiddio cyflymach a dyfnach a chefnogi'r economi werdd** | ++ | + | ++ | + | 0 | +/- | + | + | + | + |
| **Cynnig 3 – Targedau wedi'u diweddaru ar gyfer Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy i Gefnogi ein Llwybr Sero Net** | ++ | + | ++/? | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| **Polisi 26 – Datblygiadau Ynni** | ++ | + | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **dan Berchnogaeth Leol i Sicrhau Elw Economaidd i Gymru** | | | | | | | | | | |
| **Polisi 27 - Sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru o brosiectau seilwaith sy'n cael eu gweithredu'n fasnachol yng Nghymru** | ++ | ++ | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 |
| **Polisi 28 - Canfod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwres carbon isel** | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 |
| **Polisi 29 - Defnyddio rhagor ar Wres Gwastraff a ffynonellau gwres carbon isel** | + | + | ++ | + | 0 | +/- | + | + | + | + |
| **CRONNOL** | ++ | ++/- | ++ | + | +/- | +/- | + | + | + | + |

5.2.8 **Mae effeithiau cadarnhaol neu gadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer pob un o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n dangos bod yr adran hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r adran hon yn arbennig o gryf o ran cyflawni nodau llesiant 'Cymru lewyrchus' a 'Chymru gydnerth', ond mae'n cefnogi'r holl nodau llesiant yn gyffredinol.**

5.2.9 Mae cynhyrchu trydan a gwres yn torri ar draws pob sector yn Cymru Sero Net, gan ddylanwadu'n drwm ar y newid i sero net yn 2050. Roedd cyflenwi ynni yn gyfrifol am oddeutu 29% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn 2019. Bydd uchelgais y polisïau i ddarparu mwy o ynni adnewyddadwy, a lleihau tanwydd ffosil, yn arwain at ragor o doriadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac felly'n lleihau'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag ynni ar newid yn yr hinsawdd. Mae cymorth i gynhyrchu hydrogen hefyd yn debygol o gynnig nifer o ganlyniadau cadarnhaol o ran diwallu anghenion ynni yn y dyfodol nid yn unig ar gyfer pŵer, ond hefyd ar gyfer gwres a thrafnidiaeth. **Ochr yn ochr â'r gefnogaeth ar gyfer gwell seilwaith grid a threfn gydsynio well, ystyrir bod y sector cynhyrchu trydan a gwres yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.10 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)** gan gydnabod manteision hirdymor sylweddol y polisïau, y cyfraniad at ddiogelwch ynni Cymru, a dadrisgio'r drefn gydsynio i gefnogi penderfyniadau buddsoddi. Gall datganoli cynhyrchu pŵer a chyfleoedd cysylltiedig ar gyfer perchnogaeth gymunedol, a sicrhau'r budd mwyaf i gymunedau Cymru, arwain at fanteision amlochrog i gymunedau ledled Cymru. Mae hyn yn dibynnu ar bolisi cynllunio effeithiol a threfniadau cydsynio a dulliau cynllunio gofodol cysylltiedig fel Cynlluniau Ynni Ardal Leol. **Felly, mae'r adran hon (pennod sector allyriadau) yn cefnogi amrywiaeth o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys cyflogaeth, cydlyniant cymdeithasol a chadernid diwylliant Cymru (Amcanion 2, 5, 7 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.11 **Mae rhai effeithiau negyddol wedi cael eu hasesu yng nghyswllt cyflogaeth a chydlyniant cymdeithasol (Amcanion 2 a 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) oherwydd yr effaith bosibl ar gyflogaeth wrth symud oddi wrth ddefnyddio tanwydd ffosil.** Fodd bynnag, ystyrir y gellid lliniaru hyn drwy ddatblygu ynni adnewyddadwy, pŵer wedi'i ddatgarboneiddio a gweithredu mesurau dal a storio carbon. Bydd angen mesurau lliniaru i sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt yn cael cymorth i ailhyfforddi a datblygu sgiliau er mwyn gwneud iawn am golli unrhyw swyddi. Bydd parhau i reoleiddio'r rheini sy'n allyrru llawer iawn o nwyon tŷ gwydr, a chyfraddau trethi ehangach Llywodraeth y DU ar ddefnyddio tanwydd ffosil mewn trafnidiaeth a phŵer, hefyd yn debygol o roi mwy o bwysau ar y costau defnyddio i ddefnyddwyr. Felly, mae dod o hyd i lwybrau i'r farchnad ar gyfer technolegau adnewyddadwy a buddsoddi yn rhwydweithiau'r system ar gyfer pŵer (a gwres), fel y cynigir yn y polisïau a'r cynigion, yn bwysig o ran galluogi canlyniadau llesiant cadarnhaol a sicrhau bod y newid yn deg a'i fod yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol. **Efallai y bydd effeithiau negyddol tymor byr, gan fod costau ynni yn debygol o godi i ddefnyddwyr, a allai effeithio ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas ac felly arwain at anghydraddoldeb (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.12 **Mae cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu hasesu ar gyfer yr amgylchedd naturiol ac adeiledig (Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)** gan

adlewyrchu y bydd effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd oherwydd llai o allyriadau. Mae hi hefyd yn debygol y bydd amrywiaeth o effeithiau o ganlyniad i ddatblygu seilwaith ynni adnewyddadwy a grid newydd. Fodd bynnag, disgwylir y byddai mesurau lliniaru'n cael eu dal drwy'r system cynllunio defnydd tir i ryw raddau.

wood.

## Trafnidiaeth

Tabl 5.3 Arfarniad cryno o drafnidiaeth

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Cynnig 4 – Gohirio ac adolygu cynigion ffyrdd presennol a methodoleg newydd i asesu pa mor briodol yw cynlluniau ffyrdd yn y dyfodol** | +/- | - | ++ | + | +/- | + | ~ | ? | ++/- | ? |
| **Polisi 30 - Galluogi pobl i weithio gartref neu'n agos at gartref** | + | +/? | ++/? | +/-/? | + | + | ~ | +/? | ? | 0 |
| **Polisi 31 - Cynyddu cyfran y dulliau Teithio Llesol o'r amcangyfrif presennol sef 27% i** | + | +/? | + | ++ | +/- | + | ~ | +/? | ++/- | 0 |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedda u naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| 33% erbyn 2030 ac i 35% erbyn 2040 | | | | | | | | | | |
| Polisi 32 - cynyddu cyfran y dulliau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o'r amcangyfrif presennol sef 5% i 7% erbyn 2030 ac i 13% erbyn 2040 | + | +/? | + | + | +/- | + | ~ | +/? | ++/- | 0 |
| Polisi 33 - Lleihau allyriadau o nwyddau a logisteg | + | 0 | + | + | 0 | + | ~ | + | + | 0 |
| Polisi 34 – cynllunio defnydd tir | + | + | ++ | + | + | + | ~ | + | + | 0 |
| Polisi 35 – Cyflymu'r defnydd o geir a faniau di-allyriadau | +/-/? | +/-/? | ++/? | ++ | + | + | 0/? | 0 | 0 | 0 |
| Polisi 36 - Cynllunio ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan**^ a buddsoddi ynddo | +/-/? | +/-/? | ++/? | + | +/- | +/-/? | 0/? | 0/? | ++/-/? | ? |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 37 – Fflyd bysiau di-allyriadau** | +/-/? | +/-/? | + | ++ | + | + | 0/? | 0 | +/- | ? |
| **Polisi 38 - Pob cerbyd hurio preifat a thacsi i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028** | +/-/? | +/-/? | + | + | + | + | 0/? | 0 | 0 | ? |
| **Polisi 39 – Datgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd** | + | + | + | + | + | +/-/? | 0/? | 0/? | + | 0 |
| **Polisi 40 – Cerbydau nwyddau trwm di-allyriadau** | + | +/-/? | + | + | + | +/-/? | 0/? | 0/? | +/- | ? |
| **Polisi 41 – Lleihau allyriadau o hedfan** | +/? | +/? | + | + | 0 | + | ~ | ~ | + | ? |
| **Polisi 42 – Lleihau allyriadau o forgludiant** | +/? | +/? | + | + | 0 | + | ~ | ~ | + | ? |
| **CRONNOL** | +/- | +/- | ++/? | ++ | +/- | +/-/? | 0/? | +/? | ++/-/? | 0/? |

5.2.13 **Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd gadarnhaol. Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran newid yn yr hinsawdd, iechyd a darparu seilwaith modern, cysylltiedig (Amcanion 3, 4 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.14 Mae trafnidiaeth yn thema drawsbynciol sy'n dylanwadu ar yr allyriadau a wynebir gan lawer o sectorau eraill, i wahanol raddau. Roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am oddeutu 16% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2019, gydag oddeutu 92% yn cael eu rhyddhau o draffig ffyrdd. Mae darparu dewisiadau trafnidiaeth carbon isel a di-garbon yn ganolog i nod Llywodraeth Cymru i fod yn sero net yn 2050. Byddai polisïau'r adran hon yn gallu cyfrannu'n sylweddol at ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru a'r defnydd o ynni yn ystod yr ail gyllideb garbon ac wedi hynny, hyd yn oed drwy ddefnyddio ysgogiadau polisi cymharol fach.

**5.2.15** **Ystyrir bod lleihau'r angen i deithio, cynyddu'r gyfran sy'n defnyddio dulliau teithio llesol/trafnidiaeth gyhoeddus, darparu seilwaith cerbydau trydan a chymorth ar gyfer defnyddio cerbydau trydan yn cael effaith gadarnhaol sylweddol gronnol ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.16 Mae'r polisïau yn yr adran/bennod hon yn hybu cerdded a beicio a fydd yn lleihau'r angen am drafnidiaeth. Bydd cymorth i gerbydau di-allyriadau a gwelliannau i'r ddarpariaeth teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn gwella ansawdd aer. **Yn gyffredinol, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd wedi cael eu nodi ar gyfer iechyd a llesiant (Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.17 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd wedi cael eu hasesu o ran darparu seilwaith modern, cysylltiedig (Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Gyda'i gilydd mae'r polisïau'n arwain at fuddsoddi mewn seilwaith sy'n cefnogi teithio llesol a seilwaith cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy i gefnogi'r broses o symud Cymru i sero net. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai na fydd cyfleoedd buddsoddi ar gael nac yn bosibl mewn ardaloedd gwledig. **Felly, mae effeithiau negyddol bach hefyd wedi cael eu hasesu ar gyfer yr amcan.**

5.2.18 Nid yw effaith pandemig COVID-19 wedi cael ei gwireddu'n llawn eto, ond mae potensial am newidiadau yn y galw am deithio. Er enghraifft, gall patrymau cymudo newid wrth i ddewisiadau mwy hyblyg ar gyfer gweithio gartref ddal eu tir yn y tymor hirach. Mae'r pandemig wedi dangos bod gweithio gartref yn hytrach na gweithio mewn swyddfa yn gwbl ymarferol i nifer o fusnesau. Gallai'r profiad diweddar hwn gyflymu'r newid at weithio gartref a gweithio hybrid. Mewn gwirionedd, nod Llywodraeth Cymru yw bod 30% neu fwy o weithwyr yn gweithio gartref neu'n agos i'w cartrefi ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, mae'r nod o gynyddu gweithio gartref neu'n agos i gartref yn dibynnu ar fynediad at seilwaith band eang cyflym a sefydlog o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd mae Cymru ychydig ar ôl gweddill y DU o ran cyflwyno band eang cyflym iawn a gwibgyswllt, ac mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch y ddarpariaeth. **Mae ansicrwydd o'r fath yn torri ar draws amcanion sy'n ymwneud â chyflogaeth, newid yn yr hinsawdd a seilwaith (Amcanion 2, 3 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Ar ben hynny, mae ansicrwydd rhwng yr allyriadau sy'n cael eu harbed drwy beidio â theithio o'i gymharu â'r allyriadau a allai gael eu creu o ganlyniad i weithio mewn adeiladau preswyl neu leoliadau eraill.**

5.2.19 **O ran yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2) aseswyd bod cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol bach.** Er y byddai'r adran yn cefnogi buddsoddiad mewn technolegau newydd yn gadarnhaol, ac yn golygu bod seilwaith trafnidiaeth yn cael ei ddarparu, mae hi'n bosibl y bydd y buddsoddiad yn cael ei dargedu at ardaloedd trefol ac efallai na fydd ardaloedd gwledig yn gweld y manteision. **Ar ben hynny, er ei bod yn debygol y bydd buddsoddiad mewn technolegau newydd gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd, mae'n debygol y bydd effeithiau negyddol ar ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwasanaethu cerbydau disel/petrol/hybrid.** Bydd angen cefnogi'r diwydiannau hyn drwy'r newid i gadw ac i ailsgilio fel y bo'n briodol.

***5.2.20*** **Fodd bynnag, nodir effeithiau negyddol posibl hefyd ar gyfer rhai o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn enwedig mewn perthynas ag economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), cydlyniant cymdeithasol (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a darparu seilwaith cydnerth (Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Mae'r effeithiau negyddol a nodwyd yn adlewyrchu pryderon ynghylch darparu seilwaith mewn cymunedau gwledig ac i ba raddau y bydd unrhyw gyfleoedd economaidd a chyflogaeth newydd yn lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl ar golli busnes ym meysydd gweithgynhyrchu a gwasanaethu. **Mae pryderon hefyd y gallai ymyriadau ar yr ochr galw, fel codi tâl ar ffyrdd, gael effaith anghymesur ar y rheini sydd dan yr anfantais economaidd fwyaf gan effeithio ar gydraddoldeb a chydlyniant cymdeithasol (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Mae posibilrwydd effeithiau negyddol hefyd wedi cael ei nodi oherwydd yr effeithiau posibl ar dirwedd/trefluniau (Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), ond disgwylir y byddai cynllunio defnydd tir yn lliniaru'r effeithiau hyn.**

**5.2.21** Mae'r polisïau yn yr adran Drafnidiaeth yn adlewyrchu ac yn ategu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Polisi Cynllunio Cymru 11 a Cymru'r Dyfodol wrth geisio lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r gyfran sy'n teithio'n llesol ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. **Ystyrir bod y polisïau'n cefnogi cyflawni'r nodau llesiant yn gyffredinol ond mae potensial i ystyried y polisïau ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â'r nod llesiant 'Cymru o gymunedau cydlynus'.**

## Adeiladau preswyl

### Tabl 5.4 Arfarniad cryno o’r sector adeiladau preswyl

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy’n helpu i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy’n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 43 – Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** | + | ++ | ++ | ++/? | ++/? | ++ | + | + | ++ | + |
| **Polisi 44 – Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) – Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol** | ++ | ++ | ++/? | ++/? | ++/? | ++ | 0 | + | ++ | + |
| **Cynnig 5 – Cefnogi landlordiaid y sector rhentu preifat i wella effeithlonrwydd ynni** | +/? | +/? | ++/? | +/? | +/-/? | +/? | + | 0 | + | + |
| **Cynnig 6 – Cefnogi’r sector perchen-feddianwyr i wella effeithlonrwydd ynni a newid i wres carbon isel** | +/? | 0 | ++/? | +/? | +/-/? | ++ | 0 | + | ? | + |
| **Cynnig 7 – Defnyddio cartrefi gwag unwaith** | ++ | + | +/? | +/? | + | ++ | 0 | + | ? | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| eto a helpu perchnogion i gychwyn ar eu taith i sero net | | | | | | | | | | |
| **Cynnig 8 – Effeithlonrwydd Dŵr a Labelu Dŵr** ***Cyfraniad hwyr i'r cynllun – Ni chafodd ei asesu fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd*** | | | | | | | | | | |
| Polisi 45 – Rhan L Rheoliadau Adeiladu | ++ | 0 | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | 0 | + | + |
| Polisi 46 - Bydd Cartrefi Cymdeithasol yn arwain drwy esiampl drwy gael eu hadeiladu i safonau sy'n uwch na Rhan L | ++ | 0 | +/? | +/? | ++ | +/? | 0 | + | + | + |
| Polisi 47 - Datblygu technegau adeiladu Arloesol i leihau ac i ddiwallu'r galw am ynni mewn adeiladau a defnyddio rhagor o | ++ | 0 | ++ | +/? | +/? | +/? | +/? | 0 | + | +/? |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedd au naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **ddeunyddiau cynaliadwy** | | | | | | | | | | |
| **Polisi 48 - Cymell cartrefi i ddefnyddio ynni'n effeithlon drwy ein Help i Brynu – Cymru** | ++ | ++/? | ++/? | ++ | ++ | +/? | 0 | + | 0 | 0 |
| **Polisi 49 – Treialu Systemau Hyblyg a Digidol Clyfar i [ddefnyddio asedau i'r eithaf] a helpu i leihau'r galw** | ++/? | +/? | ++/? | ++ | ++/-/? | ++ | +/? | + | ++ | + |
| **Polisi 50 – Datblygu ymyriadau i newid ymddygiad ochr yn ochr â'n rhaglenni ehangach** | 0 | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | + | + | 0 | +/? |
| **CRONNOL** | ++/? | + | ++/? | ++/+ | ++/-/? | ++ | + | + | ++/? | + |

5.2.22 **Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd gadarnhaol. Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran yr economi, newid yn yr hinsawdd, iechyd, cydlyniant, yr amgylchedd a seilwaith cysylltiedig (Amcanion 1, 3, 4, 5, 6 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.23 Mae'r camau gweithredu'n ceisio mynd i'r afael â pherfformiad ynni'r sector adeiladau preswyl (sef 10% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn 2019). Mae'r polisïau a'r cynigion yn cydnabod bod angen ôl-osod y stoc dai hŷn (gyda llawer iawn o adeiladau wedi cael eu codi cyn 1919) a defnyddio technolegau newydd i helpu i sicrhau'r newid i ddyfodol di-garbon. **Ystyrir bod hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Byddai darparu adeiladau mwy cydnerth a thechnoleg arloesol i helpu i leihau'r galw am ynni hefyd yn cefnogi seilwaith cydnerth yn sylweddol (Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.24 **Maes o law byddai'r ymdrech i adeiladu neu i ôl-osod adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni economi sero net yn yr hirdymor (Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Rhan o'r newid i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon fydd creu cyfleoedd ar gyfer **hyfforddiant a chyflogaeth newydd, yn enwedig mewn grwpiau targed fel pobl ifanc mewn cymunedau agored i niwed a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar gyflogaeth (Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.25 Mae'r asesiad yn dangos bod y polisïau a'r cynigion yn cefnogi Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd â'r nod o sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio'n fwy cyfrifol, gan gyfuno safonau cenedlaethol fel Rheoliadau Adeiladu a mesurau technolegol, gyda **chynlluniau cymorth wedi'u targedu i sbarduno buddsoddiad mewn newid, yn enwedig ymysg sectorau penodol fel cartrefi cymdeithasol, sy'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gydlyniant cymdeithasol (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.26 **Mae darparu tai o ansawdd uchel, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd, hefyd yn debygol o gefnogi effeithiau cadarnhaol sylweddol ar iechyd a llesiant yn gyffredinol (Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Bydd datgarboneiddio hefyd yn arwain at welliannau i'r amgylchedd naturiol gydag effeithiau cadarnhaol sylweddol yn cael eu hasesu ar gyfer Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.27 **Fodd bynnag, mae effeithiau negyddol posibl wedi'u nodi o ran y baich ariannol y gellid ei roi ar aelwydydd i sicrhau'r mesurau effeithlonrwydd ynni gofynnol (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)**, yn enwedig ymhlith perchnogion y stoc tai hŷn a'r rheini mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat. Mae'n debygol y bydd yn rhaid cydbwyso'r angen a'r galw yn erbyn cynlluniau grant sy'n hyrwyddo newid.

5.2.28 Mae hyd a lled a newydd-deb y newidiadau gofynnol a'r newidiadau arfaethedig yn creu ansicrwydd ynghylch cyflymder a threiddiad y newid. O ganlyniad, bydd angen monitro llawer o'r effeithiau cadarnhaol tebygol sy'n gysylltiedig â gweithredu polisïau er mwyn barnu eu heffeithiolrwydd yn erbyn targedau a gwerth am arian. Yn fwy cyffredinol, mae'r gyfres o bolisïau a chynigion o ran effeithlonrwydd ynni adeiladau yn ategu meysydd polisi ehangach, fel trafnidiaeth ac allyriadau diwydiannol, gyda'r nod o leihau ôl troed

carbon Cymru (Amcanion 1, 3, a 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) ac, o'r herwydd, maent yn gyfraniad pwysig at newid ffisegol, technolegol ac ymddygiadol.

wood.

## Diwydiant a busnes

Tabl 5.5 Arfarniad cryno o'r sector busnes a diwydiant

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Cynnig 9 – Datblygu Tystiolaeth a Dadansoddiad o'r Sector Busnes a Diwydiant – Llywodraeth Cymru** | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | ++ |
| **Cynnig 10 – Blaenoriaethu cymorth ariannol a chefnogaeth arall ar gyfer swyddi glân a gwyrdd** | ++ | ++/? | +/? | + | + | 0 | ++/? | + | 0 | ++ |
| **Polisi 51 – Ysgogi Datgarboneiddio drwy'r Sector Gweithgynhyrchu** | ++ | +/- | ++/? | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + |
| **Cynnig 11 - Datblygu Cynllun Gweithredu** | +/? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Datgarboneiddio ar gyfer y Sector gweithgynhyrchu bwyd a diod erbyn 2026** | | | | | | | | | | |
| **Cynnig 12 – Datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi pysgod a physgota** | +/? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + |
| **Polisi 52 – Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon mewn busnes a diwydiant drwy reoleiddio a chyllido** | ++/? | ? | ++/? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | ++ |
| **Polisi 53 - Rhoi trefn newydd ar waith i reoli llygredd Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT) ar gyfer diwydiant** | +/- | ? | ++/? | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | + | ++ |
| **Polisi 54 - Busnes Cymru** | + | +/? | +/? | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + |
| **Cynnig 13 – Adolygu a datblygu Busnes Cymru** | +/? | +/? | +/? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedda u naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| Cynnig 14 – Adeiladu ar ein Heconomi Sylfaenol | + | + | +/? | + | + | 0 | + | + | + | + |
| Polisi 55 - Ardoll Newid yn yr Hinsawdd a Chytundebau Newid yn yr Hinsawdd - Llywodraeth y DU | ++ | +/? | + | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 | ++ |
| Polisi 56 - Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni (ESOS) | +/- | + | +/? | + | + | + | + | + | + | ++ |
| Polisi 57 - Dulliau symlach o Adrodd ar Ynni a Charbon (SECR) | ++ | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | ++ |
| Cynnig 15 – Clystyrau Diwydiannol – newid tanwydd | ++ | +/-/? | ++/? | 0 | 0 | +/? | 0 | 0 | + | ++ |
| Cynnig 16 – Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei pholisïau i gefnogi newid tanwydd | + | + | ? | 0 | 0 | +/? | 0 | 0 | + | + |
| Cynnig 17 – Parhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedda u naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Ddefnyddio a Storio Casglu Carbon dros gyllideb garbon 2** | | | | | | | | | | |
| **Cynnig 18 – Clystyrau Diwydiannol – Casglu, Defnyddio a Storio Carbon –** | ++ | +/? | ++/? | 0 | 0 | + | 0 | 0 | ++/? | ++ |
| **Cynnig 19 – Cael gwared â nwyon tŷ gwydr** | +/- | 0 | ? | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | ++ |
| **Cynnig 20 – Cynllun Cyflawni Eiddo** | +/? | 0 | + | 0 | + | 0 | + | 0 | +/? | +/? |
| **Cynnig 21 – Cynllun Sgorio Effeithlonrwydd Ynni Eiddo (PEERS)** | + | 0 | +/? | + | + | + | + | + | + | ++ |
| **Polisi 58 – Banc Datblygu Cymru** | +/? | +/? | +/? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + |
| **Cynnig 22 – Datblygu mecanweithiau cefnogi newydd i hybu ac i gefnogi arloesedd mewn Datgarboneiddio Diwydiannol** | ++ | ++/? | +/? | + | +/? | +/? | +/? | +/? | 0 | ++ |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Polisi 59 - Cronfa Dyfodol yr Economi** | ++ | + | + | + | +/? | +/? | +/? | +/? | + | ++ |
| **Polisi 60 - Ffrydiau Cyllido Llywodraeth y DU ar gyfer Datgarboneiddio Diwydiannol ac Effeithlonrwydd Ynni** | ++ | ++/? | ++/? | + | 0 | +/? | 0 | 0 | + | ++ |
| **CRONNOL** | ++ | ++/- | ++/? | + | + | + | + | + | + | ++ |

5.2.29 **Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran yn cefnogi'r gwaith o gyflawni holl Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd gadarnhaol. Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran yr economi, cyflogaeth, newid yn yr hinsawdd a chyfrifoldeb byd-eang (Amcanion 1, 2, 3 a 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.30 Mae'r polisïau a'r cynigion yn yr adran hon yn darparu'r sail ar gyfer sicrhau canlyniadau cynaliadwyedd cadarnhaol i ddiwydiant ac i fusnes, gan nodi bod llawer o ffactorau allanol fel yr economi fyd-eang a buddsoddiad yn gallu dylanwadu'n gryf ar y ffordd bydd y sector preifat yn ymateb i'r her o symud at sero net. Serch hynny, mae'r ystod o fesurau polisi 'annog a gorfodi' yn creu'r fframwaith ar gyfer newid cadarnhaol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sgoriau sy'n gyffredinol gadarnhaol wrth gymharu ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae natur ynni-ddwys llawer o brosesau diwydiannol yn golygu y bydd cefnogaeth barhaus yn bwysig er mwyn eu galluogi i weithredu'n gosteffeithiol, gan gyd-fynd â'r gofynion rheoli amgylcheddol, er mwyn cynnal cystadleurwydd.

5.2.31 Mae'r angen i fynd i'r afael â nwyon tŷ gwydr yn amlwg gan fod diwydiant a busnes gyda'i gilydd yn gyfrifol am oddeutu 29% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn 2019. **Bydd sicrhau economi ddi-garbon (Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), cefnogi cyflogaeth gynaliadwy (Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Amcan 3) yn effaith gadarnhaol sylweddol o'r polisïau hyn**, er bod ansicrwydd ynghylch pa mor effeithiol fydd y cyfraniad cyffredinol, pa sectorau busnes y gallai fod angen anogaeth ychwanegol arnynt a materion na ellir eu rhagweld (megis cyflymder y newid technolegol i helpu i ddatgarboneiddio), yn dylanwadu ar lwyddiant gweithredu polisïau yng nghyllideb garbon 2 ac ar y llwybr at sero net yn 2050.

5.2.32 Mae hyd a lled a chymhlethdod newid gweithrediadau diwydiannol a busnes i rai carbon isel yn peri her sylweddol ac er bod yr effeithiau tebygol yn cael eu hasesu fel rhai cadarnhaol yn gyffredinol, mae ansicrwydd ynghylch cyflymder a graddfa'r newid. O ganlyniad, mae monitro a gwerthuso ymyriadau polisi ar sail sylfaen dystiolaeth gadarn yn hanfodol, wedi'i ategu gan ystod ehangach o ymyriadau rheoleiddiol a seiliedig ar gymhellion ar gyfer sectorau fel y rheini a nodwyd ar gyfer diwydiannau bwyd a diod a physgota a chynlluniau fel y Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni (ESOS) a chyllid Llywodraeth y DU ar gyfer datgarboneiddio. **Mae'r cyfleoedd i wella hyfforddiant a sgiliau (Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) a'r manteision cysylltiedig ar gyfer iechyd a llesiant a datblygu cymunedol (Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio diwydiant a busnes yn debygol o fod yn gadarnhaol**, er ei bod yn fwy anodd barnu'r effeithiau cyffredinol ar gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) o ystyried cymhlethdod y maes polisi hwn.

5.2.33 Yn gyffredinol, mae bwriad cadarnhaol y polisïau'n debygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn erbyn y gyfres o amcanion cynaliadwyedd, gan adlewyrchu'r gydnabyddiaeth o fwriad clir a defnyddio ystod eang o ymyriadau i gyflawni'r nodau a osodwyd. **Mae hyn yn cael ei adelwyrchu ym mherfformiad y polisïau yn erbyn Amcan 10 (Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang) sy'n gadarnhaol iawn.**

5.2.34 Er bod datgarboneiddio a newid tanwydd yn gadarnhaol mewn egwyddor, gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol megis costau uchel ac effeithiau canlyniadol ar gyfleoedd cyflogaeth yn y busnesau sy'n newid. **Felly, mae rhai effeithiau negyddol bach hefyd yn cael eu hasesu ar gyfer Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

## Amaethyddiaeth

Tabl 5.6 Arfarniad cryno o'r sector amaethyddiaeth

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Polisi 61 - Rheoliadau i leihau llygredd amaethyddol** | 0 | + | + | + | + | ++ | 0 | 0 | ~ | 0 |
| **Polisi 62 – Glastir** | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | ++/? | 0 | +/? | ~ | 0 |
| **Polisi 63 - Grant Busnes i Ffermydd** | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | + | ++/? | 0 | ~ | 0 |
| **Polisi 64 - Grant Cynhyrchu Cynaliadwy** | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | ++/? | ++/? | +/? | ~ | 0 |
| **Polisi 65 - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid** | ++ | + | + | + | + | + | ++ | + | ~ | 0 |
| **Polisi 66 – Rhaglen Datblygu Cig Coch** | ++ | + | +/- | + | + | + | ++ | + | ~ | 0 |

© Wood Group UK Limited

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 67 - Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth** | ++ | + | +/- | + | + | + | ++ | + | ~ | 0 |
| **Polisi 68 – Cyswllt Ffermio** | + | + | + | + | + | + | ++ | +/? | ~ | 0 |
| **Polisi 69 – Y Bil Amaethyddiaeth** | + | + | 0 | + | + | + | 0 | + | ~ | 0 |
| **Cynnig 23 – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** | + | + | + | + | + | ++ | + | + | ~ | 0 |
| **Cynnig 24 – Gweithio gyda ffermwyr a'r sector gwastraff i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac ailddefnyddio mwy ar ffermydd** | + | + | + | + | + | + | + | + | ~ | 0 |
| **Cynnig 25 – Effeithlonrwydd Tanwydd (Llywodraeth Cymru)** | + | + | + | + | + | + | ++ | + | ~ | 0 |
| **Cynnig 26 – Cefnogi arloesedd mewn** | + | + | + | + | + | + | ++ | + | ~ | 0 |

© Wood Group UK Limited

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| ynni/technoleg adnewyddadwy | | | | | | | | | | |
| Cynnig 27 – Troi'n organig | + | + | + | + | + | ++ | + | + | ~ | 0 |
| Cynnig 28 – Ffermio Manwl | + | + | + | + | +/? | + | + | + | ~ | 0 |
| Cynnig 29 – Rhannu Tir | + | 0 | + | + | + | + | 0 | + | ~ | 0 |
| Cynnig 30 – Edrych ar y potensial i gefnogi Garddwriaeth | + | + | + | + | + | +/-/? | + | + | ~ | 0 |
| CRONNOL | ++ | + | +/- | + | + | ++ | ++ | + | ~ | 0 |

**5.2.35** **Yn gyffredinol, byddai'r adran yn darparu amrywiaeth o fanteision llesiant. Cafodd sgoriau cadarnhaol yn erbyn y rhan fwyaf o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer yr economi, yr amgylchedd a dysgu gydol oes (Amcanion 1, 6 a 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Felly, ystyrir bod yr adran yn cefnogi'n benodol y gwaith o gyflawni nodau llesiant 'Cymru lewyrchus' a 'Chymru gydnerth'.**

5.2.36 Mae'r adran hon yn ceisio cefnogi'r sector amaethyddol drwy'r newid i sero net. Mae'r adran yn ceisio lleihau allyriadau carbon heb amharu ar gystadleurwydd economaidd y sector amaethyddol yng Nghymru, drwy ddarparu grantiau/cyllid a chymorth. Yn gyffredinol, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer yr economi (Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) i gydnabod pwysigrwydd canolog economi cefn gwlad Cymru.

5.2.37 Mae'r polisïau'n ceisio creu sector amaethyddol mwy cynaliadwy, lleihau allyriadau a gynhyrchir o weithgareddau ffermio a lleihau faint o lygredd aer, dŵr a phridd sy'n gysylltiedig â'r sector. Byddai amrywiaeth o welliannau bioamrywiaeth hefyd, er enghraifft, drwy blannu coetiroedd newydd, gwella cynefinoedd a rheoli maethynnau. Gellid hefyd disgwyl rhagor o arbedion effeithlonrwydd amaethyddol i warchod y dirwedd wledig. **Felly, ystyrir bod y polisïau'n cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol (Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.38 Mae'r adran hefyd yn cynnwys nifer o bolisïau sy'n ceisio rhoi technolegau newydd ar waith a/neu ymgorffori arferion gweithio cynaliadwy newydd ar gyfer rheoli da byw. Bydd hyn yn helpu'r sector i newid i sero net, a fydd yn golygu bod modd datblygu sgiliau newydd i ateb yr heriau y mae'n eu hachosi. **Felly, ystyrir bod yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar ddysgu gydol oes (Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pawb yn y sector amaethyddol yn gallu cael mynediad at ddatblygu sgiliau beth bynnag fo'u hoed.

5.2.39 Mae'r sector amaethyddol yn canolbwyntio'n bennaf ar dda byw, sy'n cynhyrchu amrywiaeth o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid a methan) ac roedd y sector yn gyfrifol am oddeutu 14% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn 2019. Bydd cyflawni'r polisïau a'r cynigion yn cefnogi buddsoddiad mewn arferion amaethyddol i leihau allyriadau, creu coetiroedd a rheoli pridd (gan helpu i atafaelu carbon) a bydd hynny'n cefnogi ymdrechion y sector i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Fodd bynnag, byddai parhau i gynhyrchu cig a chynnyrch llaeth, hyd yn oed ar ôl gwella effeithlonrwydd, yn cael rhai effeithiau negyddol ar Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, o ystyried y dwysedd carbon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu. Mae hyn hefyd yn debygol o atgyfnerthu deiet sy'n fwy carbon-ddwys. **Felly, mae effeithiau cadarnhaol a negyddol bach cymysg yn cael eu hasesu ar gyfer newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

**5.2.40** Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan bwysig i hunaniaeth Cymru wledig, drwy arferion ffermio, y cydgysylltiad â chymunedau gwledig a thrwy'r tirweddau a lunnir gan y sector. Byddai'r polisïau a'r cynigion yn yr adran hon yn cefnogi amaethyddiaeth drwy'r newid i sero net, gan gyfrannu ymhellach at greu naws am le, ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth a'r iaith Gymraeg. Felly, **mae effeithiau cadarnhaol wedi cael eu hasesu o ran cydlyniant cymunedol a chymdeithasol a diwylliant a'r iaith Gymraeg (Amcanion 5 ac 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.41 Mae rhywfaint o ansicrwydd, yn enwedig yng nghyswllt cynlluniau grant/cyllid. Bydd cyllid ar gyfer Grantiau Bach Glastir, y Grant Busnes i Ffermydd, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn amodol ar adolygiad cynhwysfawr o wariant 2021. Gall hyn effeithio ar amrywiaeth o fanteision llesiant a nodwyd. Mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch cyllid ar gyfer Cyswllt Ffermio, y Rhaglen Datblygu Cig Coch a'r Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth yn ystod cyllideb garbon 2 a allai effeithio ar effeithiau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r hirdymor os na fyddant yn parhau neu'n cael eu disodli.

## Defnyddio tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF)

Tabl 5.7 Arfarniad cryno o'r sector LULUCF

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 70 – Creu Coedwig Genedlaethol i Gymru** | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | ~ | ~ |
| **Polisi 71 – Cynllun Creu Coetir** | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | ~ | ~ |
| **Cynnig 31 – Denu buddsoddiad y sector preifat i Greu Coetiroedd** | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | ~ | ~ |
| **Cynnig 32 – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (maes coetir)** | + | + | + | +/? | +/? | + | +/? | +/? | ~ | ~ |
| **Cynnig 33 – Cefnogi teuluoedd a chymunedau i blannu coed** | + | 0 | + | +/? | +/? | + | +/? | ++ | ~ | ~ |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Cynnig 34 – Datblygu Strategaeth Ddiwydiannol Pren newydd i Gymru** | ++ | + | ++/- | +/-/? | +/? | +/- | +/? | +/? | ~ | +/- |
| **Polisi 72 – Gweithredu Rhaglen Adfer Mawndiroedd** | + | + | ++ | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | ~ | ~ |
| **Cynnig 35 – Gwahardd gwerthu mawn mewn compost** | 0 | 0 | +/? | +/? | +/? | + | ~ | ~ | ~ | +/? |
| **Cynnig 36 - Ymchwilio i gyfraniad posibl carbon glas i gyflawni sero net** | +/? | +/? | ++/? | +/? | ~ | ++/? | ~ | ~ | ~ | ~ |
| **CRONNOL** | ++ | + | ++ | ++/? | ++/? | ++ | +/? | ++ | ~ | +/- |

5.2.42 **Yn gyffredinol, byddai'r adran yn darparu amrywiaeth o fanteision llesiant. Cafodd sgôr gadarnhaol ar gyfer y rhan fwyaf o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac roedd effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran yr economi, newid yn yr hinsawdd, iechyd, cydlyniant, yr amgylchedd a diwylliant (Amcanion 1, 3, 4, 5, 6 a 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.43 Mae'r adran hon yn ceisio cefnogi'r sector LULUCF drwy'r newid i sero net yn 2050. Mae manteision a chyfleoedd economaidd yn bodoli yn y sector ULULUCF, yn bennaf drwy ehangu'r diwydiant pren, a'r potensial am weithgarwch economaidd o ganlyniad i reoli coetiroedd, mawndiroedd ac asedau carbon glas yn well. **Byddai gweithgarwch economaidd o'r fath yn wyrdd ac yn garbon isel gan mwyaf ac yn cyfrannu'n sylweddol at economi fwy cynaliadwy yng Nghymru a allai ddefnyddio adnoddau mwy cynaliadwy (pren) (Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.44 Mae'r sector LULUCF yn llyncu allyriadau ac yn 2019 amcangyfrifwyd ei fod wedi llwyddo i ddal 250 MtCO2 o allyriadau. Roedd Cymru wedi cwblhau ei phrosiect adfer mawndiroedd â chyllid carbon cyntaf yn 2021 ym Mwlch y Groes. Roedd hyn yn golygu adfer 66 hectar o fawndir ac mae disgwyl iddo storio 2,335 tunnell o allyriadau carbon dros y 35 mlynedd nesaf (Coedwig Carbon). Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod adnoddau carbon glas yn storio 26,100 tunnell o garbon bob blwyddyn a'u bod eisoes yn storio o leiaf 113 miliwn tunnell o garbon. **Felly, mae angen diogelu ac ehangu adnoddau o'r fath er mwyn i Gymru gyflawni ei nodau cynaliadwyedd ehangach ac mae'n arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.45 Mae'n bosibl i'r polisïau a'r cynigion ddarparu cyfleoedd ar gyfer swyddi sy'n wyrdd yn bennaf. Byddai ehangu coetiroedd a'u rheoli'n briodol, ochr yn ochr â'r cynnig i reoli adnoddau mawn, yn creu swyddi a'r potensial i ddarparu cyfleoedd hyfforddi/addysgol i boblogaeth Cymru ddysgu'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer economi'r dyfodol (Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

5.2.46 Nid yw manteision sylweddol y polisïau a'r cynigion hyn wedi'u cyfyngu i'r economi, creu swyddi na mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae coetiroedd a mawndiroedd yn aml yn fannau pwysig iawn i fwynhau gweithgareddau hamdden oddi wrth yr amgylchedd adeiledig. **Mae manteision iechyd corfforol a meddyliol coetiroedd yn sylweddol ac yn galluogi pobl i ddilyn ffyrdd iachach o fyw sy'n cyfrannu'n sylweddol at gyflawni Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd**. Mae coetiroedd hefyd yn gallu bod yn fannau cymunedol pwysig. Dylid ystyried y cyfleoedd i roi mynediad i'r cyhoedd i goetiroedd preifat. **Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.47 Mae coetiroedd, mawndiroedd ac amgylcheddau carbon glas yn bwysig i'r amgylcheddau naturiol ac maent yn cynnig dewis hollol wahanol i amgylcheddau adeiledig. **Mae'r asedau naturiol hyn yn gynefinoedd i nifer fawr o blanhigion ac anifeiliaid a byddai eu hehangu'n arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** Mae'n bosibl y bydd adfer mawndiroedd yn arwain at fanteision sylweddol gan fod mawndiroedd yn cynnwys cymysgedd o gynefinoedd gwyrdd a glas ac os byddant yn cael eu colli, nid yw'n hawdd cael rhywbeth yn eu lle.

5.2.48 Gallai ehangu diwydiant pren Cymru helpu gwledydd eraill i fod yn fwy cynaliadwy drwy ddefnyddio pren cynaliadwy o Gymru, gan nad yw pob gwlad yn gallu cynhyrchu eu pren

eu hunain yn effeithlon/gynaliadwy. Mae’r adran hefyd yn cyfeirio at bosibilrwydd archwilio sut gallai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar wledydd eraill i sicrhau nad ydynt yn peryglu eu hadnoddau mawn eu hunain drwy ei ddefnyddio mewn compost. **Byddai hyn oll yn arwain at effeithiau cadarnhaol o ran cefnogi lle Cymru yn y byd (Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.49 O ystyried natur y polisïau a’r cynigion, gan mwyaf mae’r effeithiau a nodwyd yn gymysgedd o effeithiau cadarnhaol sylweddol a bach. Mae rhai effeithiau negyddol bach wedi cael eu hasesu o ran ehangu’r diwydiant pren oherwydd yr allyriadau/llygredd a fyddai’n cael eu creu drwy ehangu diwydiant pren Cymru o ganlyniad i gynaeafu, prosesu a chludo’r pren. Fodd bynnag, **o’i ystyried yn erbyn manteision y polisïau drwy greu coetiroedd, twf economaidd a thrwy ddarparu adnodd cynaliadwy (pren) ni aseswyd unrhyw effeithiau negyddol cronnol**. Mae’n bosibl hefyd y bydd y polisi hwn yn lliniaru ei hun yn y Strategaeth Ddiwydiannol Pren derfynol.

## Rheoli Gwastraff

### Tabl 5.8 Arfarniad cryno o reoli gwastraff

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylchedda u naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 73 - Lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi** | + | +/? | ++ | ++ | ~ | ++ | ~ | ~ | ~ | + |
| **Cynnig 37 – Cynnydd pellach yn y capasiti casglu a defnyddio CH4 mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru erbyn 2030** | + | +/? | ++ | ++ | ~ | ++ | ~ | ~ | ~ | + |
| **Polisi 74 – Cynnydd pellach mewn ailgylchu** | + | +/? | ++ | ++ | ~ | ++ | ~ | ~ | + | + |
| **Polisi 75 – Ymgyrch Bydd Wych** | + | 0/? | + | + | + | 0 | ~ | + | ~ | 0 |
| **CRONNOL** | + | +/? | ++ | ++ | + | ++ | ~ | + | + | + |

5.2.50 **Yn gyffredinol, byddai'r adran yn darparu amrywiaeth o fanteision llesiant. Cafodd sgôr gadarnhaol ar gyfer y rhan fwyaf o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac roedd effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran newid yn yr hinsawdd, iechyd a'r amgylchedd (Amcanion 3, 4, a 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.51 Mae rheoli gwastraff yn briodol yn rhan annatod o newid Cymru i fod yn economi ddiwastraff a sero net erbyn 2050. Amcangyfrifir bod gwastraff yn gyfrifol am 3% o allyriadau yn 2019. Mae'r nwyon tŷ gwydr wedi bod yn parhau i ddisgyn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae modd eu lleihau ymhellach a byddai'r adran hon yn parhau i sicrhau bod allyriadau o wastraff yn cael eu lleihau. Mae allyriadau o storio a phrosesu gwastraff yn gallu cael effeithiau sylweddol a hirdymor ar yr amgylchedd leol ac ehangach. Byddai'r polisïau a'r cynigion yn arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol drwy ddefnyddio'r hierarchaeth rheoli gwastraff a sicrhau bod angen llai o dirlenwi. Byddai hyn yn arwain at golli llai o dir (a fyddai'n debyg o gael ei golli'n barhaol) i waredu gwastraff. Mae ailgylchu yn lleihau'r angen am dirlenwi ymhellach ac yn sicrhau nad yw Cymru'n gor-ddefnyddio adnoddau neu nwyddau, gan arwain at gynhyrchu llai o wastraff. **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu nodi ar gyfer newid hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Mae gostyngiad mewn gwastraff yn arwain at lawer o fanteision iechyd i drigolion Cymru o ran llai o allyriadau, a llai o arogl sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.52 O ganlyniad i'r polisïau a'r cynigion hyn, byddai llai o effaith ar amgylcheddau adeiledig a naturiol Cymru yn y dyfodol oherwydd bydd llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu a bydd yn cael ei reoli a'i ailgylchu'n well, **gan arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd**.

5.2.53 **Mae effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi o ran yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)** gan y byddai'r adran yn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd i fusnesau, a chefnogi twf bach mewn cyflogaeth. Byddai swyddi sy'n cael eu creu gan y polisïau hyn yn helpu'r farchnad swyddi yng Nghymru wrth newid i fathau mwy amgylcheddol gynaliadwy o gyflogaeth.

5.2.54 Er mwyn gweithredu nodau'r polisïau a'r cynigion hyn, byddai angen seilwaith gwastraff newydd er mwyn casglu a didoli gwastraff yn well i ddiwallu'r angen am fwy o ailgylchu. Felly, **aseswyd effaith gadarnhaol o ran darparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn (Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Mae'r polisïau a'r cynigion yn feiddgar ac yn gosod Cymru ar flaen y gad ym maes rheoli gwastraff gan gefnogi Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.55 Mae ailgylchu'n dod yn rhan annatod o ddiwylliant Cymru yn raddol wrth i'r boblogaeth barhau i ailgylchu mwy. Drwy barhau i gefnogi polisïau, byddai'r patrwm hwn yn parhau wrth i ailgylchu ddod yn haws i'w gyflawni ac wrth i'r seilwaith ehangu i gwrdd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a phoblogaeth Cymru (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

5.2.56 **Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol cronnol o ganlyniad i'r asesiad** yn erbyn Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan y byddai'r adran hon yn gyffredinol yn darparu ystod eang o effeithiau cadarnhaol sylweddol a bach. Mae'r unig ansicrwydd a nodwyd yn ymwneud â chreu swyddi gan ei bod yn anodd rhagweld mewn modd mesuradwy faint o swyddi fyddai'n cael eu creu (Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

## Sector cyhoeddus

### Tabl 5.9 Arfarniad cryno o'r sector cyhoeddus

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| **Polisi 76 - Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio'r Map Llwybr a'r Canllaw Adrodd i ddatblygu ac i gyhoeddi cynlluniau erbyn mis Mawrth 2023 i sicrhau sector cyhoeddus Sero Net ar y cyd erbyn 2030.** | + | + | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + |
| **Polisi 77 - Bydd cynllun Llywodraeth Cymru i gyflawni sero net fel sefydliad erbyn 2030 yn cael ei gyhoeddi cyn mis Mawrth 2023.** | + | +/? | ++/? | ~ | + | + | + | + | + | + |

wood.

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Polisi 78 - Llywodraeth Cymru i gynnwys ymrwymiadau Sero Net Cymru yn ein llythyrau cylch gwaith a'n trefniadau noddi gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru** | + | + | + | ~ | + | ~ | + | ~ | ~ | + |
| **Cynnig 38 - Sefydliadau Llywodraeth y DU sydd â phresenoldeb sylweddol yng Nghymru i ddatblygu ac i gyhoeddi cynlluniau sy'n nodi sut byddant yn cefnogi uchelgais Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030** | + | + | + | ~ | + | ~ | + | ~ | ~ | + |
| **Polisi 79 - Caffael Cynaliadwy** | + | ++ | + | + | 0 | ~ | + | ~ | ~ | + |
| **Cynnig 39- Mae pob eiddo sector cyhoeddus sy'n cael ei adeiladu neu ei** | ++ | ++ | ++ | + | ++ | +/-/? | ++ | + | ++ | ~ |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| adnewyddu yn y dyfodol yn cyrraedd safon sero net erbyn 2030 (Polisi) | | | | | | | | | | |
| Polisi 80 - Dylai pob car a cherbyd nwyddau ysgafn newydd yn y sector cyhoeddus fod yn ddi-allyriadau/allyriadau isel iawn erbyn 2025 a cherbydau nwyddau trwm erbyn 2030 | ++ | ++ | ++ | + | ~ | + | ++ | ~ | ++ | ~ |
| Polisi 81 - Dylai pob sefydliad sector cyhoeddus ddeall potensial atafaelu'r tir mae'n berchen arno erbyn mis Mawrth 2023 ac ymrwymo i gymryd camau i wireddu'r potensial hwn erbyn mis Mawrth 2030 | 0 | 0 | ++ | + | 0 | + | 0 | ~ | ~ | ~ |
| Polisi 82 - Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i'r uchelgais sero net ar y cyd | ++ | ++ | ++ | + | + | +/-/? | ++ | + | ++ | + |

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy | 2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn | 3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb | 5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | 6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig | 7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid | 8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth | 9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn | 10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
| erbyn 2030, gan gyflawni drwy Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio'r GIG | | | | | | | | | | |
| Polisi 83 - Dylid creu Cynllun Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol ar y cyd rhwng GIG Cymru ac Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Leol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni sero net ar y cyd erbyn 2030 | + | + | +/? | + | + | ~ | 0 | + | + | + |
| Polisi 84 - Bydd Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol a CLILC yn cefnogi'r ymrwymiadau a wneir gan sefydliadau Llywodraeth Leol i gyflawni'r uchelgais sero net ar y cyd erbyn 2030 | ++ | ++ | ++ | + | + | +/-/? | ++ | + | ++ | + |

| **Prif nod llesiant** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru sy'n fwy cyfartal** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **CRONNOL** | ++ | ++ | ++ | + | ++ | + | ++ | + | ++ | + |

5.2.57 **Byddai'r adran yn darparu amrywiaeth o fanteision llesiant. Cafodd sgôr gadarnhaol ar gyfer holl Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac roedd effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu o ran yr economi, cyflogaeth, newid yn yr hinsawdd, cydlyniant, dysgu gydol oes a seilwaith cydnerth (Amcanion 1, 2, 3, 5, 7 a 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.2.58 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer newid hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Mae'r amrywiaeth o ymyriadau sydd eu hangen – mewn adeiladau, trafnidiaeth, caffael a defnydd tir – ar draws economi a chymdeithas Cymru yn her ddigynsail na ellir ond mynd i'r afael â hi drwy fesurau eang ac integredig fel sy'n cael eu cynnwys yn Cymru Sero Net.

5.2.59 **Aseswyd effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).** Mae'r polisïau'n gweithio gyda'i gilydd fel ffordd o ddangos sut mae'r sector cyhoeddus yn gallu sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran sicrhau'r newid i ddyfodol sero net drwy fuddsoddi mewn cymunedau a thrwy arwain drwy esiampl yn y gwaith o ad-drefnu asedau cyhoeddus i gwrdd â'r heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Bydd y llwybr clir i sector cyhoeddus sero net yn 2030 yn cyflwyno safon bwysig a gweladwy o arferion da y gall yr economi ehangach eu dilyn. Gall polisïau sy'n ymwneud â chyflawni cerbydau sector cyhoeddus di-allyriadau/allyriadau isel iawn, adeiladau sero net, a datgarboneiddio GIG Cymru a llywodraeth leol helpu i sicrhau bod datblygu sgiliau yn gallu bod yn rhan hanfodol o'r newid, oherwydd bydd angen defnyddio technolegau a dulliau newydd i ddatblygu. **Felly aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.**

5.2.60 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd yn cael eu hasesu ar gyfer cydlyniant cymdeithasol (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)**, sy'n adlewyrchu rôl y cyhoedd o ran cyflawni camau gweithredu lleol a chymunedol penodol, gan gynnwys perchnogaeth gymunedol o seilwaith adnewyddadwy, fel rhan o drawsnewid y sector cyhoeddus i sero net yn 2030. **O ystyried y potensial ehangach i fuddsoddi yn seilwaith awdurdodau lleol a GIG Cymru, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd wedi cael eu hasesu ar gyfer Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd,** gan adlewyrchu'r adran a fydd yn cefnogi cadernid seilwaith cymorth buddsoddi ar gyfer cyllideb garbon 2 ac wedi hynny.

## 5.3 Effeithiau cronnol

### Effeithiau cronnol

5.3.1 Mae asesiad o effeithiau cronnol adrannau Cymru Sero Net wedi cael ei gynnal fel y dangosir yn **Nhabl 5.10**. Mae **Tabl 5.10** yn dangos y sgôr gronnol a aseswyd ar gyfer pob adran o Cymru Sero Net yn erbyn pob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn seiliedig ar arfarnu pob polisi yn yr adran honno yn erbyn pob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Mae'r rhes isaf yn rhoi sgôr ar gyfer effeithiau cronnol y cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn pob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Daw'r sgoriau cronnol o ddyfarniad ynghylch perfformiad cyffredinol Cymru Sero Net wrth gymharu ag amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (daw hynny o sgôr gronnol pob adran).

## Tabl 5.10 Arfarniad cryno o'r effeithiau cronnol

| Prif nod llesiant | Cymru lewyrchus | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **1. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy** | **2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn** | **3. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** | **4. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb** | **5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb** | **6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig** | **7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid** | **8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth** | **9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn** | **10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** |
| **Gosod yr amodau** | ++/- | ++/- | ++ | ++ | ++ | ++ | ++/? | + | ++ | ++ |
| **Cynhyrchu trydan a gwres** | ++ | ++/- | ++ | + | +/- | +/- | + | + | + | + |
| **Trafnidiaeth** | +/- | +/- | ++/? | ++ | +/- | +/-/? | 0/? | +/? | ++/-/? | 0/? |
| **Adeiladau preswyl** | ++/? | + | ++/? | ++/+ | ++/-/? | ++ | + | + | ++/? | + |
| **Diwydiant a busnes** | ++ | ++/- | ++/? | + | + | + | + | + | + | ++ |
| **Amaethyddiaeth** | ++ | + | +/- | + | + | ++ | ++ | + | ~ | 0 |
| **Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth** | ++ | + | ++ | ++/? | ++/? | ++ | +/? | ++ | ~ | +/- |
| **Rheoli gwastraff** | + | +/? | ++ | ++ | + | ++ | ~ | + | + | + |
| **Sector cyhoeddus** | ++ | ++ | ++ | + | ++ | + | ++ | + | ++ | + |
| **CRONNOL** | ++ | ++/- | ++ | ++ | ++/- | ++/- | + | + | ++ | + |

5.3.2 **Mae'r asesiad cronnol yn dangos y bydd Cymru Sero Net yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac felly at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

5.3.3 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer yr economi a chyflogaeth (Amcanion 1 a 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) sy'n adlewyrchu'r effaith gadarnhaol gyffredinol a gaiff Cymru Sero Net ar symud Cymru at fod yn economi sero net yn 2050**, gan alluogi buddsoddiad mewn arloesedd a seilwaith a fydd yn cefnogi llesiant economaidd. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau newydd sydd eu hangen ar gyfer y newid a nodwyd effeithiau cadarnhaol bach ar gyfer Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

5.3.4 **Gyda'i gilydd, bydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) gan nodi'r gostyngiadau mewn allyriadau yng nghyllideb garbon 2 a gosod Cymru ar y llwybr at sero net yn 2050.** Mae Cymru Sero Net yn ceisio gwreiddio'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd ar draws pob sector gyda chefnogaeth yr holl randdeiliaid. Mae Cymru Sero Net hefyd yn cefnogi newid ymddygiad, pan fo'n bosibl, i wreiddio datgarboneiddio mewn arferion bob dydd. Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol. Mae hyn hefyd yn cefnogi rôl Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

5.3.5 **Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi cael eu hasesu ar gyfer iechyd a llesiant (Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)** gan adlewyrchu cyfraniad y cynllun at leihau allyriadau i'r aer, cefnogi gwelliannau amgylcheddol naturiol ac adeiledig ehangach a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

5.3.1 **O ran cadernid yr amgylchedd (Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), mae dull gweithredu Cymru Sero Net o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a byd natur gyda'i gilydd a chefnogi gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn arbennig o arwyddocaol.** Fodd bynnag, mae tensiynau'n codi wrth ddatblygu a gweithredu fframwaith polisi cenedlaethol sy'n cael effeithiau pellgyrhaeddol a threiddgar, ac sy'n cael eu gwireddu gan seilwaith yn y dyfodol, gyda rhai ohonynt yn cael effeithiau amgylcheddol uniongyrchol. Fodd bynnag, yn y cyswllt hwn, cydnabyddir y bydd polisïau eraill (megis Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru 11 a pholisïau cynllunio lleol) yn helpu i osgoi neu i leihau effeithiau niweidiol. **Mae cefnogaeth Cymru Sero Net i ddatblygu, darparu a chyflawni seilwaith i ddiwallu'r heriau a achosir gan yr hinsawdd, wedi arwain at ganfod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).**

5.3.2 **Bydd Cymru Sero Net yn helpu i gefnogi cymunedau cydnerth (Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)** er enghraifft drwy berchnogaeth gymunedol o seilwaith ynni adnewyddadwy a chefnogi'r economi amaethyddol wledig drwy'r newid a chefnogi'r amgylchedd a mynediad at goedwigaeth.

5.3.3 **Aseswyd rhai effeithiau negyddol posibl ar gyfer cyflogaeth (Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) sy'n dangos y gallai'r newid i sero net effeithio ar swyddi a chyflogaeth**, ond yn yr hirdymor, bydd y cynllun yn galluogi cyflogaeth a chyfleoedd yn y dyfodol mewn technolegau ynni adnewyddadwy, adeiladu a saernïo ac ati. **O ran cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb (Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd),**

**mae rhai effeithiau negyddol yn adlewyrchu'r posibilrwydd y bydd effeithiau anghymesur y newid yn disgyn ar y rheini sydd lleiaf abl i'w fforddio drwy fwy o gostau tai, pŵer a thrafnidiaeth a'r posibilrwydd y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl yn yr ymdrech i leihau allyriadau trafnidiaeth**. Byddid yn disgwyl llawer o'r effeithiau hyn yn y tymor byr ac yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd.

## Arfarniad cydnawsedd lefel sector

5.3.4 Mae asesiad o gydnawsedd fesul sector hefyd wedi cael ei gynnal i ddangos cydnawsedd neu densiynau rhwng y Penodau Sector Allyriadau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn wrth weithredu neu ddatblygu polisïau yn y dyfodol. Gweler **Tabl 5.11**.

Tabl 5.11 Arfarniad cydnawsedd lefel sector

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynhyrchu trydan a gwres** | | + | + | +/- | +/- | + | +/- | + |
| **Trafnidiaeth** | + | | +/- | + | +/- | + | + | + |
| **Adeiladau preswyl** | + | +/- | | + | + | + | + | + |
| **Diwydiant a busnes** | +/- | + | + | | + | + | +/- | + |
| **Amaethyddiaeth** | +/- | +/- | + | + | | + | + | + |
| **LULUCF** | + | + | + | + | + | | + | + |
| **Rheoli gwastraff** | +/- | + | + | +/- | + | + | | +/- |
| **Sector cyhoeddus** | + | + | + | + | + | + | +/- | |
| **Sector allyriadau** | **Cynhyrchu trydan a gwres** | **Trafnidiaeth** | **Adeiladau preswyl** | **Diwydiant a busnes** | **Amaethyddiaeth** | **LULUCF** | **Rheoli gwastraff** | **Sector cyhoeddus** |

## Crynodeb o'r arfarniad cydnawsedd

5.3.5 Mae'r asesiad cydnawsedd yn dangos bod y sectorau allyriadau yn gydnaws â'i gilydd i raddau helaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull cyffredinol yn Cymru Sero Net i leihau allyriadau yng nghyllideb garbon 2 a gosod y llwybr i gyflawni sero net yn 2050.

5.3.6 Mae synergedd cryf rhwng cynhyrchu trydan a gwres, diwydiant a busnes a thrafnidiaeth. Mae datgarboneiddio'r sector pŵer yn torri ar draws y sectorau hyn a bydd yn dylanwadu ar lwyddiant pob adran o Cymru Sero Net i wahanol raddau. Ar ben hynny, mae synergedd cryf rhwng defnydd tir a choedwigaeth ac amaethyddiaeth, sy'n adlewyrchu bod y

mesurau hynny i gefnogi gwell rheolaeth amgylcheddol drwy amaethyddiaeth a choedwigaeth yn aml yn mynd law yn llaw.

5.3.7 Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i rai pethau anghydnaws. I raddau helaeth mae'r anghydnawsedd hwn yn adlewyrchu'r mesurau penodol sydd wedi'u nodi mewn polisïau a chynigion unigol yn hytrach nag anghydnawsedd cyffredinol yn y nodau i leihau allyriadau. Er enghraifft, gallai ymdrechion i gefnogi gweithio gartref yn yr adran drafnidiaeth gynyddu'r pwysau ar yr allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu yn y sector adeiladau preswyl. Ar ben hynny, gallai lleihau allyriadau o losgi gwastraff nad oes modd ei ailgylchu gynyddu'r pwysau ar wasanaethau rheoli gwastraff y sector cyhoeddus, gan effeithio ar y gallu i gefnogi mwy o ailgylchu, a gwasanaethau eraill i breswylwyr. Yn yr un modd, gallai cefnogi mwy o ailgylchu roi pwysau ychwanegol ar ddiwydiant a busnesau.

5.3.8 Gall lleihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu amaethyddol fod yn anghydnaws â chyflawni gwelliannau trafnidiaeth, gan adlewyrchu bod y sector amaethyddol wedi'i leoli'n bennaf mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r cyfleoedd i gael mwy o gysylltedd yn anoddach nag mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae anghydnawsedd, er enghraifft, o ran cefnogi cerbydau nwyddau trwm di-allyriadau.

5.3.9 Ochr yn ochr â'r anghydnawsedd hwn mae ansicrwydd oherwydd nad yw rhai o'r camau gweithredu yn Cymru Sero Net wedi cael eu profi. Nid oes dealltwriaeth lawn o'r effeithiau ar hyn o bryd.

5.3.10 Yn gyffredinol, mae'r polisïau a'r cynigion yn y sectorau allyriadau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr sydd ei angen yng nghyllideb garbon 2 ac i roi Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni sero net yn 2050. Drwy gyllideb garbon 2 ac fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r camau gweithredu yn y cynllun lleihau allyriadau nesaf, ystyrir bod modd mynd i'r afael â llawer o'r anghydnawsedd a'r tensiynau rhwng sectorau. Wrth i dystiolaeth barhau i gael ei datblygu ac wrth i gynnydd gael ei fonitro, mae modd datrys rhywfaint o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gweithredu hefyd.

## 5.4 Ystyried asesiadau statudol o'r effaith

5.4.1 Fel y nodir yn **Adran 1.3**, nid yw Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesiad statudol o'r effaith. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau canllaw, gellir arfarnu prif elfennau'r asesiadau statudol yn fras. Mae'r ystyriaethau'n cael eu rhestru isod:

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

5.4.2 Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i Lywodraeth Cymru roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (gan gynnwys oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth) a'r rheini nad ydynt. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cefnogi'r asesiad hwn. Mae'r effeithiau ar gydraddoldeb yn cael eu hystyried yn bennaf yn Amcanion 2, 4, 5 a 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflogaeth, iechyd, cydlyniant cymdeithasol ac hybu dysgu gydol oes.

5.4.3 Yn gyffredinol, canfuwyd bod Cymru Sero Net yn cefnogi'r gwaith o sicrhau poblogaeth iach, yn hyrwyddo cymunedau cydlynus ac yn cefnogi mynediad at hyfforddiant a datblygu sgiliau. O ran grwpiau agored i niwed, nodwyd gwelliannau sy'n ymwneud ag iechyd, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau mewn ansawdd aer ac allyriadau carbon is a allai gefnogi'r rheini mewn ardaloedd trefol mwy dwys, a'r rheini sydd â chyflyrau iechyd neu anabledd sydd eisoes yn bodoli.

5.4.4 Fodd bynnag, mae'r asesiad wedi canfod bod rhai effeithiau negyddol posibl. O ran cydlyniant cymdeithasol, fel rhan o'r newid, mae'n bwysig nad yw unrhyw gostau uwch o ran cyflenwi ynni, neu fynd i'r afael â thai o ansawdd salach, yn disgyn yn anghymesur ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas, gan waethygu effeithiau tlodi tanwydd. Ar ben hynny, bydd angen cymorth ariannol ar gyfer mynediad at dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, fel cerbydau trydan. Er bod rhai effeithiau negyddol wedi cael eu hasesu, nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi cael eu harfarnu ar gyfer amcanion perthnasol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac nid oes unrhyw faterion penodol wedi cael eu nodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith

5.4.5 Rhaid i Lywodraeth Cymru chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, hwyluso ei defnydd i ddiogelu ei dyfodol er mwyn galluogi'r iaith i ffynnu. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith yn broses sy'n cael ei chynnal i sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu cofnodi'n bennaf yn yr arfarniad o Cymru Sero Net yn erbyn Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ceisio sicrhau cymunedau, diwylliant ac iaith gadarn.

5.4.6 Ar y cyfan, ystyrir bod Cymru Sero Net yn cael effeithiau cadarnhaol gan mwyaf o ran defnyddio'r Gymraeg. Gallai ceisio galluogi mwy o bobl i weithio gartref neu'n agos i'r cartref sicrhau effeithiau o ran hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.

5.4.7 Mae ymdrechion i gynyddu perchnogaeth gymunedol o seilwaith ynni a gwreiddio Cynllunio Ynni Ardal Leol yn gallu helpu i gefnogi cydnerthedd cymunedau, a thrwy hynny mae'n cefnogi'r Gymraeg. Ar ben hynny, byddai polisïau a fydd yn cefnogi'r diwydiant ffermio i newid i sero net yn debygol o gefnogi'r diwylliant a'r naws am le mewn ardaloedd gwledig, sydd fel arfer â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg nag ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi i sicrhau ei bod yn ffynnu drwy'r newid i sero net.

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

5.4.8 Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau sy'n effeithio ar blant a asesir drwy Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r effeithiau ar blant yn cael eu cofnodi'n bennaf drwy Amcanion 2, 4, 5, 7, 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a diwylliant.

5.4.9 Mae'n debygol y bydd effeithiau cadarnhaol ar iechyd plant sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwell a chymorth ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, a all gefnogi rhagor o gyfleoedd i blant gael mynediad at weithgareddau chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau hamdden, a theithio i'r ysgol. Disgwylir y bydd amrywiaeth

o gyfleoedd hyfforddi ac addysg yn gysylltiedig â thechnolegau newydd wrth i'r newid symud ymlaen. Mae'n bwysig bod y rheini sy'n hŷn nag oedran ôl ysgol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r newid yn gwaethygu tlodi tanwydd, sy'n gallu effeithio'n niweidiol ar blant gan arwain at risg uwch o broblemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl.

5.4.10 Ar ben hynny, mae Cymru Sero Net yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â phlant fel rhan o'r dull gweithredu trawsbynciol ar gyfer ymgysylltu sy'n debygol o gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer llesiant plant, o ystyried bod pryder ynghylch risgiau a heriau newid yn yr hinsawdd yn cynyddu. Yn gyffredinol, nid yw'r asesiad wedi canfod effeithiau negyddol sylweddol mewn perthynas ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ni ystyrir bod Cymru Sero Net yn effeithio ar hawliau plant.

## 5.5 Mesurau lliniaru a gwella

5.5.1 Mae amrywiaeth o fesurau lliniaru a gwella penodol wedi'u nodi yn y matrics arfarnu yn **Atodiad B**.

5.5.2 Fel y nodir uchod, mae effeithiau cadarnhaol gan mwyaf wedi cael eu hasesu yn erbyn yr ystod o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae tri argymhelliad cyffredinol ar gyfer datblygu'r polisïau a'r cynigion drwy gyllideb garbon 2 ac ar y llwybr at sero net yn 2050 wedi'u nodi isod:

- **Datrys ansicrwydd:** Mae'r arfarniad wedi tynnu sylw at gryn ansicrwydd o ran y tebygolrwydd y bydd effeithiau'n digwydd a'u maint sydd. Mae hyn yn adlewyrchiad rhannol o ganlyniadau anhysbys gweithredu ac yn aml yr angen i fireinio ymhellach drwy gyllideb garbon 2. Mae ansicrwydd yn aml yn adlewyrchu'r ffaith nad yw rhai meysydd polisi wedi cael eu profi eto a'r angen i fonitro ac i addasu'r gweithredu'n unol â hynny. Bydd datblygu'r trydydd cynllun cyllideb garbon yn gyfle i ddatrys rhywfaint o'r ansicrwydd hwn ar y llwybr at sero net yn 2050.
- **Adolygu effeithiolrwydd polisïau ar y llwybr at sero net:** Bydd angen i benderfyniadau ar effeithiolrwydd hirdymor polisïau a chynigion i gyflawni sero net yn 2050 fod yn seiliedig ar ddatblygu tystiolaeth, ymchwil a monitro drwy gyllideb garbon 2. Bydd hyn yn hollbwysig wrth ddatblygu'r cynllun i fodloni gofynion y drydedd gyllideb garbon ac wedi hynny.
- **Cydlynu a gweithio mewn partneriaeth:** Heb gydlynu a gweithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr a Llywodraeth y DU, mae'n bosibl y collir cyfleoedd costeffeithiol i sicrhau'r newid i sero net ar draws sectorau allyriadau. Bydd angen pwyso a mesur y gydberthynas rhwng pob sector ymhellach drwy gydol cyllideb garbon 2 ac wrth ddatblygu'r dull gweithredu'r cynllun ar gyfer cyllideb garbon 3.

## 5.6 Monitro

5.6.1 Mae Rhan 4 Cymru Sero Net yn nodi'r dull ar gyfer monitro gweithrediad y cynllun. Mae hyn yn golygu gweithredu system Monitro, Adrodd a Gwirio sy'n cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad meintiol o fewn strwythur haenog, i olrhain cynnydd o'r lefel genedlaethol i lawr i lefel polisi. Bydd y dull gweithredu hwn yn mesur gweithrediad ac

effeithiolrwydd Cymru Sero Net. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan fesur cynnydd cenedlaethol yn barhaus yn erbyn 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol[89] fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.6.2 Ystyrir bod y gwaith monitro penodol arfaethedig ar gyfer Cymru Sero Net, ochr yn ochr â monitro parhaus yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, yn darparu sail gadarn i asesu effeithiau Cymru Sero Net. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi dod o hyd yn bennaf i effeithiau cadarnhaol cronnol ar draws ystod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ni aseswyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac nid oes angen rhagor o waith monitro penodol ynghylch yr effeithiau a ragwelir.

[89] Gweler: Dangosyddion cenedlaethol

# 6. Casgliad a'r camau nesaf

## 6.1 Canfyddiadau.

6.1.1 At ei gilydd, daeth yr asesiad o hyd i effeithiau cadarnhaol gan mwyaf mewn perthynas â deg amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac felly mae'n credu bod Cymru Sero Net yn cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant. Daethpwyd o hyd i effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer yr economi a chyflogaeth, mynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella'r amgylchedd, gwella cydlyniant cymdeithasol ac iechyd, a chyflawni seilwaith cadarn ac roedd effeithiau cadarnhaol ar gyfer dysgu gydol oes, y Gymraeg a diwylliant, a chefnogi rôl fyd-eang Cymru.

6.1.2 Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i rai effeithiau negyddol bach hefyd ar gyfer cyflogaeth, cydlyniant cymdeithasol a'r amgylchedd, gan adlewyrchu'r effeithiau posibl ar swyddi, yr effeithiau posibl ar y bobl dlotaf o ran costau tai, pŵer a thrafnidiaeth, a'r potensial i ardaloedd gwledig gael eu gadael ar ôl wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Mae effeithiau negyddol bach hefyd yn ymwneud ag effeithiau seilwaith newydd ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

6.1.3 Ar y cyfan, mae disgwyl i Cymru Sero Net gyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

## 6.2 Y camau nesaf

6.2.1 Bydd Adroddiad yr Adolygiad o Gynaliadwyedd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Cymru Sero Net ym mis Hydref 2021.

6.2.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r camau gweithredu a nodir yn Cymru Sero Net, gan ddiweddaru a mireinio'r dystiolaeth, ac ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer datblygu polisïau a chynigion newydd i gyd-fynd â'r drydedd gyllideb garbon.

6.2.3 Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried canlyniadau'r Arfarniad hwn o Gynaliadwyedd, yn benodol:

- Yr arfarniad yn **Adran 5.2** ac **Adran 5.3**, gan gynnwys yr arfarniad manwl a'r mesurau lliniaru/gwella a nodir yn **Atodiad B**;
- Yr asesiad cydnawsedd (**Adran 5.3**); a
- Y tri argymhelliad cyffredinol yn **Adran 5.5**.

# Appendix A
# Adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni

Gweler yr atodiad ar wahân.

© Wood Group UK Limited

# Appendix B
# Arfarniad o Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025)

Gweler yr atodiad ar wahân.

wood.

ISBN 978-1-80391-186-1

# Atodiad A: Adolygiad o’r cynlluniau a’r rhaglenni

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) (2020)** | Mae’r ddogfen hon yn amlinellu pwysigrwydd ffermio i economi Cymru ar yr un pryd â bod yn ffynhonnell bwyd sy’n cael ei dyfu’n lleol. Mae’n tynnu sylw at anawsterau Brexit a rhwystrau masnach gyda’r UE. Mae hefyd yn sefydlu'r angen i ddatgarboneiddio’r diwydiant ffermio gymaint ag y bo modd ond heb ei beryglu. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud ag arallgyfeirio a thwf economaidd gwledig cynaliadwy.<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio sicrhau bod y sector amaethyddol yn cael ei reoli’n gynaliadwy yn yr hirdymor drwy’r newid i sero net. |
| **Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru (2016)** | Mae’r ddogfen hon yn ceisio annog poblogaeth Cymru i deithio’n llesol. Mae ei gweledigaeth yn cwmpasu nodau’r ddogfen: *“I bobl yng Nghymru mae arnom eisiau i gerdded a beicio ddod yn ddewis ffordd o symud o gwmpas ar deithiau byrion.”* | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud ag iechyd a hybu teithio llesol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn hybu teithio llesol ac yn cefnogi darparu’r seilwaith angenrheidiol, pan fo’n bosibl. |
| **Mwy nag Ailgylchu (2021)** | Mae Mwy nag Ailgylchu yn gosod targed i gyflawni dim gwastraff erbyn 2050 “lle mae’r holl wastraff sy’n cael ei gynhyrchu’n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen unrhyw dirlenwi nac adfer ynni.” Mae’r ddogfen yn amlinellu’r wyth prif gam gweithredu canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru:<br>• Byddwn yn cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon.<br>• Byddwn yn darparu’r arfau i alluogi gweithredu cymunedol.<br>• Byddwn yn rhoi’r gorau’n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â lleihau gwastraff a lleihau effaith amgylcheddol y gwastraff sy’n cael ei gynhyrchu.<br><br>Dylid gwneud Cymru Sero Net gan feddwl am yr wyth cam gweithredu mae’r ddogfen hon yn eu creu. Dylai gefnogi’r gwaith o gyflawni’r camau gweithredu hyn. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | • Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi.<br>• Byddwn yn caffael ar sail sy'n rhoi blaenoriaeth i nwyddau a chynnyrch sydd<br>wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunyddiau cynaliadwy, carbon isel, fel pren.<br>• Byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd.<br>• Byddwn yn lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.<br>• Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff. | |
| **Strategaeth Tlodi Plant (2015)** | Mae'r ddogfen hon yn sefydlu nod Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes yr un plentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020. Mae'r ddogfen yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd gwaith a chyfleoedd hyfforddi i alluogi rhieni i ddod o hyd i waith. Rhwystr mawr i fynd i'r afael â thlodi yw'r "Premiwm Tlodi" ac mae'r ddogfen yn ceisio sefydlu gwasanaethau cynghori i helpu i fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn aml yn cloi pobl mewn tlodi o fewn dirywiad economaidd. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â thwf economaidd, gwella iechyd a darparu gwasanaethau cymunedol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio cynyddu twf economaidd ar yr un pryd â sicrhau bod manteision twf economaidd o'r fath o fudd i'r rheini sydd fwyaf mewn angen. |
| **Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)** | Mae hwn yn ceisio hybu a rheoli cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n gallu siarad a deall Cymraeg. Mae'r ddogfen yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, a chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau, i 20% erbyn 2050. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud a diogelu treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net roi pwys ar sut gall gyfrannu at gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021)** | Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn canolbwyntio ar *"wella bywydau pawb trwy gydweithio, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell."* Mae'n cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau digidol modern, cynhwysiant, sgiliau digidol, yr economi ddigidol, cysylltedd, a data a chydweithio. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella seilwaith digidol a datblygu sgiliau.<br><br>Dylai Cymru Sero Net helpu i gefnogi gwella sgiliau digidol, seilwaith a chysylltedd. |
| **Strategaeth Economaidd i Gymru (diweddariad 2021) y Contract Economaidd** | Mae'r Contract Economaidd yn ceisio cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau er mwyn helpu i sbarduno twf cynhwysol ac ymddygiad cyfrifol, gan gynnwys cynyddu argaeledd gwaith teg, hybu iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle, a datgarboneiddio'r economi. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chyflawni twf economaidd cynaliadwy, datblygu sgiliau, a datgarboneiddio.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gyfrannu at gyflawni'r nodau drwy gefnogi datblygu economaidd cynaliadwy a gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau. |
| **Ynni Cymru: Y Newid i Garbon Isel (2012)** | Mae'r ddogfen hon yn ceisio creu Cymru gryfach a chadarnach sydd â chynaliadwyedd wrth ei chalon. Mae'r ddogfen yn datgan bod gan Gymru lawer o gyfleoedd i wneud hyn, gan gynnwys drwy ddarparu ynni adnewyddadwy. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd naturiol a thwf economaidd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net chwilio am ffyrdd o barhau i dyfu economi Cymru mewn modd cynaliadwy, gan gymryd camau uchelgeisiol i hybu chwyldro gwyrdd. |
| **Cynllun Cyflawni Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2014, diweddarwyd 2019)** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r tair prif flaenoriaeth ganlynol ar gyfer dyfodol Cymru:<br>• rhoi arweiniad i sicrhau bod gan Gymru fframwaith clir a chyson ar gyfer buddsoddwyr, rheoleiddwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau, ynghyd â'r seilwaith, y cydlynu a'r sefydlogrwydd | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â newid i ddyfodol carbon isel.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi twf economaidd mewn sectorau carbon isel ac arloesedd ac ymchwil. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | sydd ei angen i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i wneud busnes;<br>• sicrhau cymaint â phosibl o fanteision i Gymru o safbwynt swyddi a'r economi ehangach ym mhob cam datblygu a gweithredu gan sicrhau hefyd bod manteision hirdymor i'n cymunedau; a<br>• gweithredu nawr er budd dyfodol hirdymor Cymru trwy gefnogi arloesi, ymchwil a datblygu a masnacheiddio yn y meysydd sy'n cynnig y potensial mwyaf i sicrhau manteision hirdymor i Gymru. | |
| **Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016-2026 (2016)** | Mae hon yn amlinellu'r cynllun ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Rhagwelir y bydd twf gwyrdd yn gynyddol bwysig i economi Cymru ac mae'r ddogfen hon yn hybu twf. Mae llawer o fanteision economaidd yn perthyn i effeithlonrwydd ynni'n aml hefyd drwy leihau biliau ynni. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi effeithlonrwydd ynni. |
| **Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21 (diweddariad 2020)** | Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wella addysg drwy hyfforddi athrawon newydd, mynd i'r afael ag enghreifftiau o ddisgwyliadau isel/mynd i'r afael ag ysgolion posibl sy'n "sefyll yn eu hunfan", mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a dyheadau ac ehangu'r cwricwlwm i sicrhau bod mwy o ddysgwyr posibl yn cael eu cynnwys. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol/gwella sgiliau.<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio cefnogi cyflawniad addysgol a hyrwyddo addysg yn y sector carbon isel. |
| **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (2021)** | Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod cerbydau trydan yn dod yn rhan annatod o'r sector trafnidiaeth. Mae sicrhau bod digon o orsafoedd gwefru ar gael ledled Cymru yn hollbwysig er mwyn gwireddu manteision cerbydau trydan yn briodol. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcan sy'n ymwneud â seilwaith trafnidiaeth, gan gyfeirio'n benodol at gerbydau trydan.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith cerbydau trydan. |

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Tirweddau’r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (2017)** | Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o’r holl Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd y tirweddau hyn i siapio hunaniaeth. Mae’r adroddiad yn ceisio gwella trefn lywodraethu’r asedau naturiol pwysig hyn. Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at faint o Gymru sy’n perthyn i’r naill ddynodiad neu’r llall a faint o’r dynodiadau hyn sydd mewn perygl. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud a diogelu asedau naturiol pwysig.<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio sicrhau bod cadernid y dynodiadau naturiol pwysig hyn yn cael ei wella. |
| **Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)** | Mae’r ddogfen hon yn amlinellu dyfodol datblygu a newid yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf. Wrth galon y cynllun mae'r syniadau o fyw’n gynaliadwy, defnyddio adnoddau’n effeithlon a chynyddu defnydd cymysg. Mae’r ddogfen yn cynnwys polisïau datblygu y mae’n rhaid i bob datblygiad newydd yng Nghymru lynu wrthynt. Mae’r argyfwng hinsawdd sy’n datblygu ac yn parhau hefyd wrth wraidd y cynllun, ac mae’r cynllun yn cydnabod yr angen i leihau allyriadau carbon. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â thwf economaidd, yr economi wledig, datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a diogelu’r amgylchedd hanesyddol a naturiol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Cymru’r Dyfodol ac yn cefnogi economi gref a chynaliadwy ar yr un pryd â sicrhau bod mynd i'r afael â’r argyfwng hinsawdd yn ganolog iddo. |
| **Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (2019)** | Mae’r ddogfen hon yn ceisio annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sy’n llawer mwy cynaliadwy na defnyddio ceir preifat. Mae hefyd yn cyfeirio at yr angen am deithio llesol. Mae’n hollbwysig bod y gostyngiad parhaus yn y nifer sy’n defnyddio bysiau yn cael ei atal a’i wrthdroi cyn gynted â phosibl. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â theithio cynaliadwy ac iechyd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn dod o hyd i ffyrdd o annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. |
| **Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)** | Mae’r ddogfen hon yn nodi’r angen i drafnidiaeth gynhyrchu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac mae’n ceisio rheoli’r ffyrdd gwahanol mae pobl yn teithio ledled Cymru, yn enwedig yn sgil pandemig | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â thrafnidiaeth a chreu seilwaith |

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | Covid-19. Mae gweithio gartref yn cael ei nodi fel rhywbeth sy’n dod yn fwy cyffredin. | newydd, gan gynnwys seilwaith sy’n ymwneud â gweithio gartref (fel band eang cyflym).<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio annog pobl i ddefnyddio mathau cynaliadwy o drafnidiaeth. Gallai Cymru Sero Net hefyd ystyried y potensial ar gyfer twf mewn gweithio gartref. |
| **Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016)** | Mae’r ddogfen hon yn ceisio sicrhau bod diwylliant pwysig ac unigryw Cymru yn parhau i dyfu. Mae’r celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth yn hollbwysig i ddiwylliant ac i gydlyniant cymdeithasol. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gan bobl yng Nghymru naws am le. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â diogelu asedau diwylliannol a hanesyddol pwysig, a hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net geisio hybu datblygiad a fyddai’n cefnogi diwylliant Cymru a’i dwf, yn enwedig diogelu asedau hanesyddol a cheisio creu llwybrau newydd i fwynhau’r celfyddydau, cerddoriaeth a llenyddiaeth. |
| **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)** | Mae hon yn ategu dymuniad Llywodraeth Cymru i liniaru ac i reoli perygl llifogydd yng Nghymru. Mae perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn faterion pwysig dros ben ac mae disgwyl i ddatblygiadau cynaliadwy sicrhau eu bod yn rhoi sylw i unrhyw faterion sy’n ymwneud â pherygl llifogydd. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â llifogydd, perygl llifogydd ac erydu arfordirol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net ystyried pwysigrwydd perygl llifogydd, cydnerthedd llifogydd ac erydu arfordirol. |
| **Polisi Adnoddau Naturiol (2017)** | Mae’r ddogfen hon yn ceisio mesur adnoddau naturiol pwysig Cymru. Mae adnoddau naturiol Cymru yn aml yn darparu’r manteision canlynol: | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â diogelu a gwella adnoddau naturiol drwy reoli cynaliadwy. |

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | • Gwasanaethau cyflenwi: er enghraifft cnydau, da byw, pysgod a choed; a ffrydiau ynni naturiol<br>• Gwasanaethau rheoleiddio: megis puro dŵr ac aer, rheoli sŵn, dal a storio carbon, rheoli perygl llifogydd, cymhathu gwastraff a pheillio<br>• Gwasanaethau diwylliannol: megis gweithgareddau hamdden a’r buddion iechyd a llesiant cysylltiedig; ein hamgylchedd hanesyddol a gwerthfawrogiad o harddwch ein lleoedd, tirweddau a natur, a<br>• Systemau a gwasanaethau ategol: megis ffurfiant pridd a chylchu maethynnau, sy’n angenrheidiol er mwyn darparu pob gwasanaeth ecosystem arall. Bioamrywiaeth yw’r sylfaen sy’n cynnal y systemau a’r gwasanaethau hyn. | Dylai Cymru Sero Net chwilio am ffyrdd o barhau i ddefnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy er budd y boblogaeth. |
| **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 – 21 (2020)** | Mae hwn yn ddiweddariad o’r cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae’r Cynllun yn nodi pum thema ar gyfer gweithredu:<br>Gweithredu gofodol:<br>• Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth<br>Trawsnewidiol:<br>• Cynyddu Gwybodaeth a Throsglwyddo Gwybodaeth;<br>• Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd;<br>• Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni;<br>• Prif ffrydio, llywodraethu ac adrodd ar ein cynnydd<br><br>Nodir pum blaenoriaeth ar gyfer gweithredu pellach:<br>• Cysoni'r ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth<br>• Mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol ar ôl gadael yr UE | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cadarn a diogelu safleoedd sydd wedi cael eu dynodi am eu gwerth bioamrywiaeth.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi nodau Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru a sicrhau bod ei bolisïau’n helpu i gynnal ac i wella rhwydweithiau ecolegol cadarn. |

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | • Darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth<br>• Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig<br>• Ystyried dulliau ariannu newydd a chynaliadwy ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth | |
| **Y Genhadaeth o ran Cadernid ac Ailadeiladu Economaidd (2021)** | Mae’n nodi gweledigaethau o “economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy’n helpu pawb i wireddu eu potensial.” Mae’r ddogfen yn nodi tri chanlyniad sy’n sail i’r weledigaeth: Economi ffyniannus; Economi wyrddach; Economi fwy cyfartal.<br><br>Mae’r cynllun yn nodi gweithgareddau o amgylch pum llusern er mwyn goresgyn COVID-19, a chyflawni adferiad yn y tymor canolig a’r tymor hirach:<br>• Atgyfnerthu’r Economi Sylfaenol<br>• Ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi<br>• Cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol<br>• Magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd<br>• Atgyfnerthu’r ymdrech i sicrhau gwerth cymdeithasol | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â chyflawni economi llesiant.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi cyflawni’r tri chanlyniad. |
| **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021).** | Mae hwn yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisi cynllunio yng Nghymru. Mae’r Egwyddorion Cynllunio Allweddol canlynol wrth galon hyn:<br>• Helpu’r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy<br>• Gwneud y gorau o adnoddau<br>• Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach<br>• Creu a chynnal cymunedau; ac<br>• Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, twf economaidd, hygyrchedd, iechyd a diogelu’r amgylchedd.<br><br>Rhaid i Cymru Sero Net sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog iddo. Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn cynnwys polisïau sydd o fudd i genedlaethau’r presennol a’r dyfodol. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026** | Mae'n pennu agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor 2021-2026 y Senedd i:<br>• Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel<br>• Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed<br>• Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol<br>• Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl<br>• Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn<br>• Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi<br>• Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math<br>• Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu<br>• Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt<br>• Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang<br><br>Caiff ei ategu gan 10 amcan llesiant. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd sicrhau bod y 10 ymrwymiad a'r amcanion llesiant wedi'u gwreiddio yn amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu grwpio dan y themâu allweddol, a'i fod yn helpu i'w cyflawni. |
| **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (2017)** | Fel rhan o Ffyniant i Bawb, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd, ar yr un pryd â sicrhau bod y twf hwn yn arwain at fanteision i bawb. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn drwy leihau | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â thwf economaidd a datblygu cynaliadwy. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | anweithgarwch economaidd, technolegau newydd, datgarboneiddio'r sector cyflogaeth, arbedion effeithlonrwydd a chyllid i enwi dim ond rhai. | Dylai Cymru Sero Net geisio cyflawni twf economaidd uchelgeisiol sy'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau bod poblogaeth Cymru'n elwa o fanteision twf economaidd. |
| **Datganiad Polisi: Perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – er budd Cymru heddiw a chenedlaethau'r dyfodol (2020)** | Mae'r ddogfen yn rhoi cryn bwys ar symud o dechnolegau sy'n cynhyrchu ynni sy'n llygru at ynni adnewyddadwy glanach. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi bod Cymru wedi symud ymlaen yn sylweddol o ran sicrhau bod gan gyfleusterau cynhyrchu ynni ryw fath o berchnogaeth gyhoeddus, gan gyfrannu at economïau lleol yn llawer mwy na dulliau perchnogaeth traddodiadol. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a pherchnogaeth leol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi rhagor o ddatblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Dylai hefyd geisio sicrhau perchnogaeth gyhoeddus rannol os bydd cynlluniau o'r fath yn parhau. |
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (2020)** | Mae'r cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru drwy wella hygyrchedd gwasanaethau, ceisio canlyniadau tecach i ddinasyddion a bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â phob math o anghydraddoldeb. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chydlyniant, hygyrchedd a dylunio o ansawdd uchel.<br><br>Dylai Cymru Sero Net hybu twf economaidd a fyddai o fudd i boblogaeth Cymru ar bob lefel. Dylai hefyd geisio creu amrywiaeth o swyddi hygyrch. |
| **Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 (2021)** | Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd hyd yma i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac mae'n gosod amcan na fydd pobl Cymru, i'r graddau sy'n ymarferol, yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2035. Mae'n nodi pedwar nod polisi i sicrhau gostyngiad pellach mewn tlodi tanwydd:<br>1. Nodi<br>2. Blaenoriaethu a diogelu | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n cefnogi lleihau tlodi tanwydd ac sy'n cefnogi camau gweithredu sy'n gallu lleihau tlodi tanwydd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net gefnogi camau gweithredu i leihau tlodi tanwydd. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | 3. Datgarboneiddio<br>4. Dylanwadu<br><br>Mae'r pedwar nod yn cael eu cefnogi gan gynllun gweithredu drafft ar gyfer cyflawni yn y tymor byr rhwng 2021 a 2023. | |
| **Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2019 i 2020 (2020)** | Dyma adroddiad monitro dogfen Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017). Mae'n datgan bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg nag yn 2017, sy'n dangos bod y strategaethau a ddefnyddir yn gweithio. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu a gwella'r Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth.<br><br>Dylai Cymru Sero Net roi pwys ar sut gall barhau i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)** | Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r 20 mlynedd nesaf o reolaeth forol yng Nghymru. Mae'n ceisio diogelu adnoddau morol pwysig Cymru, sy'n hanfodol i dirweddau Cymru ac sy'n cynnal nifer o swyddi. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud a diogelu'r amgylchedd morol.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn diogelu'r amgylchedd morol a'r diwydiannau sy'n dibynnu arno. |
| **Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (2018)** | Mae'r strategaeth hon yn rhoi gwarchodaeth i goetiroedd a choed Cymru y nodir eu bod yn adnoddau naturiol pwysig. Mae'r ddogfen yn pwysleisio pa mor bwysig yw adnoddau o'r fath o ran cynnal a gwella amgylchedd naturiol Cymru. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol a dylai sôn am ddiogelu coed.<br><br>Dylai Cymru Sero Net reoli ei uchelgeisiau economaidd i sicrhau bod adnoddau coed pwysig Cymru yn cael eu diogelu. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Cyngor Celfyddydau Cymru – Er budd pawb. Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018–2023 (2018)** | Mae'r cynllun hwn yn ceisio hybu'r celfyddydau yng Nghymru drwy annog pobl i ddilyn gyrfa yn y maes hwn ac ymgymryd â phrosiectau celf gyhoeddus newydd. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel.<br><br>Dylai Cymru Sero Net ystyried sut gall hybu'r celfyddydau a diwylliant. |
| **Maes Awyr Caerdydd – Uwchgynllun 2040 Maes Awyr Caerdydd (2019)** | Mae hwn yn amlinellu'r uwchgynllun ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Mae'n ceisio parhau i gadw Maes Awyr Caerdydd fel maes awyr gweithredol sy'n diwallu anghenion Cymru. | Dylai amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys pwysigrwydd Cymru sy'n gysylltiedig ac yn integredig â gweddill y byd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn defnyddio manteision Maes Awyr Caerdydd i Gymru a sicrhau'r cyfleuster cyflogaeth ac economaidd pwysig hwn. |
| **Comisiynydd Plant Cymru - Cynllun ar gyfer yr holl Blant a Phobl Ifanc 2016-2019 (2016)** | Mae'r cynllun hwn yn ceisio amddiffyn plant ac oedolion ifanc yng Nghymru. Mae'n cydnabod bod pobl ifanc yn gallu wynebu llawer o anawsterau fel bwlio, anghydraddoldeb cymdeithasol, mynediad gwael at fannau chwarae diogel a mannau diogel mwy cyffredinol. Mae'r ddogfen hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mabwysiadu. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â mynediad a chreu llefydd sydd wedi cael eu dylunio'n dda sy'n ddiogel, fel mannau chwarae.<br><br>Dylai Cymru Sero Net ystyried sut gallai gyfrannu at sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cael eu diogelu ac yn derbyn gofal. |
| **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Y llwybr i Sero Net a'r cynnydd o ran lleihau allyriadau yng Nghymru (2020)** | Mae'r dogfennau hyn yn gyfres o adroddiadau ar darged sero net nwyon tŷ gwydr Cymru a sut bydd Cymru'n cyrraedd y targedau hyn. Mae adroddiad Rhagfyr 2020 *Adroddiad Cyngor: Y llwybr i Gymru sero net* yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio targedau ac yn ceisio lleihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcan sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy sy'n cyfeirio at yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau bod Cymru'n datblygu mewn modd sy'n cyd-fynd â'i tharged sero net. |

| Dogfen | Crynodeb o’r cynnwys, yr amcanion a’r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | Mae un o’r adroddiadau’n edrych ar gynnydd Cymru yn erbyn gofynion blaenorol i leihau ei hôl troed carbon. Mae’r canlynol yn allweddol i gyrraedd y targedau hyn:<br>• Mabwysiadu atebion carbon isel;<br>• Ehangu cyflenwadau ynni carbon isel;<br>• Lleihau’r galw am weithgareddau carbon uchel; a<br>• Thrawsnewid tir oddi wrth amaethyddiaeth. | |
| **Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2020** | Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan gyrff cyhoeddus tuag at gyflawni eu dyletswyddau a disgwyliadau’r Comisiynydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Adroddiad yn rhoi manylion y weledigaeth a nodir yn y saith nod llesiant ac mae’n nodi saith maes i ganolbwyntio arnynt: Cynllunio defnydd tir a chreu lleoedd, trafnidiaeth, tai, datgarboneiddio, sgiliau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a’r system iechyd a lles.<br><br>Gyda golwg ar y bennod ar ddatgarboneiddio, mae’r Adroddiad yn datgan y “dylai Llywodraeth Cymru nodi cynllun buddsoddi hirdymor o sut y byddant yn ariannu'r argyfwng hinsawdd ac yn cefnogi ymrwymiadau a thargedau mwy uchelgeisiol ar gyfer sectorau sydd o fewn eu rheolaeth.” Ar ben hynny, mae’r Adroddiad yn nodi pum argymhelliad i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt:<br><br>• Deall ein hallyriadau a ble mae'r blaenoriaethu i weithredu;<br>• Mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur trwy ddull cyfannol, gan fanteisio ar rôl pobl ifanc;<br>• Cyflwyno trosglwyddiad cyfiawn;<br>• Gweithredu datrysiadau ar raddfa eang i gyflawni sawl budd;<br>• Buddsoddi mwy i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. | Dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy’n cefnogi cyflawni’r saith nod llesiant. O ran datgarboneiddio, dylai’r Arfarniad o Gynaliadwyedd adlewyrchu’r pum argymhelliad a nodir yn yr Adroddiad.<br><br>Dylai Cymru Sero Net adlewyrchu'r pum argymhelliad sy’n ymwneud â datgarboneiddio a nodir yn yr Adroddiad. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| **Llywodraeth EM - Strategaeth Twf Glân y DU: Arwain y ffordd at ddyfodol carbon isel (2017, diweddariad 2019)** | Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau bod angen i'r DU fynd ar drywydd datgarboneiddio ac mae'n darparu gwybodaeth am berfformiad y DU wrth gymharu â'i thargedau i fod yn garbon niwtral. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y ffaith bod angen parhau i leihau allyriadau ym meysydd:<br>• Sector Pŵer;<br>• Adeiladau;<br>• Diwydiant;<br>• Adnoddau Naturiol;<br>• Trafnidiaeth; a<br>• Gweinyddiaethau Ddatganoledig. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcan sy'n cyfeirio at yr angen i leihau allyriadau carbon ar draws pob sector.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau bod unrhyw dwf sy'n cael ei greu yn garbon isel a bod datblygiadau'n cael eu dylunio a'u cyflawni mewn ffordd sy'n lleihau faint o garbon sy'n cael ei gynhyrchu. |
| **Llywodraeth EM – Cynlluniau Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio Diwydiannol (2017)** | Mae'r dogfennau hyn yn darparu cynlluniau gweithredu ar gyfer y diwydiannau canlynol ar eu hangen i leihau eu hallyriadau carbon, cynyddu eu heffeithlonrwydd ynni a bod yn fwy cynaliadwy:<br>• Diwydiant;<br>• Sment;<br>• Cerameg;<br>• Cemegion;<br>• Bwyd a Diod;<br>• Gwydr;<br>• Olew a Phuro; a<br>• Mwydion a Phapur. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau.<br><br>Dylai Cymru Sero Net chwilio am ffyrdd o ymgorffori'r camau hyn yn y cynllun. Mae'n hanfodol i economi barhaus Cymru bod y diwydiannau hyn yn cael eu meithrin ond hefyd yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. |
| **Llywodraeth EM – Papur Gwyn ar Ynni: Pweru ein Dyfodol Sero Net (2020)** | Mae'r ddogfen hon yn ceisio sicrhau bod y DU yn symud tuag at economi sero net. Mae'n rhoi cryn bwys ar dechnoleg ynni adnewyddadwy fel gwynt ar y tir ac ar y môr. Mae'r ddogfen hefyd yn glir bod angen parhau i leihau allyriadau'r DU. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a datblygu cynaliadwy. |

| Dogfen | Crynodeb o'r cynnwys, yr amcanion a'r targedau | Goblygiadau Cymru Sero Net i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| | | Dylai Cymru Sero Net hybu datblygiadau newydd sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau ei fod yn hybu datblygu cynaliadwy. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynlluniau Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru a Basn Afon Dyfrdwy 2015-2021** | Mae'r cynlluniau rheoli hyn yn ceisio gwarchod a gwella asedau dŵr. Mae'r cynlluniau'n cynnwys crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ynghyd â'r canlyniadau amgylcheddol disgwyliedig hyd at 2021. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd dŵr sydd hefyd yn diogelu dynodiadau dŵr pwysig.<br><br>Dylai Cymru Sero Net sicrhau ei fod yn diogelu adnoddau dŵr pwysig yng Nghymru. |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru - Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2017)** | Mae'r ddogfen hon yn creu'r ymrwymiadau canlynol:<br>• Gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd;<br>• Gwella ansawdd, tegwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd; a<br>• Diogelu pobl rhag peryglon heintus ac amgylcheddol. | Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella iechyd.<br><br>Dylai Cymru Sero Net chwilio am ffyrdd i wella iechyd a hybu ffyrdd mwy gweithgar o fyw. |

© Wood Group UK Limited

# Atodiad B: Arfarniad o Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021–2025)

Tabl 0.1 Sgôr

| Sgôr | Disgrifiad | Symbol |
|---|---|---|
| Effaith Gadarnhaol Sylweddol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcan a/neu'n golygu bod modd datrys materion sydd eisoes yn bodoli. | ++ |
| Effaith Gadarnhaol Fach | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan ond nid yn sylweddol. | + |
| Niwtral | Nid yw'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gyflawni'r amcan | **0** |
| Effaith Negyddol Fach | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu ar gyflawni'r amcan ond nid yn sylweddol. | - |
| Effaith Negyddol Sylweddol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu'n sylweddol ar gyflawni'r amcan. | -- |
| Dim Perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y dewis/polisi arfaethedig a chyflawni'r amcan neu mae'r berthynas yn fach iawn. | ~ |
| Ansicr | Mae gan y dewis/polisi arfaethedig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn dibynnu ar y ffordd caiff yr agwedd ei rheoli. Ar ben hynny, efallai nad oes digon o wybodaeth ar gael er mwyn gallu arfarnu. | **?** |

## Gosod yr amodau

Allwedd i'r rhifau:
Polisi 1 – Trawsnewid cyfiawn
Polisi 2 – Argyfwng Natur
Polisi 3 – Y Cynllun Aer Glân
Polisi 4 - Meithrin cydnerthedd yn wyneb y newid yn yr hinsawdd
Polisi 5 – Economi Gylchol
Polisi 6 – Dull seiliedig ar leoedd – Polisi Cynllunio Cymru
Polisi 7 – Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol
Polisi 8 – Cynllun gwella'r gyllideb
Polisi 9 - Strategaeth Fuddsoddi mewn Seilwaith
Polisi 10 - Prisio Carbon
Polisi 11 - Datblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Sero Net, y bwriadwn ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2022.
Polisi 12 - Arloesi
Polisi 13 - Digidol
Polisi 14 – Gweithredu rhyngwladol
Polisi 15 – Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Newid Cymdeithasol
Polisi 16 – Ymgynghori ar Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd – Haf 2022
Cynnig 1 – Datblygu strategaeth tymor hir i hyrwyddo newid deiet tuag at ddeiet iachach ac addas

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 1** | **Polisi 2** | **Polisi 3** | **Polisi 4** | **Polisi 5** | **Polisi 6** | **Polisi 7** | **Polisi 8** | **Polisi 9** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | +/- | +/- | +/- | + | + | ++ | + | ++/? |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | - | + | ++/? | ++ | + | 0 | 0 | + | ++/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Ystyrir bod hyrwyddo Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a bargeinion twf (7) a chefnogi buddsoddiad mewn darparu seilwaith (9) yn cefnogi economi gref a chynaliadwy yn sylweddol o ran y newid i sero net. Gallai cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth arloesi (12) hefyd fod yn sylweddol yn dibynnu ar ganlyniadau'r broses.

Gallai cefnogi economi adnoddau isel (2) i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a mynd i'r afael ag ansawdd aer (3) a meithrin cydnerthedd yn wyneb newid hinsawdd (4) gefnogi'r newid i sero net yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol os bydd polisïau o'r fath yn cyfyngu ar dwf economaidd yn y tymor byr. Yn y tymor hir, wrth newid i sero net, ystyrir bod effeithiau cadarnhaol. Gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (10) effeithio'n negyddol ar yr economi yn y tymor byr ac ysgogi rhagor o gostau i'r gadwyn gyflenwi. Aseswyd bod mân effeithiau negyddol yn y tymor byr. Fodd bynnag, drwy gyfnod y trawsnewid, disgwylir y bydd effeithiau o'r fath yn cael eu lleihau ac efallai na fyddant yn amlwg y tu hwnt i CB2.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau negyddol bach a chadarnhaol sylweddol cymysg.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Disgwylir mesurau lliniaru drwy weithredu rhannau eraill o CSN (megis cymorth ariannol a chymorth arall yng Nghynigion 10, 22 a Pholisïau 52, 60). Fodd bynnag, efallai y bydd rhai effeithiau economaidd negyddol gweddilliol yn y tymor byr nad oes modd eu lliniaru'n llawn.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r strategaethau Arloesi a seilwaith (9, 12) yn ansicr i ryw raddau.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | +/- | +/- | +/- | + | + | ++ | + | ++ |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| Sgôr | - | ++/? | ++/? | ++/- | 0 | 0 | 0 | 0 | ++/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Aseswyd bod effeithiau tebyg ar gyfer yr amcan hwn i'r rhai ar gyfer Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Bargeinion Dinesig a Thwf (7) yn cynnig cyfleoedd i Gymru a'r rhanbarthau greu cyfleoedd ar gyfer dull mwy strategol o ddatblygu'r economi carbon isel gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau mewn gwaith.

Bydd datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net (11) yn cefnogi cyfleoedd hyfforddi newydd wrth drawsnewid i sero net. Bydd buddsoddi mewn seilwaith ac arferion digidol (13) yn debygol o gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau a fydd yn debygol o gefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd. Bydd strategaeth arloesi (12) hefyd yn cefnogi datblygu sgiliau yn benodol. Bydd sicrhau trawsnewid cyfiawn drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau (1) hefyd yn cefnogi cyflawni'r amcan. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd pawb yn gallu ymwneud â gwaith digidol (13) yn benodol ac felly aseswyd bod rhai mân effeithiau negyddol hefyd ar gyfer y polisi hwn.

Gall prisio carbon (10) gael effaith niweidiol ar y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd am swyddi yn y tymor byr, gyda chyfranogwyr o Gymru yn profi cyfran uwch y pen o'i gostau. Aseswyd bod mân effeithiau negyddol ar gyfer y polisi hwn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau negyddol bach a chadarnhaol sylweddol cymysg.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Bydd blaenoriaethu cymorth ariannol a chymorth arall (Cynigion 10, 22, Polisi 52, 60) yn darparu mesurau lliniaru pwysig i fusnesau yn ystod y cyfnod trawsnewid.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae graddau'r canlyniadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau (11) a Strategaeth Arloesedd (12) yn ansicr i ryw raddau.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | ++ | ++/? |

| Polisi / Cynnig | Polisi 10 | Polisi 11 | Polisi 12 | Polisi 13 | Polisi 14 | Polisi 15 | Polisi 16 | Cynnig 1 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | ++/? | ++/? | +/? | ++ | + | + | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd y polisïau'n cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau'r gostyngiad gofynnol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghyllideb Carbon 2 ac yn rhoi Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni sero net yn 2050. Ystyrir bod ystod o bolisïau yn yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol arwyddocaol, drwy, er enghraifft, gefnogi trawsnewid cyfiawn (1), rhoi sylw i'r argyfwng hinsawdd a natur sy'n ganolog i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (3), cefnogi'r allyriadau sy'n gysylltiedig â gwastraff drwy'r 'economi gylchol' (5) a galluogi buddsoddiad i gyflawni sero net yn 2050 drwy fframweithiau rhanbarthol (7). Ystyrir bod polisïau ar gynyddu addysg ac ymwybyddiaeth o'r angen am weithredu (15, 16) yn cefnogi cyflawni'r amcan.

**Effeithiau cronnol**

Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â datblygu strategaethau (9, 11, 12) a'r canlyniadau ar gyfer lleihau carbon.
Efallai y bydd y strategaeth Ddigidol (13) yn cefnogi gwelliannau i alluogi gweithio gartref neu weithio o bell ond efallai y bydd perthynas ansicr rhwng allyriadau carbon a gollir o drafnidiaeth a chynnydd posibl mewn eiddo preswyl neu eiddo arall.

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | ++ | ++ | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Polisi / Cynnig | Polisi 10 | Polisi 11 | Polisi 12 | Polisi 13 | Polisi 14 | Polisi 15 | Polisi 16 | Cynnig 1 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | ++/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd y polisïau yn yr adran hon yn cyfrannu at sicrhau iechyd a lles. Bydd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer (3) yn helpu'n benodol i gefnogi iechyd y rheini sydd â chyflyrau sydd eisoes yn bodoli, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd (2) yn darparu gwelliannau i'r amgylchedd naturiol a all hefyd gefnogi iechyd a lles.

Ystyrir bod sicrhau ymgysylltiad â'r cyhoedd ynghylch y newid i sero-net (15, 16) hefyd yn cefnogi llesiant meddyliol pobl Cymru oherwydd mae modd rhannu ac egluro'r effeithiau a'r newidiadau tebygol sydd eu hangen drwy gyfathrebu effeithiol, a allai fynd i'r afael â gofid a phryderon y cyhoedd am newid yn yr hinsawdd a sut mae hyn yn cael sylw. At hynny, mae cefnogi deiet mwy cynaliadwy a llai carbonddwys (Cynnig 1) yn debygol o helpu i gefnogi ffyrdd iachach o fyw.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer y polisïau hyn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Gallai effaith deiet mwy cynaliadwy fod yn sylweddol yn y tymor hir er bod rhywfaint o ansicrwydd ar hyn o bryd.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | + | ++ | 0 | 0 |

| Polisi / Cynnig | Polisi 10 | Polisi 11 | Polisi 12 | Polisi 13 | Polisi 14 | Polisi 15 | Polisi 16 | Cynnig 1 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **0** | ++ | **0** | **0** | **0** | ++ | ++ | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd sicrhau trawsnewid cyfiawn i sero net yn sicrhau y rhoddir sylw i anghydraddoldebau cyn belled ag y bo modd. Bydd polisïau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd (2, 3), yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a hyrwyddo mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant (11) ac yn helpu i gefnogi cydlyniant cymunedol. Mae hyrwyddo bargeinion twf Dinesig a Rhanbarthol (7) yn gyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi mynediad i bawb at swyddi a hyfforddiant ac i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ar y raddfa ranbarthol (fel y gwelir yng Ngweledigaeth a Strategaeth Ynni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR). Bydd cyflawni'r nodau hyn yn cefnogi cydlyniant ac yn cyfrannu at lesiant cymunedol ledled Cymru.

Mae polisïau (15, 16) yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â phlant fel rhan o'r dull gweithredu trawsbynciol ar gyfer ymgysylltu sy'n debygol o gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer llesiant plant, o ystyried bod pryder ynghylch risgiau a heriau newid yn yr hinsawdd yn cynyddu.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Sgôr | 0 | ++ | ++ | ++ | + | + | +/- | + | ++/? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan Gymru amgylchedd naturiol ac adeiledig amrywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau cadwraeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol ac yn lleol, tri pharc cenedlaethol, pum AHNE ac amrywiaeth o asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi, gan gynnwys tri Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r amgylcheddau hyn yn agored i effeithiau allyriadau i'r aer ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ar ben hynny, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol hefyd yn nodi dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae polisïau cyffredin i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth (2) a gwella ansawdd aer (3) yn arbennig o bwysig o ran cefnogi'r amcan hwn. Yn y tymor hir, gellid disgwyl hefyd i sicrhau newid deietegol tuag at fwyd mwy cynaliadwy a llai carbonddwys (Cynnig 1) gefnogi gwelliannau amgylcheddol er bod rhywfaint o ansicrwydd.

Mae'r strategaeth seilwaith (9) wedi cael ei dylunio'n benodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni economi carbon sero net a disgwylir iddi gysylltu mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd â mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr union effeithiau yn amodol ar baratoi'r strategaeth yn 2022, er y gallent fod yn sylweddol ar yr adeg hon. Mae Bargeinion Dinesig a Thwf (7) yn cynnig cyfleoedd i feithrin manteision net bioamrywiaeth ond gallent arwain at ddarparu seilwaith a allai gael effeithiau lleol ar amgylcheddau naturiol ac adeiledig. Bydd angen ystyried a lliniaru'r rhain drwy gynllunio defnydd tir.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Yr angen i liniaru a, lle bo'n bosibl, gwrthbwyso unrhyw effeithiau o ganlyniad i ddarparu seilwaith (yn bennaf drwy'r drefn bresennol o roi caniatâd a chynllunio defnydd tir). Dylid ystyried mynnu cynnydd net mewn bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd (yn Lloegr mae Bil yr Amgylchedd i fod i wneud hyn yn rhan o'r gyfraith).

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r strategaeth seilwaith (9) er bod ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

wood.

| |
|---|
| Gallai effaith deiet mwy cynaliadwy (Cynnig 1) ar yr amgylchedd fod yn sylweddol yn y tymor hir er bod rhywfaint o ansicrwydd ar hyn o bryd. |

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 1** | **Polisi 2** | **Polisi 3** | **Polisi 4** | **Polisi 5** | **Polisi 6** | **Polisi 7** | **Polisi 8** | **Polisi 9** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | + |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | 0 | ++/? | ++/? | + | 0 | + | 0 | 0 | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae datblygu'r sgiliau i helpu pawb yn y broses o drawsnewid i sero net yn hanfodol i lesiant. Bydd datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net (11) yn cefnogi cyfleoedd hyfforddi newydd wrth drawsnewid i sero net. Bydd buddsoddi mewn seilwaith ac arferion digidol (13) yn debygol o gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau a fydd yn debygol o gefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd. Bydd strategaeth arloesi (12) hefyd yn cefnogi datblygu sgiliau yn benodol. Mae gwreiddio dull economi gylchol (5) yn debygol o gynhyrchu sgiliau yn y tymor hir, ac mae cefnogi twf Dinesig a rhanbarthol (bargeinion 7) yn cael ei ystyried yn fodd i gefnogi'r amcan gan y bydd y ffocws yn rhannol ar ddatblygu sgiliau.

**Effeithiau cronnol**

Ar y cyfan, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae graddau'r canlyniadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau (11) a Strategaeth Arloesedd (12) yn ansicr i ryw raddau.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| Sgôr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Drwy gefnogi trawsnewid cyfiawn, gan wreiddio'r economi gylchol (5) bydd yr adran hon yn cefnogi llesiant cymunedau Cymru yn y tymor hir, drwy gefnogi gwelliannau amgylcheddol a gwella'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Drwy sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar le drwy'r system gynllunio (6) a chyllid rhanbarthol (7), bydd hyn hefyd yn cefnogi camau gweithredu sy'n canolbwyntio'n benodol ar gymunedau lleol.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 1 | Polisi 2 | Polisi 3 | Polisi 4 | Polisi 5 | Polisi 6 | Polisi 7 | Polisi 8 | Polisi 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **0** | **0** | **0** | **+** | **+** | **+** | **+** | **0** | **++** |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 10** | **Polisi 11** | **Polisi 12** | **Polisi 13** | **Polisi 14** | **Polisi 15** | **Polisi 16** | **Cynnig 1** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | **0** | **0** | **0** | **++** | **0** | **0** | **0** | **0** | **++** |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Drwy ddarparu seilwaith modern sy’n ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur a thrwy gefnogi seilwaith cerbydau trydan a thrydaneiddio rheilffyrdd (9) a gwella gallu digidol Cymru (13) mae potensial am effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amcan hwn drwy welliannau i gysylltedd a chydnerthedd Cymru. Bydd darparu effeithiol yn cael ei gefnogi gan ddull seiliedig ar leoedd yn y system gynllunio a bargeinion twf dinesig a rhanbarthol (6, 7) mwy o gydnerthedd hinsawdd (4) a buddsoddi mewn economi gylchol (5).

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid gwella Polisi 13 drwy gyfeirio’n benodol at gefnogi cyflwyno band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yng Nghymru, sydd ar ei hôl hi ar hyn o bryd ledled y DU yn ei chyfanrwydd.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 1** | **Polisi 2** | **Polisi 3** | **Polisi 4** | **Polisi 5** | **Polisi 6** | **Polisi 7** | **Polisi 8** | **Polisi 9** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **+** | **++** | **+** | **++** | **++** | **0** | **0** | **0** | **?** |

| Polisi / Cynnig | Polisi 10 | Polisi 11 | Polisi 12 | Polisi 13 | Polisi 14 | Polisi 15 | Polisi 16 | Cynnig 1 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ? | ? | + | ++ | + | + | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae Cymru Sero Net yn cydnabod bod busnesau Cymru yn gweithredu ym marchnadoedd y DU ac mewn marchnadoedd rhyngwladol. Ystyrir bod cefnogaeth polisi i weithredu ar ddatgarboneiddio (14) drwy rwydweithiau rhyngwladol, sy'n ceisio hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol, gan geisio mynd ar drywydd cytundebau masnach sy'n arwain y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (ar lefel llywodraeth y DU), a thynnu cymorth oddi ar y sectorau tanwydd ffosil dramor yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo lle Cymru yn y byd a'i rôl yn cefnogi'r broses ddatgarboneiddio fyd-eang. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ymdrechion gwell i hybu allforion i'r sector ynni glân/adnewyddadwy.

Mae effeithiau cadarnhaol sylweddol pellach i ddangos dull gweithredu Cymru o ran cyfrifoldeb byd-eang yn debygol o ran mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur (2), adeiladu cydnerthedd hinsawdd (4) a lleihau gwastraff fel rhan o ddull economi gylchol (5).

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Nid yw'n sicr a fydd strategaethau newydd ar gyfer sgiliau, seilwaith ac arloesedd (9, 11, 12) yn cefnogi'r nod o gefnogi ymdrechion gwell i hyrwyddo datgarboneiddio yn rhyngwladol.

## Cynhyrchu Trydan a Gwres

Allwedd i'r rhifau:

Polisi 17 – Lleihau Allyriadau o Hylosgi Tanwyddau i Gynhyrchu Trydan
Polisi 18 - Fframweithiau cynllunio i gyfyngu ar echdynnu tanwydd ffosil
Cynnig 2 – Gwneud Cynhyrchu Pŵer Thermol Newydd yn Barod ar gyfer Sero Net
Polisi 19 – Lleihau'r twf mewn allyriadau o weithfeydd Ynni o Wastraff newydd yng Nghymru
Polisi 20 - Dadrisgio ac Integreiddio Buddsoddiad yng Nghymru drwy Gynllunio Ynni
Polisi 21 – Cynllunio'r gwaith o ddarparu'r grid trydan a nwy sydd ei angen arnom ar gyfer Cymru
Polisi 22 – Cynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar dir drwy ein trefn gynllunio
Polisi 23 - Caniatáu prosiectau storio i gefnogi system ynni hyblyg ac ymatebol
Polisi 24 - Tystiolaeth, cynllunio a thrwyddedu morol: cefnogi'r gwaith o gyflwyno ynni adnewyddadwy ar y môr ac yn y môr
Polisi 25 - Arloesi mewn technoleg ynni adnewyddadwy newydd i sbarduno datgarboneiddio cyflymach a dyfnach a chefnogi'r economi werdd
Cynnig 3 – Targedau wedi'u diweddaru ar gyfer Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy i Gefnogi ein Llwybr Sero Net
Polisi 26 – Datblygiadau Ynni dan Berchnogaeth Leol i Sicrhau Elw Economaidd i Gymru
Polisi 27 - Sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru o brosiectau seilwaith sy'n cael eu gweithredu'n fasnachol yng Nghymru
Polisi 28 - Canfod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwres carbon isel
Polisi 29 - Defnyddio rhagor ar Wres Gwastraff a ffynonellau gwres carbon isel

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | ? | + | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | ++/? | ++ | ++ | + | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae datgarboneiddio'r sector pŵer yn cael ei gysylltu'n gynyddol â diwallu anghenion gwres a thrafnidiaeth a sicrhau diogelwch ynni yn y dyfodol i gefnogi economi sero net. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn trydaneiddio gwres, ynghyd â dileu cerbydau injan tanio mewnol yn raddol o blaid cerbydau trydan (EV). Bydd ymgyrch barhaus tuag at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn golygu mwy o gyfle i gael systemau sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n integreiddio â chynhyrchu mwy i ddarparu systemau ynni gofodol effeithlon (gan fodloni gofynion pŵer, gwres a thrafnidiaeth). Efallai y bydd newidiadau ehangach i'r rhwydwaith trawsyrru nwy yn gweithredu rhwydwaith cyflenwi hydrogen llawn neu gyfun yn arwain at rywfaint o uwchraddio pwerdai i

gefnogi'r broses o drawsnewid yr economi i sero net. Ystyrir y gallai cynnydd tuag at bŵer hydrogen (25) gael effaith gadarnhaol sylweddol yn y tymor hir gan alluogi diwydiant a thrafnidiaeth i berfformio'n economaidd.

Aseswyd y bydd sicrhau'r budd mwyaf posibl i gymunedau yng Nghymru o brosiectau seilwaith a chynyddu perchnogaeth leol ar ynni adnewyddadwy (26, 27), gan gefnogi newidiadau i'r system gynllunio i ddarparu ynni adnewyddadwy a chaniatâd heb risg (21-23) yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol.

Gallai lleihau hylosgi tanwyddau (17) a cheisio atal echdynnu pellach ar danwyddau ffosil (18) gael effaith ar yr economi a swyddi yn y tymor hir (y tu hwnt i CB2). Fodd bynnag, bydd gweithredu seilwaith ddatgarboneiddio newydd a gweithredu cyllid i gefnogi datgarboneiddio posibl yn helpu i liniaru'r effeithiau hyn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd y bydd effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr economi.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gallai cynigion 16 a 17 helpu i gefnogi datblygiadau technolegol o ran casglu carbon i liniaru unrhyw golledion swyddi. Hefyd, gallai'r cynllun sgiliau sero net (11) gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Nid yw biomethan sy'n cael ei gynhyrchu drwy dreulio anaerobig ar gael mewn swm digonol i gynnig stoc hyfyw ar gyfer cynhyrchu pŵer ar raddfa fawr.

Mae ansicrwydd ynghylch effeithiau cynhyrchu thermol (Cynnig 2) ar yr economi ac mae angen ei ddatblygu ymhellach.

**2. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | 0 | - | ++ | + | ++ | ++ | + | + | + | + | ++ | + | + | ++/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae parhau i ddatblygu cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn darparu cyfleoedd cyflogaeth yn y farchnad swyddi gwyrdd gysylltiedig ym maes adeiladu/saernïo ac o bosibl ymchwil a dylunio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfleoedd a fydd yn codi yn y gwaith o reoli gridiau trydan a nwy sy'n esblygu yng Nghymru, gan gynyddu

lleoleiddio systemau ynni a’r rôl sy’n dod i’r amlwg ar gyfer hydrogen. Mae tynnu’r risg o drefniadau cynllunio a chaniatáu (20, 22, 23) yn debygol o sicrhau swyddi a thwf yn y sector.

Mae defnydd effeithiol o strategaethau datblygu rhanbarthol a Chynllunio Ynni Ardal Leol (20), perchnogaeth gymunedol (26) a chefnogi cadwyn gyflenwi Cymru (27) yn gallu arwain at gynnydd mewn systemau ynni sy’n cael eu harwain gan y gymuned a all gefnogi trawsnewid cyfiawn. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos rheoli rhwydwaith clyfar er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o gynhyrchu adnewyddadwy er mwyn osgoi costau diangen o ran atgyfnerthu seilwaith ac effeithiau cysylltiedig ar brisiau ynni i ddefnyddwyr.

Fodd bynnag, gallai lleihau hylosgi tanwyddau (17) a cheisio atal echdynnu pellach ar danwyddau ffosil (18) gael effaith ar yr economi a swyddi. Gall y moratoriwm ar ynni ar raddfa fawr o weithfeydd gwastraff (19) gael effaith negyddol fach ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol ond ystyrir bod hyn yn fach iawn.

**<u>Effeithiau cronnol</u>**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effaith negyddol fach a chadarnhaol sylweddol i’r amcan hwn.

**<u>Mesurau lliniaru/gwella</u>**
Bydd Polisi 11 (cynllun sgiliau sero net) yn helpu i gefnogi’r broses o drawsnewid o swyddi ym maes echdynnu tanwydd ffosil a chynhyrchu trydan i economi ddatgarboneiddio.

**<u>Tybiaethau ac ansicrwydd</u>**
Gellir datblygu digon o gynhyrchu lleol i ddod â budd lleol i ddefnyddwyr o Gymru yn hytrach nag allforio’r rhan fwyaf o’r pŵer i’r grid cenedlaethol.

**3. Mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | ++ | + | + | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | ++/? | + | + | + | ++ | ++ |

**<u>Effeithiau sylweddol tebygol</u>**

| |
|---|
| Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2019, yn dangos bod gan Gymru gyfanswm o 3.37GW o gapasiti wedi'i osod ar gyfer ynni adnewyddadwy. Bydd yr uchelgais barhaus i ddarparu mwy o ynni adnewyddadwy, a lleihau'r defnydd o danwydd ffosil (12, 13), yn caniatáu rhagor o doriadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac felly'n lleihau'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag ynni ar newid yn yr hinsawdd. Bydd datgarboneiddio gofynion gwres diwydiannol, a dulliau gweithredu amgen ar gyfer gorsafoedd pŵer nwy naturiol yn fwy heriol. Bydd yr angen i gyflwyno dal a storio carbon i asedau pŵer sy'n bod eisoes, yn ogystal â galluogi dal a storio carbon ar unrhyw waith adeiladu newydd, yn hollbwysig.<br><br>Efallai y bydd gan hydrogen rôl sylweddol, yn bennaf mewn trafnidiaeth cerbydau mawr (HGV/bws) ac aml-ddull (bws, rheilffordd, fferi, awyren ysgafn) ac mewn gwresogi (lleihau graddfa trydaneiddio) ond hefyd fel cyfrwng storio i alluogi symud pŵer (ar raddfa gymharol fach).<br><br>Mae cynyddu systemau caniatáu ac ynni adnewyddadwy ar gyfer seilwaith cefnogol (22, 23), cynllunio ynni (20) a darparu llwybr ar gyfer datblygu hydrogen (25) yn cael eu hystyried yn effeithiau cadarnhaol sylweddol. At hynny, byddai adolygu targedau ynni adnewyddadwy (ar hyn o bryd i sicrhau 70% o'r defnydd erbyn 2030) ar lwybr at sero net (Cynnig 3) yn cefnogi cyflawni'r amcan er bod rhywfaint o ansicrwydd yn dibynnu ar yr ail-werthuso parhaus.<br><br>**<u>Effeithiau cronnol</u>**<br>Yn gyffredinol, aseswyd bod yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyflawni'r amcan hwn.<br><br>**<u>Mesurau lliniaru/gwella</u>**<br>Mae angen dull system gyfan o ymdrin ag ynni ar gyfer ymdrechion datgarboneiddio dwfn, gan edrych ar y tri fector pŵer, gwres a thrafnidiaeth. Gallai Cymru Sero Net roi ystyriaeth bellach i'r gydberthynas hon yn yr adran hon drwy ddarparu gwell croesgyfeirio at adrannau trafnidiaeth a diwydiant a busnes.<br>Archwilio cyfleoedd i ddatblygu bio-ynni drwy ddal carbon (BECCS) gan ddefnyddio offer presennol (neu arfaethedig) sy'n defnyddio tanwydd biomas yn cynnig potensial ar gyfer dalfeydd NTG (technoleg allyriadau negyddol).<br><br>**<u>Tybiaethau ac ansicrwydd</u>**<br>Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y targedau ynni adnewyddadwy gan y byddant yn cael eu hadolygu yn 2022.<br>Mae ansicrwydd ynghylch effeithiau cadarnhaol cynhyrchu thermol (Cynnig 2) gan fod angen ei ddatblygu ymhellach. |

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | + | + |

| |
|---|
| |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd symud oddi wrth danwydd ffosil yn gwella ansawdd yr aer lleol (llai o allyriadau gronynnau) a gall y gymysgedd newidiol o ffynonellau cynhyrchu ar gyfer pŵer atgyfnerthu ymdrechion datgarboneiddio ehangach ym maes trafnidiaeth. Byddai disgwyl i hyn gefnogi gwelliannau i iechyd. Gallai cymorth ar gyfer seilwaith ynni lleol a manteision cadwyni cyflenwi (26, 27) hefyd gefnogi llesiant meddyliol a 'chefnogaeth' i'r trawsnewid.

At hynny, gallai'r moratoriwm ar ynni mawr o safleoedd gwastraff (19) gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol a sicrhau nad yw'r effeithiau tybiedig ar iechyd corfforol yn amlwg mewn cymunedau lle gallai'r datblygiadau hyn fod wedi digwydd. Gallai cael gwared â thanwydd ffosil yn raddol (17, 18) hefyd arwain at golli rhywfaint o swyddi, a allai gael effaith gyfyngedig ar iechyd meddwl y rheini yr effeithir arnynt, ond yn y tymor hir mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol.

**Effeithiau cronnol**
At ei gilydd, mae mân effeithiau cadarnhaol wedi cael eu nodi ar gyfer yr adran hon.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd Polisi 11 (cynllun sgiliau sero net) yn helpu i gefnogi'r broses o drawsnewid o swyddi ym maes echdynnu tanwydd ffosil a chynhyrchu trydan i economi ddatgarboneiddio.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Gallai rhagor o waith ar effeithiau anuniongyrchol newidiadau yn y sector pŵer, yn enwedig y pris ynni a ragwelir a'r cysylltiad ag effeithiau tlodi tanwydd ar iechyd corfforol a meddyliol ddarparu mwy o dystiolaeth i wella'r arfarniad.

**5. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Gall cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, gyda gostyngiad cysylltiedig yn y ddibyniaeth ar danwydd ffosil, gynnig sefydlogrwydd tymor hir o ran prisiau ynni ar lefel sy'n sicrhau mynediad cyfartal. Fodd bynnag, fel rhan o'r trawsnewid, mae'n bwysig nad yw unrhyw gynnydd yn y costau cyflenwi ynni yn disgyn yn anghymesur ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas.

Amcangyfrifir bod 825 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy wedi ei osod dan berchnogaeth leol yng Nghymru. Gall hyrwyddo perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni i 1 GW yn 2030 (26) a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y buddion economaidd ac eraill i gymunedau Cymru (27), LEAP (20), gefnogi cymunedau lleol ffyniannus gyda manteision cysylltiedig ar gyfer cydlyniant cymdeithasol.

Fodd bynnag, gallai lleihau'r defnydd o losgi tanwyddau ar gyfer cynhyrchu trydan (17) a cheisio atal echdynnu pellach ar danwydd ffosil (18) gael rhai effeithiau cyfyngedig ar yr economi a swyddi mewn rhai cymunedau, a allai effeithio ar gydlyniant cymdeithasol yn yr ardaloedd hynny.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol a negyddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd Polisi 11 (cynllun sgiliau sero net) yn helpu i gefnogi'r broses o drawsnewid o swyddi ym maes echdynnu tanwydd ffosil a chynhyrchu trydan i economi ddatgarboneiddio.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Gall ymdrechion rheoleiddiol ac ariannol ar lefel y DU roi pwysau cynyddol ar gostau tanwydd ffosil i ddefnyddwyr.

**6. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | +/- | +/- | +/- | + | +/- | 0 | 0 | 0 | 0 | +/- | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae natur rhyng-gysylltiedig polisïau sy'n ymwneud â chaniatâd a chynllunio ynni yn golygu y bydd llawer o'r polisïau'n cefnogi effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, yn enwedig yn y tymor hir. Gwelir hyn yn bennaf mewn lleihau'r defnydd o danwydd ffosil a'u heffeithiau cysylltiedig (17, 18); hyrwyddo a datblygu dulliau casglu carbon (Cynnig 2) a chefnogaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy (20, 21, 22); a lleihau allyriadau o ynni o wastraff (19). Bydd symud oddi wrth danwydd ffosil yn gwella ansawdd yr aer lleol (llai o allyriadau gronynnau) a gall y gymysgedd newidiol o ffynonellau cynhyrchu ar gyfer pŵer atgyfnerthu ymdrechion datgarboneiddio ehangach ym maes trafnidiaeth. O fewn yr amgylchedd morol (24), byddai ystyriaeth bellach i'r effeithiau ar ecosystemau morol hefyd yn helpu i gyflawni'r amcan hwn.

Fodd bynnag, gallai gosod peirianwaith ynni adnewyddadwy newydd a seilwaith grid (21 – 23, 25, 29) gael effaith ar dirwedd/trefwedd ac aseswyd bod effeithiau negyddol hefyd i'r polisïau hyn. Fodd bynnag, disgwylir y byddai mesurau lliniaru'n cael eu dal drwy'r system cynllunio defnydd tir i ryw raddau.

**Effeithiau cronnol**
At ei gilydd, aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gyfer yr adran hon.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Gallai gosod peirianwaith ynni adnewyddadwy newydd a seilwaith grid (21 – 23, 25, 29) gael effaith ar dirwedd/trefwedd ac aseswyd bod effeithiau negyddol hefyd. Fodd bynnag, disgwylir y byddai mesurau lliniaru'n drwy'r system cynllunio defnydd tir.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch presenoldeb a graddfa'r effeithiau negyddol ar y dirwedd.

**7. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae'n anodd asesu'r effeithiau uniongyrchol polisïau eang ym maes cynhyrchu trydan a gwres ar ddysgu ar gyfer bywyd a datblygu sgiliau.

Mae polisïau sy'n hyrwyddo perchnogaeth cynhyrchu ynni lleol a dulliau newydd o fuddsoddi ynni (26, 27), yn ogystal â datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â hydrogen (25), a datblygu'r grid (21) yn debygol o gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu a dysgu sgiliau er bod hyn yn debygol o fod yn ymylol. Mae rhaglenni cefnogi ar gyfer arloesi technolegol, fel consortiwm FLEXIS, (25) hefyd yn debygol o gefnogi datblygu sgiliau newydd.

O ran rhoi'r gorau'n raddol i hylosgi ac echdynnu tanwydd ffosil (17, 18), bydd angen rhywfaint o ailhyfforddi a datblygu sgiliau ar y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses drawsnewid i sero-net yn y tymor hir.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, nodwyd effeithiau niwtral ar gyfer yr adran hon.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd Polisi 11 (cynllun sgiliau sero net) yn helpu i gefnogi'r broses o drawsnewid o swyddi ym maes echdynnu tanwydd ffosil a chynhyrchu trydan i economi ddatgarboneiddio.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**8. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | +/- | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | + | 0 | + | + | 0 | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i alluogi gwerthusiad llawn o effaith polisïau ar gydnerthedd cymunedol, diwylliant ac iaith. Fodd bynnag, mae perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni (26) a manteisio i'r eithaf ar brosiectau seilwaith, fel manteision cadwyni cyflenwi (27), yn debygol o gynnig manteision cadarnhaol a all gefnogi cydnerthedd cymunedau. Gellir gwella'r rhain drwy LEAP (20) a datblygu'r economi hydrogen yng Nghymru (25).

Fodd bynnag, gall lleihau tanwydd ffosil a hylosgi trydan (17, 18) gael rhai effeithiau negyddol ar yr economi a swyddi mewn rhai cymunedau, a allai effeithio ar eu cydnerthedd.

**Effeithiau cronnol**
At ei gilydd, mae mân effeithiau cadarnhaol wedi cael eu nodi ar gyfer yr adran hon.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Gallai cynigion 16 a 17 helpu i gefnogi datblygiadau technolegol o ran casglu carbon i liniaru unrhyw golledion swyddi. At hynny, gallai'r cynllun sgiliau sero net (11) gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

| |
|---|
| Dim. |

**9. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | 0 | 0 | + | ++ | + | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd esblygiad parhaus y sector pŵer yng Nghymru i un sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy datganoledig yn ffordd fodern a chadarn o ddiwallu anghenion ynni Cymru. Mae seilwaith grid critigol (21), seilwaith ynni adnewyddadwy newydd (22, 23) a modelau dosbarthu ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi hydrogen (25) yn debygol o fod yn greiddiol i system ynni wedi'i moderneiddio. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan seilwaith gwres carbon isel (28).

Mae cadernid systemau yn y dyfodol yn dibynnu nid yn unig ar y cymysgedd cynhyrchu ond hefyd ar y capasiti i reoli llif pŵer. Mae datblygu LEAP (20) i archwilio amrywiaeth o senarios ynni lleol gwahanol, gan nodi beth sydd angen digwydd, ble ac erbyn pryd, a chefnogi cynllunio rhwydwaith integredig, felly'n bwysig er mwyn sicrhau rhwydwaith pŵer cadarn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod y polisïau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol bychan ar gyflawni'r amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Bydd integreiddio mynediad i'r rhyngrwyd ochr yn ochr â datblygu'r system bŵer yn sicrhau lled band digonol i gefnogi systemau rheoli clyfar a bod yn sail i gydnerthedd cymunedau. Gellid cynnwys croesgyfeiriadau penodol at yr adran drafnidiaeth, ac yn fwy cyffredinol at yr adran diwydiant a busnes. Byddai hyn yn dangos y dull gweithredu integredig ar gyfer Cymru Sero Net.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Bydd ymdrechion ehangach i alluogi mynediad band eang cyflym iawn i bawb yn dal i gefnogi datblygu seilwaith cydnerth.

**10. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**

| Polisi / Cynnig | Polisi 17 | Polisi 18 | Awdurdodau Carthffosiaeth | Polisi 19 | Polisi 20 | Polisi 21 | Polisi 22 | Polisi 23 | Polisi 24 | Polisi 25 | Cynnig 3 | Polisi 26 | Polisi 27 | Polisi 28 | Polisi 29 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae rheoli rhagor o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector pŵer drwy roi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil a hylosgi i gynhyrchu trydan (17, 18), rheoleiddio allyrwyr gwres mawr a gofynion trwyddedu ar gyfer parodrwydd i ddal carbon (Cynnig 2) i gyd yn cefnogi ymdrechion i liniaru newid hinsawdd byd-eang.

Mae ymdrechion parhaus i yrru cynhyrchu adnewyddadwy (Cynnig 3) ac archwilio dulliau newydd o ddarparu ynni hefyd yn dangos ymrwymiad Cymru i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Effeithiau cronnol**

At ei gilydd, mae mân effeithiau cadarnhaol wedi cael eu nodi ar gyfer yr adran hon.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Rhagdybir y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi ymrwymiadau byd-eang ar newid yn yr hinsawdd dan arweiniad Llywodraeth y DU.

wood.

## Trafnidiaeth

Allwedd i'r rhifau:
Cynnig 4 – Gohirio ac adolygu cynigion ffyrdd presennol a methodoleg newydd i asesu pa mor briodol yw cynlluniau ffyrdd yn y dyfodol
Polisi 30 - Galluogi pobl i weithio gartref neu'n agos at gartref
Polisi 31 - Cynyddu cyfran y dulliau Teithio Llesol o'r amcangyfrif presennol sef 27% i 33% erbyn 2030 ac i 35% erbyn 2040
Polisi 32 - cynyddu cyfran y dulliau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o'r amcangyfrif presennol sef 5% i 7% erbyn 2030 ac i 13% erbyn 2040
Polisi 33 - Lleihau allyriadau o nwyddau a logisteg
Polisi 34 – cynllunio defnydd tir
Polisi 35 – Cyflymu'r defnydd o geir a faniau di-allyriadau
Polisi 36 - Cynllunio ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan a buddsoddi ynddo
Polisi 37 – Fflyd bysiau di-allyriadau
Polisi 38 - Pob cerbyd hurio preifat a thacsi i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2028
Polisi 39 – Datgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd
Polisi 40 – Cerbydau nwyddau trwm di-allyriadau
Polisi 41 – Lleihau allyriadau o hedfan
Polisi 42 – Lleihau allyriadau o forgludiant

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | + | + | + | + | + | +/-/? | +/-/? | +/-/? | +/-/? | + | + | +/? | +/? | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae darparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy yn bwysig er mwyn sicrhau economi llesiant sy'n ffyniannus, yn wyrddach ac yn fwy cyfartal. Mae galluogi mwy o ddewis, effeithlonrwydd a gwerth mewn trafnidiaeth yn helpu i gefnogi'r economi drwy ddarparu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. At hynny, byddai polisïau sy'n cefnogi buddsoddiad parhaus mewn seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy hefyd yn cefnogi twf economaidd.

Byddai polisïau sy'n cefnogi cynnydd yn y gyfran o deithio llesol (31), trafnidiaeth gyhoeddus (33), gweithio gartref (30) yn helpu i gefnogi gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â mathau carbon is a sero net o drafnidiaeth, gan helpu i sicrhau economi sy'n fwy gwyrdd. Gallai hefyd gael effeithiau cadarnhaol ar y sector twristiaeth drwy, er enghraifft, annog gwyliau beicio.

Byddai darparu seilwaith cerbydau trydan (36) a chyflymu ceir a faniau dim allyriadau (35) yn cefnogi buddsoddiad yn y technolegau hyn a thrawsnewid swyddi mewn sectorau cefnogol. At hynny, gall y polisïau gefnogi buddsoddiad economaidd mewn technolegau newydd yn y tymor byr a'r tymor hir y tu hwnt i CB2. Fodd bynnag, mae diffyg safleoedd gwefru cerbydau trydan yn broblem fawr mewn ardaloedd gwledig ac mae'n bosibl y bydd effaith andwyol ar yr economi wledig os na chefnogir buddsoddi mewn seilwaith cerbydau trydan yma. Yn yr un modd, mae gohirio adeiladu ffyrdd yn debygol o effeithio ar ddatblygu economaidd yn y tymor byr ond bydd yn galluogi cynnydd tuag at drafnidiaeth sero net, gyda manteision economaidd cysylltiedig yn y tymor hir (Cynnig 4).

Efallai y bydd effeithiau negyddol ar yr economi hefyd o newid i drafnidiaeth ddi-garbon. Mae'n bosibl y bydd busnesau gweithgynhyrchu a gwasanaethu diesel/petrol/hybrid yn cael eu colli neu y bydd effaith niweidiol arnynt, lle na ellir trawsnewid yn effeithiol i wasanaethau sero net.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod i'r adran fân effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gyflawni economi carbon isel.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ddefnyddio seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig (36 ac ar draws yr adran gyfan).
Gellid ystyried darparu cymorth penodol i wneuthurwyr injeni tanio ac ail-sgilio diwydiannau gwasanaethu fel rhan o'r newid i gerbydau dim allyriadau ym Mholisi 11 a 51.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
I ba raddau y byddai buddsoddiad mewn seilwaith cerbydau trydan a cherbydau a seilwaith dim allyriadau yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau trawsnewid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | - | +/? | +/? | +/? | 0 | + | +/-/? | +/-/? | +/-/? | +/-/? | + | +/-/? | +/? | +/? | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae mesurau sy'n cefnogi argaeledd gwell a chost is trafnidiaeth yn debygol o helpu i gefnogi mwy o hygyrchedd o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Felly, aseswyd bod polisïau sy'n ymwneud â chynyddu'r gyfran o deithio llesol (31) a thrafnidiaeth gyhoeddus (32) yn rhai anuniongyrchol sy'n cael mân effeithiau cadarnhaol ar yr amcan hwn. Gall cynyddu trafnidiaeth gyhoeddus (yn enwedig siwrneiau ar fws) gefnogi'r rheini sydd heb fynediad at drafnidiaeth breifat. Fodd bynnag, mae'r graddau y byddai hyn yn cefnogi'r rheini mewn ardaloedd gwledig yn llai sicr. Gall gweithio gartref neu'n nes at y cartref (30) ddarparu buddsoddiad mewn gwasanaethau a chyfleusterau, a fyddai'n cefnogi cyfleoedd cyflogaeth. I ryw raddau, mae hyn yn dibynnu ar gysylltedd band eang da, ac efallai na fydd hyn ar gael ym mhob ardal.

Gall buddsoddi mewn seilwaith cerbydau trydan (36) a chefnogi'r gwaith o ddarparu ceir, faniau, bysiau a thacsis di-allyriadau (37, 38, 40) hefyd gefnogi cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau technoleg newydd sydd eu hangen wrth drawsnewid i fod yn ddi-garbon. Fodd bynnag, mae pryder y gallai ardaloedd gwledig gael eu heithrio o'r newid hwn os na chaiff seilwaith cerbydau trydan ei ddarparu. Gall y newid i ddulliau trafnidiaeth di-garbon hefyd gael effaith negyddol ar swyddi. Mae'n bosibl y bydd busnesau gweithgynhyrchu a gwasanaethu diesel/petrol/hybrid yn cael eu colli neu y bydd effaith niweidiol arnynt, lle na ellir trawsnewid yn effeithiol i sero net. Aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol a negyddol cymysg ar gyfer y polisïau hyn hefyd.

Aseswyd bod mân effeithiau negyddol ar gyfer Cynnig 4 oherwydd yr effeithiau negyddol tebygol ar gyflogaeth yn y tymor byr.

Mae cymorth polisi ar gyfer trawsnewid sero net ym maes llongau (42) ac awyrennau (41) yn debygol o ddarparu rhai manteision cadarnhaol o ran cyflogaeth yn y tymor hwy

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran yn debygol o gael cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol bach ar gefnogi cyflogaeth a sicrhau trawsnewid cyfiawn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ddefnyddio seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig (Polisi 36 ac ar draws yr adran gyfan).
Gellid ystyried darparu cymorth penodol i wneuthurwyr injeni tanio ac ail-sgilio diwydiannau gwasanaethu fel rhan o'r newid i gerbydau di-allyriadau ym Mholisi 11 a 51.
Bydd Polisi 13 yn cefnogi seilwaith digidol.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

I ba raddau y byddai buddsoddiad mewn seilwaith cerbydau trydan a cherbydau di-allyriadau a seilwaith ail-lenwi yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd.
Darparu seilwaith band eang i gefnogi gweithio o bell.

| |
|---|
| I ba raddau y byddai seilwaith trafnidiaeth newydd yn cefnogi cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. |

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++/? | + | + | + | ++ | ++/? | ++/? | + | + | + | + | + | + | ++/? |

| |
|---|
| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am oddeutu 16% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn 2019, gydag oddeutu 92% yn cael eu rhyddhau o draffig ffyrdd. Cyrhaeddodd traffig ar y ffyrdd yng Nghymru y lefel uchaf erioed a gofnodwyd yn 2018, sef 29.4 biliwn cilometr cerbyd. Mae nifer y teithiau gan deithwyr ar drenau wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn 21.6 miliwn 2019, ac mae nifer y teithiau bws wedi gostwng 22% rhwng 2008 a 2019, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer y teithiau wedi codi (cynnydd o 2.2% rhwng 2016 a 2019). Mae disgwyl i gerbydau preifat ddarparu'r prif ddull o deithio yn y tymor byr a'r tymor canolig.<br><br>Mae'r ystod o fesurau polisi yn debygol o gefnogi gostyngiad yn y defnydd o ynni ac allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Byddai cynyddu'r gyfran o deithio llesol (31) a thrafnidiaeth gyhoeddus (32) i gyd yn cefnogi cyflawni'r amcan Cynaliadwyedd hwn yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae lleihau'r angen i deithio yn ganolog i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Cefnogir y nodau hyn hefyd gan PPW11 a Chymru'r Dyfodol drwy'r system cynllunio defnydd tir (34).<br><br>Gallai cyflwyno mesurau i gyflymu'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan (35, 36) drwy fenthyciadau di-log a chynlluniau sgrapio helpu i fanteisio'n sylweddol ar gerbydau trydan (os cânt eu darparu yn unol â'r seilwaith cerbydau trydan), yn enwedig yng ngoleuni'r defnydd is o gerbydau trydan nag ar draws Prydain yn gyffredinol. Fel y nodwyd yn y polisi, mae hyn yn dibynnu ar lywodraeth y DU yn cynnal y lefelau cymhelliant presennol ar gyfer prynu cerbydau trydan newydd.<br><br>Mae'r *Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru: Hwyluso'r Trawsnewid i Sero Net* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn nodi strategaeth eang i gefnogi seilwaith cerbydau trydan. Byddai cynllunio ar gyfer seilwaith cerbydau trydan a buddsoddi ynddo, ac felly defnyddio cerbydau di-allyriadau, hefyd yn helpu i gyflawni'r amcan. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol yn y tymor hwy wrth i dechnolegau newydd ddod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyflawni yn unol â'r cynllun gweithredu.<br><br>**Effeithiau cronnol** |

| |
|---|
| Ystyrir bod y polisïau yn yr adran hon yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol at gyflawni'r amcan hwn yn y tymor byr a'r tymor hir wrth i Gymru geisio bod yn sero net yn 2050.<br><br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Mae darparu seilwaith cerbydau trydan yn ganolog i drawsnewid yn llwyddiannus i ddyfodol carbon sero net. Mae'n hanfodol bod pob cymuned yn gallu cael seilwaith addas (36). Felly, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ddefnyddio seilwaith o'r fath mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, rhaid mynd i'r afael â chost cerbydau trydan er mwyn sicrhau bod y technolegau hyn yn cael eu defnyddio.<br><br>Mae potensial i fireinio ymhellach o ran y nod o sicrhau 30% o weithio gartref o ran eglurder ac uchelgais yn Cymru Sero Net. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru anelu at sicrhau bod o leiaf 40% o weithwyr yn gweithio, ar gyfartaledd, o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos o gartref, lle gallant wneud hynny. Mae potensial hefyd i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl i eraill (30).<br><br>Gellid ystyried cynyddu'r nifer sydd mewn cerbydau ffordd a rhannu'r defnydd o gerbydau preifat fel y crybwyllir yn nogfen ddiweddar Llywodraeth y DU, *Decarbonising Transport*.<br><br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Darparu seilwaith cerbydau trydan yn erbyn nodau *Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan* Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a pharhau â chymhellion Llywodraeth y DU ar gyfer prynu cerbydau trydan.<br><br>Mae cynyddu'r gyfran o weithio gartref ac o bell yn dibynnu ar ddarparu seilwaith band eang sy'n ansicr. |

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | +/-/? | ++ | + | + | + | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + | ++ |

| |
|---|
| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod lefelau cerdded a beicio wedi cynyddu ledled y DU yn ystod y cyfyngiadau COVID-19 yn 2020. Ystyrir bod cynyddu teithio llesol (31) yn debygol o gefnogi iechyd a llesiant a'i fod yn ganolog i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. |

At hynny, mae gostyngiad mewn allyriadau i'r aer, a llygredd golau a sŵn, sy'n gysylltiedig â llai o siwrneiau mewn ceir preifat a mwy o drafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn debygol o gefnogi gwelliannau i iechyd a lles. Mae hyrwyddo trafnidiaeth ddi-allyriadau hefyd yn debygol o gefnogi gostyngiad mewn allyriadau i'r aer, yn enwedig PM10 a NOx sy'n gysylltiedig ag injeni diesel a cherbydau nwyddau trwm. Gallai hyn hefyd helpu i leihau nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Felly, ceir effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Polisïau 35 a 37 a mân effeithiau ar gyfer 33, 38 a 40 sy'n ymwneud â cherbydau di-allyriadau. At hynny, mae gohirio adeiladu ffyrdd (Cynnig 4) hefyd yn debygol o gefnogi iechyd.

Gall cynyddu cyfran y staff sy'n gweithio o bell (30) gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl mewn rhai achosion a allai esgor ar deimladau o fod yn ynysig heb gysylltiadau cymdeithasol a/neu ddatgysylltiad oddi wrth gydweithwyr. Fodd bynnag, mae maint yr effeithiau niweidiol yn ansicr (er y gallai astudiaethau sy'n deillio o weithio o bell yn ystod Covid helpu i ddeall a darparu atebion i liniaru'r problemau hyn, e.e. Arolwg iechyd Covid-19 RSPH).

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod y polisïau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyflawni'r amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gallai lliniaru effeithiau negyddol o weithio gartref gynnwys ystyried cymorth rheoli ffiniau bywyd yn y gwaith a thu allan i'r gwaith, darparu gweithfannau priodol, rheoli llwyth gwaith, a hwyluso mwy o rwydweithio rhwng gweithwyr (BMC Public Health).

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae maint yr effeithiau ar iechyd meddwl o ganlyniad i weithio o bell yn ansicr.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/- | + | +/- | +/- | 0 | + | + | +/- | + | + | + | + | 0 | 0 | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Ystyrir bod cefnogi gwelliannau i hygyrchedd a chysylltedd yn cefnogi'r nod o wella cydlyniant a chysylltedd. Mae cynyddu teithio llesol (31) yn debygol o gefnogi iechyd a llesiant drwy weithgarwch cerdded a beicio ychwanegol, a fydd hefyd yn cefnogi cymunedau cynhwysol a chysylltiedig. At hynny, mae gostyngiad mewn

allyriadau i'r aer, a llygredd golau a sŵn, sy'n gysylltiedig â llai o siwrneiau mewn ceir preifat (30, 34) a mwy o drafnidiaeth gyhoeddus (32) hefyd yn gallu cefnogi cymunedau drwy wella mannau cyhoeddus.

Byddai buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd difreintiedig hefyd yn cefnogi'n gadarnhaol fynediad at wasanaethau i'r rheini heb geir (mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi bod ardaloedd difreintiedig wedi'u crynhoi'n bennaf yn ninasoedd a chymoedd De Cymru, ac mewn rhai trefi arfordirol ac ar y ffin yng Ngogledd Cymru. Cydnabyddir yr ardaloedd hyn yn Cymru Sero Net fel y rhai y gellir eu darparu gwell gwasanaethau ar eu cyfer yn haws. Byddai'n rhaid darparu gwasanaethau ar y cyd â phrisiau teg a gwell hygyrchedd i ddefnyddwyr anabl (fel y rhagwelwyd yn y Rhaglen Lywodraethu).

Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch a fydd y polisïau i fynd i'r afael â'r gyfran moddol (31, 32) a'r seilwaith cerbydau trydan (36) yn cwmpasu ardaloedd gwledig yn llawn. Er bod ffocws yn aml ar ardaloedd trefol, mae'n bwysig bod ardaloedd gwledig Cymru yn elwa yn yr un modd o fuddsoddiad sy'n helpu i hyrwyddo cysylltedd a chydlyniant.

At hynny, o ran mesurau rheoli'r galw fel codi tâl ar ffyrdd (Cynnig 4), gallai hyn effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd dan anfantais economaidd. Felly, mae rhai effeithiau negyddol yn cael eu nodi hefyd.

Ystyrir bod polisïau 35-37 sy'n ceisio cyflymu'r nifer sy'n defnyddio cerbydau di-allyriadau yn lleihau llygredd aer yn gadarnhaol, a all fod yn broblem neilltuol mewn ardaloedd trefol mwy dwys sydd yn aml yn ardaloedd o amddifadedd economaidd ehangach gan gefnogi cydraddoldeb.

**Effeithiau cronnol**

Mae'r amrywiaeth o bolisïau yn yr adran hon yn debygol o gefnogi gwelliannau i gydlyniant a chydraddoldeb. Fodd bynnag, disgwylir y bydd effeithiau negyddol o ran yr effeithiau ar ardaloedd gwledig a'r effaith bosibl ar y rhai sydd dan anfantais economaidd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i anghenion trafnidiaeth wledig. Er enghraifft, mae darparu seilwaith cerbydau trydan (36) yn ganolog i drawsnewid yn llwyddiannus i sero net. Mae'n hanfodol bod hyn o fewn cyrraedd pob cymuned. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o ddefnyddio seilwaith o'r fath mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell i sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn gallu cymryd rhan ac nad ydynt yn cael eu heithrio. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth y DU a'r sector i sicrhau bod cerbydau trydan yn fforddiadwy er mwyn helpu i sicrhau bod y cerbydau hyn yn cael eu defnyddio ym mhob cymuned.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim wedi'u nodi.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | + | + | +/-/? | + | + | +/-/? | +/-/? | + | + | +/-/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae trafnidiaeth yn cael effaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o ran allyriadau aer a sŵn, ac mae'n bosibl y bydd datblygiadau seilwaith trafnidiaeth hefyd yn cael effaith, boed hynny drwy effeithiau uniongyrchol o gymryd tir, neu effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i aflonyddwch sy'n deillio o weithgareddau adeiladu.

Mae'r polisïau yn yr adran hon sy'n debygol o gefnogi cynnydd mewn cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a llai o ddefnydd o'r car preifat yn cael eu hystyried yn debygol o helpu i leihau'r allyriadau i'r aer, gyda'r effeithiau cadarnhaol hefyd yn debygol o gael eu cyflawni o ran sŵn. At hynny, byddai cynyddu cerbydau di-allyriadau yn cyfrannu at ostyngiad mewn dyddodiad nitrogen (NOx), a fyddai hefyd yn cefnogi'r gwaith o warchod a gwella safleoedd cadwraeth dynodedig bregus.

Fodd bynnag, gallai darparu seilwaith a ragwelir fel seilwaith cerbydau trydan (36, 40) a seilwaith rheilffyrdd (39) gael effeithiau negyddol lleol ar dirwedd/trefwedd yn dibynnu ar y lleoliad. Tybir, fodd bynnag, y byddai defnyddio rheolaethau cynllunio defnydd tir yn sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu lleihau a'u lliniaru lle bo angen.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisïau yn yr adran hon yn debygol o gael cymysgedd o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau negyddol ar gyflawni'r amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Cydnabyddir y gallai darparu seilwaith sy'n gysylltiedig â seilwaith cerbydau trydan (36) a seilwaith rheilffyrdd (39) gael effaith ar dirwedd/trefwedd ac aseswyd bod effeithiau negyddol. Fodd bynnag, disgwylir y byddai mesurau lliniaru'n drwy'r system cynllunio defnydd tir.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr effaith ar dirwedd, treflun a bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | 0/? | 0/? | 0/? | 0/? | 0/? | 0/? | ~ | ~ | 0/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Ystyrir bod gan y rhan fwyaf o bolisïau yn yr adran hon effaith niwtral neu ddim perthynas â chyflawni'r amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn.

Gallai buddsoddi mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan (36) a seilwaith/technoleg di-allyriadau arall (35-40) helpu i gefnogi cyfleoedd swyddi a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg, a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan hwn. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y bydd sgiliau'n cael eu datblygu.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod gan yr adran effeithiau niwtral neu fach iawn, gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Cefnogaeth ar gyfer newid ymddygiad i annog newid i drafnidiaeth gyhoeddus a'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

I ba raddau y bydd sgiliau'n cael eu datblygu mewn perthynas â'r buddsoddiad mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan a thechnoleg/seilwaith di-allyriadau.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ? | +/? | +/? | +/? | + | + | 0 | 0/? | 0 | 0 | 0/? | 0/? | ~ | ~ | +/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Gallai gwneud teithio llesol yn fwy deniadol a hyfyw (31) gefnogi cynnydd mewn cerdded a beicio fel gweithgareddau hamdden, a allai gael effaith gadarnhaol fach ar gyflawni'r amcan hwn.

Pe gellid cyfeirio buddsoddiad i integreiddio a chysylltu unrhyw lwybrau teithio llesol newydd i safleoedd hamdden, diwylliannol neu dreftadaeth, gallai hyn hefyd wella hygyrchedd gweithgareddau, ond mae hyn yn dibynnu ar y lleoliad. Gallai'r newid moddol tuag at drafnidiaeth gyhoeddus (32) hefyd gefnogi mwy o fynediad at safleoedd diwylliannol neu dreftadaeth, yn enwedig i'r rheini nad ydynt yn gallu cael mynediad at gar preifat, ond byddai hyn hefyd yn galw am ymyrraeth a buddsoddiad wedi'i dargedu.

Gall cynyddu cyfran y bobl sy'n gweithio gartref neu'n nes at gartref (30) arwain at fanteision uniongyrchol o ran defnyddio'r Gymraeg. Er hynny, mae graddfa'r effeithiau'n dibynnu i raddau helaeth ar y nifer sy'n gweithio o bell a lleoliad y rheini sy'n gweithio o bell.

Gallai darparu seilwaith newydd a mwy o seilwaith (fel seilwaith cerbydau trydan) drwy fuddsoddiad ychwanegol arwain at effeithiau negyddol ar dirwedd a threfweddau Cymru, gan effeithio ar ddiwylliant Cymru. Fodd bynnag, dylid rheoli hyn drwy'r mecanweithiau cynllunio defnydd tir priodol sy'n lleihau'r effeithiau negyddol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyflawni ar lawr gwlad.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod gan yr adran effaith gadarnhaol fach, gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Mae datgarboneiddio trafnidiaeth drwy gyfuniad o gerbydau trydan (teithwyr a cherbydau nwyddau ysgafn) a hydrogen (HGVs, bysiau, rheilffyrdd, awyr, morol) yn gallu lleihau dibyniaeth y gymuned ar fewnforion tanwydd ffosil ac o bosibl wella cydnerthedd cymunedol drwy leoleiddio seilwaith ynni. Gellid gwella'r polisïau drwy gynnwys cyfeiriad at hyn.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae'r graddau y gallai buddsoddiad mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus gefnogi mwy o fynediad at safleoedd/gweithgareddau diwylliannol neu dreftadaeth yn ansicr.

Mae'r graddau y bydd gweithio gartref neu'n agos i gartref yn cefnogi'r Gymraeg yn ansicr.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith gohirio adeiladu ffyrdd (Cynnig 4) ar gysylltedd sy'n gallu cefnogi llesiant cymunedol.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++/- | ? | ++/- | ++/- | + | + | 0 | ++/-/? | +/- | 0 | + | +/- | + | + | ++/-/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r adran hon o Cymru Sero Net yn nodi'r prif bolisïau i helpu i gyflwyno mesurau trafnidiaeth llesol a chynaliadwy a gwell seilwaith i gefnogi'r trawsnewid i sero net yng Nghymru. Bydd hyn yn cefnogi cyflawni Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ceisio sicrhau seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn.

Mae amrywiaeth o bolisïau sy'n gweithio tuag at gyflawni nodau Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith a fydd yn cefnogi symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd cefnogi'r newid moddol i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cefnogi'r amcan yn sylweddol. Mae polisïau 31 a 32 yn gosod targedau clir ar gyfer newid moddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu ychydig llai na £75m o grantiau trafnidiaeth blynyddol ar gyfer prosiectau teithio llesol ers LCDP1. Mae angen buddsoddiad pellach a pharhaus i helpu i newid ymddygiad trafnidiaeth a chyrraedd targedau. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw datblygu seilwaith newydd i gwrdd â thargedau newid moddol o bosibl wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, gan ffafrio cytrefi mawr a threfi yn hytrach nag ardaloedd gwledig, a allai wedyn fod dan anfantais.

Mae'r polisïau'n cynnwys cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith cerbydau trydan (36) a sicrhau bysiau di-allyriadau (37) a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan yn y tymor byr a'r tymor hwy, a gall fod yn sylweddol ar gyfer seilwaith cerbydau trydan. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cam cyntaf y rhwydwaith cerbydau trydan cyflym ar y ffyrdd strategol yn gwbl weithredol yn 2021. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n bwysig nad yw cymunedau gwledig yn cael eu gadael ar ôl wrth gynllunio seilwaith o'r fath. Aseswyd bod effeithiau negyddol bychan hefyd.

Mae ansawdd a darpariaeth band eang yn gwella yng Nghymru ond yn gyffredinol mae y tu ôl i'r DU drwyddi draw ar nifer o fesurau. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch Polisi 30, gan y bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar welliannau pellach i fand eang.

Gallai gohirio adeiladu ffyrdd yn y tymor hir arwain at gysylltiadau seilwaith mwy cynaliadwy ond, yn y tymor byr, mae potensial i effeithio ar gadernid seilwaith ffyrdd. Aseswyd bod effeithiau cymysg sylweddol a mân effeithiau negyddol i Gynnig 3.

**Effeithiau cronnol**

At ei gilydd, mae cymysgedd o effeithiau cadarnhaol sylweddol a mân effeithiau negyddol wedi cael eu nodi ar gyfer yr adran hon, gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i anghenion trafnidiaeth wledig. Er enghraifft, mae darparu seilwaith cerbydau trydan ac ail-lenwi arall yn ganolog i drawsnewid yn llwyddiannus i ddyfodol carbon sero net. Mae'n hanfodol bod hyn o fewn cyrraedd pob cymuned.
Gallai Polisi 13 helpu i gyflawni gwelliannau digidol sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith band eang i gefnogi cyflwyno gwibgyswllt.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae cynyddu'r gyfran o weithio gartref ac o bell yn dibynnu ar ddarparu seilwaith band eang sy'n ansicr.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 4 | Polisi 30 | Polisi 31 | Polisi 32 | Polisi 33 | Polisi 34 | Polisi 35 | Polisi 36 | Polisi 37 | Polisi 38 | Polisi 39 | Polisi 40 | Polisi 41 | Polisi 42 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | ? | ? | ? | 0/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae'r polisïau yn yr adran hon yn helpu i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth ledled Cymru. Felly, ystyrir bod y rhan fwyaf o'r polisïau'n cael effaith niwtral neu fach iawn ar yr amcan hwn. Fodd bynnag, gallai treialu technolegau arloesol sy'n dangos sut gall cerbydau trydan a thechnoleg glyfar gefnogi trafnidiaeth gymunedol a busnes gael effeithiau cadarnhaol drwy helpu i hyrwyddo Cymru fel arweinydd mewn economi carbon isel. Gall cefnogi newid i sero net yn rhyngwladol hefyd gefnogi sefyllfa Cymru fel gwlad fyd-eang gyfrifol. Fodd bynnag, mae'r graddau y gallai hyn ddigwydd yn ansicr.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, ystyrir bod effeithiau niwtral i'r adran er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
I ba raddau y gallai buddsoddi mewn seilwaith/technolegau newydd helpu i sefydlu Cymru fel 'allforiwr' technolegau o'r fath.

## Adeiladau Preswyl

Allwedd i'r rhifau:
Polisi 43 – Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP)
Polisi 44 – Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) – Gwella effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi cymdeithasol presennol
Cynnig 5 – cefnogi landlordiaid y sector rhentu preifat i wella effeithlonrwydd ynni
Cynnig 6 – cefnogi'r sector perchen-feddianwyr i wella effeithlonrwydd ynni a newid i wres carbon isel
Cynnig 7 – defnyddio cartrefi gwag unwaith eto a helpu perchnogion i gychwyn ar eu taith i sero net
Polisi 45 – Rhan L Rheoliadau Adeiladu
Polisi 46 - Bydd Cartrefi Cymdeithasol yn arwain drwy esiampl drwy gael eu hadeiladu i safonau sy'n uwch na Rhan L
Polisi 47 - Datblygu technegau adeiladu Arloesol a chynyddu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy
Polisi 48 - Cymell cartrefi i ddefnyddio ynni'n effeithlon drwy ein Help i Brynu – Cymru
Polisi 49 – Treialu Systemau Hyblyg a Digidol Clyfar i [ddefnyddio asedau i'r eithaf] a helpu i leihau'r galw
Polisi 50 – Datblygu ymyriadau i newid ymddygiad ochr yn ochr â'n rhaglenni ehangach
Cynnig 8 – Effeithlonrwydd Dŵr a Labelu Dŵr* (Nid yw'r cynnig hwn wedi cael ei werthuso gan ei bod hi'n hwyr pan ddaeth geiriad y cynnig ar gael)

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ++ | +/? | +/? | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++/? | 0 | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Gellir disgwyl effeithiau cadarnhaol a chadarnhaol sylweddol mewn perthynas ag amrywiaeth o bolisïau a chynigion yn yr adran hon sy'n gysylltiedig ag adeiladu ac ôl-osod adeiladau (43, 44, 47) fel eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at garbon corfforedig is a defnydd mwy effeithlon o ynni a chefnogi buddsoddiad yn yr economi. Mae'r ymrwymiad cyllid yn helpu i roi sicrwydd i gyflawni'r polisïau hyn ac, yn ei dro, y dyhead am economi sero net.

At hynny, dylai datblygu rhagor o arloesi mewn technegau adeiladu (45, 46) a defnyddio cartrefi gwag (Cynnig 7) helpu i gefnogi buddsoddiad economaidd a sicrhau manteision economaidd ehangach dros y tymor hir. Mae'r union ryngweithio'n gymhleth, fodd bynnag.

**Effeithiau cronnol**
At ei gilydd, ceir effeithiau cadarnhaol sylweddol gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae ansicrwydd ynghylch union effeithiau amrediad o bolisïau a chynigion sydd, er eu bod yn gadarnhaol, yn adlewyrchu newydd-deb y maes a'r angen i fonitro ac addasu'r gweithredu yn unol â hynny. Bydd buddsoddiad parhaus yn hanfodol i sicrhau'r newid i economi di-garbon, o ran defnyddio technoleg newydd a rheoli'r stoc dai bresennol yn well.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | +/? | 0 | + | 0 | 0 | 0 | ++/? | +/? | +/? | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae nifer o'r polisïau'n ceisio ysgogi perfformiad carbon isel adeiladau drwy adeiladu ac ôl-osod (43, 44, 45 a 46) sydd, yn eu tro, yn cynyddu cyfleoedd datblygu sgiliau a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â defnyddio technolegau carbon isel. Dylai maint y sector adeiladau a maint yr her ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith gydol gyrfa, yn enwedig i bobl ifanc. Dylai buddsoddiad wedi'i dargedu (44 a 48) helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a all helpu i gefnogi 'trawsnewid cyfiawn'.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychan yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gallai Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru (Polisi 11) helpu i gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau bod gwaith ôl-osod/adeiladu o'r newydd yn defnyddio technolegau/dylunio newydd.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae ansicrwydd ynghylch union effeithiau rhai o'r Polisïau a'r Cynigion sydd, er eu bod yn gadarnhaol, yn adlewyrchu newydd-deb y maes polisi hwn a'r angen i fonitro ac addasu'r gweithredu yn unol â hynny. Yn benodol, dylai datblygu technegau adeiladu arloesol, buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni yn y cartref (Polisi 48) ac atebion digidol i reoli ynni (Polisi 49) arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau, ond nid yw'n glir a fydd grwpiau derbyn allweddol yn elwa, a faint yn union y byddant yn elwa.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++/? | ++/? | ++/? | +/? | ++ | +/? | ++ | ++/? | ++/? | +/? | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Amcangyfrifir bod gan Gymru 1.4 miliwn o gartrefi. Gyda 3.7 $MtCO_2e$, roedd yr adeiladau preswyl yn cyfrif am 10% o allyriadau Cymru yn 2019. Hefyd, roedd 32% o'r stoc tai yn perthyn i'r cyfnod cyn 1919, lle nad oedd unrhyw safonau thermol i lywio'r datblygiad. Mae'r polisïau a'r cynigion yn yr adran hon wedi'u hanelu at leihau'r allyriadau carbon o adeiladau preswyl, a fydd yn helpu i leihau'r cyfraniad y maent yn ei wneud at effeithiau ar newid yn yr hinsawdd. Mae buddsoddi mewn gwneud y stoc bresennol yn fwy ynni-effeithlon (43, 44), yn ogystal â sicrhau bod tai newydd yn bodloni neu'n rhagori ar safonau sy'n esblygu, yn ganolog i hyn.

Mae bodloni a rhagori ar safonau adeiladu (Rhan L) (45) a gyrru arloesedd mewn technegau adeiladu (47) a mesurau effeithlonrwydd ynni (48, 49) yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol, er bod cyflymder a threiddiad yr effeithiau hyn yn ansicr a bydd angen eu monitro.

Mae cysylltiadau clir â sectorau eraill, a gweithredu Polisi Cynllunio Cymru, polisïau Cymru'r Dyfodol a Chynlluniau Lleol i sicrhau bod tai'n cael eu darparu mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n lleihau'r cynnydd mewn allyriadau trafnidiaeth, er enghraifft, yn hollbwysig hefyd.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn, gydag ansicrwydd cysylltiedig ynghylch cyflymder ac effeithiolrwydd ymyriadau amrywiol i helpu i gyflawni'r nod ehangach o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae cyflymder a dreiddiad newid polisi o ran effeithlonrwydd ynni wrth adeiladu ac ôl-osod y stoc adeiladau yn debygol o fod yn feysydd ansicr o ran cyflymder y newid ac a fydd Polisïau a Chynigion yn cael eu targedu a'u hariannu'n ddigonol i fodloni dyheadau ar gyfer effeithlonrwydd ynni (ac felly newid yn yr hinsawdd) ac, yn fwy cyffredinol, diogelwch ynni.

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++/? | ++/? | +/? | +/? | +/? | ++ | +/? | +/? | ++ | ++ | +/? | ++/+ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae darparu tai effeithlon o ansawdd da yn arwain at nifer o fanteision iechyd i'r preswylwyr. Bydd y polisïau'n cefnogi'r gwaith o wella iechyd a lles corfforol a meddyliol trigolion Cymru drwy wella ansawdd yr aer, lleihau tlodi tanwydd a rhoi cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn datgarboneiddio eu hanghenion ynni.

Byddai sicrhau buddsoddiad drwy ôl-ffitio (43, 44) yn sicrhau bod y rheini sydd fwyaf angen cymorth i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn gallu ei gael. Roedd buddsoddiad o dan gynllun Nyth fel rhan o'r rhaglen yn cefnogi gostyngiadau mewn biliau o £282 ar gyfartaledd ar gyfer 4,500 o aelwydydd yn 2019/20. Byddai hyn yn cefnogi nodau strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd 2020-2035 Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cael ei gefnogi ymhellach drwy wella safon ansawdd mewn tai cymdeithasol presennol (Polisïau 44 a 46).

**Effeithiau cronnol**

At ei gilydd, aseswyd bod cyfuniad o effeithiau cadarnhaol sylweddol a mân yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Er y bydd y polisïau a'r cynigion arfaethedig yn helpu i hyrwyddo llesiant drwy ddarparu cartrefi wedi'u hinswleiddio'n well, er enghraifft, mae ansicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y gweithredu o ran manteision amlwg i grwpiau allweddol; mae'n debygol y bydd angen monitro a gwerthuso i brofi hyn ac addasu polisïau yn ôl yr angen.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++/? | ++/? | +/-/? | +/-/? | + | ++ | ++ | +/? | ++ | ++/-/? | +/? | ++/-/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd y polisïau hyn yn cefnogi tai o ansawdd da drwy wella perfformiad ynni adeiladau yn y sector domestig, cefnogi aelwydydd incwm isel yn ystod y cyfnod trawsnewid i garbon isel a gwella hygyrchedd at gyflogaeth â sgiliau priodol drwy gefnogi ehangu'r sector adeiladau carbon isel.

Byddai buddsoddi mewn cartrefi ôl-ffitio (43), codi safonau stoc (44), a chymell effeithlonrwydd ynni (Cynigion 5 a 6) yn cefnogi'r amcan hwn yn sylweddol drwy gefnogi mynediad at dai o ansawdd da. Mae potensial hefyd am effeithiau cadarnhaol sylweddol yn sgil y cynigion, yn enwedig ôl-osod, gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thechnolegau newydd fel mesuryddion clyfar. Gallai cynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol y tu hwnt i Ran L (46) gael effaith sylweddol yn y tymor hir, gan leihau costau pŵer.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol ar rai aelwydydd. Nid yw tua 1 o bob 5 cartref wedi'u cysylltu â'r grid nwy ac mae 32% wedi eu hadeiladu cyn 1919. Gallai'r gwaith o drawsnewid ac ôl-osod carbon isel er mwyn cyrraedd safonau allyriadau gwell roi baich ariannol anghymesur ar rai aelwydydd, drwy, er enghraifft, gynyddu gwerthoedd rhent preifat, heb gymorth (Cynigion 5 a 6). Gallai cyflwyno technoleg newydd (Polisi 49) hefyd roi baich ychwanegol ar berchnogion tai. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, gallai cymorth ariannol pwrpasol fod yn arbennig o ddefnyddiol yn y gwaith lliniaru ac felly i ryw raddau mae hyn yn ansicr.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod cyfuniad o effeithiau negyddol (ansicr) bach a chadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn, gan adlewyrchu bwriad cadarnhaol polisïau a chynigion ond rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gellid gwireddu eu potensial yn llawn.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Darparu cymorth ariannol digonol i aelwydydd a allai wynebu baich ariannol anghymesur yn ystod y cyfnod trawsnewid i garbon isel. Mae oedran y stoc dai (32% o'r stoc dai wedi eu hadeiladu cyn 1919) nifer y cartrefi nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy (oddeutu 1 o bob 5) yn cyflwyno heriau penodol sydd angen cyllid a chefnogaeth ddigonol i sicrhau trawsnewid cyfiawn. Felly, efallai na fydd canolbwyntio ar ymchwil yn ddigon i ysgogi gwelliannau yn y defnydd o ynni domestig.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | +/? | ++ | ++ | ++ | +/? | +/? | +/? | ++ | +/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Fel y nodwyd uchod, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau preswyl yn sylweddol. Nod y polisïau hyn yw lleihau'r gofynion ynni o'r sector hwn a datgarboneiddio'r gofynion ynni sy'n weddill. Bydd hyn hefyd yn arwain at well ansawdd aer ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol ac effaith y sector adeiladau preswyl ar yr amgylchedd naturiol. Mae polisïau 43, 44, 45 a 49, ynghyd â Chynigion 6 a 7, wedi'u nodi fel rhai a allai arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol, gan adlewyrchu'r angen i ddefnyddio nifer o fesurau i fynd i'r afael â'r her hon.

Bydd buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnegau adeiladu ac archwilio gwres carbon isel yn helpu'n sylweddol i fynd i'r afael â'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan yn y tymor byr a thros y tymor hir.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Gallai Polisi 47 gyfeirio'n benodol at y Strategaeth Ddiwydiannol Coed a'r defnydd o bren o Gymru fel rhan o ddull cylch bywyd o adeiladu a chynnal a chadw.

| **Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Er y dylid adlewyrchu effaith gadarnhaol y polisïau a'r cynigion mewn gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig fel rhan o fesurau effeithlonrwydd ynni, nid yw eu cysylltiad â'r amgylchedd naturiol mor glir, a dim ond dros y tymor hir y penderfynir ar yr effeithiau ac ar y cyd â pholisïau eraill sy'n hyrwyddo adfer a chadernid yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
|---|

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | +/? | 0 | +/? | + | + |

| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Yn gyffredinol, dylai'r polisïau hyn gefnogi'r gwaith o wella cyfleoedd i bobl gael cyflogaeth yn y sector adeiladau carbon isel, a fydd yn golygu bod angen buddsoddi mewn uwchsgilio'r gweithlu i sicrhau y bydd y sgiliau a'r wybodaeth briodol ar gael i'r gadwyn gyflenwi a chaniatáu i'r sector gael ei ddatgarboneiddio'n llwyddiannus.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Yn gyffredinol, aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn, gan adlewyrchu cyfraniad eang posibl y newid hwn yn y ffordd y mae adeiladau'n cael eu hadeiladu a'u rheoli i'r mater cymhleth o ddysgu gydol oes a meithrin sgiliau.<br><br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Dim.<br><br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Sicrhau bod gweithredu Polisïau 47, 49 yn arwain at ddarparu cyfleoedd ar gyfer caffael a gwella sgiliau. |
|---|

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Sgôr | + | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | + | + | + | + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd y polisïau'n cefnogi cyfranogiad lleol yn y gwaith o ddatblygu penderfyniadau lleol ar ofynion ynni ar gyfer cymunedau lleol (49) a sicrhau stoc dai o well ansawdd dros amser (43, 44, 46 a 48). Mae hyn yn debygol o gefnogi cynnwys cymunedau ac felly'n cefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant yn anuniongyrchol.

Bydd sicrhau bod cartrefi'n effeithlon o ran ynni yn helpu i greu cymunedau cydnerth yn y tymor hir, gan sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar dai cynaliadwy lle bo hynny'n bosibl. Bydd monitro gweithrediad y polisi'n helpu i sicrhau bod polisïau'n diwallu anghenion cymunedau lleol yn awr ac yn y dyfodol.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau niwtral yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | + | ? | ? | + | + | + | 0 | ++ | 0 | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd y polisïau a'r cynigion yn cefnogi amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd drwy gynyddu'r gwaith o ddatblygu systemau ynni ac adeiladau i ddiwallu anghenion ynni preswyl drwy adeiladau mwy cydnerth a thechnoleg arloesol i helpu i leihau'r galw am ynni ac felly allyriadau (43, 44 a 49).

Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu stoc bresennol modern sydd wedi'i hôl-osod fel rhan o nodau ehangach i sicrhau bod seilwaith yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn, gyda rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut bydd y stoc rhent preifat a'r stoc perchen-feddianwyr ehangach yn sicrhau'r trawsnewid gofynnol

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae effeithiolrwydd gweithredu mesurau yn y sector rhentu preifat a phreifat (Cynigion 6 a 7) yn ansicr o ran i ba raddau y gellir sicrhau newidiadau cyflym.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi / Cynnig | Polisi 43 | Polisi 44 | Cynnig 5 | Cynnig 6 | Cynnig 7 | Polisi 45 | Polisi 46 | Polisi 47 | Polisi 48 | Polisi 49 | Polisi 50 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | + | + | +/? | 0 | + | +/? | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r polisïau a'r cynigion hyn yn dangos ymrwymiad Cymru i leihau effeithiau ar yr hinsawdd mewn cymunedau, diwydiant a stoc adeiladau, gydag anogaeth a chefnogaeth ynni, adeiladau ac ynni adnewyddadwy cadarn. Mae hyn yn helpu i ddangos bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Yn gyffredinol, aseswyd bod i'r polisïau effeithiau cadarnhaol ar gyflawni'r amcan hwn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Er y bydd y polisïau a'r cynigion yn arwain at hyrwyddo rôl Cymru fel cenedl gyfrifol, mae ansicrwydd ynghylch pa mor effeithiol y gallai rhai o'r ymyriadau fod, yn enwedig o ran newid ymddygiad. Felly, bydd angen monitro a gwerthuso.

## Diwydiant a Busnes

Allwedd i'r rhifau:

Cynnig 9 – Datblygu Tystiolaeth a Dadansoddiad o'r Sector Diwydiant a Busnes i sicrhau bod allyriadau'n cael eu lleihau'n gyflym ac yn gost-effeithiol – Llywodraeth Cymru.
Cynnig 10 – Blaenoriaethu cymorth ariannol a chefnogaeth arall ar gyfer swyddi gwyrdd a glân sy'n arwain at economi wedi'i datgarboneiddio
Polisi 51 – Ysgogi Datgarboneiddio drwy'r Sector Gweithgynhyrchu
Cynnig 11 - Datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer y Sector gweithgynhyrchu bwyd a diod erbyn 2026, yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth
Cynnig 12 – Datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi pysgod a physgota
Polisi 52 – Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon mewn busnes a diwydiant drwy reoleiddio a chyllido
Polisi 53 - Rhoi trefn newydd ar waith i reoli llygredd Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT) ar gyfer diwydiant
Polisi 54 - Busnes Cymru – defnyddio ein gwasanaethau ariannol a chynghori i annog busnesau i leihau allyriadau
Cynnig 13 – Adolygu a datblygu Busnes Cymru
Cynnig 14 – Adeiladu ar ein Heconomi Sylfaenol
Polisi 55 - Ardoll Newid yn yr Hinsawdd (CCL) a Chytundebau Newid yn yr Hinsawdd - Llywodraeth y DU
Polisi 56 - Gwelliannau i'r Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni (ESOS)
Polisi 57 - Dulliau symlach o Adrodd ar Ynni a Charbon (SECR)
Cynnig 15 – Clystyrau Diwydiannol – newid tanwydd
Cynnig 16 – Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei pholisïau i gefnogi newid tanwydd
Cynnig 17 – Parhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar Ddefnyddio Dal a Storio Carbon dros gyllideb garbon 2
Cynnig 18 – Clystyrau Diwydiannol – Defnyddio Dal a Storio Carbon
Cynnig 19 – Cael gwared â nwyon tŷ gwydr
Cynnig 20 – Cynllun Cyflawni Eiddo
Cynnig 21 – Cynllun Sgorio Effeithlonrwydd Ynni Eiddo (PEERS)
Polisi 58 – Banc Datblygu Cymru – Datgarboneiddio i'w gynnwys fel blaenoriaeth polisi yn y llythyr cylch gwaith nesaf a fydd yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2021
Cynnig 22 – Datblygu mecanweithiau cefnogi newydd i hybu ac i gefnogi arloesedd mewn Datgarboneiddio Diwydiannol
Polisi 59 - Cronfa Dyfodol yr Economi
Polisi 60 - Ffrydiau Cyllido Llywodraeth y DU ar gyfer Datgarboneiddio Diwydiannol ac Effeithlonrwydd Ynni

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ++ | ++ | +/? | +/? | ++/? | +/- | + | +/? | + | ++ | +/- | |
| Polisi / Cynnig | Polisi 57 | Cynnig 15 | Cynnig 16 | Cynnig 17 | Cynnig 18 | Cynnig 19 | Cynnig 20 | Cynnig 21 | Polisi 58 | Cynnig 22 | Polisi 59 | Polisi 60 | Cronnol |
| Sgôr | ++ | ++ | + | + | ++ | +/- | +/? | + | +/? | ++ | ++ | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd cymorth i ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru, drwy gymorth lleihau allyriadau ac ymdrechion cysylltiedig i ddatblygu storfa dal carbon sy'n fasnachol hyfyw, yn ffactor pwysig o ran cynnal diwydiant carbon isel cynaliadwy. Yn ehangach, gellir cyflawni datgarboneiddio mewn busnesau drwy gefnogi ymdrechion sy'n cynnig buddsoddiad wedi'i dargedu. Gall hyn fod yn fynediad at gyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn asedau a seilwaith carbon isel, yn ogystal â rhaglenni buddsoddi rhanbarthol, drwy gyfrwng Bargeinion Dinesig a Thwf.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd (CCA) yn parhau tan 2025. Nod hyn yw diogelu diwydiannau lle gall costau treth effeithio ar gystadleurwydd a chymell gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, a thrwy hynny ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach gan amrywiaeth o gymorth ariannol (fel Cynnig 10, Polisi 52). Fodd bynnag, gallai rhai mesurau roi pwysau ar ddiwydiant a busnesau yn y tymor byr nes bydd y newidiadau gofynnol yn cael eu cyflwyno (53, 56, Cynnig 19), gan arwain at rai effeithiau negyddol.

Mae ansicrwydd yn bodoli ynghylch gweithredu rhai mesurau, yn benodol rôl Busnes Cymru yn dilyn adolygiad (Cynnig 13) a sut y gellid cyflawni arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau mewn busnesau (Cynigion 11, 12). Mae ansicrwydd ehangach o ran yr amserlen ar gyfer sicrhau newid i garbon sero net ac a oes modd cyflawni'r newid fel rhan o gylchoedd buddsoddi arferol neu a allai fod angen adnoddau ychwanegol sylweddol. O ganlyniad, gallai fod goblygiadau o ran argaeledd gweithwyr sydd â'r sgiliau priodol i fodloni gofynion yr economi newydd mewn meysydd fel adeiladu a chynnal a chadw.

**Effeithiau cronnol**

Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Bydd blaenoriaethu cymorth ariannol a chymorth arall (Cynigion 10, 22, Polisi 52, 60) yn darparu mesurau lliniaru pwysig i fusnesau yn ystod y cyfnod o newid.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae ansicrwydd ynghylch union effeithiau rhai o'r Polisïau a'r Cynigion (Cynigion 11, 12, 20 a Pholisïau 52, 58) sydd, er eu bod yn gadarnhaol, yn adlewyrchu newydd-deb y maes polisi hwn a'r angen i fonitro ac addasu'r gweithredu yn unol â hynny. Bydd angen monitro a gwerthuso parhaus i bennu cyflymder a chyfeiriad y newidiadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth amlwg i gyflawni ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, gallai fod angen mesurau ychwanegol i newid cyfeiriad.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ++/? | +/- | + | + | ? | ? | +/? | +/? | + | +/? | + | |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| Sgôr | + | +/-/? | + | + | +/? | 0 | 0 | 0 | +/? | ++/? | + | ++/? | ++/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Gall strategaethau ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol arwain at fanteision mawr ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy. Gellid disgwyl effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran darparu cymorth ariannol a chymorth arall ar gyfer newid i swyddi gwyrdd (Cynigion 10, 22) a buddsoddi mewn datgarboneiddio (60), a fydd yn cefnogi buddsoddiad mewn swyddi cynaliadwy.

Er bod datgarboneiddio (Polisi 51) a newid tanwydd (Cynnig 15) yn gadarnhaol mewn egwyddor, gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol megis costau uchel ac effeithiau canlyniadol ar gyfleoedd cyflogaeth yn y busnesau sy'n newid. Asesir effeithiau cadarnhaol a negyddol cymysg ar gyfer y polisïau hyn.

**Effeithiau cronnol**
Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol ac effeithiau negyddol bychain cymysg.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd polisïau sy'n cefnogi buddsoddiad mewn sgiliau, arloesedd a hyfforddiant (Polisi 11, 12) yn bwysig o ran lliniaru effeithiau negyddol ar gyflogaeth.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae ansicrwydd ynghylch union effeithiau rhai o'r Polisïau a'r Cynigion (Cynigion 10, 13, 18, 22 a Pholisïau 54, 55, 58, 60) sydd, er eu bod yn gadarnhaol yn y tymor hir, yn adlewyrchu newydd-deb y maes polisi hwn a pha mor bell a dwfn y gallai fod angen i'r ymyriadau fynd. Bydd angen monitro a gwerthuso parhaus i bennu cyflymder a chyfeiriad y newidiadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth amlwg i gyflawni ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd.
Nodir effeithiau ansicr mewn perthynas â Pholisïau 52 a 53, sy'n gysylltiedig â chyflwyno trefniadau rheoleiddio newydd nad ydynt wedi cael eu profi o ran cyflawni canlyniadau datgarboneiddio.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | +/? | ++/? | + | + | ++/? | ++/? | +/? | +/? | +/? | + | +/? | |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | + | ++/? | ? | + | ++/? | ? | + | +/? | +/? | +/? | + | ++/? | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

| |
|---|
| Mae'r CCC yn nodi bod datgarboneiddio prosesau diwydiannol yn her benodol i Gymru. Mae cymorth i ddiwydiannau ynni-ddwys o ran gyrru llwybrau carbon isel a datblygu storfeydd dal carbon yn debygol o gael effaith sylweddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar lefel y sector ac effeithiau cysylltiedig ar newid yn yr hinsawdd.<br><br>Gallai cefnogi newid mewn sectorau gweithgynhyrchu (51), targedu newidiadau mewn cyllid a rheoleiddio (52) gan gynnwys cronfeydd y DU (60) a chysoni'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) ag uchelgeisiau sero net (53) sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau yn y sector. Gallai dosbarthu hydrogen a dal a storio carbon fel rhan o brosiect HyNet yn Ellesmere Port (Cynnig 18) gefnogi datgarboneiddio ar draws Gogledd Cymru. Bydd cefnogi clystyrau diwydiannol, fel Clwstwr Diwydiannol De Cymru (Cynnig 15), yn cefnogi rhanddeiliaid i newid tanwydd.<br><br>Bydd datblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r dangosyddion perfformiad (Cynnig 9, 10) yn cefnogi ymdrechion yn y dyfodol i leihau allyriadau yn y sector a bydd yn cefnogi'r llwybr yn y dyfodol at sero net yn 2050 ac yn helpu i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol. Byddai blaenoriaethu'r Alwad i Weithredu ar Ddatgarboneiddio fel rhan o Gronfa Dyfodol yr Economi (EFF) (59) hefyd yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hir.<br><br>**<u>Effeithiau cronnol</u>**<br>Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol gyda rhywfaint o ansicrwydd wedi'i nodi.<br><br>**<u>Mesurau lliniaru/gwella</u>**<br>Dim.<br><br>**<u>Tybiaethau ac ansicrwydd</u>**<br>Mae ansicrwydd ynghylch union effeithiau rhai o'r cynigion 10, 15, 18, 21, 22 a pholisïau 51, 52, 53, 54, 56, 58 a 60 sydd, er eu bod yn gadarnhaol, yn adlewyrchu newydd-deb y maes polisi hwn a'r angen i fonitro ac addasu'r gweithredu yn unol â hynny. Bydd angen monitro a gwerthuso parhaus i bennu cyflymder a chyfeiriad y newidiadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth amlwg i gyflawni ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, gallai fod angen mesurau ychwanegol i newid cyfeiriad. Mae ansicrwydd ynghylch effaith cynigion 16 a 19 yn ddibynnol ar eu datblygiad yn CB2. |

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Sgôr | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu effeithiau'r polisïau a'r cynigion hyn ar iechyd corfforol a meddyliol. Serch hynny, gall polisïau a chynigion sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd arwain o bosibl at gyfleoedd busnes a chyflogaeth cynaliadwy, gan helpu llesiant (drwy gyfleoedd cyflogaeth er enghraifft) ac iechyd meddwl cyffredinol. Ar ben hynny, gall cefnogi'r sector diwydiant a busnes i newid i sero net gyda gostyngiadau cysylltiedig mewn allyriadau i aer gefnogi iechyd corfforol, drwy wella ansawdd aer.

**Effeithiau cronnol**
Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae cyfleoedd cyflogaeth ac incwm cysylltiedig yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol pawb yn y gymuned. Bydd angen monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi er mwyn penderfynu pa mor effeithiol y mae anghenion grwpiau ac ardaloedd penodol yn cael eu diwallu.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 9** | **Cynnig 10** | **Polisi 51** | **Cynnig 11** | **Cynnig 12** | **Polisi 52** | **Polisi 53** | **Polisi 54** | **Cynnig 13** | **Cynnig 14** | **Polisi 55** | **Polisi 56** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Sgôr | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | +/? | +/? | 0 | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Gall polisïau a chynigion sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd o bosibl greu cyfleoedd i wneud cymunedau'n llai agored i niwed yn ystod y cyfnod o newid i sero net drwy ddarparu busnesau a chyflogaeth gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau swyddi drwy'r cyfnod o newid. Gallai gweithredu Adeiladu Cyfoeth Cymunedol a Busnes Cymdeithasol Cymru (Cynnig 13) fod yn arbennig o effeithiol o ran cefnogi cydlyniant cymunedol.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae cyfleoedd cyflogaeth ac incwm cysylltiedig yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol pawb yn y gymuned. Bydd angen monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi er mwyn penderfynu pa mor effeithiol y mae anghenion grwpiau ac ardaloedd penodol yn cael eu diwallu.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | 0 | + | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 | ++ | + | |

| Polisi / Cynnig | Polisi 57 | Cynnig 15 | Cynnig 16 | Cynnig 17 | Cynnig 18 | Cynnig 19 | Cynnig 20 | Cynnig 21 | Polisi 58 | Cynnig 22 | Polisi 59 | Polisi 60 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | +/? | +/? | 0 | + | + | 0 | + | 0 | +/? | +/? | +/? | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd gweithredu i barhau i ddatgarboneiddio gweithgarwch busnes o fudd i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig drwy effeithiau yn is i lawr dros y tymor hwy. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael eu harafu, sy'n golygu effeithiau llai difrifol ar yr amgylchedd naturiol. Gallai trefn newydd o reoli llygredd (53) fod yn arbennig o bwysig o ran diogelu'r amgylchedd naturiol, a fydd, yn ei dro, yn ategu polisïau ehangach sy'n ceisio sicrhau ei fod yn cael ei wella. Bydd yr ardoll newid yn yr hinsawdd (55) a gweithgareddau busnes carbon is yn golygu gwell ansawdd aer lleol a manteision dilynol i'r amgylchedd adeiledig. Bydd datblygu'r sylfaen dystiolaeth (Cynnig 9) yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau gwaelodlin gadarn a data hydredol cyson i asesu newid yn briodol ac effeithiau tebygol ymyriadau polisi.

**Effeithiau cronnol**
Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Cyflwynir canlyniadau polisi cysylltiedig ym mhob thema arall ochr yn ochr. Mae bwriad cadarnhaol y polisïau a'r cynigion yn golygu bod gwella'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig yn debygol o fod yn rhan o'r gweithredu, er nad yw'n glir i ba raddau a byddai angen ei sefydlu drwy raglen fonitro.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ++/? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | + | |

| Polisi / Cynnig | Polisi 57 | Cynnig 15 | Cynnig 16 | Cynnig 17 | Cynnig 18 | Cynnig 19 | Cynnig 20 | Cynnig 21 | Polisi 58 | Cynnig 22 | Polisi 59 | Polisi 60 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **+** | **+** | **0** | **+/?** | **+/?** | **0** | **+** |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael i asesu effeithiau uniongyrchol y polisïau ar annog dysgu am oes. Fodd bynnag, mae newid arferion busnes yn debygol o olygu bod angen sgiliau newydd i gyflawni blaenoriaethau a chyfleoedd sy'n esblygu, fel rhan o'r newid i sero-net. Bydd ymchwil a datblygu storfa dal carbon ar offer hylosgi canolig a mawr, yn ogystal â safleoedd BECCS posibl, yn gofyn am ddefnyddio sgiliau peirianneg presennol mewn ffordd wahanol. Mae cymorth drwy gyllid wedi'i dargedu (Cynnig 10) yn debygol o arwain at ddatblygu sgiliau, er bod ansicrwydd ynghylch a all ymyriadau o'r fath gyrraedd pob sector a chymuned mewn angen.

**Effeithiau cronnol**
Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd polisïau sy'n cefnogi buddsoddiad mewn sgiliau, arloesedd a hyfforddiant (Polisi 11, 12) yn bwysig o ran gwella effeithiau cadarnhaol.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae'r cwricwlwm ysgol yn parhau i gefnogi'r meddylfryd o ddysgu am oes ac mae'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch (HFE) yn parhau i fod yn effeithiol yn ei rôl gefnogol o ran cynnal a datblygu sgiliau a gwybodaeth ymysg y gymuned. Mae ansicrwydd amrywiol ynghylch y cysylltiadau rhwng y polisïau a'r cynigion a'r effeithiau tebygol ar ddatblygu sgiliau, gan ganolbwyntio ar gynlluniau sydd wedi'u llunio i sicrhau newid economaidd tuag at economi sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon ac a fydd o bosibl yn ddi-garbon. Byddai angen rhaglen fonitro i bennu effeithiolrwydd gweithrediad y polisi, yn enwedig ar gyfer grwpiau penodol megis pobl ifanc.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | +/? | +/? | 0 | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd datgarboneiddio diwydiant sy'n defnyddio ynni'n ddwys yn hyrwyddo gweithrediadau busnes cynaliadwy hirdymor ac felly cyfleoedd cyflogaeth parhaus. Bydd ymdrechion i sbarduno twf cynaliadwy yn y sector bwyd a diod hefyd o fudd i gydnerthedd cymunedol. Bydd gwaith ehangach yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan gysylltu dangosyddion perfformiad cynaliadwy â buddsoddiad pellach, yn parhau i hyrwyddo llwybrau carbon isel cadarnhaol.

**Effeithiau cronnol**
Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd LEAP (Polisi 20) yn bwysig i wella cydnerthedd cymunedau.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Nid oes llawer o dystiolaeth o'r cysylltiadau tebygol rhwng dulliau polisi o ran datgarboneiddio a chymunedau cydnerth (cydlyniant cymunedol) – mae'n debygol y bydd angen ymchwil i'r cysylltiadau allweddol e.e. cyfleoedd gwaith, datblygu sgiliau a thlodi tanwydd.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Sgôr | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + | 0 | + | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | 0 | + | + | 0 | ++/? | 0 | +/? | + | + | 0 | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae buddsoddiad wedi'i dargedu mewn diwydiant a busnes yn hanfodol i ddatblygu seilwaith carbon isel. Gall cynlluniau buddsoddi rhanbarthol a daearyddol, sy'n cysylltu gweithgarwch busnes â gofynion sylfaenol ym maes ynni, dŵr, gwastraff a chysylltedd rhyngrwyd, gefnogi ymddygiad carbon isel yn y dyfodol. Mae darparu seilwaith rhwydwaith hydrogen a storfa dal carbon yn elfen hanfodol o ran datgarboneiddio diwydiant sy'n defnyddio ynni'n ddwys ac mae cefnogi Clystyrau Diwydiannol yn debygol o gefnogi llwyddiant sylweddol yn y tymor hir (Cynnig 18).

Ar y cyfan, mae'r cynigion a'r polisïau'n debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol, gan adlewyrchu'r awydd i greu'r fframwaith polisi galluogol ar gyfer newid i ddyfodol carbon sero net. Bydd sefydlu llinell sylfaen a chasglu data hydredol (Cynnig 9) i bennu cyflymder a threiddiad y newid yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol.

**Effeithiau cronnol**

Aseswyd bod effeithiau cadarnhaol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Mae angen darparu band eang cyflym iawn a gwibgyswllt i gefnogi gofynion seilwaith modern ar gyfer busnesau a diwydiant (mae gweithredu Polisi 13 yn allweddol i gyflawni hyn).

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rôl y Cynllun Cyflawni Eiddo (Cynnig 20) er ei fod yn gadarnhaol yn cynnwys ansicrwydd ynghylch pwy fydd yn cael eu targedu a gyda pha ganlyniadau.

Mae darparu rhwydweithiau hydrogen a dal carbon (Cynnig 18) yn ansicr yn amodol ar gyflawni yn y tymor hir.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi / Cynnig | Cynnig 9 | Cynnig 10 | Polisi 51 | Cynnig 11 | Cynnig 12 | Polisi 52 | Polisi 53 | Polisi 54 | Cynnig 13 | Cynnig 14 | Polisi 55 | Polisi 56 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ++ | + | + | + | ++ | ++ | |
| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 57** | **Cynnig 15** | **Cynnig 16** | **Cynnig 17** | **Cynnig 18** | **Cynnig 19** | **Cynnig 20** | **Cynnig 21** | **Polisi 58** | **Cynnig 22** | **Polisi 59** | **Polisi 60** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | ++ | ++ | + | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Bydd parhau i reoleiddio allyrwyr Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) ar raddfa fawr yn sbarduno buddsoddiad mewn lleihau a dal carbon. Gall safonau ehangach mewn perthynas â dangosyddion cynaliadwy ar gyfer busnes, sy'n gysylltiedig â buddsoddi, ddangos cyfraniad Cymru at weithredu newid hinsawdd byd-eang. Aseswyd bod y Polisïau a'r Cynigion yn hynod gadarnhaol o ran eu heffeithiau tebygol, gan adlewyrchu eu rôl fel arwydd clir o ymrwymiad Cymru i newid wedi'i ategu gan ymyriadau ariannol a rheoleiddiol clir, yn cael eu targedu at sectorau penodol lle mae angen y newidiadau mwyaf sylweddol.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ymrwymiadau byd-eang ar newid yn yr hinsawdd dan arweiniad Llywodraeth y DU. Bydd angen seilio'r farn ar effeithiolrwydd hirdymor polisïau a chynigion ar ymchwil a monitro, yn enwedig lle'r anelir at arferion gorau ac arweinyddiaeth.

## Amaethyddiaeth

Allwedd i'r rhifau:

Polisi 61 - Rheoliadau i leihau llygredd amaethyddol
Polisi 62 – Glastir
Polisi 63 - Grant Busnes i Ffermydd (FBG)
Polisi 64 - Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG)
Polisi 65 - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid (AHWF)
Polisi 66 – Rhaglen Datblygu Cig Coch
Polisi 67 - Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth (DIP)
Polisi 68 – Cyswllt Ffermio
Polisi 69 – Y Bil Amaethyddiaeth
Cynnig 23 – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)
Cynnig 24 – Gweithio gyda ffermwyr a'r sector gwastraff i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac ailddefnyddio mwy ar ffermydd
Cynnig 25 – Effeithlonrwydd Tanwydd (Llywodraeth Cymru)
Cynnig 26 – Cefnogi arloesedd mewn ynni/technoleg adnewyddadwy
Cynnig 27 – Troi'n organig
Cynnig 28 – Ffermio Manwl
Cynnig 29 – Rhannu Tir
Cynnig 30 – Edrych ar y potensial i gefnogi Garddwriaeth

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 61** | **Polisi 62** | **Polisi 63** | **Polisi 64** | **Polisi 65** | **Polisi 66** | **Polisi 67** | **Polisi 68** | **Polisi 69** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **0** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **++** | **++** | **++** | **+** | **+** |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | **+** | **+** | **+** | **+** | **+** | **+** | **+** | **+** | **++** |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r sector amaethyddol yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r sector amaethyddol yn cael ei reoli'n drwm gan dopograffeg, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o dir Cymru yn cael ei ddosbarthu'n ACL Gradd 4 neu 5, sy'n wael ac yn wael iawn. Mae hyn yn arwain at ganolbwyntio ar dda byw.

Byddai parhau â'r Rhaglen Datblygu Cig Coch (66) a'r Rhaglen Gwella Llaeth (DIP) (67) yn helpu i wneud stociau anifeiliaid yn fwy cydnerth rhag clefydau posibl ac yn galluogi ffermwyr i farchnata anifeiliaid yn gynt. Byddai'r rhaglen iechyd a lles anifeiliaid (65) yn gwella effeithlonrwydd y diwydiant ffermio drwy drin da byw yn briodol, cynyddu faint o laeth a chig a gynhyrchir gan lai o anifeiliaid. Byddai'r polisïau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi, o gofio bod defaid a chig eidion wedi cynhyrchu £764 miliwn a bod llaeth a chynnyrch llaeth yn cyfrif am £568 miliwn arall (2018).

Bydd y Bil Amaethyddiaeth (69) yn rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr ar ôl iddynt adael yr UE. Byddai Cyswllt Ffermio (68) yn cefnogi polisïau eraill yr adran hon drwy gyfleoedd hyfforddi a grantiau i sicrhau bod y diwydiant ffermio yn parhau i dyfu ei sylfaen wybodaeth a sgiliau a all gefnogi gweithwyr presennol a newydd yn y sector. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr effeithiau economaidd yn y tymor hir, o ran Cyswllt Ffermio, y Rhaglen Datblygu Cig Coch a DIP, gyda'r cyllid i fod i ddod i ben yn CB2. Fodd bynnag, byddai effeithiau cadarnhaol yn debygol yn y tymor byr.

Byddai darparu grantiau ar gyfer buddsoddi mewn technolegau mwy cynaliadwy (63, Cynnig 26), buddsoddi mewn rheoli gwastraff (Cynnig 24), ac offer i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr, pridd ac aer drwy leihau llygredd amaethyddol (61) ynghyd â grantiau Glastir (62) yn cefnogi buddsoddiad yn y sector er bod Glastir i fod i ddod i ben yn CB2.

Byddai cynigion eraill yn cefnogi ffermwyr yng nghyswllt nwyddau ychwanegol nad ydynt yn fwyd (23), drwy gefnogi ffermio i droi'n organig a bodloni'r galw cynyddol yn y farchnad (27) a chefnogi cynhyrchu bwyd garddwriaethol effeithlon (30). Byddai ffermio manwl (28) hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewn cynhyrchu economaidd.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr economi.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Nid yw cyllid Grantiau Bach Glastir, Grant Busnes Fferm, Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn sicr yn amodol ar CSR 2021. Gallai hyn effeithio ar fanteision economaidd.

| |
|---|
| Mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch cyllid ar gyfer Cyswllt Ffermio, y Rhaglen Datblygu Cig Coch a'r Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth yn ystod Cyllideb Garbon 2 a allai gael effaith ar effeithiau cadarnhaol ar yr economi yn y tymor canolig a'r tymor hir. |

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 61** | **Polisi 62** | **Polisi 63** | **Polisi 64** | **Polisi 65** | **Polisi 66** | **Polisi 67** | **Polisi 68** | **Polisi 69** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | 0 | +/? | +/? | +/? | + | + | + | + | + |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| **Sgôr** | + | + | + | + | + | + | 0 | + | + |

**<u>Effeithiau sylweddol tebygol</u>**

Mae'r sector amaethyddol yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddarparu swyddi. Mae *Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Mehefin 2020* Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y prif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u gwŷr/gwragedd yn 37,300, gostyngiad o 6% ers 2019. Mae Arolwg Mehefin 2020 hefyd yn tynnu sylw at y ffaith mai 15,500 oedd nifer y gweithwyr ar ffermydd, sy'n gynnydd o bron i 18% ers 2019 (a allai fod i'w briodoli i gynnydd mewn gweithwyr achlysurol). Mae pandemig COVID-19 wedi cael ffaith sylweddol ar y ffigurau hyn. Gallai gadael yr UE hefyd effeithio ar weithwyr tymhorol, ond ar hyn o bryd mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr effeithiau. Bydd y Bil Amaethyddiaeth (69) yn helpu i roi peth sefydlogrwydd i ffermwyr ar ôl iddynt adael yr UE.

Byddai Cymru Sero Net yn cefnogi gallu'r sector amaethyddol i gynnig amrywiaeth eang o swyddi amaethyddol i bobl o bob math o gyrhaeddiad addysgol. Mae cymorth i gymunedau amaethyddol yn debygol o helpu ardaloedd gwledig a'r economi wledig yn benodol, a all hefyd helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol. Fodd bynnag, yr oedran canolrifol ar gyfer ffermwyr yn 2016 oedd 61 ac ar gyfer ffermydd bach iawn, roedd hyn yn uwch sef 64. Mae'n bwysig bod rhaglenni'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion gweithlu hŷn tra bod cefnogaeth yn cael ei darparu i annog pobl iau i ymuno â'r sector amaethyddol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, drwy ragor o arbedion effeithlonrwydd, y bydd rhai cyfleoedd cyflogaeth yn gallu cael eu colli hefyd, ond yr aseswyd effeithiau cadarnhaol ar y cyfan.

**Effeithiau cronnol**
Ystyrir bod yr adran hon yn cael effaith gadarnhaol fach.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Gellid rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch cefnogi'r gweithlu amaethyddol hŷn i ymgysylltu'n weithredol â chyfleoedd hyfforddi a chefnogi ymgysylltu â thechnolegau carbon isel ac adnewyddadwy.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae rhywfaint o gyllid (62, 63, 64) yn amodol ar CSR 2021 a allai effeithio ar fanteision cadarnhaol o ran datblygu sgiliau.

Yr ansicrwydd yng nghyswllt cyllid yn CB2 (62 - 64) a allai gael effaith ar effeithiau cadarnhaol ar greu cyflogaeth newydd yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae effeithiau gadael yr UE ar waith tymhorol yn ansicr.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | +/? | +/? | +/? | + | +/- | +/- | + | 0 |
| Polisi / Cynnig | Cynnig 23 | Cynnig 24 | Cynnig 25 | Cynnig 26 | Cynnig 27 | Cynnig 28 | Cynnig 29 | Cynnig 30 | Cronnol |
| Sgôr | + | + | + | + | + | +/? | + | + | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Amcangyfrifir bod y sector amaethyddol yn cyfrannu 14% o'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yng Nghymru, felly mae unrhyw bolisïau a chynigion sy'n gweithio i leihau allyriadau yn bwysig. Mae polisïau yn cefnogi buddsoddiad mewn peiriannau mwy newydd a mwy effeithlon (63) a byddai hyfforddiant cysylltiedig (68) yn

cefnogi amcan a chydnerthedd y sector ffermio yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, byddai parhau i gynhyrchu cig a chynnyrch llaeth, i ryw raddau, hyd yn oed ar ôl gwella effeithlonrwydd, yn anghyson ag Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, o ystyried y dwysedd carbon sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchu hwn. Mae hyn hefyd yn debygol o atgyfnerthu deiet sy'n fwy carbon-ddwys. Felly, aseswyd effeithiau cadarnhaol a negyddol bychain cymysg ar gyfer 66 a 67.

Byddai Glastir (62) yn helpu i atafaelu carbon drwy greu ac adfer coetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Byddai Grantiau Bach Glastir yn helpu ffermwyr i gyflawni hyn, er efallai na fydd cyllid ar gael yn CB2. Byddai gweithredu rheoliadau ar lygredd (61), er eu bod yn canolbwyntio mwy ar ddiogelu cyrsiau dŵr rhag llygredd, hefyd yn gwella'r gwaith o reoli pridd/maethynnau gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygryddion (fel NOx). Ar ben hynny, mae rhagor o waith modelu a monitro yn cefnogi rhaglenni sy'n cefnogi datgarboneiddio ac atafaelu mewn amaethyddiaeth (Cynnig 28).

Byddai lleihau gwastraff a chynyddu cylchedd yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Cynnig 24), (Cynnig 29) a allai gyfrannu at gynhyrchu bwyd yn effeithlon a fyddai'n gofyn am lai o dir. Byddai trosi organig (Cynnig 27) hefyd yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy leihau triniaethau cemegol a gwrteithiau (ac allyriadau yn ystod cynhyrchu) a deietau carbon is.  Byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Cynnig 23) hefyd yn helpu i gefnogi datgarboneiddio'r sector amaethyddol. Gallai ffermio manwl (28) gefnogi rheoli ffermydd yn effeithiol yn y tymor hir. Byddai gweithredu technolegau carbon isel ac adnewyddadwy a gwell economi tanwydd hefyd yn cefnogi'r amcan yn y tymor hir. Gallai pob cynnig felly gefnogi cyflawni'r amcan hwn yn y tymor hir.

**Effeithiau cronnol**

Byddai'r polisïau a'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol a negyddol fach ar yr Amcan Cynaliadwyedd hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid ystyried rhoi rhagor o gymorth i fabwysiadu technolegau, adeiladau/strwythurau, cerbydau ac arferion rheoli gwastraff di-garbon/carbon isel yn y sector amaethyddol.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Gallai'r ansicrwydd o ran cyllid yn CB2 (62 - 64) effeithio ar fanteision cadarnhaol o ran creu coetiroedd ac arferion gweithio cynaliadwy.

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | +/? | +/? | +/? | + | + | + | + | + |

| Polisi / Cynnig | Cynnig 23 | Cynnig 24 | Cynnig 25 | Cynnig 26 | Cynnig 27 | Cynnig 28 | Cynnig 29 | Cynnig 30 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Ystyrir bod gwella rheolaeth amaethyddol i gefnogi'r broses o newid i economi a chymdeithas sero net yn helpu i gefnogi iechyd a lles drwy wella bioamrywiaeth, lleihau llygredd aer a dŵr, a thrwy gynnal swyddi mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, gallai gwell safonau amgylcheddol a lles a chefnogaeth ar gyfer cynhyrchu organig hefyd arwain at well ansawdd bwyd i ddefnyddwyr, gan wella deiet.

Mae Polisïau 62 - 64, 66 - 68 a Chynnig 23 yn darparu grantiau neu gyllid i gefnogi newid y sector amaethyddol i sero net, a fyddai'n cefnogi cydlyniant ardaloedd gwledig, lle mae amaethyddiaeth yn rhan bwysig o gymunedau bywiog. Cydnabyddir y gallai rhagor o fecaneiddio ac arbedion effeithlonrwydd leihau'r niferoedd cyffredinol sy'n cael eu cyflogi yn y sector (yn enwedig y rheini sy'n cael eu cyflogi gan y prif ffermwyr neu berchnogion) ond ar y cyfan, aseswyd effeithiau cadarnhaol.

Drwy warchod asedau naturiol (61) a/neu geisio eu gwella, mae potensial i greu mannau hamdden newydd, a fyddai'n arwain at nifer o fanteision iechyd. Byddai lleihau'r effeithiau ar ansawdd aer lleol (61) hefyd yn gwella iechyd y rheini sy'n agos at brosesau amaethyddol.

**Effeithiau cronnol**

Byddai'r adran hon yn darparu effeithiau cadarnhaol bychain mewn perthynas â'r Amcan Cynaliadwyedd hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Rhywfaint o gyllid (62-64) a allai effeithio ar fanteision cadarnhaol i iechyd a lles meddyliol mewn ardaloedd gwledig.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SAO 1 Sgôr | + | +/? | +/? | +/? | + | + | + | + | + |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| SAO 1 Sgôr | + | + | + | + | + | +/? | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Byddai cefnogi'r sector, ac felly'r cymunedau hynny sy'n dibynnu ar y sector drwy'r newid i sero net, yn cefnogi cymunedau a allai fod yn agored i newid a bod yn fath o gyfiawnder hinsawdd. Byddai hyn yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb.

Mae amaethyddiaeth wedi'i chysylltu'n unigryw â chymunedau a thirweddau cefn gwlad Cymru ac mae'n helpu i gefnogi'r ymdeimlad o le a hunaniaeth yn yr ardaloedd hyn. Byddai'r polisïau a'r cynigion hyn yn cefnogi amaethyddiaeth drwy'r newid i sero net, gan gyfrannu ymhellach at greu naws am le, ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth yn ystod CB2 a thu hwnt. Byddai cefnogi'r sector amaethyddol drwy'r newid hefyd yn cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd gwledig yn anuniongyrchol, gan helpu cydlyniant a chydraddoldeb.

Yn fwy cyffredinol, gallai cefnogi'r sector amaethyddiaeth yn y cyfnod o newid helpu i sicrhau bod bwyd fforddiadwy, carbon isel o ansawdd uchel ar gael i bob defnyddiwr, a allai leihau'r gwahaniaethau rhwng aelodau o gymdeithas oherwydd cost cynnyrch.

**Effeithiau cronnol**

Felly, ystyrir bod y polisïau a'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol fach ar yr Amcan Cynaliadwyedd hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rhywfaint o'r cyllid yn ansicr yn CB2 (62-64) ac mae Ffermio Manwl (Cynnig 28) yn destun CSR 2021 a allai effeithio ar fanteision cadarnhaol i gymunedau.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SAO 1 Sgôr | ++ | ++/? | +/? | ++/? | + | + | + | + | + |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| SAO 1 Sgôr | ++ | + | + | + | ++ | + | + | +/-/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae amaethyddiaeth yn effeithio ar gymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth, pridd ac ansawdd dŵr. Byddai darparu asedau coedwig/coetir newydd yng Nghymru (62) yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar fioamrywiaeth yn y tymor hir ac yn helpu i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw cyllid yn sicr yn CB2.

Mae Polisi 61 yn canolbwyntio ar leihau'r llygredd a gynhyrchir gan y sector amaethyddol, yn enwedig o ran ei effeithiau ar yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys drwy reoli maethynnau. Mae rheoli maethynnau yn arbennig o bwysig i leihau ewtroffigedd mewn afonydd (y cynnydd yn y crynodiad o ffosfforws, nitrogen a maethynnau eraill mewn planhigion). Yn yr un modd, mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (4) yn ceisio darparu cyllid er mwyn gallu uwchraddio rhagor o dechnoleg a pheiriannau sy'n lleihau effeithiau arferion ffermio ar ddŵr, ansawdd pridd ac aer, a rheoli maethynnau yn well.

Mae polisïau 63, 65 – 68 yn ceisio gwella iechyd a lles da byw drwy dechnoleg newydd, arferion ffermio a grantiau, sydd i gyd â'r potensial i leihau effeithiau da byw ar yr amgylchedd naturiol.

Mae cynnig 23 hefyd yn caniatáu ar gyfer creu coedwigoedd/coetir newydd drwy gefnogi agro-goedwigaeth, a fyddai'n helpu i leihau'r dŵr ffo yn y pridd. Yn y tymor hir, gallai'r effeithiau cadarnhaol fod yn sylweddol. Byddai cynnig 26 (trosi organig) yn cefnogi'r newid i arferion organig a allai gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amcan hwn yn y tymor hir drwy leihau'r defnydd o wrtaith a chemegolion. Byddai gwella'r gostyngiad mewn gwastraff a chylcholdeb yn cefnogi'r amgylchedd.

Byddai darparu gwell effeithlonrwydd garddwriaethol yn cefnogi defnydd tir effeithiol (Cynnig 30). Fodd bynnag, gallai cyflenwi twnelau polythen helaeth gael effeithiau negyddol lleol ar y dirwedd. Tybir, fodd bynnag, y byddai defnyddio rheolaethau cynllunio defnydd tir yn sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu lleihau a'u lliniaru lle bo angen.

**Effeithiau cronnol**

Ystyrir bod yr adran hon yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amcan hwn ac yn helpu i warchod ansawdd dŵr/olew/aer a chefnogi bioamrywiaeth.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Disgwylir y byddai lliniaru unrhyw effeithiau lleol ar y dirwedd o ganlyniad i dwnelau polythen helaeth (Cynnig 30) yn cael eu cyflawni drwy'r system cynllunio defnydd tir. Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru pellach.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rhywfaint o gyllid (62,64) yn ansicr yn CB2. Efallai na fydd buddion sylweddol sy'n gysylltiedig â choetiroedd newydd dan Glastir yn cael eu gwireddu.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SAO 1 Sgôr | 0 | 0 | ++/? | ++/? | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| SAO 1 Sgôr | + | + | ++ | ++ | + | + | 0 | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

wood.

| |
|---|
| Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch a chyllid a hyfforddiant DIP i arfogi pobl â'r sgiliau i reoli da byw yn gynaliadwy ac yn effeithlon. Mae polisïau 63, 66 a 67 yn cefnogi dysgu sut i weithredu technolegau newydd a/neu arferion gweithio cynaliadwy newydd. Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch a DIP yn ceisio arfogi ffermwyr â'r sgiliau i reoli da byw yn gynaliadwy. Ystyrir bod y rhain yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amcan hwn.<br><br>Mae cynnig 23 yn ceisio creu sector amaethyddol sy'n cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan alluogi'r sector i leihau ei ôl troed carbon a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac aer yn briodol. Byddai cynigion 25 a 26 hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewn sgiliau newydd a chyfleoedd hyfforddi yn anuniongyrchol. Ar ben hynny, ystyrir bod cynigion i wella effeithlonrwydd tanwydd a thechnolegau ynni adnewyddadwy arloesol ar ffermydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan.<br><br>Yr oedran canolrifol ar gyfer ffermwyr yn 2016 oedd 61 ac ar gyfer ffermydd bach iawn, roedd hyn yn uwch sef 64. Mae'n bwysig bod rhaglenni sy'n cefnogi datblygu sgiliau yn gallu cael eu defnyddio gan bawb yn y sector amaethyddol, beth bynnag fo'u hoedran, yn ogystal â chefnogi pobl iau sy'n ymuno â'r sector.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Asesir effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyflawni'r amcan hwn.<br><br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Gellid rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch cefnogi'r gweithlu amaethyddol hŷn, a'r rheini mewn ardaloedd gwledig, er mwyn ymgysylltu'n weithredol â chyfleoedd hyfforddi. Gallai Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Sero Net (Polisi 11) gefnogi hyn.<br><br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Nid yw cyllid Grant Busnes Fferm a Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn sicr yn CB2. |

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 61** | **Polisi 62** | **Polisi 63** | **Polisi 64** | **Polisi 65** | **Polisi 66** | **Polisi 67** | **Polisi 68** | **Polisi 69** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SAO 1 Sgôr** | **0** | **+/?** | **0** | **+/?** | **+** | **+** | **+** | **+/?** | **+** |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SAO 1 Sgôr** | + | + | + | + | + | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae ffermio'n bwysig i ddiwylliant Cymru, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig lle mae'r Gymraeg yn aml yn fwy cyffredin ac mewn ardaloedd trefol, a byddai polisïau sy'n cynnig cefnogaeth i'r diwydiant ffermio ac yn annog symud tuag at fod yn ddi-garbon yn debygol o gadw'r diwylliant hwn yn fyw ac yn tyfu, gan gefnogi perthyn ac ymdeimlad o le.

Gallai darparu cymorth ar gyfer arferion ffermio arloesol, a defnyddio technolegau carbon isel ac adnewyddadwy, hefyd gefnogi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, a swyddi â chyflogau gwell o bosibl. Yn gyffredinol, byddai'r polisïau'n cefnogi diwylliant Cymru a chydlyniant cymunedol.

Byddai'r polisïau hefyd yn debygol o helpu i warchod tirweddau gwledig, a allai gefnogi'n anuniongyrchol y broses o ddarparu hawliau tramwy a all helpu i sicrhau mynediad i gefn gwlad a safleoedd treftadaeth.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol fach ar yr Amcan Cynaliadwyedd hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Nid yw cyllid Grantiau Bach Glastir, Grant Busnes Fferm, Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn sicr yn amodol ar CSR 2021.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 61** | **Polisi 62** | **Polisi 63** | **Polisi 64** | **Polisi 65** | **Polisi 66** | **Polisi 67** | **Polisi 68** | **Polisi 69** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SAO 1 Sgôr** | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ |

| Polisi / Cynnig | Cynnig 23 | Cynnig 24 | Cynnig 25 | Cynnig 26 | Cynnig 27 | Cynnig 28 | Cynnig 29 | Cynnig 30 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SAO 1 Sgôr | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Nid yw'r polisïau'n gysylltiedig â'r Amcan Cynaliadwyedd hwn gan nad ydynt yn arwain at greu a/neu wella seilwaith nac yn helpu i ddarparu mwy o gysylltedd. Er y gallai rhai o'r polisïau sy'n canolbwyntio ar dechnoleg newydd helpu i greu a mabwysiadu technoleg/seilwaith cyfathrebu newydd a/neu ddefnyddio cerbydau trydan i leihau allyriadau carbon, asesir bod gan yr holl bolisïau a'r cynnig berthynas fach iawn â'r Amcan Cynaliadwyedd hwn.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, ystyrir mai bach iawn fydd effaith yr Adran hon ar yr amcan hwn.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi / Cynnig | Polisi 61 | Polisi 62 | Polisi 63 | Polisi 64 | Polisi 65 | Polisi 66 | Polisi 67 | Polisi 68 | Polisi 69 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SAO 1 Sgôr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Polisi / Cynnig** | **Cynnig 23** | **Cynnig 24** | **Cynnig 25** | **Cynnig 26** | **Cynnig 27** | **Cynnig 28** | **Cynnig 29** | **Cynnig 30** | **Cronnol** |
| SAO 1 Sgôr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r polisïau a'r cynnig yn ymwneud â gwella cynaliadwyedd y sector amaethyddol yng Nghymru. Byddai'r gwelliannau i'r sector amaethyddol y byddai'r polisïau a'r cynigion hyn yn gweithio i'w creu yn sicrhau bod Cymru'n wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac yn ceisio rheoli ei heffaith ar y byd.

Mae gan lawer o'r polisïau elfennau sy'n ymwneud â gwneud i'r sector amaethyddol symud tuag at fod yn ddi-garbon/carbon isel, ac maent yn arloesol eu natur, gan gynnwys drwy 'ffermio manwl'. Ar ben hynny, byddent yn cefnogi defnyddio cynnyrch carbon isel yng Nghymru. Fodd bynnag, yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r polisïau gael effaith niwtral ar gyflawni'r amcan hwn gan eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar grantiau yng Nghymru.

**Effeithiau cronnol**

Aseswyd effeithiau niwtral.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid gwella'r polisïau drwy gyfeirio'n benodol at y posibilrwydd o allforio dulliau ffermio arloesol i wledydd eraill (yn enwedig y Rhaglen Datblygu Cig Coch a'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid).

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Gellid gwella'r polisïau drwy gyfeirio'n benodol at geisio allforio dulliau ffermio arloesol i wledydd eraill.

## Y Sector Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF)

Allwedd i'r rhifau:

Polisi 70 – Creu Coedwig Genedlaethol i Gymru
Polisi 71 – Cynllun Creu Coetir
Cynnig 33 – Denu buddsoddiad y sector preifat i Greu Coetiroedd
Cynnig 32 – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (maes coetir)
Cynnig 33 – Cefnogi teuluoedd a chymunedau i blannu coed
Cynnig 34 – Datblygu Strategaeth Ddiwydiannol Pren newydd i Gymru
Polisi 72 – Gweithredu Rhaglen Adfer Mawndiroedd
Cynnig 35 – Gwahardd gwerthu mawn mewn compost
Cynnig 36 - Ymchwilio i gyfraniad posibl carbon glas i gyflawni sero net

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| **Polisi/ Cynnig** | **Polisi 70** | **Polisi 71** | **Cynnig 31** | **Cynnig 32** | **Cynnig 33** | **Cynnig 34** | **Polisi 72** | **Cynnig 35** | **Cynnig 36** | **Cronnol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | ++ | ++ | + | + | ++ | + | 0 | +/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Yn gyffredinol, mae gan y polisïau a'r cynigion y gallu i ddarparu manteision tuag at nod yr amcan hwn o symud Cymru tuag at economi sero net. Byddai llawer (70, 71, Cynigion 31, 32) yn gweld creu asedau coed/coetir newydd neu'n annog buddsoddiad i greu coetiroedd. Felly byddai'r polisïau a'r cynigion hyn yn cefnogi gweithgareddau economaidd dal carbon (plannu a chynnal coed). Gall creu coetiroedd hefyd arwain at ffrwd refeniw newydd drwy'r Cod Carbon Coetiroedd, sy'n caniatáu i dirfeddianwyr blannu a chynnal coetiroedd ar gyfer storio carbon ac yna hawlio ad-daliad am y gwasanaeth hwn.

Byddai cynnig 34 yn annog defnyddio pren ym maes adeiladu fel adnodd adnewyddadwy sy'n aml yn creu llai o lygredd i'w gynhyrchu na diwydiannau echdynnu deunyddiau crai eraill (er y byddai cynaeafu, prosesu a chludo yn arwain at greu rhai allyriadau niweidiol). Byddai hyn yn helpu i symud y diwydiant adeiladu tuag at sero net.

Byddai polisi 72 yn arwain at greu nifer fach o swyddi gwyrdd er mwyn rheoli ac adfer y mawndiroedd yn well yng Nghymru ac yn ymrwymo cyllid Llywodraeth Cymru tuag at y nod hwn, gan ddarparu buddsoddiad ar gyfer y sector hwn. Byddai cynnig 36 yn gweld buddsoddiad i wella gallu adnoddau carbon glas i storio a

dal carbon. Byddai unrhyw fuddsoddiad yn y diwydiant hwn felly'n creu swyddi gwyrdd a chynaliadwy. Nid yw'r cynnig yn un penodol ac mae'n ceisio deall a chasglu gwybodaeth am sut y gellir defnyddio ac ehangu carbon glas yn y dyfodol ar ôl astudiaeth bellach.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn deall sut mae asedau carbon glas yn gweithio yng Nghymru a sut gellir ehangu'r rhain mewn ffordd ddiogel.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | 0 | + | + | 0 | +/? | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan y polisïau a'r cynigion i gyd y potensial i ddarparu rhywfaint o swyddi newydd mewn meysydd cynaliadwy (swyddi gwyrdd), er y byddai rhai o'r polisïau a'r cynigion yn debygol o greu mwy o swyddi nag eraill. Ochr yn ochr â hyn, mae'n debyg y byddai'r holl bolisïau a chynigion (ar wahân i gynnig 35) yn gweld buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru neu'r sector preifat. Gall buddsoddi mewn creu a rheoli coetiroedd (Cynnig 31) gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd economaidd fel twristiaeth a gweithgareddau hamdden. Gall creu coetiroedd hefyd arwain at ffrwd refeniw newydd drwy'r Cod Carbon Coetiroedd, sy'n caniatáu i dirfeddianwyr blannu a chynnal coetiroedd ar gyfer storio carbon ac yna hawlio ad-daliad am y gwasanaeth hwn.

Mae'n debyg y byddai polisïau 70 a 71 yn arwain at greu swyddi gwyrdd sy'n gysylltiedig â phlannu a rheoli coetiroedd yn barhaus. Mae'r ddau bolisi hefyd yn darparu cymorth ariannol tuag at greu coetiroedd. Byddai cynnig 34 yn golygu ehangu a rheoli coetir yn ofalus i'w ddefnyddio ar gyfer pren. Byddai hyn yn gwella cynaliadwyedd y diwydiant adeiladu ac yn cefnogi cyflogaeth ym maes cynhyrchu/prosesu pren. O ran creu swyddi, oherwydd cyllid tebygol gan Lywodraeth Cymru, mae'n debyg y byddai Cynnig 32 hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol.

Byddai polisi 72 yn annog ac yn darparu buddsoddiad i adfer mawndiroedd Cymru, a fyddai'n debygol o greu rhai swyddi. Mae cynnig 35 yn archwiliadol ei natur ac mae'n chwilio am wybodaeth ychwanegol er mwyn annog creu polisi mwy gweithredol yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o gyflogaeth fod yn gysylltiedig â'r cynnig, er nad oes sicrwydd i ba raddau.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae effeithiau Cynnig 34 yn ansicr gan ei fod yn bwriadu casglu gwybodaeth am garbon glas er mwyn helpu i greu cynnig/polisi yn y dyfodol.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | + | + | ++/- | ++ | +/? | ++/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Gall coetiroedd, mawndiroedd a choed unigol hyd yn oed gyfrannu at ddal carbon a helpu i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd. Mae coetiroedd a choed yn cyflawni hyn drwy dynnu i mewn a storio CO2 a'i droi'n ocsigen dros amser. Mae Forest Carbon yn dangos sut y gall y coed iawn yn y lle iawn greu coetiroedd sy'n gweithredu fel storfeydd carbon am flynyddoedd lawer.

Cwblhaodd Cymru ei gwaith adfer mawndir â chyllid carbon cyntaf yn 2021 ym Mwlch y Groes, a oedd yn cynnwys 66 hectar o waith adfer mawndir y disgwylir iddo storio 2,335 tunnell o garbon dros y 35 mlynedd nesaf (Forest Carbon) ac amcangyfrifir ar hyn o bryd bod adnoddau carbon glas yng Nghymru yn storio 26,100 tunnell o garbon y flwyddyn (Cyfoeth Naturiol Cymru). Gallai ehangu neu ddiogelu gallu mawndir i storio carbon (72) arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol yn erbyn yr amcan hwn. Yn yr un modd, byddai Cynnig 36 yn sicrhau gallu adnoddau carbon glas yng Nghymru i weithredu fel dalfeydd carbon. Mae ansicrwydd ynghylch yr effeithiau positif, yn amodol ar ganlyniadau'r ymchwiliadau.

Mae gwrthsefyll llifogydd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddod i'r amlwg. Mae coetiroedd a choed yn cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd drwy orchudd canopi a thrwy gryfhau priddoedd cyfagos drwy systemau gwreiddiau (Coed Cadw). Byddai'r polisïau a'r cynigion a allai helpu i greu swm

| |
|---|
| sylweddol o goetir (70, 71) neu ddarparu buddsoddiad tuag at y nod hwn (30) yn cael effaith gadarnhaol sylweddol tuag at yr amcan hwn. Asesir mân effeithiau cadarnhaol ar gyfer Cynigion 32 a 33 gan y byddai hyd yn oed plannu nifer fach o goed yn creu rhywfaint o fudd i ardaloedd lleol.<br><br>Byddai cynnig 35 yn sicrhau nad yw compost a ddefnyddir yng Nghymru yn cynnwys mawn. Mae gallu'r polisi i annog hyn mewn gwledydd eraill yn ansicr.<br><br>Byddai creu coetiroedd newydd i ehangu'r diwydiant pren (Cynnig 33) yn arwain at greu Nwyon Tŷ Gwydr drwy gynaeafu/prosesu/cludo cynnyrch pren. Asesir effeithiau cymysg.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.<br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Ystyried cyfeiriad at leihau/rheoli allyriadau a llygryddion eraill a gynhyrchir gan gynaeafu, prosesu a chludo sy'n gysylltiedig â phren (34). Bydd Polisi 40 yn helpu i leihau allyriadau o gerbydau nwyddau trwm.<br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Nid yw'n hysbys pa mor debygol yw hi y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu annog gwledydd eraill i beidio â defnyddio mawn wrth greu adnoddau compost (35). Mae cynnig 36 yn ymchwiliadol ond mae'n debygol o baratoi'r ffordd ar gyfer manteision pellach yn y dyfodol wrth i strategaeth sy'n ymwneud â charbon glas gael ei chreu. |

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | +/? | +/? | +/-/? | ++ | +/? | +/? | ++/? |

| |
|---|
| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Mae gan goetiroedd a choed y potensial i arwain at fanteision sylweddol o ran gwella iechyd corfforol a meddyliol. Mae coetiroedd yn darparu mannau diogel i ffwrdd o amgylcheddau trefol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden egnïol ac iach fel cerdded, heicio a beicio. Canfu UK Research and Innovation fod coetiroedd yn dda ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc. Gall coetiroedd a mawndiroedd hefyd helpu i wella ansawdd aer o ran amsugno $CO_2$ a gweithredu fel modd o storio carbon (IUCN). |

Byddai polisïau a chynigion sy'n creu coetiroedd newydd, yn gwarchod/adfer mawndiroedd ac yn galluogi cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol. Yn yr un modd, mae'n debygol y byddai ymchwiliadau i allu carbon glas i storio carbon yn cael rhai effeithiau cadarnhaol drwy wella ansawdd aer lleol.

Mae manteision posibl cynnig 32 a 34 yn ansicr oherwydd y tebygolrwydd na fydd unrhyw goetiroedd sy'n cael eu creu gan y cynlluniau hyn yn hygyrch i'r cyhoedd. Byddai cynnig 34 hefyd yn peryglu ei fanteision iechyd i ryw raddau drwy gynhyrchu allyriadau wrth gynaeafu, prosesu a chludo pren. Mae'n debyg y byddai cynnig 33 yn arwain at greu coetiroedd a choed mewn ardaloedd cymunedol, gan sicrhau bod asedau naturiol o'r fath mewn lleoliadau hygyrch, er bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y byddai grwpiau cymunedol a theuluoedd yn gallu darparu adnoddau o'r fath.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol, gyda pheth ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dylid edrych ar gyfleoedd i goetiroedd ar dir preifat (sy'n gysylltiedig â ffermio/coed) fod ar gael i'r cyhoedd mewn rhyw fodd fel y maent yn yr Alban. Ystyried cyfeiriad at leihau/rheoli allyriadau a llygryddion eraill a gynhyrchir gan gynaeafu, prosesu a chludo sy'n gysylltiedig â phren (34).
Bydd Polisi 40 yn helpu i leihau allyriadau o gerbydau nwyddau trwm.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae ansicrwydd ynghylch hygyrchedd rhai coetiroedd a fyddai'n cael eu creu neu i ba raddau y byddai modd gweithredu rhai polisïau/cynigion er mwyn sicrhau manteision tuag at yr amcan hwn.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | +/? | +/? | +/? | ++ | +/? | ~ | ++/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Byddai llawer o'r polisïau a'r cynigion yn creu neu'n gwella coetiroedd yng Nghymru neu'n darparu buddsoddiad tuag at y nod hwn, a fyddai'n darparu mannau cymunedol a mynediad at fannau gwyrdd. Mae mawndir hefyd yn ffynhonnell bwysig o ofod gwyrdd/glas yng Nghymru a byddai eu diogelu a'u gwella yn sicrhau y gellir defnyddio mannau o'r fath yn y dyfodol.

Mae ansicrwydd yn bodoli o ran rhai o'r coetiroedd sy'n cael eu creu gan y byddent ar dir preifat ac nad ydynt yn hygyrch i'r cyhoedd (32, 34). Mae gan gynnig 33 y potensial, er nad oes sicrwydd pa mor debygol yw y bydd yn gallu cyflawni hyn, i greu mannau gwyrdd newydd mewn mannau cymunedol, gan ddarparu coetiroedd a choed hygyrch i gymunedau eu mwynhau gyda'i gilydd.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol, gyda pheth ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dylid edrych ar gyfleoedd i goetiroedd ar dir preifat (sy'n gysylltiedig â ffermio/coed) fod ar gael i'r cyhoedd mewn rhyw fodd fel y maent yn yr Alban.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae ansicrwydd ynghylch hygyrchedd rhai o'r coetiroedd a fyddai'n cael eu creu neu i ba raddau y byddai modd gweithredu rhai polisïau/cynigion er mwyn sicrhau manteision tuag at yr amcan hwn mewn gwirionedd.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | + | + | +/- | ++ | + | ++/? | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan lawer o'r polisïau a'r cynigion hyn y potensial i ddarparu manteision sylweddol i'r amgylchedd naturiol. Mae coetiroedd a choed yn fannau pwysig i fioamrywiaeth ffynnu a hefyd yn gweithio i ddal nwyon sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a fyddai'n aml yn cael effeithiau negyddol ar blanhigion ac anifeiliaid lleol pe na baent yn cael eu dal (Forests, Carbon and Climate Change: the UK Contribution). Yn aml, mae coetiroedd a mawndiroedd yn gynefinoedd sydd wedi'u lleoli i ffwrdd oddi wrth amgylchedd trefol adeiledig Cymru, gan sicrhau bod y planhigion a'r anifeiliaid sy'n defnyddio'r cynefinoedd hyn yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan weithgarwch pobl. Mae'r asedau hyn hefyd yn aml yn nodweddion pwysig yn nhirwedd leol ac ehangach Cymru. Byddai plannu unrhyw goed/coetir yn cyfrannu at ddal carbon ac yn arwain at fanteision i blanhigion ac anifeiliaid cyfagos.

Byddai cynnig 34 yn parhau i gyfrannu at greu nwyon tŷ gwydr ac allyriadau eraill i'r aer sy'n gallu effeithio ar fioamrywiaeth leol. Byddai'r coetiroedd a fyddai'n cael eu creu gan y cynnig hwn hefyd yn cael eu cynaeafu ar ryw adeg, gan arwain at golli cynefinoedd sefydledig dros dro nes bydd y coed yn cael eu hailblannu a'u sefydlu.

Byddai polisi 72 hefyd yn helpu i warchod a gwella ansawdd dŵr yng Nghymru drwy wella adnoddau mawndir, sy'n aml yn hanfodol i ansawdd dŵr lleol ac yn gweithredu fel cynefin pwysig (IUCN). Byddai cynnig 34 yn cyfrannu at hyn drwy sicrhau na fyddai mawn yn cael ei ddefnyddio fel adnodd compost yng Nghymru.

Mae ansicrwydd ynghylch cynnig 36. Fodd bynnag, mae gan garbon glas fanteision sylweddol o ran dal carbon a gwella cynefinoedd. Mae ehangu carbon glas yn debygol o fod ar ffurf ehangu cynefinoedd glas lleol, fel morwellt neu warchod corsydd llanw (Y Cynllun Carbon Glas), ac ecosystemau môr eraill.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dylid edrych ar ffyrdd o leihau allyriadau yn y diwydiant coedwigaeth fel rhan o gynnig 34 i sicrhau ei fod yn lliniaru ei hun i ryw raddau. Dylai'r gwaith o reoli coetiroedd sydd i'w cynaeafu gael ei gynllunio'n dda i sicrhau na achosir niwed i gynefinoedd sydd wedi datblygu mewn coetiroedd masnachol. Bydd Polisi 40 yn helpu i leihau allyriadau o gerbydau nwyddau trwm.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae ansicrwydd o hyd ynghylch cynnig 36 oherwydd natur ymchwiliol y cynnig.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | +/? | ~ | ~ | +/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan y polisïau a'r cynigion botensial i arwain at effeithiau cadarnhaol drwy ddarparu cyfleoedd swyddi neu annog buddsoddiad i greu coetiroedd (70, 71, cynnig 31, 32, 33) a choedwigaeth. Buddsoddiad yn y maes hwn a fyddai'n debygol o arwain at gyfleoedd hyfforddiant a sgiliau newydd i boblogaeth Cymru. Gallai buddsoddiad o'r fath hefyd ymwneud â chyllido cyfleoedd ymchwil a datblygu ym maes rheoli coedwigaeth.

Gallai creu Strategaeth Ddiwydiannol Pren newydd (34) arwain buddsoddiad mewn cyfleoedd sgiliau a hyfforddiant ochr yn ochr â darparu swyddi. Er mwyn adfer mawndiroedd yn gywir, byddai angen gweithwyr medrus a hyfforddedig er mwyn gwneud unrhyw waith angenrheidiol oherwydd natur sensitif mawndiroedd (72). Gallai gofyniad o'r fath arwain at gyfleoedd hyfforddi. Mae ansicrwydd yn bodoli gan nad yw'n hysbys i ba raddau y mae effeithiau cadarnhaol o ran darparu hyfforddiant, sgiliau neu gyfleoedd addysgol.

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol fach.
**Mesurau lliniaru/gwella**
Dylai unrhyw Gynlluniau Rheoli Adfer Mawn geisio sicrhau bod unrhyw waith gofynnol yn cael ei wneud gan weithwyr proffesiynol medrus.
**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Mae ansicrwydd ynghylch y posibilrwydd na fydd yr holl elfennau cadarnhaol a nodwyd fel cyfleoedd hyfforddi/sgiliau yn ymddangos ar raddfa ddigon mawr i gael effaith gadarnhaol.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | +/? | ++ | ~ | ~ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Gallai'r coetiroedd a gaiff eu creu fod yn fannau at ddibenion hamdden, yn enwedig y Goedwig Genedlaethol (70). Mae'r cyfleoedd buddsoddi a'r ysgogiad sydd o fewn cynnig 31 yn bwysig i lwyddiant y polisïau a'r cynigion sy'n weddill. Mae ansicrwydd ynghylch pa mor debygol yw y byddai coetiroedd sy'n cael eu creu gan ffermwyr (32) a'r rhai sy'n cael eu creu ar gyfer pren (34) yn cael eu defnyddio ar gyfer hamdden oherwydd efallai na fyddent ar gael i'r cyhoedd.

Mae'n debyg na fydd cynnig 33 yn arwain at greu coetiroedd helaeth. Fodd bynnag, byddai'n golygu plannu coed mewn gerddi personol ac mewn mannau cymunedol. Byddai hefyd yn annog cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru drwy annog plannu coed cymunedol. Oherwydd ffocws cymunedol y polisi hwn, ystyrir y byddai'n cael effeithiau sylweddol yn erbyn yr amcan hwn.

Byddai adfer mawndiroedd yn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden (72). Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol ac mae gan fawndiroedd lawer o gyfalaf naturiol y gellir ei ddefnyddio at ddibenion hamdden (Parc Cenedlaethol Eryri).

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, byddai'r polisïau a'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.
**Mesurau lliniaru/gwella**

Potensial i goetiroedd sy'n cael eu creu gan ffermwyr a'r diwydiant pren fod yn lleoedd ar gyfer teithiau hamdden/beicio mewn ffordd debyg i'r Right to Roam' yn yr Alban.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Nid yw'n hysbys i ba raddau y byddai coetiroedd sy'n cael eu creu gan ffermwyr a'r diwydiant pren ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Nid yw'r polisïau a'r cynigion yn canolbwyntio ar ddarparu seilwaith ac felly nid oes ganddynt berthynas glir â'r amcan hwn.

**Effeithiau cronnol**

Nid oes perthynas glir rhwng yr adran a'r amcan.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi/ Cynnig | Polisi 70 | Polisi 71 | Cynnig 31 | Cynnig 32 | Cynnig 33 | Cynnig 34 | Polisi 72 | Cynnig 35 | Cynnig 36 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ | +/- | ~ | +/? | ~ | +/- |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Perthynas fach iawn sydd gan y rhan fwyaf o'r adran hon â'r amcan hwn. Gallai cynnig 33 arwain at newid y diwydiant adeiladu tuag at ddefnyddio adnoddau mwy cynaliadwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon (pren). Byddai cynaeafu, prosesu a chludo'r adnoddau hyn yn golygu cynhyrchu allyriadau, er y credir bod manteision sylweddol y cynnig o helpu Cymru i symud tuag at sero net yn gwrthbwyso hyn. Mae rhai manteision hefyd o ran gallu Cymru i allforio deunyddiau carbon isel o'r fath o gwmpas y byd. Byddai ceisio gweithio gyda llywodraeth y DU i atal mawn mewn compost hefyd yn dangos cyfrifoldeb byd-eang (Cynnig 35) er bod rhywfaint o ansicrwydd.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol bychain cymysg.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dylid manteisio ar gyfleoedd i leihau allyriadau cymaint ag y bo modd yn y diwydiant pren a dylid sôn yn benodol amdanynt yng nghynnig 34 i sicrhau bod cynaliadwyedd yn bresennol yn y Strategaeth Ddiwydiannol.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Y gallu i atal defnyddio mawn mewn compost (35).

 © Wood Group UK Limited

## Gwastraff

Allwedd i'r rhifau:

Polisi 73 - Lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi
Cynnig 37 – Cynnydd pellach yn y capasiti casglu a defnyddio CH4 mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru erbyn 2030
Polisi 74 – Cynnydd pellach mewn ailgylchu
Polisi 75 – Ymgyrch Bydd Wych

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae rheoli gwastraff yn effeithlon yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wneud economi'n fwy cynaliadwy ac yn ei helpu i symud tuag at sero net. Byddai cynyddu lefel compostio a threulio anaerobig (AD) o bob math o wastraff bioddiraddadwy (73) fel bwyd, papur, cardfwrdd ac ati yn cael effeithiau cadarnhaol gan y byddai busnesau a defnyddwyr yn creu llai o wastraff ac yn cefnogi creu ynni adnewyddadwy. Amcangyfrifir bod oddeutu 22% o wastraff trefol Cymru wedi'i losgi i gynhyrchu ynni yn 2019-20 (Mwy nag Ailgylchu) a byddai'r polisi hwn yn ceisio darparu mwy o ynni adnewyddadwy o AD. Byddai creu mwy o ynni adnewyddadwy yn arwain at fantais ddwbl gan y byddai gan fusnesau a defnyddwyr fwy o fynediad at y math mwy cynaliadwy hwn o ynni.

Byddai cynyddu'r gwaith o ddal CH4 yn safleoedd tirlenwi Cymru a sicrhau bod pob safle tirlenwi yn dal eu hallyriadau (Cynnig 37) yn arwain at economi fwy cynaliadwy. Byddai Polisi 74 yn cyfrannu at yr amcan hwn drwy geisio sicrhau cyfradd ailgylchu o 70% ar gyfer yr holl brif ffrydiau gwastraff (cartref, diwydiannol, masnachol ac adeiladu). Mae'r polisi'n sicrhau bod yr economi'n fwy cynaliadwy wrth i fwy o wastraff gael ei ailgylchu a'i waredu mewn modd cynaliadwy.

Byddai Polisi 75 yn cefnogi polisïau eraill drwy godi proffil ailgylchu yn ymwybyddiaeth y cyhoedd a hefyd drwy annog cartrefi a busnesau i ddidoli gwastraff yn gywir er mwyn sicrhau y gellir ei ailgylchu mor effeithlon ac mor ddarbodus â phosibl.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

| |
|---|
| **Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Dim. |

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | +/? | +/? | +/? | 0/? | +/? |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan y polisïau a'r cynnig i gyd y potensial i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth sy'n helpu'r newid i economi fwy cynaliadwy. Ni fyddai'r un o'r mesurau'n creu nifer sylweddol o swyddi ac mae ansicrwydd ynghylch y nifer a'r mathau o swyddi a fyddai'n cael eu darparu.

Byddai Polisi 73 yn creu swyddi cynaliadwy ym meysydd ailgylchu a thrwy gasglu a didoli gwastraff i sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn mynd i safleoedd tirlenwi.  Byddai Polisi 74 hefyd yn creu swyddi yn y diwydiant ailgylchu wrth i'r cynlluniau casglu yng Nghymru ehangu a gwella. Byddai gosod paneli solar ar safleoedd tirlenwi caeedig yn creu swyddi tymor byr. Gallai buddsoddi mewn ailgylchu adnoddau electronig gefnogi rhai swyddi tymor hir wrth reoli'r math hwn o wastraff. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y raddfa.

Byddai gwella'r gwaith o ddal ar safleoedd tirlenwi (cynnig 37) yn creu swyddi gan y gallai fod angen uwchraddio safleoedd tirlenwi hŷn er mwyn defnyddio technoleg newydd i ddal allyriadau. Mae'n debygol y byddai swyddi'n rhai dros dro a dim ond yn para am gyfnod y gwaith gwella i'r safleoedd tirlenwi, er y gallai fod rhai rolau cynnal a chadw a rheoli tymor hir.

Gallai'r 'Ymgyrch Bydd Wych' (75) gefnogi nifer cyfyngedig o swyddi'n uniongyrchol er y gallai o bosibl annog creu swyddi mewn meysydd eraill (rheoli gwastraff ac ailgylchu). Mae hyn yn ansicr i raddau helaeth.

**Effeithiau cronnol**

Ar y cyfan, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain gyda rhywfaint o ansicrwydd.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

| |
|---|
| Mae'n anodd rhagweld i ba raddau y byddai rhai polisïau'n arwain at greu swyddi. Tybiwyd yn fras y byddai rhywfaint o swyddi'n cael eu creu, ond gallai lefel creu swyddi fod yn fach iawn mewn rhai achosion. |

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | ++ | ++ | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan y polisïau a'r cynnig gyfleoedd sylweddol i gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy leihau gwastraff a'i allyriadau cysylltiedig. Amcangyfrifir bod gwastraff yn cyfrif am 3% o allyriadau yng Nghymru yn 2019. Y prif allyriadau a gynhyrchir o wastraff yw methan (92%). Gostyngodd allyriadau 2.8% rhwng 2018 a 2019 oherwydd technoleg/prosesau dal methan gwell mewn safleoedd tirlenwi yn bennaf, sy'n dangos bod technoleg/prosesau o'r fath yn gallu cael effaith gadarnhaol.

Byddai lleihau faint o wastraff bwyd y gellir ei osgoi a gwastraff bioddiraddadwy sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi (73) yn cefnogi'r nod o leihau gwastraff yn gyffredinol, helpu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, a lleihau allyriadau methan (mae methan yn Nwy Tŷ Gwydr). Byddai cynnig 37 yn sicrhau y byddai allyriadau cysylltiedig ag unrhyw wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn cael eu rheoli a'u dal yn briodol lle bo hynny'n bosibl. Gallai polisi 74 weld creu paneli solar mewn safleoedd tirlenwi llawn. Mae hefyd yn ceisio gwella ailgylchu, a fyddai'n caniatáu mwy o ddefnydd moesegol a chynaliadwy o adnoddau.

Byddai Polisi 75 yn codi proffil ailgylchu i'r cyhoedd. Gallai cyflawni 'ymrwymiad' cyhoeddus annog buddsoddiad mewn rheoli gwastraff yn effeithiol sy'n cefnogi llai o allyriadau.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, nodwyd y byddai'r polisïau a'r cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan y polisïau a'r cynnig gyfleoedd sylweddol i wella ansawdd aer yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid yw Cymru'n dioddef o unrhyw ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd ag ansawdd aer gwael neu beryglus, ac yn gyffredinol mae'r crynodiadau uchaf o lygryddion dyddiol yn isel ar draws y wlad (Ansawdd Aer yng Nghymru). Nododd Sefydliad Iechyd y Byd y gall llygredd aer gyfrannu at/achosi diabetes math 2, gordewdra, llid systemig, clefyd Alzheimer a dementia. Nid yw effeithiau negyddol llygredd aer wedi'u cyfyngu i'r ysgyfaint a'r llwybrau anadlu yn unig fel y dangoswyd gan astudiaeth fyd-eang yn 2018 (Llygredd Aer a Chlefydau Anhrosglwyddadwy), gan fod llygredd aer yn gallu effeithio'n niweidiol ar lawer o organau'r corff.

Mae'r polisïau a'r cynnig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn drwy leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, sicrhau bod allyriadau o safleoedd tirlenwi yn cael eu lleihau, annog datblygiadau ynni adnewyddadwy/ynni o wastraff, gwella ailgylchu a sicrhau bod ailgylchu'n dod yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae hyn i gyd yn cyfrannu'n gronnol at gadw ansawdd aer Cymru'n uchel ac yn diogelu iechyd corfforol a meddyliol pobl.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, byddai'r adran yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r polisïau a'r cynnig yn ymwneud yn bennaf â rheoli gwastraff ac ailgylchu yn gywir. Felly, nid ydynt yn gysylltiedig i raddau helaeth â chyflawni'r amcan hwn.

Mae Polisi 75 yn parhau i adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch 'Bydd Wych' i barhau i bwysleisio ailgylchu fel rhan greiddiol o fyw yng Nghymru, sydd wedi cael cryn lwyddiant. Mae trigolion wedi bod yn ailgylchu ers amser maith i'r pwynt ei fod yn rhan o'u diwylliant modern ac felly'n gweithredu fel safon ddiwylliannol gyffredin i gymunedau yng Nghymru. Aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol ar gyfer y polisi hwn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effaith gadarnhaol fach.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 36 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++ | ++ | 0 | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae gan Gymru amgylchedd naturiol ac adeiledig amrywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau cadwraeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol ac yn lleol, tri pharc cenedlaethol, pum AHNE ac amrywiaeth o asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi, gan gynnwys tri Safle Treftadaeth y Byd. Mae asedau naturiol Cymru yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid pwysig a allai gael eu peryglu pe na bai Cymru'n parhau i gadw ansawdd yr aer yn uchel. Mae'r planhigion a'r anifeiliaid hyn yn hanfodol i amgylchedd adeiledig a naturiol Cymru. Felly, gallai'r polisïau a'r cynnig arwain at fanteision sylweddol drwy leihau nifer yr allyriadau y mae'r sector gwastraff yn eu cynhyrchu. Byddai'r holl bolisïau a'r cynnig yn arwain at reoli gwastraff yn fwy cynaliadwy, sy'n un o nodau craidd yr amcan hwn.

Mae cyfleusterau gwastraff fel safleoedd tirlenwi yn aml yn tynnu oddi wrth eu hamgylcheddau adeiledig a naturiol cyfagos ac mae polisïau fel 73 a 74 sy'n ceisio lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a chynyddu ailgylchu yn sicrhau y bydd angen llai o dirlenwi yn y dyfodol.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, nodwyd y byddai'r adran yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

© Wood Group UK Limited

wood.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | ~ | ~ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae'r polisïau a'r cynigion yn ymwneud yn bennaf â lleihau allyriadau ac annog ailgylchu yn sector gwastraff Cymru. Er y byddai cyfleoedd sgiliau ac addysgol yn codi o'u gweithredu, ystyrir mai perthynas fach iawn sydd gan y polisïau â'r amcan hwn.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir nad oes gan y polisïau a'r cynnig unrhyw berthynas â'r amcan.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i hybu'n benodol y gwaith o ddatblygu sgiliau a hyfforddiant yn y sector gwastraff.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Polisi 73 | Cynnig 37 | Polisi 74 | Polisi 75 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ~ | ~ | ~ | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Nid yw'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r cynnig sy'n ymwneud â gwastraff yn berthnasol o gwbl i'r amcan hwn gan eu bod yn canolbwyntio ar leihau allyriadau, ailgylchu a rheoli gwastraff yn well.

Byddai polisi 75 yn cael rhai effeithiau cadarnhaol gan ei fod yn ceisio atgyfnerthu a pharhau i ailgylchu fel rhan greiddiol o ddiwylliant a hunaniaeth Cymru. Mae'r ymgyrch 'Bydd Wych' wedi llwyddo i gynyddu ailgylchu a bydd yr ymgyrch yn manteisio ar y momentwm tuag at ailgylchu mwy ac ailgylchu mwy cywir (gan ddidoli gwastraff yn gywir yn ei ffynhonnell).

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**

| |
|---|
| Dim.<br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Dim. |

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 73** | **Cynnig 37** | **Polisi 74** | **Polisi 75** | **Cronnol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ~ | ~ | + | ~ | + |

| |
|---|
| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Er y byddai'r polisïau a'r cynnig yn arwain at system rheoli gwastraff fodern yng Nghymru, bydd y rhan fwyaf o'r adran yn cael effaith fach iawn neu'n gwbl amherthnasol i'r amcan hwn.<br><br>Fodd bynnag, drwy ddatblygu seilwaith ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gasglu ac ailgylchu eitemau nad ydynt yn cael eu hailgylchu ar hyn o bryd (74), mae mân effeithiau cadarnhaol wedi cael eu hasesu.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Aseswyd bod mân effeithiau cadarnhaol ar gyfer yr amcan hwn.<br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Dim.<br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Dim. |

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| **Polisi / Cynnig** | **Polisi 73** | **Cynnig 37** | **Polisi 74** | **Polisi 75** | **Cronnol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | + | + | 0 | + |

| |
|---|
| **Effeithiau sylweddol tebygol**<br>Mae'r polisïau a'r cynigion yn dangos y gall Cymru fod yn arweinydd byd-eang o ran mynd i'r afael â chynhyrchu, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff wrth newid i sero net. Byddai lleihau gwastraff (73) a rheoli allyriadau gwastraff yn well (Cynnig 37) yn sicrhau bod y cynnyrch sy'n cael eu cynhyrchu a'u defnyddio yng Nghymru yn llai tebygol o gael eu gwastraffu ac y byddai unrhyw wastraff sy'n cael ei greu yn arwain at greu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd Polisi 74 yn |

sicrhau bod cymaint â phosibl o'r gwastraff yng Nghymru yn cael ei ailgylchu er mwyn symud Cymru tuag at economi gylchol. Bydd hyn yn helpu ymdrechion byd-eang i leihau gwastraff plastig.

Mae'r adran gwastraff yn hanfodol i gefnogi'r newid i economi gylchol a sero net o ran gwastraff ac mae'n cefnogi ymdrechion byd-eang ar reoli gwastraff.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, aseswyd bod effeithiau cadarnhaol bychain.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Gellid edrych ar gyfleoedd i gefnogi ymdrechion byd-eang i ailgylchu fel rhan o wella'r ymgyrch 'Bydd Wych'.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim wedi'u nodi.

## Y Sector Cyhoeddus

Allwedd i'r rhifau:

Polisi 76 - Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio'r Map Llwybr a'r Canllaw Adrodd i ddatblygu ac i gyhoeddi cynlluniau erbyn mis Mawrth 2023 i sicrhau sector cyhoeddus Sero Net ar y cyd erbyn 2030.
Polisi 77 - Bydd cynllun Llywodraeth Cymru i gyflawni sero net fel sefydliad erbyn 2030 yn cael ei gyhoeddi cyn mis Mawrth 2023.
Polisi 78 - Llywodraeth Cymru i gynnwys ymrwymiadau Cymru Sero Net yn ein llythyrau cylch gwaith a'n trefniadau noddi gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru
Cynnig 38 - Sefydliadau Llywodraeth y DU sydd â phresenoldeb sylweddol yng Nghymru i ddatblygu ac i gyhoeddi cynlluniau sy'n nodi sut byddant yn cefnogi uchelgais Cymru i gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030
Polisi 79 - Gwneud Cynlluniau Lleihau Carbon yn rhan orfodol o dendrau ar gyfer contractau caffael cyhoeddus priodol a phrynu mwy a mwy o gynhyrchion y gellir eu hailgylchu'n llawn, eu hailddefnyddio neu y gellir eu hail-bwrpasu fel rhan o ddull mwy cylchol o ymdrin â gwastraff
Cynnig 39- Mae pob eiddo sector cyhoeddus sy'n cael ei adeiladu neu ei adnewyddu yn y dyfodol yn cyrraedd safon sero net erbyn 2030 (Polisi)
Polisi 80 - Dylai pob car a cherbyd nwyddau ysgafn newydd yn y sector cyhoeddus fod yn ddi-allyriadau/allyriadau isel iawn erbyn 2025 a cherbydau nwyddau trwm erbyn 2030
Polisi 81 - Dylai pob sefydliad sector cyhoeddus ddeall potensial atafaelu'r tir mae'n berchen arno erbyn mis Mawrth 2023 ac ymrwymo i gymryd camau i wireddu'r potensial hwn erbyn mis Mawrth 2030
Polisi 82 - Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i'r uchelgais sero net ar y cyd erbyn 2030, gan gyflawni drwy Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio'r GIG
Polisi 83 - Dylid creu Cynllun Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol ar y cyd rhwng GIG Cymru ac Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Leol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni sero net ar y cyd erbyn 2030
Polisi 84 - Bydd Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol a CLlLC yn cefnogi'r ymrwymiadau a wneir gan sefydliadau Llywodraeth Leol i gyflawni'r uchelgais sero net ar y cyd erbyn 2030

**Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflawni economi sero net gryf a chynaliadwy**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | ++ | ++ | 0 | ++ | + | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Bydd y bwriad i sicrhau gweithredu sero net ar draws ystâd y sector cyhoeddus erbyn 2030 (77) drwy fapio ac adrodd ar lwybrau'n effeithiol (76), a chyflawni sero net yn GIG Cymru a llywodraeth leol erbyn 2030 (82, 84) yn cyflwyno safon bwysig a gweladwy o arferion da y gall yr economi ehangach eu dilyn. Mae Cymru wedi

dangos ei bod yn gallu datblygu a darparu arloesedd a mentrau, er enghraifft Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Byw'n Glyfar (Gwasanaeth-ynni a Byw'n-glyfar), er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o integreiddio technoleg carbon isel i gefnogi ac annog busnesau yn y sector cyhoeddus a phreifat (38).

Ar ben hynny, mae buddsoddi mewn Cerbydau Trydan (EV) (80) ac eiddo sector cyhoeddus safon sero net yn debygol o gefnogi'r newid economaidd ehangach i sero-net.
Yn fwy cyffredinol, mae'r effeithiau'n debygol o fod yn gadarnhaol gan adlewyrchu'r cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo'r economi gyfan yn raddol ac yn hirdymor i sero net (gan gydnabod cyfraniad sylweddol y sector cyhoeddus i economi Cymru).

**Effeithiau cronnol**
Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol. Mae'r gyfres o bolisïau yn debygol o helpu i sicrhau cynnydd tuag at economi sero net.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Bydd angen adolygiad treigl ar y polisïau drwy fonitro a gwerthuso a'u haddasu yn unol â hynny.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau newid cyfiawn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | +/? | + | + | ++ | ++ | ++ | 0 | ++ | + | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Drwy ddatblygu arweinyddiaeth y sector cyhoeddus a pherchenogaeth dros gyflawni sero net erbyn 2030 (Polisïau 76, 77, 79, 83) mae potensial i ysgogi arloesedd a allai gefnogi ardaloedd lleol drwy'r cyfnod newid carbon a helpu i leihau'r bwlch cyflog, tlodi tanwydd, ac ystyried busnesau bach a chanolig a busnesau llai.

Bydd caffael cynaliadwy (79) ac ymrwymiadau i drafnidiaeth ac ystâd carbon isel yn y sector cyhoeddus (Cynigion 39, 80, 82) yn helpu i gefnogi'r newid ehangach i gyfleoedd cyflogaeth mwy amrywiol a chynaliadwy gobeithio, er enghraifft gwasanaethu cerbydau a chynnal a chadw adeiladau. Rhaid i'r broses o newid i sector

cyhoeddus sero net erbyn 2030 gael ei chefnogi gan brosesau caffael a byddai'r adran hon yn helpu i gyflawni hynny, ac felly'n cefnogi cyfleoedd cyflogaeth yn y gadwyn gyflenwi.

Yn gyffredinol, dylai'r polisïau, drwy fuddsoddi wedi'i dargedu, helpu i rymuso cymunedau ar raddfa leol ac ehangach wrth iddynt symud i ddyfodol carbon is.

**Effeithiau cronnol**

Yn gyffredinol, ystyrir bod effeithiau cadarnhaol sylweddol i'r adran a byddai'n helpu i sicrhau cynnydd tuag at economi carbon is.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Mae rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â chynllun sero net Llywodraeth Cymru a sut y gallai hynny gefnogi cyflogaeth gynaliadwy gan ei fod yn amodol ar gadarnhad yn CB2.

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | ++ | ++/? | + | + | + | ++ | ++ | ++ | ++ | +/? | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae llawer o'r polisïau'n debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu mesurau cadarnhaol i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd a chyflawni sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Gall y sector cyhoeddus fod ar flaen y gad o ran datgarboneiddio ac yn esiampl i sectorau eraill ei dilyn. GIG Cymru yw'r allyrrydd sector cyhoeddus mwyaf gydag oddeutu 1.00 $MtCO_{2e}$ ac ystyrir bod ymdrechion i sicrhau sero net erbyn 2030 (82) yn sylweddol.

Mae polisïau sy'n ymwneud â sero net yn y sector cyhoeddus yn 2030 (1, 2), adeiladau a thrafnidiaeth sector cyhoeddus sero net (Cynigion 39, 80) ac atafaelu carbon (81) yn debygol o fod yn hynod gadarnhaol, gan greu fframwaith cadarnhaol clir ar gyfer newid ymddygiad a buddsoddi mewn seilwaith sy'n llai carbon-ddwys.

| |
|---|
| Yn ei thro, gellid gweld Cymru fel arweinydd yn y gwaith o gydlynu ymatebion polisi newid yn yr hinsawdd sy'n creu cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd-gymdeithasol a diogelu'r amgylchedd.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Yn gyffredinol, ystyrir bod yr adran hon yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol.<br><br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Mae posibilrwydd o ailadrodd y dull o ymdrin â'r GIG, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol (81, 83, 84) ar draws sectorau cyhoeddus eraill fel addysg uwch er mwyn gwella'r canlyniadau.<br><br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Mae rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â chynllun sero net Llywodraeth Cymru (77) gan ei fod yn amodol ar gadarnhad yn CB2 a Chynllun Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol GIG Cymru a Llywodraeth Leol (83). |

**Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pawb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | ~ | ~ | ~ | + | + | + | + | + | + | + | + |

| |
|---|
| Mae'n debygol y bydd mân effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles yn gysylltiedig â'r gostyngiad mewn allyriadau o geir newydd yn y sector cyhoeddus a cherbydau nwyddau ysgafn newydd (80), sy'n gallu cefnogi gwell ansawdd aer, adeiladau sero net (Cynnig 39) a GIG Cymru sero net (82) er bod y rhain yn debygol o fod yn fach.<br><br>**Effeithiau cronnol**<br>Gyda'i gilydd, mae'r polisïau'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.<br><br>**Mesurau lliniaru/gwella**<br>Dim wedi'u nodi.<br><br>**Tybiaethau ac ansicrwydd**<br>Mae ansicrwydd yn gysylltiedig ag effeithiau tebygol Polisïau 1 a 2. |

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | ++ | + | + | + | 0 | ++ | ~ | 0 | + | + | + | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Aseswyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer nifer o'r amcanion. Gallai mapio ac adrodd ar lwybr y sector cyhoeddus (76) ddarparu cyfleoedd i wreiddio camau gweithredu lleol a chymunedol penodol, gan gynnwys perchnogaeth gymunedol o seilwaith adnewyddadwy, yn y broses o newid y sector cyhoeddus i sero net yn 2030 (fel yn enghraifft Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru).

Mae'r ffocws ar Awdurdodau Lleol yn allweddol i sicrhau bod penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r cymunedau lle maen nhw wedi'u lleoli. Disgwylir y bydd cefnogaeth i wella'r stoc dai (Cynnig 39) yn helpu i gefnogi cydnerthedd cymunedol. Ar ben hynny, mae hyn yn rhoi cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac anghydraddoldeb.

**Effeithiau cronnol**
Gyda'i gilydd, mae'r polisïau'n debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | ~ | ~ | ~ | +/-/? | + | + | +/-/? | ~ | +/-/? | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Ystyrir bod adran yn rhoi effeithiau cadarnhaol bach yn gyffredinol, er mai tenau iawn yw'r berthynas rhwng llawer o'r polisïau â'r amcan. Mae gwelliannau i'r sector cyhoeddus i helpu i gyflawni sero net yn debygol o gefnogi ansawdd aer gwell a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Asesir mân effeithiau cadarnhaol a negyddol cymysg ar gyfer polisïau sy'n ymwneud ag adnewyddu eiddo (Cynnig 39) a gwelliannau i eiddo GIG Cymru oherwydd y potensial ar gyfer rhai effeithiau negyddol bach cyfyngedig a lleol yn y tymor byr.

**Effeithiau cronnol**

Nodwyd effaith gronnol gadarnhaol fach.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Tybir y bydd y system gynllunio yn sicrhau bod unrhyw effeithiau lleol ar dirwedd/treflun yn sgil gwaith adnewyddu (Cynnig 39), datblygiad gan GIG Cymru neu lywodraeth leol (82, 84) yn cael eu lleihau neu eu lliniaru.

**Amcan 7 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hybu dysgu am oes a helpu i arfogi pawb â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byd sy'n newid**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | + | + | + | ++ | ++ | 0 | ++ | 0 | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Nodwyd amryw o effeithiau cadarnhaol sylweddol ar ddatblygu sgiliau yn gysylltiedig â chyfleoedd i ail-osod y sector cyhoeddus, yr economi ehangach a'r gymdeithas tuag at ddyfodol di-garbon.

Gall polisïau sy'n ymwneud â chyflawni cerbydau sector cyhoeddus di-allyriadau/allyriadau isel iawn (80), adeiladau sero net (Cynnig 39), a datgarboneiddio adeiladau a symudedd GIG Cymru (82) helpu i sicrhau bod datblygu sgiliau i bob oed yn gallu bod yn rhan hanfodol o'r newid, a'r technolegau newydd, yn benodol, y bydd angen eu defnyddio.

Wrth i'r cyfnod o newid i sefyllfa ddi-garbon fynd rhagddo, mae cyfle i sicrhau bod ysgolion a phrentisiaethau yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â sefydliadau addysg uwch, yn cyfateb hyfforddiant â'r sgiliau sydd eu hangen.

**Effeithiau cronnol**
Mae'n bosibl y bydd yr effeithiau cronnol yn sylweddol gadarnhaol o ran cymeriad.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Mae angen datblygu'r polisïau hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau ar gael i gefnogi'r canlyniadau polisi a nodir.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.

**Amcan 8 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i greu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | ~ | ~ | ~ | + | ~ | ~ | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Aseswyd mân effeithiau cadarnhaol ar gyfer nifer o'r polisïau. Gallai mapio ac adrodd ar lwybr y sector cyhoeddus (76) ddarparu cyfleoedd i wreiddio camau gweithredu lleol a chymunedol penodol, gan gynnwys perchnogaeth gymunedol o seilwaith adnewyddadwy, yn y broses o newid y sector cyhoeddus i sero net (fel yn enghraifft Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru).

Mae'r ffocws ar Awdurdodau Lleol yn y polisïau yn allweddol i sicrhau bod penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r cymunedau lle maen nhw wedi'u lleoli. Disgwylir y bydd cefnogaeth i wella'r stoc dai (Cynnig 39) yn helpu i gefnogi cydnerthedd cymunedol.

**Effeithiau cronnol**

Gyda'i gilydd, mae'r polisïau'n debygol o gael effaith gadarnhaol fach.

**Mesurau lliniaru/gwella**

Dim wedi'u nodi.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**

Dim wedi'u nodi.

**Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Helpu i ddarparu seilwaith modern, cysylltiedig a chadarn**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr | + | + | ~ | ~ | ~ | ++ | ++ | ~ | ++ | + | ++ | ++ |

**Effeithiau sylweddol tebygol**

Mae amryw o effeithiau cadarnhaol a sylweddol yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r polisïau arfaethedig, gan adlewyrchu eu bwriad cadarnhaol, gyda'r sector cyhoeddus yn ceisio dangos arferion da, gyda chymorth cyllid a monitro.

Mae'r ymrwymiad i GIG Cymru di-garbon (82), adeiladau newydd ac eiddo wedi'u hadnewyddu sero net yn y sector cyhoeddus (Cynnig 39), a cherbydau allyriadau isel/dim allyriadau (79), er enghraifft, yn brawf sylweddol o ymrwymiad i seilwaith cadarn a allai fod yn batrwm ar gyfer newid ehangach.

**Effeithiau cronnol**

Mae'r effeithiau cronnol yn debygol o fod yn gadarnhaol/arwyddocaol, er yn ansicr o ran eu gweithredu.

**Mesurau lliniaru/gwella**

© Wood Group UK Limited

Drwy CB2 mae potensial i adlewyrchu'r dull o ymdrin â'r GIG a gofal cymdeithasol (82, 83) ar draws sectorau cyhoeddus eraill fel llywodraeth leol, addysg uwch a thai cymdeithasol.

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Ansicrwydd amrywiol yn gysylltiedig â gweithredu yn y maes polisi anaeddfed hwn.

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

| Polisi / Cynnig | Polisi 76 | Polisi 77 | Polisi 78 | Cynnig 38 | Polisi 79 | Cynnig 39 | Polisi 80 | Polisi 81 | Polisi 82 | Polisi 83 | Polisi 84 | Cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | + | + | + | + | + | ~ | ~ | ~ | + | + | + | + |

**Effeithiau sylweddol tebygol**
Mae'r polisïau arfaethedig gyda'i gilydd yn debygol o gael mân effeithiau cadarnhaol ar yr amcan hwn.

Mae potensial i Gymru gael ei gweld fel arweinydd ym maes addasu'r sector cyhoeddus i heriau newid yn yr hinsawdd ac felly strategaethau a thargedau a ddatblygwyd i gyflawni sector cyhoeddus sero net yn 2030.

Fodd bynnag, bydd llawer yn dibynnu ar fonitro a gweithredu'r polisïau hynny i sicrhau effeithiolrwydd. Mae'n debygol y bydd angen addasu polisi wrth i'r ddealltwriaeth o effeithiau polisi esblygu ac wrth i gynnwys a blaenoriaethau'r agenda newid yn yr hinsawdd gael eu mireinio.

**Effeithiau cronnol**
Mae effeithiau cronnol yn cael eu nodi fel rhai cadarnhaol.

**Mesurau lliniaru/gwella**
Gellid ystyried 'allforio' y map llwybr di-garbon a'r dull adrodd yn rhyngwladol drwy CB2 (Polisi 76).

**Tybiaethau ac ansicrwydd**
Dim wedi'u nodi.